



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>




This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.





m/2 Scarce

Bt. from Grove

10095 e. 29







Handwritten text, possibly bleed-through from the reverse side of the page. The text is extremely faint and illegible.

C A S G L I A D

B R E G E T H A U ;

[WITH AN ASSIZE-SERMON IN ENGLISH]

G A N

P. W I L L I A M S, D. D.

PREBENDARI PENMYNYDD,

A

GWEINIDOG LLANBEDROG.



Na fyddwch ddoethion yn eich tyb eich hunain.----S. PAUL.

Our SAVIOUR was the great sower of the seed; which afterwards, under the Apostles, sprang up into so rich a harvest! And thus the present Ministers of the Gospel often, it may be hoped, sow seed which may afterwards grow up; though it do not immediately appear.

GILPIN.

Summum crede nefas, animam præferre pudori;
Et, propter vitam, vivendi perdere causas.

JUV.



Y PEDWERYDD LLYFR.



Gomerian Press:

DOLGELLEU, ARGRAPHWYD GAN R. JONES.

AR WERTH GAN

ROBERTS A HUGHES, PWLLHELI; L. E. JONES,
ARGRAPHYDD, CAERNARFON; RASBROOK, BANGOR;
STODART, LLANELWY; R. JONES, RUTHYN.

&c. &c. &c.


8
MAY
1924

TO
THE REVEREND
THOMAS BEYNON,
ARCHDEACON OF CARDIGAN,
PREBENDARY OF BRECKNOCK,
AND RECTOR OF PENBOYR;
THIS VOLUME OF SERMONS,
PUBLISHED FOR THE USE
OF THE PRINCIPALITY OF WALES,

Is respectfully inscribed

By his very obedient Servant

P. WILLIAMS.



Y CYNNHWYSIAD.



PREGETH I. Tudalen 1.

“Myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw.”

HEBREAID XIII. 8.

Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.



PREGETH II. Tudalen 14.

“Yspryd Duw a ddaeth arnynt hwy.”

ACTAU XIX. 1, 2, 3.

A digwyddodd wedi i Paul dramwy trwy y parthau uchaf, ddyfod o-hono ef i Ephesus; ac wedi iddo gael rhyw ddisgyblion, efe a ddywedodd wrthynt: A dderbyniasoch chiwi yr Yspryd Glan er pan gredasoch? A hwy a ddywedasant wrtho: Ni chawsom ni gymmaint a chlywed, a oes Yspryd Glan. Ac efe a ddywedodd wrthynt: I ba beth gan hynny y bedyddiwyd chiwi? Hwytthau a ddywedasant: I fedydd Ioan.



PREGETH III. Tudalen 27.

“Efe a yssiga dy ben di, a thithau a yssigi ei sawdl ef.”

IOAN III. 14, 15.

“Megis y dyrchafodd Moses y Sarp yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y Dyn; fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.”



PREGETH IV. Tudalen 41.

“Mi a drugarhâf wrth yr hwn y cymmerwyf drugaredd arno, medd yr Arglwydd, ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf.”

JOSUA X. 40.

Felly y tarawodd Josua yr holl fynydd-dir, a'r dehau, y gwastadedd hefyd, a'r bronnydd, a'u holl frenhinoedd; ni adawodd efe un yng ngweddill: eithr efe a ddifrododd bob perchen anadl, fel y gorchymmynasai Arglwydd Dduw Israel.



PREGETH V. Tudalen 54.

“Paham, Arglwydd, y creaiſt holl blant
dynion yn ofer?”

RHUFENIAID V. 10.

*Os, pan oeddym yn elynion, y'n heddych-
wyd â Duw, trwy farwolaeth ei Fab ef;
mwy o lawer, wedi ein heddychu, y'n hach-
ubir trwy ei fywyd ef.*

PREGETH VI. Tudalen 67.

“Iachawdwriaeth sydd eiddo'r Arglwydd.”

RHUFENIAID VIII. 42.

*Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n her-
byn?*

PREGETH VII. Tudalen 80

“A phob Gwlad ac Ynys a symmudwyd
allan o'u lleoedd.”

SALM XCVII. 1.

Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: gorsol-

*edded y Ddaear; llawenyched Ynysoedd
lawer.*

~~~~~

**PREGETH VIII. Tudalen 98.**

“Iesu a ddywedodd: Byw wyf 'fi, a Byw  
fyddwch-chwithau hefyd.”

**RHUFANIAID VI. 28.**

*Cyflog Pechod yw marwolaeth; eithr dawn  
Duw yw bywyd tragywyddol, trwy Iesu  
Grist ein Harglwydd.*

~~~~~

PREGETH IX. Tudalen 105.

“Nid ydych yn eiddo eich hunain.”

RHUFANIAID XIV. 7, 8.

*Nid oes yr un o honom yn byw iddo ei hun,
ac nid yw yr un yn marw iddo ei hun.
Canys pa un bynnag yr ydym ai byw, i'r
Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r
Arglwydd yr ydym yn marw: am hynny, pa
un bynnag yr ydym ai byw ai marw, eiddo
yr Arglwydd ydym.*

PREGETH X. Tudalen 118.

“Gwr, yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni.”

ACTAU X. 4.

Dy weddian di a'th elusenau a ddyrchasant yn goffadwriaeth ger bron Duw.

PREGETH XI. Tudalen 132.

“Yr Arglwydd a fforddia gerddediad gwr da.”

ACTAU XI. 22---24.

Hwy a anfonasant Barnabas i fyned hyd Antiochia: yr hwn, pan ddaeth a gweled gras Duw, a fu lawen ganddo; ac a gyngorodd bawb oll, trwy lwyrfryd calon, i lynu wrth yr Arglwydd. O blegid yr oedd efe yn wr da, ac yn llawn o'r Yspryd Glan, ac o ffydd.

PREGETH XII. Tudalen 145.

“Wele, y mae hwnnw yn bedyddio, a Phawb yn dyfod atto.”

MATTHEW XXVII. 18, 19, 20.

A'r Iesu a ddaeth, ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd: Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny a dysgwch yr holl Genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glan; gan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymmynais i chwi: ac wele, yr ydwyf fi gyd â chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. Amen.

PREGETH XIII. Tudalen 160.

“Efe a ddrylliwyd am ein hanwiredau ni!”

1 CORINTHIAID XI. 26.

Cynnifer gwaith bynnag y bwyttäoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwppan hwn, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo.

PREGETH XIV. Tudalen 172.

“Gwnewch hyn er cof am danaf.”

1 CORINTHIAID XI. 27, 28, 29.

Pwy bynnag a fwyttäo'r bara hwn, neu a

yfo Gwppan yr Arglwydd yn annheilwng, euog fydd o Gorph a Gwaed yr Arglwydd. Eithr holed dyn ef ei hun; ac jelly bwyttäed o'r Bara, ac yfed o'r Cwppan. Canys yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn jarni Corph yr Arglwydd.

~~~~~

**PREGETH XV. Tudalen 186**

“Edrychwch am wneuthur fel y gorchymynnodd yr Arglwydd eich Duw i chwi.”

**2 BRENHINOEDD V. 12.**

*Onid gwell Abana a Pharpar, afonydd Damascus, na holl ddyfroedd Israel? Oni allaf ymolchi ynddynt hwy, ac ymlanhâu? Felly efe a drodd, ac a aeth ymaith mewn digter.*

~~~~~

PREGETH XVI. Tudalen 197

“Nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd.”

~~~~~

## 2 BRENHINOEDD v. 13.

*A'i weision a nasant, ac a lefarasant wrtho, ac a ddywedasant: Fy Nhad, pe dywedasai'r Prophwyd beth mawr wrthyt ti, oni's gwnelsit? Pa faint mwy gan iddo ddywedyd wrthyt; Ymolch, a bydd lân?*

## PREGETH XVII. Tudalen 214.

“Ha, fab dyn, a fydd byw'r esgyrn hyn? A mi a ddywedais, O Arglwydd Dduw, ti a'i gwyddost.”

## MATTHEW XXII. 31, 32.

*Ac am adgyfodiad y Meirw, oni ddarllenasoeh yr hyn a ddywedwyd wrthyck gan Dduw, yn dywedyd: Myfi yw Duw Abraham, a Duw Isaac, a Duw Jacob? Nid yw Duw Dduw y rhai meirw, ond y rhai byw.*

## PREGETH XVIII. Tudalen 226.

“Nid o'i fodd y blina Duw blant dynion.”

## JOB V. 6, 7.

*Er na ddaw cystudd allan o'r pridd, ac na  
flagura gofid allan o'r ddaear; ond Dyn a  
aned i flinder, fel yr eheda gwreichionen i  
fynu.*



## PREGETH XIX. Tudalen 238.

“Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad  
tragywyddoldeb, Tywysog tangnefedd.”

## COLOSSIAID I. 15, 16, 17, 18, 19.

*Yr hwn yw delw y Duw Anweledig, cyn-  
taf-anedig pob creadur: canys trwyddo ef  
y crëwyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac  
sydd ar y ddaear, yn weledig, ac yn anwel-  
edig, pa un bynnag ai thronau, ai arglwydd-  
iaethau, ai tywysogaethau, ai meddiannau;  
pob dim a grëwyd trwyddo ef, ac erddo ef. Ac  
y mae efe cyn pob peth; ac ynddo ef y mae  
pob peth yn cydsefyll. Ac efe yw pen corph  
yr Eglwys: efe, yr hwn yw'r dechreuad, y  
cynfaf-anedig oddiwrth y meirw; fel y bydd-  
ai efe yn blaenori ym mhob peth. O blegid  
rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyf-  
lawnder ynddo ef.*



**PREGETH XX. Tudalen 252.**

“Dïau y cedwch fy Sabbathau; canys arwydd yw rhyngofi a chwithau trwy eich cenhedlaethau, i wybod mai myfi yw yr Arglwydd sydd yn eich sancteiddio.”

MARC II. 27, 28.

*A'r Iesu a ddywedodd wrthynt: Y Sabbath a wnaethpwyd er mwyn Dyn, ac nid Dyn er mwyn y Sabbath. Am hynny y mae Mab y Dyn yn Arglwydd hefyd ar y Sabbath.*

**PREGETH XXI. Tudalen 265.**

“Bydded gennyt zel, ac edifarhâ.”

LUC XXII. 61, 62.

*A'r Arglwydd a drôdd ac a edrychodd ar Pedr. A Phedr a gofiodd ymadrodd yr Arglwydd, fel y dywedasai efe wrtho: Cyn canu o'r ceiliog, y gwedi fi deirgwaith. A Phedr a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw-dôst.*



PREGETH XXII. Tudalen 277.

“Gorphennwn ein gyrfa trwy lawenydd!”

IOAN XIX. 30.

*Pan gymmerodd yr Iesu y finegr efe a ddywedodd, GORPHENNWYD; a chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fynu yr yspryd.*



PREGETH XXIII. Tudalen 289.

“Cyfodaf un Bugail arnynt, ac efe a'u portha hwynt.”

1 PEDR II. 25.

*Yr oeddych megis defaid yn myned ar gyfeiliorn; eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at fugail ac esgob eich heneidiau.*



PREGETH XXIV. Tudalen 301.

“Pawb a bechasant.”

RHUFANIAID III. 19.

*Ni a wyddom am ba bethau bynnag y mae'r Ddeddf yn ei ddywedyd, mai wrth y rhai*

*sy dan y Ddeddf y mae hi yn ei ddywedyd; fel y cauer pob genau, ac y byddo'r holl Fyd dan farn Duw.*

**PREGETH XXV. Tudalen 313**

“Fel na syrthio neb yn ol yr un siampl o anufudd-dod--”

**MATTHEW XXVI. 75.**

*Cofiodd Pedr air yr Iesu, yr hwn a ddywedasai wrtho—Cyn canu or ceiliog, ti a'm gwedi deirgwaith—Ac efe a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw-dost.*

**PREGETH XXVI. Tudalen 326.**

“Llafuriwch am y bwyd a bery i fywyd tragwyddol--Y mae'r nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio.”

**DIARHEBION VI. 6, 7, 8.**

*Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth: nid oes ganddo neb i'w arwain, i'w lywodraethu, nac i'w feistroli; ac er hynny y mae efe yn*

*parottoi ei fwyd yr haf, ac yn casglu ei  
luniaeth y cynhauaf.*

**PREGETH XXVII. Tudalen 341.**

“Bydded cariad yn ddiragrith.”

IOAN XIV. 15.

*Yr Iesu a ddywedodd wrth ei ddisgyblion :  
O cherwch fi, cedwch fy ngorchymmynion.*

**PREGETH XXVIII. Tudalen 352.**

“Lle yr wyf Fi, yno y bydd fy ngweinidog  
hefyd.”

COLOSSIAID I. 28.

*Crist, gobaith y gogoniant! Yr hwn yr  
ydym ni yn ei bregethu, gan rybuddio pob  
dyn, a dysgu pob dyn ym mhob doethineb;  
fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yng  
Nghrist Iesu.*

**PREGETH XXIX. Tudalen 364.**

“Wele Dydd yr Arglwydd yn dyfod!”



## MATTHEW XXIV. 37.

*Ac fel yr oedd dyddiau Noe, felly hefyd.  
y bydd dyfodiad Mab y Dyn.*



## PREGETH XXX. Tudalen 377.

An Assize-Sermon.

“There is one Body, and one Spirit.”

## ROMANS XII. 4, 5.


*As we have many members in one body, and  
all members have not the same office; so we,  
being many, are one body in Christ, and  
every one members one of another.*



## BEIAU'R ARGRAPH-WAITH.

| tu dal. | Llennell | Yn lle            | Darllenner         |
|---------|----------|-------------------|--------------------|
| 27      | 1        | Bendigig          | Bendigedig         |
| 66      | 8        | fywicca           | fywiocca           |
| 72      | 21-26    | a'i--a'n          | a'r--a'u           |
| 74      | 9        | gyflawnder        | gyfiawnder         |
| 76      | 1        | nanys             | canys              |
| 77      | 2        | uffern ie,        | uffern; ie,        |
| 84      | 23       | dreargrynfaau     | daeargrynfaau      |
| 85      | 15       | ni thyccia iddynt | ni thyccia iddynt; |
| 94      | 4        | fod               | heb fod            |
| 104     | 1        | ddewydd           | ddedwydd           |
| 120     | 3        | y yn byd          | yn y byd           |
| 125     | 1        | moesoel           | moesol             |
| 169     | 2        | yn cael           | yn cael eu cryfhau |
| 197     | 8        | do to some        | do some            |
| 224     | 10       | rhiad             | rhaid              |
| 242     | 20       | yn                | yr                 |
| 263     | 13       | channog           | chwannog           |
| 270     | 17       | wrsefyll          | wrthsefyll         |
| 296     | 16       | wsnasom           | wanasom            |
| 304     | 7        | na                | er na              |
| 323     | 24       | ddyled            | ddylem             |
| 227     | 6        | fy mhob           | fy mhobl           |
| 330     | 18       | and contains      | and contain        |
| 371     | 18       | gwelom            | gwnelom            |
| 388     | 12       | dispose at        | dispose of         |





# PREGETH I.

IESŪ GRIST AR DDEHEULAW Y GORUCHAF.



HEBREAID XIII. 8.

*Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.*

*Jesus Christ, the same yesterday, and to-day, and for ever.*



**D**ANFONIAD Crist i'r byd hwn, a'i bregethiad ynddo, ni chollasant ddim o'u pwys a'u gwirionedd trwy'r oesoedd a aethant heibio, er pan ymddangosodd efe ar y ddaear. Y mae ei farwolaeth ef mor werthfawr a buddiol i ni yn y dyddiau hyn, ag y gallai fod i'r rhai a safasant o amgylch ei Groes; a'i "anrhydeddusaf gyfodiad" sydd wyl a siccrwydd o'n hadgyfodiad ninnau hefyd, yn gystal â hwythau, y rhai a'i "clywsant ef, ac a edrychasant arno," ar ol ei ddychweliad ef i fywyd.— Ond y mae ystyriaeth arall, ym mha un y

mae'n fwy perthynasol i ni etto, fod "Iesu Grist ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Byw yw efe yr awr hon, ac y mae yn gweithredu yn yr un modd, ag a fu, ac a barhâ felly hyd ddiwedd y byd. Ië, yr un yw efe yn ei berson, yn ei allu, ac yn ei swydd. Ystyriwn gan hynny y tri pheth hyn yn y modd mwyaf llesol i sefydlu ein ffydd, i ddiddanu ein calonnau, a siccerhau ein gobaith o iachawdwriaeth dragywyddol.

I. Crist a ddyrchafwyd i'r uchelder, [ar gyfenw i'r amser presennol]\* a chwmmwl a'i derbyniodd ef allan o olwg ei ddisgyblion. Efe a aeth i'r nef, ac a eisteddodd ar ddeheulaw Dduw.† Ac yr ŷm yn darllen ym mbellach "nad yw Crist, yr hwn a gyfodwyd oddiwrth y Meirw, yn marw mwyach; nad arglwyddiaetha marwolaeth na llygredigaeth arno mwyach."‡ Fel hyn y mae efe yn ei deyrnas nefol, er dydd ei ddyrchafiaeth, yn byw ac yn gweithredu. Efe a orweddodd yn y bedd yn gorph anianol, ac a gyfododd oddi yno, ac a esgynnodd i'r nefoedd yn gorph ysprydol: canys y mae corph anianol, ac y

\* Y Sul ar ol Dydd y Dyrchafael.

† Edr. Sal. lxxviii. 18. Act. i. 9. Marc xvi. 19. ‡ Rhuf. vi. 9.

mae corph ysprydol;§ ac felly y mae'n aros ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd. Y mae S. Paul, gan 'sgrifennu at y Philippiaid, yn rhagdybio rhyw newidiad rhyfeddol yng nghorph ein Harglwydd Iesu Grist; "yr hwn (medd efe) a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneled ef yn un ffurf â'i gorph gogoneddus ef."† Nid oedd corph ein Hiachawdwr, cyn ei adgyfodiad o leiaf, ddim yn annhebyg i gorph anianol dynion eraill. Ond yn awr yr oedd efe wedi dioddef cyfnewidiad rhagorol. Yn y cyfryw wedd odidog yr ymddangosodd efe i S. Stephan; yr hwn, "ac efe yn gyflawn o'r Yspryd Glan, a edrychodd yn ddyfal tu a'r nef, ac a welodd ogoniant Duw, a'r Iesu yn sefyll ar ddeheulaw Dduw.\* Ac efe a ddywedodd," ie, yng nghanol ei lofruddion gwaedlyd, "Wele, mi a welaf y nefoedd yn agored, a Mab y Dyn yn sefyll ar ddeheulaw Dduw."\* Yr un weledigaeth ogoneddus a roddwyd hefyd i S. Paul, ac i S. Ioan cyn dechreu o

§1 Cor. xv. 44. † Phil. iii. 21. \* Edr. Act. vii. 55,56.

---

\* **GOGONIAINT DUW**, pan sonir am dano yn yr Ysgrythur megis gwrthddrych gweledig; sy'n arwyddocau rhyw lewychiad dirfawr, neu ymddangosiad goleulawn, mwy na disgleirdeb yr haul, nac unrhyw wrthddrych arall.

hono ysgrifennu ei Ddatguddiad.† Felly y corph ysprydol hwnnw, yr hwn a ogoneddwyd cyn iddo fyned i'r nef, “yw yr un ddoe, a heddyw, ac yn dragywydd.”

II. Eithr, yn ail, yr un yw efe mewn gallu hefyd. “Crist Iesu (medd S. Paul mewn geiriau rhagorol yn ei Epistol at y Philippiaid,) yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw; eithr efe a'i dibrisiodd—neu, a'i gwaghäodd—ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn eeffelybiaeth dynion; ac efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau'r groes. O herwydd paham,” hynny yw, am y cyfryw ddarostyngiad rhyfeddol, “Duw a'i tra dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than ddaearolion bethau; ac y cyffesai pob tafod, fod Iesu Grist yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad.”‡ Yn yr un modd y mae efe ei hun yn llefaru am ei allu ar ol ei adgyfodiad, a'i ofal dros ei holl ddilynwyr ffyddlon: “Rhoddwyd i mi (medd efe wrth yr Apostolion Sanct-

† Act. ix. 3. Datg. i. 1, 2. Edr. hefyd Matth. xvii. 2. a Luc ix. 29. ‡ Phil. ii. 6—12.

aidd,) bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd,\* gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glan; gan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymmynais i chwi. Ac wele, yr ydwyf fi gyd â chwi bob amser hyd ddiwedd y byd."† Ië, ac ar ol y byd hwn yn y cyflwr mwyaf arswydus o'n bywyd, sef, yn nydd y farn ofnadwy, nyni a fyddwn nid megis rhyw wrthddrychau cyffredin yn unig, ond y gwrthddrychau pennaf o allu, a gweithrediad, a gofal ein Prynwr Bendigedig. Gwrandewch eieiriau hynod ei hun: "Y mae'r awr yn dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo'r meirw llêf Mab Duw;" nid llêf Duw, na llêf Mab y Dyn, ond "llêf Mab Duw."‡ Ac, yn yr adnod nesaf ond un, y mae ein Hiachawdwr yn chwanegu at yr hanes rhyfeddol hwn: "Y Tad a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn hefyd, o herwydd ei fod yn Fab Dyn:"|| yr hyn i gyd sydd mewn perffaith gyttundeb â'r "ddysg newydd" a osododd S. Paul ger bron yr Atheniaid, "fod Duw wedi gosod diwrnod yn yr hwn y barna efe y

\* Edr. Preg. XII. † Matth. xxviii. 18—20. ‡ Ioan v.

25. || Ioan v. 27.



Byd mewn cyfiawnder, trwy y gwr a ordeiniodd efe, gan roddi ffydd a siccrwydd i bawb, o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw.”§—Ac am yr amser nodedig, ni a ddylem fod yn eithaf diogel. Er bod “yn y dyddiau diweddfaf hyn warwŷr, yn rhodio yn ol eu chwantau eu hunain, ac yn dywedyd, Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef; canys er pan hunodd y Tadau, y mae pob peth yn parhâu fel yr oeddynt o ddechreuad y creadigaeth?|| ”Etto rhoddwn i’r cyfryw bobl ofer yr un ateb a roddodd Apostol Crist i’r un cwestiwn, ac nid all un dyn roddi gwell: “Un dydd gyd â’r GORUCHEL a’r DYRCHAFEDIG, yr hwn a breswylia DRAGYWYDD-OLDEB, ydyw mewn gwirionedd megis mîl o flynyddoedd, a mîl o flynyddoedd megis un dydd. Nid ydyw’r Arglwydd yn oedi ei addewid, fel y mae rhai yn cyfrif oed ond hir-ymarhösus yw efe tu ag attom ni, heb ewyllysio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch.”†

“O na baem ni ddoethion, na ddeallem y pethau hyn, nad ystyriem ein diwedd!”†

III. Eithr, yn ddiweddfaf, yr un hefyd

§ Edr. Act. xvii. 31. || 2 Pedr iii. 3, 4. † 2 Pedr iii. 8, 9.  
Is. lvii. 15. † Deut. xxxii. 29.

yw Iesu Grist ein Harglwydd yn ei swydd a'i weinidogaeth. Y swyddau pennaf a osodwyd gan yr Ysgrythur i'n Hiachawdwr yn ei ystâd ddyrchafedig, hynny yw, ar ol ei esgynniad i'r nef, ydyw'r swyddau rhagorol hynny o fod ein **CYFRYNGWR** a'n **HEIRIOLWR**. "Un Duw sydd," medd S. Paul, "ae un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a Dynion, y Dyn Crist Iesu."† Ac efe a ddywed i ni ei hun: "Hyd yn hyn ni ofynnasoch ddim yn fy enw i. Y dydd hwnnw y gofynnwch yn fy enw. Gofynnwch, a chwi a gewch; fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn."‡ Rhan yw'r geiriau hyn o'i ymddiddan hynod ef gyd â'i ddetholedig ddisgyblion ond ychydig oriau cyn ei farwolaeth; ac y maent yn mynegi i ni, yn y modd egluraf, y swydd gyfryngol, yr hon yr oedd raid iddo ei chyflawni ar ol ei esgynniad ef i'r nefoedd.

Ac am ei **EIRIOLAETH** ef yn nheyrnas nefoedd drosom ni bechaduriaid truain, y mae gennym y lleoedd canlynol yn yr Ysgrythur, y rhai ydynt yn gyflawn a digonol. "Os pecha neb," medd Ioan Sant, "y mae i ni Eiriolwr gyd â'r Tad, Iesu Grist y Cyflawn; ac efe yw'r iawn dros ein pechodau

† Edr. 1 Tim. ii. 5. ‡ Ioan xvi. 24. 26.

ni.”§ A S. Paul yn ei Epistol at yr Hebreaid: “Ond Hwn, am ei fod ef yn aros yn dragywydd, sydd ag offeiriadaeth dragywyddol ganddo.|| Offeiriadaeth sydd yn arwyddocâu swydd un yn gweddio dros eraill, ac yn cyflwyno gweddïau ac erfynïau eraill at yr Hwn sydd abl i’w hachub hwy oddiwrth farwolaeth.¶ “Am hynny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachâu y rhai trwyddo ef sy yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.”\* Nid oes modd i eiriau ddatgan yn fwy eglur, na’r geiriau hyn, ddirange eiriolaeth a swydd barhaus ein Hiachawdwr Crist: canys nid oeddynt i ddiflannu gyd â’i bresenoldeb ef yma ar y ddaear, “am ei fod ef yn aros yn dragywydd, a chanddo offeiriadaeth dragywyddol.” Y mae hyn yn ddiâu yn cyfiawnhâu athrawiaeth y testun, “fod Iesu Grist yr un ddoe, a heddyw, ac yn dragywydd.” Ond yn y geiriau hyn yr arwyddocceir, nid yn unig barhad a thragywyddoldeb eiriolaeth Crist dros ddynolryw, eithr ei allu hefyd a’i rym. Efe a ddichon yn gwbl iachâu y rhai trwyddo ef sy yn dyfod at Dduw.”† Mae’n

§ Edr. 1 Ioan ii. 1. 2. || Heb. vii. 24. See also Ser. xxix. Vol. II. p. 362—368. ¶ Heb. v. 7. \*vii. 25. † vii. 25.

rhaid iddynt ddyfod at Dduw; mae'n rhaid iddynt ddyfod trwyddo ef; ac yna efe a ddichon eu hiachau hwy yn gyflawn.

Y mae'r tri pheth hyn, sef, person, gallu, a swydd ein Hiachawdwr, ar ôl iddo esgyn gyd â mawr oruchafiaeth i'w deyrnas yn y nefoedd, yn cynnwys y cwbl oll sy'n perthyn i ni tra bôm yn y bywyd marwol hwn. Ond y mae ystyriaeth arall o eithaf pwys ynghylch ein perthynas iddo ef yn y bywyd anfarwol, "os mewn un modd y gallwn gyrhaeddyd adgyfodiad y Meirw,"\* a ~~sz~~ael ein cyfrif yn deilwng o deyrnas Dduw, lle yr â y rhai cyfiawn i fyw gyd ag ef megis eu Harglwydd a'n Hachubwr yn oes oesoedd. Diammau fod gan yr Iesu y cyflwr hwn yn ei olwg, pan ddywedodd efe wrth ei ddisgyblion: "Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau. Yr wyf fi yn myned i barottoi lle i chwi. Ac os myfi a âf, ac a barottöaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun; fel, lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd."† A thrachefn, yn yr un modd, ac â'r un ymresymniad rhogorol hefyd, gan edrych tu ag at yr un llywodraeth, y mae efe yn llefaru, nid am ei ddisgyblion cyntaf yn

\*Edr. Phil. iii. 11. †Ioan. xiv. 2. 3.

unig, ond am ei holl ddilynwŷr ffyddlon—  
 “Y Tad, (medd efe,) y rhai a roddaist i mi,  
 yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o  
 honynt hwythau hefyd gyd â myfi; fel y  
 gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi: o  
 blegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd. Ac  
 nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn  
 unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant  
 ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt.”|| Ond  
 pa addysg a ddylem ni ei dynnu allan  
 oddiwrth y pethau rhyfeddol hyn?

1. Dysgu a ddylem, yn gyntaf, beidio  
 â bod yn rhy anesmwyth ynghylch yr an-  
 hawsder yr ydym yn ei gyfarfod mewn  
 amryw leoedd o'r Ysgrythur, o herwydd y  
 tywyllwch sydd yn gorwedd arnynt, eithr  
 yn hytrach gymmhwyso attom ein hunain  
 y Rheol ganlynol, yr hon fydd siccr, budd-  
 iol, a chyssurus: sef, gwneuthur o honom i  
 fynu am ddiffyg ein gwybodaeth trwy bur-  
 deb ac uniondeb ein buchedd; neu, mewn  
 geiriau eraill, rhodio yn symlrwydd ein  
 calonnau yn ol ein gwybodaeth; neu, o  
 leiaf, ymegnio ein goreu i wneuthur hynny.  
 Tra bo Dyn yn glynu wrth y Rheol hon,  
 y mae ganddo sail gref o gyssur a thang-  
 nefedd yn mhob cyflwr o anwybodaeth, ac

|| E. Jr. Ioan xvii. 20. 24.

ym mhob cyflwr hefyd o amryfusedd a chyfeiliorn. Rheol yw hon sy yn perthyn i'r cyfoethog ac i'r tlawd, i'r dysgedig a'r annysgedig, i bob ystâd a gradd o ddynion, yn gystal ag i'r holl wahaniaeth sy'n tarddu oddiwrth yr amryw gyfle o gael gwybodaeth. Amryw rwymedigaethau sy'n deilliaiw oddiwrth yr amryw foddion sy gennym o wybod ein dyledswydd; ond y mae'r RHEOL FRENHINOL hon yn cynnwys pob diffyg, pob gwahaniaeth, a phob anghyfleusdra o gael gwybodaeth a dysgeidiaeth. "Os cyflawni yr ydych y GYFRAITH FRENHINOL hon, (medd S. Iago) da yr ydych yn gwneuthur."†

2. Ystyriwn, ym mhellach, nad yw ryfedd i ni weled amryw rwystr yn yr Ysgrythur, amryw dramgwydd a chyfyngder, ac anhawsdra. Canys pa beth ydyw? Datguddiad yn perthyn yn bendifaddef i fyd arall, lle y mae Duw ei hun, a Christ, ac Angylion, ac Ysprydoedd y Cyflawn, yn preswyllo mewn dedwyddwch; ac i drigolion y byd hwnnw y mae profiad cyflawn o'r pethau hyn. Hyn a wnaeth i Isaiah lefain mewn geiriau rhagorol "Ti yn ddiaw wyt Dduw yn ymguddio, O Dduw Israel

† Edr. Iago ii. 8.

yr Achubwr!"\* Ac etto, yn y cyfamser, y mae yn yr Ysgrythurau lawn ddigon i gynnhyrfu ein meddwl, i gynnal ein gobraith, ac i annog ein holl ymegniadau goreu. Mae'n rhaid i bob dyn ystyriol fod yn ddifrif, ac yn anesmwyth hefyd, ynghylch ei iachawdwriaeth dragywyddol; ond ni ddylai fod mewn gorthrymder nac amheuaeth. Cofied y cyfryw un eiriau duwiol y Salmydd: "Paham yth ddarostyngir, O fy enaid, a phaham y terfysgi ynof? Gobeithia yn Nuw; canys etto y molianuaf ef; set, iachawdwriaeth fy wyneb, a'm Duw."†

3. Eithr, yn ddiweddaf, "chwiliwch yr Ysgrythurau, canys ynddynt hwy yr ydych chi yn meddwl cael bywyd tragywyddol; a hwynt-hwy yw y rhai sy'n tystiolaethu am Iachawdwr dynolryw.‡ Yr holl Ysgrythur yn wir sydd wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Dduw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder; fel y gwnelo ni yn ddoeth i iachawdwriaeth.|| Canys pa bethau bynnag a 'sgrifennwyd o'r blaen, er addysg i ni yr ysgrifennwyd hwynt; fel,

\*Edr. Is. xlv. 15. †Sal. xliii. 5. ‡Ioan v. 39. ||2 Tim. iii. 15. 16.

trwy amynedd, a diddanwch yr Ysgryth-  
urau y gallem gael gobaith. § Ynddynt  
hwy, ac ynddynt hwy yn unig, y mae gen-  
nym siccrwydd, fod Duw [bendigedig fy-  
ddo ei enw ef] o dragywyddoldeb hyd  
dragywyddoldeb, fod Iesu Grist ein Har-  
glwydd yr un ddoe, a heddyw, ac yn dra-  
gywydd, fod yr Yspryd Glan bob amser  
yn barod i'n dysgu, i'n cynnorthwyo, ac  
i'n diddanu: ac fel ymdeithydd ar for neu  
dir, aed pa le y mynno, yr hwn sy bob  
amser yn gweled yr un haul; felly ninnau,  
yn ein hymdaith trwy fywyd blin ac am-  
rywiol, pa un bynnag ai yn y byd hwn, ai  
yn y byd a ddaw, yn awr angau, yn gystal  
ag yn nyddiau ein hiechyd, yr ym bob  
amser, ac ym mhob cyflwr, yn yr un dwy-  
law trugarog, a than yr un hollalluog  
nawdd!—“Y nef a'r ddaear a ânt heibio,  
ond geiriau Duw, a gallu ei Grist ef, nid  
ânt heibio ddim!” ¶

§ Edr. Rhuf. xv. 4. ¶ Luc. xxi. 33. Datg. xii. 10





## P R E G E T H I I.

YNGHYLCH YR YSPRYD GLAN, A'I DDERBYNIAD.



ACTAU XIX. 1, 2, 3.

*A digwyddodd, wedi i Paul dramwy trwy y parthau uchaf, ddyfod o hono ef i Ephesus; ac wedi iddo gael rhyw ddisgyblion, efe a ddywedodd wrthynt: A dderbyniasoch chi yr Yspryd Glan er pan gredasoch? A hwy a ddywedasant wrtho: Ni chawsom ni gymmaint a chlywed, a oes Yspryd Glan. Ac efe a ddywedodd wrthynt: I ba beth gan hynny y bedyddiwyd chi? Hwytbau a ddywedasant: I fedydd Ioan.*

*And it came to pass that Paul, having passed through the upper coasts, came to Ephesus; and, finding certain disciples, he said unto them: Have ye received the Holy Ghost, since ye believed? And they said unto him: We have not so much as heard, whether there be any Holy Ghost. And he said unto them: Unto what then were ye baptized? And they said: Unto John's baptism.*

**Y** STYRIWN, oddiwrth y geiriau rhagorol hyn, yr athrawiaeth y mae yr Ysgrythur yn ei roddi i ni ynghylch yr Yspryd Glan; yn ail, y rhwymedigaeth sydd arnom i'w dderbyn ef; yn drydydd, y moddion a ddylem ni arfer tu ag at y cyfryw dderbyniad; ac, yn ddiweddaf, y prawf drwy ba un y gallwn wybod, a ydyw'r Yspryd Glan yn gweithio yn ein calonnau. Ac y mae'n rhaid i bawb weled fod yr ystyriaethau hyn yn gwbl addas i'r WYL uchel honno yr ym ni heddyw yn ei chadw.\*

I. S. Paul, pe gwelsai efe yn dda, a allasai yn rhwydd ddywedyd wrth y digybllion yn Ephesus: Ewch a daliwch sulwar yr hanes a roddodd Moses i ni am yr Yspryd yn nechreu Genesis ac yn y Gyfraith. Onid yw efe yn dywedyd yno: "Ac Yspryd Duw oedd yn ymsymmud ar wyneb y dyfroedd, a Duw a gymmerodd o'r Yspryd ac a'i rhoddes i'r dengwr a thrugain o henuriaid Israel:"† Ac onid yw iaith y Salmydd a'r Prophwydi eraill o'r un fath? "Pan ollyngych dy Yspryd, meddant, y creir dy weithredoedd, O Ar-

\* Y Sulgwyn. † Edr. Gen. i. 2. Num. xi. 16. 25.

glwydd. Na chymmer dy Yspryd Sanctaidd oddiwrthyf. † Yspryd yr Arglwydd Dduw sydd arnaf, † medd Isaiah am ein Hiachawdwr; a Joel hefyd, mewn geiriau hynod am y pethau rhyfeddol a wnaethpwyd ar gyfenw i'r amser hwn: "A bydd yn y dyddiau diweddaf, medd Duw, y tywalltaf fy Yspryd ar bob cnawd, a'ch meibion a'ch merched a brophwydant. A bydd yr achubir pob un a alwo ar enw'r Arglwydd."\* Ac y mae'r Testament Newydd, o'r dechreu i'r diwedd, yn llawn o hanes eglur ynghylch arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, doniau, a gweithrediadau yr Yspryd Glan. Oud yr amser a balla i mi i fynegi yr holl fannau, lle mae'r Efengylwyr a'r Apostolion eraill yn sôn am dduwdod a phresennoldeb yr Yspryd, a'i effaith ef ar galonnau a bucheddau y ffyddloniaid.

II. Awn gan hynny ymmlaen i ystyried, yn ail, y rhwymedigaeth sydd arnom oll i'w dderbyn ef yn ufudd ac yn ddiolchgar.

1. Eithr fe a ddywaid rhyw un: "Pa angenrheidrwydd sydd arnom ni i dderbyn Yspryd Duw? Oni all yr yspryd sydd

† Edr. Salm civ. 24. 30. li. 11. † Is. lxi. 1. Luc iv. 18--22. \* Joel ii. 28--32, Act. ii. 16--21.

yñom eisoes gyflawni ein holl ddyledswyddau? Oni ddichon Dyn fyued i mewn i'r nef heb ychwaneg o gymmorth a chynorthwy?"—Na ddichon byth. Rhaid iddo fod yn sanctaidd, canys heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd.† Os ewyllysiwn fod "gyfrannogion o'r duwiol anian," o blegid "rhoddwyd i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr;"‡ rhaid i ni dderbyn yr Yspryd daionus hwnnw, ym mha un y mae'r duwiol anian yn preswylaw. A wnaethpwyd y byd golygus hwn drwy "Yspryd Duw yn ymsymmud ar wyneb y dyfroedd?" Felly hefyd y gwnaethpwyd y Byd Newydd, neu'r Byd Cristionogol, trwy'r "un a'r unrhyw Yspryd" yn ymsymmud ar ddyfroedd Bedydd. A aeth Dyn yn enaid byw trwy anadl y Goruchaf? Felly hefyd y mae'n myned yn enaid ysprydol trwy'r Yspryd Glan. A genhedlwyd ein Hiachawdwr Crist trwy weithrediad Yspryd Duw? Trwy ysprydoliaeth yr un a'r unrhyw Yspryd y mae calonau ei holl ddilynwyr ffyddlon yn cael eu cenhedlu a'u glanhâu.

2. Y mae achos dirfawr arall am i ni dderbyn yr Yspryd Sanctaidd. Ni erys y

†Edr. Heb.xii. 14. ‡2 Pedr i. 4.

tŷ yn wag yn hir.\* Rhyw yspryd neu gilydd, naill ai glan ai aflan, a fydd yn barod i fyned i mewn, ac i gymmeryd meddiant o hono. “Yspryd tryngwsg”† sy'n pwysorhai i lawr ac “yspryd gwrthnysigrwydd”‡ yn aflonyddu eraill: ac oni welwn yn fynych “y rhai sydd yn hyderu arnynt eu hunain eú bod yn gyfiawn, yn rhoddi coel i ysprydion cyfeiliornus, ac i athrawiaethau ynfyd?”§— Y mae'n angenrheidiol i ni gan hynny dderbyn yr Yspryd Glan, fel nad elo rhyw yspryd aflan a chynfigenus i mewn i'n calonnau, ac aros yno.

3. Ond, ar y llaw arall, os na wnawn ein hunain yn addas i'w dderbyn ef, nid oes dim arall a wna i ni na llês na daioni. Derbyniwch y gair; nid ydyw ond megis “llythyren yn lladd.”|| Os derbyniwch fedydd nid yw ond bedydd Ioan, i.e, un o'r “egwyddorion llesg:”¶ os derbyniwch gnawd Crist, “nid yw yn llesâu dim;”\* ac os derbyniwch Crist ei hun, ofer yw: canys “od oes neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef,”† nac yn perthyn iddo. Mewn gair, os na “dderbyniasom ni yr Yspryd Glan er pan gredasom,” yr ŷm ni

\* Edr. Luc xi. 24. † Is. xxix. 10. ‡ xix. 14. § Luc xviii. 9. ¶ 1 Tim. iv. 1. || 2 Cor. iii. 6. ¶ Gal. iv. 9. \* Ioan vi. 63.

† Rhuf. viii. 9.

etto mewn cyflwr anianol: y mae gennym yn wir "enaid byw, ond nid oes gennym "yspryd yn bywhâu;"† a'r "dyn anianol," fel y dysg yr **Apostol** i ni, "nid yw yn dderbyn y pethau sydd o Yspryd Duw; [canys ffolineb ydynt ganddo ef] ac ni's gall eu gwybod, o blegid yn ysprydol y beruir hwynt."‡

III. Eglur yw fod yn angenrheidiol i dderbyn yr Yspryd Glan; ac am hynny awn ym mlaen i ystyried, yn y drydedd fan, y moddion a ddylem ni arfer tu ag at y cyfryw dderbyniad.

1. Dysgwn, yn gyntaf, oddiwrth ymadrodd S. Stephan, fod modd i "wrthwynebu'r Yspryd Glan."‖ Ac yr ydym yn ei wrthwynebu ef, mewn gwirionedd, os rhoddem unrhyw rwystr ar ei ffordd ef i ddyfod attom. Mae'r Ysgrythur hefyd yn rhoddi i ni rybudd, mewn amryw fannau, rhag gosod o honom unrhyw fath o rwystr na thramgwydd. Ac un o'r rhwystrau mwyaf yw Balchder. Canys ni phreswylia yr Yspryd Glan ond gyd â'r rhai "addfwyn a gostyngedig o galon." "Yr Arglwydd," medd Solomon, "a watwar y gwatwarus; ond ei ras a rydd efe i'r gostyngedig."¶—

† 1 Cor. xv. 45. § ii. 14. ‖ Act. vii. 51. ¶ Diar. iii. 34.

Rhwystrau dirfawr eraill yw Cnawdoldeb a Chynigen. Bwriwn allau o'n meddyliau, gan hynny, y pethau dinystriol hyn, a phob peth arall sy debyg i lygru yr enaid neu'r corph. "Oni wyddoch chwi," medd S. Paul wrth y Corinthiaid, "fod eich corph yn deml i'r Yspryd Glan sydd ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, ac nad ydych yn eiddoch eich hunain? Canys er gwerth y prynwyd chwi; gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph, ac yn eich yspryd, y rhai sydd eiddo Duw" ¶

2. Modd rhagorol arall i'w dderbyn EF yw "Gair yr Arglwydd, yr hwn sydd yn aros yn dragywydd. A hwn yw'r Gair, (medd yr Apostol), a bregethwyd i chwi."\* Ein bai ein hunain ydyw os na fydd yn fuddiol i ni. Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, trwy enau y Prophwyd Isaiah, mewn geiriau rhagorol: "I Sion y daw'r **GWAREDYDD**, ac i'r rhai a droant oddiwrth anwiredd yn Jacob, medd yr Arglwydd. A minnau, dyma fy nghyfammod â hwynt, medd yr Arglwydd: Fy **YSPRYD**, yr hwn sydd arnat, a'm **GEIRIAU**, y rhai a osodais yn dy enau, ni chiliaut o'th enau, nac o enau dy had, nac o enau had dy had,

¶ Edr. 1 Cor. vi. 19, 20. \*1 Pedr. i. 25.

medd yr Arglwydd, o hyn allan byth.”†  
 Ac o hyn y mae gennym siampl hynod yng  
 ngwrandawŷr yr Apostol Pedr ar ddydd  
 y Pentecost; a thrachefn yng Nghornelius  
 aï deulu yn Cesarea, ym mha le, pan oedd  
 yr Apostol etto yn llefaru, syrthiodd yr  
 Yspryd Glan ar bawb a oedd yn clywed y  
 Gair.‡

3. Ac megis y mae'r Gair a'r Yspryd,  
 felly hefyd y mae'r Yspryd a'r Cnawd, yn  
 myned gyd â'u gilydd; sef, y cnawd sanct-  
 eiddiol, “yr hwn a gaed trwy'r Yspryd  
 Glan,” a'r hwn y mae Crist yn ei roddi yn  
 ddirgel i'w holl ddilynwŷr ffyddlon yn y  
 Sacrament Bendigedig. Yno yr ŷm ni yn  
 “bwyttta o fwyd ysprydol, ac yn yfed o  
 ddiod ysprydol;”|| neu, fel y mae'r Apostol  
 Paul yn dywedyd mewn lle arall, “ni a  
 ddiodwyd oll o'r un Yspryd.”§ Cymmer-  
 wch bwyttêwch, hwn yw fy nghorph—  
 Yfwch bawb o hwn, canys hwn yw fy  
 ngwaed”¶—yw geiriau ein Hiachawdwr  
 ei hun wrth roddi yr elfenau cyssegredig  
 yn ein dwylaw: ac fel yr ydym yn derbyn  
 ganddo ef yr arwyddion gweledig oddi  
 allan, nyni a dderbyniwn hefyd y gras ys-  
 prydol oddi fewn, gyd â'r Yspryd yr hwn

†Edr. Is. lix. 20, 21. ‡ Act. ii. 14-40. x. 44. ¶1 Cor.  
 x. 3, 4. §xii. 13. ¶Matth. xxvi. 26--28.



sydd yn ei gyfrannu ef, os na fydd y bai ynom ein hunain.— Rhodiwn yn y ffyrdd hyn. Cymmerwn yr holl foddion hyn gyd â'u gilydd; sef, gostyngeddrwydd a gweddiau;\* y geiriau a lefarodd Crist wrthym, canys “yspryd ydynt, a bywyd ydynt; gyd â bara'r bywyd,† a phiol iachawdwriaeth.‡ “Os hyn a wnawn, Crist a'n gwared ni oddiwrth felldith y Gyfraith,” ac felly ni a allwn gyd â gostyngedig hyder ateb cwestiwn S. Paul yn y testun: “Do, moliant a diolch i Dduw, ny ni a dderbyniasom yr Yspryd Glan!”

IV. Eithr, fel na byddo ein tyb ni yn ôfer, ystyriwn yn y lle diweddaf, y prawf, a'r arwydd, drwy ba rai y gallwn wybod fod yr Yspryd Glan yn gweithio yn ein calonnau. Nid yw anhawdd adwaen arwyddion Yspryd Duw. Pa beth yw'r arwydd y gwypom fod yr Yspryd naturiol yn gweithio ar y corph? Cyffroi y mae'r galon, anadlu yn y genau, curo yn ein gŵythennau! Dysgwn hefyd, yn yr un modd, amryw weithrediadau yr Yspryd Glan.

1. Mae'r Yspryd yn cyffroi'r galon. Pa beth a ddywed y Prophwyd yn enw yr

\*Edr. Zech. xii. 10. †Ioan vi. 63. 35. ‡ Salm cxvi. 13.

Hollallnog? “Rhoddaf i chwi galon newydd, ac yspryd newydd a roddaf o’ch mewn chwi.”\* Felly hefyd y mae S. Paul yn cynghori’r Ephesiaid i “ymadnewyddu yn yspryd eu meddwl.”† Meddyliau newyddion a deisyfiadau newyddion ydynt ar unwaith yn arwyddocâu yspryd newydd hefyd. Y dyn, yr hwn sy’n gwilied yn fanwl ei ddymuniadau, a all wybod pa ryw yspryd sydd yn ei arwain ef, ai hen ai newydd. Gallwn ddeall ein bod wedi derbyn yr Yspryd trwy ofn Duw, wedi ei argraphu ar ein calonau, pan fyddo yn ein hattal rhag gwneuthur drwg; a thrwy gariad Duw, wedi ei dywallt ynddynt,† i’w tueddu hwy tu ag at bob daioni.

2. Ond o herwydd y gall pawb ddywedyd fod pob peth yn iawn ac yn union oddi fewn, yr ŷm gan hynny yn myned ym mhellach, gan sicrhâu fod yr Yspryd yn anadlu yn y genau. Yma nyni a welwn arwydd arall. “Credais,” medd y Salmydd, “ac am hynny y llefarais.”§ Yn yr un modd y mae’r Apostol hefyd yn ymrësymmu: “A chan fod gennym yr un yspryd ffydd, yr ydym niannau yn credu, ac am hynny yn

\* Edr. Ez. xxxvi. 26. † Ephes. iv. 23. ‡ Rhuf. v. 5.

§ Salm cxvi. 10.

llefaru.”† Pan ddisgynnodd yr Yspryd Glan ar yr Apostolion a'r Cristionogion cyntaf, “hwy a ddechreuasant lefaru â thafodau eraill, megis y rhoddes yr Yspryd iddynt ymadrodd.”§ Er fod yr Arglwydd wedi gwneuthur i'r rhyfeddod beidio, y mae'r addysg yn wastadol yn parhau. Ym mha galonnau bynnag y derbynir yr Yspryd Glan, y mae yno newidiad mawr yn cymmeryd lle yn yr ymadrodd a'r holl ymddygiad. “Tynner ymaith oddiwrthym,” meddant, “bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chabled, gyd â phob drygioni: a deued cyfiawnder i mewn yn eu lle hwynt a gwir sancteiddrwydd.”||

3. Ond am galon dyn, y mae hi yn fwy ei thwyll na dim; pwy, fel y gofynna'r Prophwyd, i'e, pwy a'i hedwyn?\* Ac am yr ymadrodd hefyd, y mae llaweroedd, megis y dywed S. Paul i ni, “yn proffesu yr adwaenant Dduw, eithr ar weithred oedd ei wadu y maent.”‡ Am hynny rhaid i ni fyned at yr yspryd sy'n gweithio ynom; at y llaw, at “waith ffydd:”¶ canys hyn a ddengys wir dueddiad a chyflwr y galon. Y mae ffydd iachus yn gweithio

†Edr. 2 Cor. iv. 13. §Act ii. 4. ||Ephes. iv. 24. 31.

\*Jer. xvii. 9. ‡Tit. 1. 16. ¶1 Thess. i. 3.

bob amser trwy gariad.”§ Canys megis y mae'r corph heb yr yspryd yn farw, (medd S. Iago), felly hefyd ffydd, heb weithredoedd, marw yw.”¶— Bydded, gan hynny, i'r sawl a gredasant i Dduw ofalu ar flaenori mewn gweithredoedd da.\* Cymmerwch eithaf gofal fod yr YSPRYD sy'n rheoli eich gweithredoedd, eich ymadrodd, eich calonnau, “YR HWN SYDD YN DEILLIAW O'R TAD A'R MAB.” Y mae S. Paul yn gwneuthur gwahaniaeth mewn anryw fanau. “Ni dderbyniasoch yspryd caethiwed, eithr derbyniasoch yspryd mabwysiad.† Ni roddes Duw i ni yspryd ofn”, medd efe mewn lle arall, “ond yspryd nerth, a chariad, a phwyll”‡— A thrachefn, mewn geiriau rhagorol: “Nyni a dderbyniasom, nid yspryd y Byd, ond yr Yspryd sydd o Dduw.”|| Os peidiwch â phechu, o herwydd cariad i Dduw a diolchgarwch i Iesu Grist ein Harglwydd, y mae gennych yr Yspryd Glan mewn gwirionedd, yr hwn a ddaeth o'r nef i'ch hyfforddi chwi yno!

A Duw Hollalluog a roddo i bawb o honom ras i dderbyn y Diddanydd Trugarog hwn, fel yr arhoso gyd â ni, ac o'r di-

§ Edr. Gal. v. 6. ¶ Iago ii. 26. \* Tit. iii. 8. † Rhuf. viii. 15. ‡ 2 Tim. i. 7. || 1 Cor. ii. 12.

26 *Ynghylch yr Yspryd Glan, &c.*

wedd a'n dwg ni i'r "tŷ hwnnw nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd,"|| i fyw gyd â'r Tad, yr hwn a'i rhoddes, a'r Mab, yr hwn a'i "pwrcasodd i ni â'i briod waed."§  
Gan hynny;

"Gogoniant, moliant, parch, a bri,  
I'r Un, a Thri, trag'wyddol fyth;  
Y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glan,  
Fal gynt, tra bo na chân na chwŷth."

||Edr. 2 Cor. v. 1. §Act. xx. 28.



## PREGETH III.

Y SARPb BRES.\*



IOAN III. 14, 15.

*Megis y darchafodd Moses y sarpb yn y diffeithwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y Dyn; fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.*

*As Moses lifted up the serpent in the wilderness, even so must the Son of Man be lifted up; that whosoever believeth in him, should not perish, but have everlasting life.*



**Y** MAE ein Hiachawdwr Bendig-ig yn datgan yma ddau beth; yn gyntaf, fod “yn rhaid dyrchafu Mab y Dyn;” sef, ei hunan: ac, yu ail, y byddai y cyfryw ddyrchafiad mewn rhyw fodd yn gyfielyb, i

\*Edr. Yr Ail Lyfr, Preg. xxvii. Tu dal. 321-- 327.

ddyrchafiad y Sargh gan Foses yn y diff-eithwch. Gadewch i ni gan hynny, yn y lle cyntaf, ystyried y ddau beth hyn; ac, ar ol hynny, dynnu allan o honynt ryw addysg a fyddai wasanaethgar i ddangos i ni y ffordd i'r nef yn ol goruchwyliaeth yr Efengyl.

I. Wrth ystyried y pethau y mae ein Harglwydd yn sôn am danynt, mi a'u cymmeraf hwynt yn y drefn fel yr ydym yn eu darllain yn y testun.

1. Chwi a wyddoch eisoes yr achos a'r modd y dyrchafodd Moses y Sargh yn y diffaethwch.\* Felly hefyd yr oedd yn rhaid dyrchafu "Mab y Dyn." Diammau fod dyrchafiad Crist ar y groes yn dra thebygol i ddyrchafiad y Sargh ar drostan ym mysg oll gynnulleidfa meibion Israel. Ac yn yr un modd y mae Crist yn crybwyll am ei farwolaeth mewn man arall, gan ddywedyd, "A minnau, os dyrchefir fi oddi ar y ddaear, a dynnaf bawb attaffy hun;" lle mae'r Efengylwr yn chwanegu yn bendant: "A hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo o ba angau y byddai farw."†

Ond nid yn hyn yn unig y mae'r cyffelybiaeth yn ymddangos. Dyrchafiad Crist ar y

\* Edr. Num. xxi. 6—9.

† Ioan xii. 32. 33.

groes oedd yn debygol i ddyrchafiad y Sârph ar drostan *yn yr amcân a'r perwyl* y gwnaed y peth. Canys i ba ddiben y dyrchafwyd y Sârph Bres? Fel y gallai yr Israeliaid, gan edrych arni, gael eu hiachâu o'n briwiau marwol! Felly hefyd y dyrchafwyd Crist, fel y bo pechaduriaid gadwedig, wrth edrych arno ef, gael derbyu ei iachawdwriaeth! Mae pechaduriaid mewn llawer gwaeth cyflwr nag oedd meibion Israel, pan y brethid hwynt gan seirph tanllyd. Nid oedd brathiad sârph yn dwyn gyd ag ef ond marwolaeth y corph yn unig; eithr y mae Pechod yn peri marwolaeth yr enaid hefyd. Y mae Pechod yn glefyd erchyll, yr hwn sy'n llygru'r holl ddyn! "Nid oes iechyd" yn y pechadur; ac y mae efe mewn perygl o'i gael ei "ollwng i ddygn chwervaf boenau angau tragywyddol!" **N**id oes gauddo o hono ei huu ddim mwy gallu i iachâu ei bechod, nag oedd gan yr Israeliaid i iachâu brathiad sârph. Eithr Duw, yn ei fawr drugaredd, megis yn y naill gyflwr, felly yn y llall hefyd, a ddarparodd iddynt feddyg-iniaeth. Megis ni adawodd efe i'r Israeliaid gael eu difetha heb wneuthur diangfa iddynt; felly nid ydyw yn goddef pechaduriaid fyned yn golledig heb ddangos



iddynt ffordd iachawdwriaeth. “Megis gan hynny y dyrchafwyd y Sarp Bres yn y diffeithwch, felly hefyd,” yn yr un modd a chyd â'r un amcan, “y dyrchafwyd Mab y Dyn; fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol.”

2. Eithr, ym mhellach, pa sut yr oedd yn angenrheidiol i Grist fel hyn gael ei ddyrchafu ar y groes? Mae efe yn wir yn dywedyd, “Y mae yn *rhaid* dyrchafu Mab y Dyn.” Ond beth yw achos y cyfryw angenrheidrwydd?

3. Yn gyntaf, heb ei ddyrchafu, nid oedd modd iddo gyflawni'r Ysgrythurau, na phrofi mai EFE oedd Iachawdwr y Byd. Yr Ysgrythurau a ragddywedasant ei ddi-oddefaint ef, a'i farwolaeth. Eu cysgodau, aberthau, a'u prophwydoliaethau a gyttunasant oll fod *yn rhaid* dyrchafu Prynwr dynolryw. “Hwy a ddywedasant am ei ymadawiad ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Jerusalem”\* Efe yn wir ei hun a ragddywedodd wrthi ei Apostolion y “modd yr *ysgrifennwyd* am Fab y Dyn, y dioddefai lawer o bethau, ac y dirmygid ef:”† ac, ar dro arall, am iddo beidio deisyf ar y Tad

\* Edr. Luc ix. 31. † Marc ix. 12.

anfon gynnorthwy rhagorol o'r nefoedd i'w achub ef rhag dioddefaint y groes, efe a roddodd y rheswm canlynol: "Pa fodd ynte y cyflawnid yr Ysgrythurau, mai felly y *gorfydd* bod."† Felly drachefn, ar ol iddo adgyfodi a cheryddu dau o'i ddisgyblion am fod "hwyrfrydig o galon i gredu'r holl bethau a ddywedodd y Prophwydi," mae efe yn gofyn, "onid oedd *raid* i Grist ddi-oddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant?"‡ Ac, i ddangos ei feddwl yng- hylch y cyfryw angenrheidrwydd, "gan ddechreu ar Moses a'r holl Brophwydi, efe a esponiodd iddynt yn yr holl Ysgryth- urau y pethau am dano ei hun." Heb gyf- lawni y pethau hyn, ni's gallai efe fod "yr hwn yr ysgrifennodd Moses a'r Prophwydi am dano;" a chan fod iddynt hwy oll ddy- wedyd y byddai *yn rhaid* i Grist ddi-oddef, yr oedd *yn rhaid* dyrchafu Mab y Dyn, fel yr ymddangosai mai efe "yn ddiau oedd y Crist, Iachawdwr y Byd."§ Yr oedd *yn rhaid* gan hynny, yn yr ystyr hwn, dyrch- afu Mab y Dyn." ⌈

4. Ond y mae ystyr arall o anfeidrol mwy bwys. Angenrheidiol oedd dioddef- aint a marwolaeth y Messias, yr hwn a

† Matth. xxvi. 54. ‡ Luc xxiv. 25—27. § Ioaniv. 42.

“ddaeth i'r byd i gadw pechaduriaid,” fel y gallai efe gyflawni y fath neges ryfeddol. Duw Hollalluog oedd yn gofyn digonol aberth ac iawn dros bechodau'r holl Fyd. Ond nid oedd gan y Byd y cyfryw aberth i wneuthur; ac yn wir yr oedd holl ddynolryw yn annheilwng, trwy eu hamrafaelion bechodau, i offrw m i. Dduw un aberth. Am hynny y “Gair a wnaethpwyd yn gnawd;\* ac efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn lle Dyn yn ufudd hyd angau, i.e. angau'r groes.”† Fel hyn yr oedd “yn rhaid dyrchafu Mab y Dyn.” Ië, yr oedd yn rhaid iddo gael ei ddyrchafu, a gwaedu, a marw ar y groes er ein mwyn ni bechaduriaid truain! “Megis y dyrchafodd Moses y Sarph Bres ar drostan, felly hefyd yr oedd yn rhaid dyrchafu Mab y Dyn ar y groes; canys yno, ac yno yn unig, yr oedd efe i iachâu doluriau dynolryw; fel trwy farwolaeth y dinystria i efe yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, ac yr agorai deyrnas nefi bawb a gredant.”‡

II. Ar ol eglurhâu y ddau beth a ddatganodd ein Hiachawdwr yn y testun, awn ym mlaen, yn yr ail fan, idyunu allan ryw

\* Ioan i. 14 † Phil. ii. 8. ‡ Heb. ii. 14. a'r  
Te Deum laudamus.

addysg a fyddai fuddiol i ddangos i ni y ffordd i'r nefoedd dan oruchwyliaeth yr Efengyl.

1. Mae'n gyntaf yn angenrhaid, er mwyn iachawdwriaeth dragywyddol, edrych o ddyn gyd â ffydd ddiffuant ar ein Harglwydd Iesu Grist. I'r diben hwn y dyrchafwyd ef ar y groes. Amlwg yw, mai ynfydrwydd fyddai disgwyl, y gwnaf feddygyniaeth yn erbyn drwg unrhyw lês heb wneuthur defnydd o honi. Pa leshâd a all bwyd heb ei fwytta wneuthur i'r newynog? Ni's gall byth eu digoni hwynt. Fel hyn yr oedd y peth yn bod ynghylch y feddygyniaeth, yr hon a edrychodd Duw am dani i'r Israeliaid yn y deffeithwch. Moses a ddyrchafodd y Saph Bres ar drostan: eithr o'r bobl a frathid nid oedd neb yn byw, ond y sawl a edrychai ar hono, gan gredu yng ngrym y feddygyniaeth. Felly hefyd y mae yr iachawdwriaeth a barottowyd i bechaduriaid. Nid digon yw fod Crist wedi marw ar y groes, a gwneuthur iawn dros bechod y Byd. Mae'n rhaid i bob pechadur edifeiriol osod y peth at ei galon ei hunain, gan wneuthur iawn ddefnydd o'r feddygyniaeth iachusol, ac edrych ar Fab y Dyn, yr hwn a ddyrchafwyd er ein mwyn. "Trowch eich hŵ, uebau at-

taffi," medd efe, "holl gyrrau'r ddaear, fel y'ch achuber."||

Ond ym mha fodd y mae'n rhaid i bechaduriaid droi eu hwynebau ac edrych ar eu Hiachawdwr? **N**id, yn ddiammau, fel yr oedd yr Israeliaid yn edrych ar y Saph Bres gyd â llygaid corphorol, ond gyd â llygad yr enaid, fel y merthyr cyntaf S. Stephan. § A pha beth yn wir yw hyn ond Ffydd ddiysgog yng Nghrist, yr hon y mae'r Ysgrythur yn ei dangos bob amser megis yr unig ffordd i gael budd oddiwrth dywalltiad ei waed gwerthfawroccaf. "CRED yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi.\* Y mae yn rhaid dyrchafu Mab y Dyn, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono tywyd tragywyddol."

2. Ystyriwch, ym mhellach, mai ffordd yr Hollalluog Dduw yn unig yw'r ffordd hon o gadw pechaduriaid trwy ffydd yng Nghrist. Ni fuasai Moses, nac un dyn arall, byth yn meddwl am ddyrchafu Saph Bres i iachâu archollion y bobl; a phe bu-asant yn meddwl am y cyfryw beth rhyfeddol, nid allasai dim ond Gair Duw yn unig roddi y fath effaith iddo. Y cwbl yn

§Is. xlv. 22. ¶Act. vii. 56—60. \*Act. xvi. 31.

wir a ddaeth oddiwrth Dduw. Felly hefyd y mae iachawdwriaeth yr Efengyl. Ni's gallai neb rhyw ddyn byth amcanu na threfnu y fath fodd rhyfeddol. Duw yn unig a fwriadodd yr holl oruchwyliaeth; canys efe yn unig a wyddai pa ryw aberth oedd ddigonol i wneuthur cymmod dros bechodau yr holl Fyd. Beth gan hynny sy gennym ni i'w wneuthur heblaw derbyn y feddyginiaeth gyd ag eithaf diolchgarwch, a'i chymmhwyso at ein hangen a'n dolur ein hunain? RHYFEDDOL yn ddiau, yn ein golwg anianol ni, y mae'r cyfryw feddyginiaeth yn ymddangos; ac y mae rhai ynfydion ysgatfydd yn ammau ei heffaith, ac yn gwrthod ei chymmhwysiad. Eithr onid allasai yr Israeliaid wneuthur yr un peth? Ystyriwn am funud mor ffîl, mor ynfyd, mor anniolchgar a fuasai y cyfryw wrthodiad! Ond pwy bynnag a esgeuluso y Iachawdwriaeth Gristionogol sy'n euog o fwy ffîlineb, o fwy ynfydrwydd, ac anniolchgarwch. Y mae holl *weithredoedd* Duw, fel ei *natur*, yn rhyfeddol. Y Drindod Fendigedig, Cnawdoliaeth ein Hiachawdwr, a phob peth arall sy'n rhyfeddod anfeidrol. Eithr ein dytêd ni yw, GWRANDO ac UFUDDLAU. Duw ei hun a ddangosodd y fiordd y mae i ni rodio ynddi, a'r

peth a wnelom.\* Ai Crist yw yr Oen, yr hwn a laddwyd er dechreuad y byd,† ie, yr hwn a edrychodd Dduw iddo ei hun megis Oen y poeth-offrwm?‡ A ragordeiniodd Duw Grist yn gymmodwr trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen?|| Bydded, gan hynny, ein gofal pennaf ni edrych i fynu, trwy ffydd, ar yr Iachawdwr Trugarog hwn, ac achub ein heneidiau.

3. Ond, yn bendifaddef, ni a ddylem edrych ar Grist am gynnorthwy, pan adgofiom mai efe yw'r *unig* ffordd i'r nefoedd, ie, *unig* graig ein iachawdwriaeth. "Sylfaen arall ni's gall neb ei osod heblaw yr un a osodwyd, yr hwn yw Iesu Grist.† ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall; canys nid oes enw arall dan y nef wedi ei roddi ym mblith dynion, trwy yr hwn y mae *yn rhaid* i ni fod yn gadwedig."¶ Beth gan hynny a ddaw o'i bobl a sy yn esgeuluso nesau at Dduw ar hyd y ffordd hon, ac yn gwrthod ymddiried yn yr enwhwn? Ystyriwch, beth a ddaethai o'r Israeliaid, pe buasent yn nacâu edrych ar y Saph Bres, yr hon oedd yr *unig* ffordd a ordeiniodd Duw ei hun i

\*Edr. Jer. xlii. 3. †Datg. xiii. 8. ‡Gen. xxii. 8.

||Rhuif. iii. 25. †1 Cor. iii. 11. ¶Act. iv. 12.

roddi cyssur ac iachâd iddynt? Marw yn ddiâu a fuasent oll. Wele yma ein cyflwr ninnau hefyd mewn perthynas i'r iachawdwriaeth y mae Duw yn ei chynnyg i ni dan yr Efengyl! Hon yw'r unig iachawdwriaeth oddiwrth bechod. Pwy bynnag gan hynny a ddirmyga'r iachawdwriaeth hon, pa un bynnag ai trwy falchder, neu gyndynrwydd, neu ddiotalwch, neu ryw wrthwyneb arall, y mae *yn rhaid* i'r cyfryw bobl, yn ol athrawiaeth yr Efengyl, fod yn golledig. "Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae Bywyd ganddo; a'r hwn, nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo Fwyd."†

4. Daliwn sulw, yn ddiweddaf, fod y ffordd hon i fyned i'r nef, drwy ffydd yng Nghrist, YN RHYDD AC YN AGORED I BOB RHYW DDYN. Ni chauwyd allan neb. Gwrandewch eiriau y gorchymmyn a roddwyd i Foses ar yr amser ofnadwy hwnnw yn y diffeithwch: "A dywedodd yr Arglwydd wrth Foses—Gwna it' Sarpb Dandllyd a gosod ar drostan; a PHAWB a frather, ac a edrycho ar honno, fydd byw." Ac felly y bu! Canys "os brathai sarpb w'r,

† I Ioan, v. 12.



ac edrych o hono ef ar y Saph Bres, byw fyddai." Gwelwch yma GYSGOD amlwg o iachawdwriaeth yr Efengyl! "Y mae yr RHAID dyrchafu Mab y Dyn, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol." Cofiwch yr ymadrodd byrr—"PWY BYNNAG"—yr hwn sy'n cynnwys pob rhyw ddyn, "yn gystal gwreng a bouheddig, cyfoethog a thlawd," gwybodus ac anwybodus, hen ac ieuangc ynghyd;† ie, Pwy BYNNAG a gredo yn yr Arglwydd Iesu Grist, a fydd gadwedig. **P**ob rhyw ddyn a ddylai edrych, gyd â thristwch edifeiriol, ac ymddiried cywir, ar Grist Iesu, megis ein hunig Iachawdwr, ac efe a gaiff fywyd tragywyddol. "Myfi yw'r ADGYFODIAD a'r Bywyd, medd yr Arglwydd; yr hwn sydd yn *credu* ynof fi, er iddo farw, a fydd byw: a PHWY BYNNAG sydd yn fyw, ac yn *credu* ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd."\*

Y mae'r geiriau rhyfeddol hyn yn "newyddion da o lawenydd mawr; yr hwn a fu i'r holl bobl"‡ sy'n ofni Duw, ac yn edrych ar ei Fab ef Iesu Grist, am iachawdwriaeth a phob diddanwch. Edrychwn, gan hynny,

†Salm xlix. 2. \*Ioan, xi. 25. 26. ‡Luc, ii. 10.

arno ef yn gwaedu ar y groes, ac yn marw, drosom ni bechaduriaid truain! Er nad allwn yr awrhon ei weled ef ond megis trwy ddrych mewn dammeg, § etto edrychwn arno ef fyth. Er bod ein ffydd yn wan, ein hanwybodaeth yn fawr, ein hymddiried yn anwadal, etto gobeithiwn yn ei drugaredd ef ac yn nigonolrwydd ei aberth rhagorol er ein mwyn. **BYDDED CRIST I NI OLL YN OLL.**

Cofiw'n hefyd mai Ffydd Sancteiddiol ydyw Ffydd yr Efengyl. Ni ddichon neb gredu yng Nghrist, ac etto barhau yn annuwiol ac yn aflan. Iachawdwriaeth *oddiwrth* bechod yw iachawdwriaeth yr Efengyl. Ond ni ddichon y dyn hwnnw fod wedi ei iachau a'i gadw *oddiwrth* bechod, yr hwn sy'n trigo yn wastad *mewn* pechod. Pwy a fuasai yn dywedyd fod yr Israeliaid wedi cael meddyginiaeth rhag brathiad y seirph, tra'r oedd y gwenwyn yn ffyrnigo ac yn cynddeiriogi yn ei wythenau? Na thwyller chwi! Y sawl sy yn weision i Bechod, nid ydynt hwy yn ddilynwyr Duw a Christ! Nid oes chwaith obaith yr Efengyl yn trigo ynddynt: "canys y mae

§ Edr. 1 Cor. xiii. 12.


pob un sydd ganddo y gobaith hyn ynddo ef, yn ei buro ei hun, megis y mae yntau yn bur."¶ Ceisiwn ni, frodyr, y gobaith sancteiddiol hwn i'n cyssur, a byw fyddwn, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

¶ Edr. 1 Iean, iii. 3.



PREGETH IV.

YNGHYLCH DINYSTR Y CANAANEAID.



JOSUA X. 40.

*Felly y tarawodd Josua yr holl fynydd-  
dir, a'r deheu, y gwastadedd hefyd, a'r  
bronnydd, a'u holl frenhinoedd; ni adawodd  
efe un yng ngweddill: eithr efe a ddifrododd  
bob perchen anadl, fel y gorchymmynasai  
Arglwydd Dduw Israel.*

*So Joshua smote all the country of the  
hills, and of the south, and of the vale, and  
of the springs, and all their kings; he left  
none remaining, but utterly destroyed all  
that breathed, as the Lord God of Israel  
commanded.*



**Y** MAE llawer o ddynion duwiol a  
daionus yn teimlo rhyw arswyd yn codi  
ynddynt, wrth ddarllain yn yr Hên Des-  
tament hanesion rhyfeloedd Israel yn erbyn  
gwlad Canaan a'i thrigolion. O fynediad

cyntaf yr Israeliaid i mewn i'r wlad honno, hyd eu sefydliad ynndi, yr hyn sy'n cymeryd i fynu holl lyfr Josua, gyd â rhan o lyfr y Barnwŷr, y mae gennym yn ddiammau hanes hyll o ryfeloedd gwaedlyd, a lladdfa erchyll o wragedd, a phlant, ac anifeiliaid; a hyn i gyd trwy orchymryn yr Hollalluog Dduw! Y mae rhai pobl yn barnu y cyfryw hanesion yn anghredadwy; yn gymmaint a bod y cyfryw ymddygiad, meddant, yn anaddas i ddaioni a thrugarogrwydd Rheolwr mawr y byd.\*

Eithr mi a ddangosaf i chwi, yn gyntaf, fod amcan ac ergyd y gweithredoedd hyn yn llesol i ddynolryw yn gyffredinol; ac, yn ail, nad oeddynt gan hynny yn anaddas i Dduw; nac yn anghyttunol â threfn ei ragluniaeth ef, a'i lywodraeth.

---

\* "I am fond of considering the Goodness of God." [says the pious Bishop Watson in his admirable Reply to that wretched man Thomas Paine, p. 80] "as the leading principle of his conduct towards mankind, and of considering his Justice as subservient to his Mercy. He punishes individuals and nations with the rod of his wrath; but I am persuaded that all his punishments originate in his abhorrence of Sin, are calculated to lessen its influence, and are proofs of his Goodness; inasmuch as it may not be possible for OMNIPOTENCE itself to communicate supreme happiness to the Human Race, whilst they continue servants of Sin. The destruction of the Canaanites exhibits to all nations, in all ages, a signal proof of God's displeasure against Sin. It has been to others, and it is to ourselves, a benevolent warning. Moses would have been the wretch you represent him, had he acted by his own authority alone: but you may as reasonably attribute cruelty and murder to the Judge of the land in condemning criminals to death, as butchery and massacre to Moses in executing the command of God."

I. Cofiwch yn bennaf dim, mai o herwydd eu drygioni a'u ffeidd-dra y dinystrwyd cenedloedd Canaan. Fel hyn y llefarodd yr Arglwydd wrth feibion Israel trwy enau Moses: "Nac ymhalogwch yn yr un o weithredoedd gwlad Canaan, yn y rhai yr halogwyd y cenedloedd yr ydwyf yn eu gyrru allan o'ch blaen chwi. A'r wlad a halogwyd: *am hynny* yr ydwyf yn ymweled a'i hanwiredd yn ei herbyn, fel y chwydo'r wlad ei thrigolion. Ond cedwch chwi fy neddfau a'm barnedigaethau i, ac na wnewch ddim o'r holl ffaidd bethau hyn, na'r priodor na'r dieithr-ddyn sydd yn ymdaith yn eich mysg, [o herwydd yr holl ffaidd bethau hyn a wnaeth gwŷr y wlad, y rhai a fu o'ch blaen, a'r wlad a halogwyd] fel na chwydo'r wlad chwithau, pan halogoch hi, megis y chwydodd hi'r genedl oedd o'ch blaen. Canys pwy bynnag a wnel ddim o'r holl ffaidd bethau hyn, torrir ymaith yr eneidiau a'u gwnele o blith eu pobl. Am hynny cedwch fy neddf i, heb wneuthur yr un o'r deddfau ffaidd hyn a wnaed o'ch blaen chwi, ac nac ymhalogwch ynddynt: **MYFI YW YR ARGLWYDD EICH DUW CHWI.**"

1. Daliwn sulw, yn gyntaf, oddiwrth y lle hwn a ddarlennais i chwi, fod y Canaan- eaid yn hynod am eu drygioni a phob math o ffeidd-dra. “Na wnewch yn ol ffaidd weithredoedd gwlad Canaan, yr hon yr yd- wyf yn eich dwyn chwi iddi,” medd yr Ar- glwydd; “ac na rodiwch yn eu deddfau hwynt: o herwydd yr holl ffaidd bethau a wnaeth gwŷr y wlad.†

2. Ond, ym mhellach, mae'r ymadrodd yn dangos bod eu harferion ysgeler hwy yn gyffredinol ac yn gynneddfol yn eu plith. “Na rodiwch yn eu *deddfau* hwynt, ac na wnewch yr un o'r *deddfau* ffaidd hyn.” Ni 's gellir cyfaddesu y gair *deddf* at ryw ychydig o siamplau hynod a chyhoeddus; eithr perthyn y mae i arferion cyffredin a theyr- nasol. Ac yr ŷm yn darllain hefyd fod eu harferion cywilyddus yn gwneuthur rhan o'u crefydd: “canys pob ffeidd-dra yr hwn oedd gas gan yr Arglwydd a wnaethant hwy i'w *duwiau*; canys eu meibion hefyd a'u merched a losgasant yn tân i'w *duw- iau*.”‡ Wele yma olwg truenus ac echryslon!

3. Y mae'r Ysgrythur gan hynny yn datgan i ni yn eglur, mai o achos eu peck-

† *Edr. Letit.* xviii. 3. 27. ‡ *Deut.* xii. 31.

oedau y dinystriwyd cenhedloedd Canaan. Dyna'r peth mwyaf pwysfawr i ni i ymofyn yn ei gylch. A pha beth y mae'r geiriau yn y lle uchod yn ei ddywedyd? "A'r wlad a halogwyd; *am hynny* yr ydwyf yn ymweled â'i hanwiredd yn ei herbyn, fel y chwydo'r wlad ei thrigolion. Dyna'r unig achos yr wyf yn dwyn y cyfryw flinderau arnynt, ac nid i wneuthur lle i'r Israeliaid; canys pobl war-galed ydynt." - Ac y mae Moses yn dywedyd wrthynt yn beudant: "Na ddywaid yn dy galon, wedi gyrru o'r Arglwydd dy Dduw hwynt allan o'th flaen di. gan ddywedyd, Am fy nghyfiawnder y dygodd yr Arglwydd fi i feddiannu'r tir hwn: ond am annuwioldeb y cenhedloedd hyn y gyrrodd yr Arglwydd hwynt allan o'th flaen di. Gwybydd dithau, nad am dy gyfiawnder dy hun y rhoddes yr Arglwydd it' y tir daionus hwn i w feddiannu, canys pobl war-galed ydych."||

4. Mae'n ymddangos hefyd oddiwrth y lleoedd hyn fod Duw Hollalluog yn gwbl union, yn ddiuedd, ac yn ddi-dderbyn wyneb. "Cedwch chwi fy neddfau a'm barnedigaethau i, (medd efe,) ac na wnewch ddim o'r holl ffaidd bethau hyn, fel na

|| Edr. Deut. ix. 1---29.



chwydo'r wlad chwithau, pan halogoch hi, megis y chwydodd hi'r genedl oedd o'ch blaen: canys pwy bynnag a wnel ddim o'r holl ffaidd bethau hyn, torrir ymaith yr eneidiau a'u gwnelo o blith eu pobl." Yr Iuddewon a elwir weithiau pobl *etholedig Duw*; ac felly yr oeddynt hwy mewn amryw foddion: ond etto y mae'r bobl hyn yn cael eu rhybuddio, drachefn a thrachefn, os dilynent hwy yr un arferion, y byddai raid iddynt ddisgwyl yr un ddinystyr. "Fel y cenhedloedd y rhai y mae'r Arglwydd ar eu difetha o'ch blaen chwi, felly y difethir chwithau, am na wrandawsoch ar lais yr Arglwydd eich Duw."\*—Ac felly hefyd y bu mewn modd ofnadwy!

5. Y mae un peth etto ar ol i'w ystyried yn yr hanes hwn, ac ystyriaeth ydyw o eithaf pwys; canys hi a ddengys i ni nid yn unig gyfiawnder Duw tu ag at genhedloedd Canaan, ond ei diriondeb ef hefyd, a'i drugaredd, a'i amynedd dirfawr hyd oni ddaethai eu drygioni hwy yn gyflawn. Nyni a ddarlennwn yn Genesis, fod yr Arglwydd wedi addaw i Abraham, y cai ei had ef "yn y bedwaredd oes" ddychwelyd i'r wlad honno: "canys (medd efe,) ni

\* Edr. Deut. viii. 20.

*chylawnwyd* etto anwiredd yr Amoriaid."† Pwy na wel oddiwrth hyn, fod Duw wedi gadael iddynt aros ar y ddaear, tra y cadwent hwy eu pechodau o fewn unrhyw derfyn? Yr ym gan hynny yn dibennu, gyd ag eithaf siccrwydd, mai trwy eu drygioni yn unig y difrodwyd y Canaaneaid. A'r drygioni hwn ysgatfydd a chwanegwyd o herwydd i Abraham, Isaac, a Jacob wedi bod yn eu plith yn siamplau hynod o grefydd burach ac ymddygiad gwell; ac yn fwy hefyd o blegid i farnedigaethau Duw ymddangos mewn modd rhyfeddol yn hanes teulu Abraham; ond, yn bendisaddef, yn ninestr Sodom a Gomorrah. Ymaer pethau hyn o leiaf yn dangos nad adawodd yr Arglwydd mo hono ei hun yn ddidyst, gan eu rhybuddio hwynt trwy arwyddion, a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd.

II. Ystyriwn, yn ail, nad oedd y cospedigaethau hyn yn anaddas i drugarogrydd a doethineb Duw, nac yn anghytunol â threfn ei lywodraeth ef, a'i ragluniaeth.

1. Pan becho gwlad yn erbyn y Gorchaf trwy wneuthur camwedd, ac os pâr

† Edr. Gen. xv. 13---16.

eife ddaeargryn, neu dân, neu bla, neu haint y nodau, ddifetha ei thrigolion; nid oes neb yn achwyn ar ei greulondeb ef, na'i anghyfiawnder. Ni ddichon neb gan hynny, wrthddadlu yn erbyn cosp neu ddistryw y Canaaneaid; ond ar y *modd* o wneuthur hynny y mae rhai ynfydion yn tafu gwarth a dirmyg. Eithr os ydyw y peth ei hun yn gyfiawn, nid yw'r modd y gwneler ddim, i.e., hyd yn oed i'r goddefwyr eu hunain. Canys pa le y mae'r rhagoriaeth iddynt gael eu dinystrio naill ai trwy ddaeargryn, neu dân, neu bla, neu haint y nodau, neu drwy ddwyllaw gelynion? Ie, pa le y mae'r rhagoriaeth yn ein golwg amherffaith ni o gyfiawnder Duw?—Ond odid chwi a ddywedwch: “Na byddo i farnydd yr holl ddaear ladd y cyfiawn gyd â'r annuwiol? Nid arbedodd cleddyf Josua a'r Israeliaid na gwagedd na phlant.”\* —Ac onid yw hyn yn digwydd ym mhob ymweliad teyrnasol? Oni wnaethai ddaeargryn, neu dân, neu bla, neu haint y nodau, yr un peth? Ac y mae'r un peth yn digwydd hefyd ym marwolaethau cyffredin a naturiol. Duw sydd yn cymmeryd ym-aith y bywyd a roddodd heb ystyried [am:

\* Edr. Gen. xviii. 24, 25. Jos. x. 40.

ddim a wyddom ni] na da na drwg, na henaint nac ieuengctid. Eithr fe a ddywaid rhyw un ym mbellach, "Pa fodd y gellir credu, y gwnaethai yr Hollalluog, "Tad y trugareddau a Duw pob diddanwch," y cyfryw laddfa ddychrynlyd?"—Yn hytrach, O ddyw, pwy wyt ti, yr hwn a ddadleui yn erbyn barnedigaethau y Goruchaf, y rhai oll sy'n peri ofn a dychryn, pan ddelo'r Arglwydd allan o'i fangre i ymweled ag anwiredd preswylwyr y ddaear?†

2. Ystyriwn reswm arall am wneuthur o Dduw y cyfryw farn ofnadwy drwy ddwy-law'r Israeliaid. Mae'n dra hyspys nad oedd y Cenhedloedd yn meddwl ond ychydig am eu duwiau, os nad allent roddi buddugoliaeth a goruchafiaeth iddynt yn nydd brwydr. Ym mha fodd, gan hynny, yr oedd i'r bobl o'u hamgylch wybod, fod Arglwydd Dduw Israel yn fwy na'r holl dduwiau, ac yn casâu ffeidd-dra trigolion Canaan, ond trwy wneuthur i'r Israeliaid orchfygu eu holl elynion! Hyn oedd yn dangos nad oedd duwiau y Cenhedloedd ddim ond gwaith dwylaw dyn, ac yn cymmell pawb i ddywedyd: "O Arglwydd Dduw Israel, nid oes Duw fel ty-

† Edr. Rhuf. ix. 20. ac Is. xxvi. 21.‡

di, yn y nefoedd oddi uchod, nac ar y ddaear oddi isod, yn cospi ac yn dadweiddio y sawl a ymwerthasant i wneuthur dim ond drygioni, eithr yn cadw cyfammod a thrugaredd â'rh weision sydd yn rhodio ger dy fron di a'u holl galon."\*— Ni fuasai dim o hyn yn ymddangos mor eglur oddi wrth bla, neu haint y nodau, neu ryw wrthwyneb arall. Ond yma yr oedd nerth a braich y Goruchaf yn dra amlwg.

3. Y mae rheswm cadarn arall am y fath ddinystre echrystlon. Y mae pob gweithred ddrwg, yn euwedig gweithredoedd annuwioldeb a thrythyllwch yn beryglys iawn, ac yn dra gwenwynol. "Y mae ymddiddanion drwg," medd S. Paul, "yn llygru moesau da. A thrachefn: Y mae ychydig lefain yn lefeinio'r holl does."† Am hynny nyni a welwn fod Duw yn gorchymyn i Moses a'r Israeliaid yn bendant— "A chadw arnat, rhag gwneuthur cyfammod â phreswylwyr y wlad yr wyt yn myned iddi; rhag eu bod yn fagl yn dy blith‡— Ond gan ddifrodi difroda hwynt; fel na ddysgont i chwi wneuthur yn ol eu holl

\* Edr. 1 Bren. viii 23. ac 2 Bren. xvii. 17—24.

† 1 Cor. xv. 34. Gal. v. 9. ‡ Ecs. xxxiv. 12.

ffieidd-dra hwynt, y rhai a wnaethant i'w duwiau, a phechu o honoch yn erbyn yr Arglwydd eich Duw."§

4. Eithr, i ddibennu'r cyfan, wrth ddarlain o honom hanes rhyfeloedd a gorucha-fiaeth yr Israeliaid yng Nghanaan yn yr Hên Destament, a'r distryw erchyll a wnaethant ar holl drigolion y wlad, cofiwn ein bod yn darllain barn yr Hollalluog yn erbyn Cenhedloedd drygionus ac ysge-ler, y rhai yr oedd Duw yn ewyllysio eu dangos i'r holl Fyd megis siamplau hynod o'iddigofaint ymddialgar yn erbyu y cyfryw bechodau cywilyddus; pechodau, y rhai, pe buasent yu cael llonyddwch i gyunyddu, a halogasant yr Hên Fyd ac a'i gwnaethent ef cyn ddihibred â'r Byd o flaen y Dilaw, "pan oedd holl fwriad meddylfryd calon Dyn yn unig yn ddrygionus bob amser."|| Cofiwn hefyd fod y blinderau hynny wedi cael eu datgan megis *cospedigaethau* yn erbyn y cyfryw bechaduriaid anedifeiriol; fod Duw wedi bod yn ymarhös tu ag at-tynt; na wnaeth efe moi farn yn eu her-byn hyd oni *chyflawnwyd* eu hanwireddau hwynt; nad oedd cenhedl Israel ddim ond

§Deut. xx. 17, 18. ||Gen. vi. 5.

offeryn yn llaw y Goruchaf i gospi a dadwreiddio y fath bechaduriaid ysgeler; a bod y cyfryw gopedigaethau dinystriol, y rhai yn wir a allesid eu gwneuthur drwy haint y nodau neu dân, neu ddaeargryn, wedi cael eu gwneuthur drwy ddwylaw yr Israeliaid, megis y modd goreu a'r mwyaf eglur i ddangos gallu a chyfiawnder. Arglwydd Dduw Israel; sef, ei allu ofnadwy goruwch holl dduwiau ynfyd y Cenhedloedd, a'i gyfiawnder yn cospi y drygioni echryslon; yr hyn sydd gas gan yr Arglwydd ein Duw.

Dyna'r athrawiaeth, dyna'r addysg sy'n tarddu oddiwrth yr hanes uchod! Ac os cofiwn yr ystyriaethau hyn, nyni a allwn ddeall yn well amryw fannau o'r Hên Testament, a'u gwneuthur hwy yn fwy buddiol i'n hiachawdwriaeth dragywyddol. Eithr y peth mwyaf pwysfawr o'r cwbl, yr hwn sydd yn deilliaw yn naturiol oddiwrth yr hanes, yw rhybudd hynod ein **Hiachawdwr: ONID EDIFARHEWCH, CHWI A DDIFETHIR OLL YN YR UN MODD.\*** Cofia, O Ddyn, y rhybudd arswydus hwn! "A bydded y geiriau hyn yn dy galon: a

\*Edr. Luc xiii. 3.

lyspysa hwynt i'rh blant; a chrybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fynu."†— Duw Hollalluog a roddo i ni ras i osod y pethau hyn yn ddifrifol at ein calonau, trwy Iesu Crist ein Harglwydd. Amen.

†Edr. Deut. vi, 6, 7.





## P R E G E T H V.

Y CYFIAWN A OBEITHIA, PAN FYDDO YN MARW.



## RHUFEINIAID v. 10.

*Os, pan oeddym yn elynion, y'n heddych-  
wyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef;  
nary o lawer, wedi ein heddychu, y'n hachubir  
trwy ei fywyd ef.*

*If, when we were enemies, we were re-  
conciled to God by the death of his Son;  
much more, being reconciled, we shall be  
saved by his life.*



**O**S gofynnir pa beth yw gobaith y  
Cristion, efe a ettyb yn ebrwydd ei fod yn  
disgwyl rhan o ddedwyddwch ar ol marw-  
olaeth, mewn cyffelybiaeth i ba un, nid yw'r  
byd presennol ond gwagedd, a llai na gwag-  
edd. Yma yr ydym yn anadlu, megis yng  
nghanol llygredigaeth a halogrwydd; a'r  
pethau goreu yr ym yn eu mwynhâu a ellir  
eu gŵyrdroi, naill ai'n offer neu'n achosion

pechod. Y mae Anrhydedd yn tentio i falchder, Cyfoeth ac Awdurdod i orthrymder, a Helaethrwydd i gnawdolrwydd a gormodedd. “Jeshurun a aeth yn frâs ac a wingodd: yna efe a wrthododd Dduw, yr hwn a'i gwnaeth; ac a ddiystyrodd Graig ei iachawdwriaeth.”\* Ond er i ddynion ochel halogrwydd pethau daearol, trwy eu harferu hwynt yn gymmedrol ac i'r diben y rhoddwyd hwynt; etto y maent mor anwadal a darfodedig, fel nad eill un dyn addaw iddo ei hun eu parhâd. Pwy a ryfyga ddywedyd, “Y mae cryfder yn fy mynydd, ni'm syflir yn dragywydd.”† Pwy a ddichon warchad bob amser rhag twyll dirgel a thrais cyhoedd! Ie, fe ellir arfogi'r elfennau, sef, y gwynt, y tân, a'r dwfr, a grym digonol i'ngwahau ni mewn munud oddiwrth y goreu o'n meddiannau bydol. Fel hyn y mae pob peth yna isod yn llygr-edig, yn anwadal, a darfodedig.

Nid felly y mae rhan y Cristion cywir! Y mae'r etifeddiaeth y mae efe yn ddisgwyl “yn etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflannedig, ac ynghadw yn y nefoedd iddo ef; ‡ sef, lle o gwbl ddiogelwch, allan o gyrraedd pob gelyn, wedi ei sicrhâu yn

\* Edr, Deut. xxxii. 15. † Salu xxx. 67. ‡ 1 Pedr i. 4.

yr un modd rhag twyll a thrais. “Y cyfryw, fe eill pob gwir gredadyn ddywedyd, yw gwrthddrych fy ngobaith!” Os ymofynnir am sylfaen y gobaith hwn, mae'r ateb yn barod yng ngeiriau'r testun: “Canys os, pan oeddyd yn elynion, y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef; mwy o lawer, wedi ein heddychu, y'n hachubir trwy ei fywyd ef.”

Y mae'r Apostol yn profi yn helaeth effaith marwolaeth Crist yn y rhan gyntaf o'r Epistol hwn; ac yn y geiriau hyn y mae'n barnu fod mwy o effaith yn ei fywyd adferedig: *ie, ei fywyd adferedig*, meddaf; canys y bywyd y mae'n feddwl yma nid yw y bywyd oedd ganddo cyn ei groeshoelio, yr hwn a arweiniodd efe ar y ddaear “mewn agwedd gwas;” ond y bywyd sydd ganddo yr awrhon ar ddebenlaw Dduw, lle y dyrchafwyd ef ar orseddfaingc megis Tywysog ac Iachawdwr, wedi “rhoddi iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw IESU y plygai pob glin o'r nefolion, a'r daearolion, a thanddaearolion bethau: ac y cyffesai pob tafod fod IESU GRIST yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad.”\*

Yr unig egwyddor y mae'r Apostol yn

\* Phil. ii. 9—11

gymmeryd yng ngeiriau'r testun yw'r hon sydd raid i bawb ei haddef; sef, bod ymheddychu â gelyn yn anhaws ymarfer o ddaioni, na gwneuthur cymmwynas i gyfaill. Fel hyn y mae'n ymresymmu: Os oedd ym *marwolaeth* Crist riawedd ddigonol i ddwyn ym mlaen yr effaith mwyaf, sef, cymmød i'r rhai oedl gynt yn elynion; nid oes lle i ammau y bydd *bywyd* Crist yn ddigonol i ddwyn ym mlaen yr effaith leiaf: i.e., yr effaith leiaf, meddaf, mewn perthynas i'w anhawsdra; sef, parhâd o gariad a daioni Duw i'r rhai a heddychwyd trwy farwolaeth Crist, hyd oni ddygo hwynt mewn amser dyladwy i lawn feddiant o'r etifeddiaeth a brynodd efe iddynt ar y Groes.

Dywedwch, gan hynny, onid ellir yn gyfiawn alw gobaith Cristion yn obaith rhesymmol; neu, fel y mae S. Paul yn ei alw yn y bummed adnod o'r Bennod hon, "Gobaith ni chywilyddia?" Ac onid eill y credadyn ateb, gyd â gorfoledd sanctaidd, i bob un a ofynno iddo reswm am y gobaith sydd ynddo,† "Os, pan oeddwn yn elyn, ym heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef; mwy o lawer, wedi fy heddychu,

†1 Pedr iii. 15.

y'm hachubir trwy ei fywyd ef? Ei farwolaeth ef oedd pris yr etifeddiaeth yr wyf yn disgwyl am dani; a'i fywyd adferedig yw fy nhystiolaeth ddarfod derbyn y pris hwnnw, a'r pryniad a wnaethpwyd. Y mae hyn yn gwneuthur fy ngobaith yn gadarn ac yn siccr. Pe buasai'n sefyll ar ddiun ynof fi fy hun; ar nerth, doethineb, neu deilyngdod y creadur, fe fuasai'n diflannu yn fuan: ond gan ei fod yn sefyll arno Ef, yr hwn a gyfododd o'r bedd ac na bydd marw mwy, ie, yr hwn a esgynnodd i'r uchelder, gan gaethiwo caethiwed, ac sydd yr awrhon ar ddeheulaw Dduw; y mae fy ngobaith gan hynny "megis angor i'r enaid, yn ddiogel ac yn siccr."\* Canys y Tad "a'i cyfododd ef oddiwrth y meirw, ac a roddodd iddo ogoniant, fel y byddai ein ffydd ni a'n gobaith yn Nuw."† Wele yma obaith y Cristion!

Ond cofiwch, nid eill neb gyfaddasu y rhesymmau hyn attynt eu hunain ond y sawl sydd eisoes "wedi eu heddychu â Duw trwy farwolaeth ei fab ef." Yma y mae gobaith y pechadur yn dechreu. A phwy a eill ddywedyd ddarfod ieddo brofi y ffrwyth bendigedig hwn o farwolaeth y

\*Heb. vi. 19. †1 Pedr i. 21.

**Prynwr?** Eithr, er ein cynnorthwyo yn y cyfryw achos pwysfawr, ystyriwn, mewn ychydig eiriau, rai o'r graddau pennaf, trwy ba rai yn gyffredin yr arweinir y Cristion edifeiriol gan Yspryd Duw i fywiol undeb gyd â'r Arglwydd Iesu, "yr hwn a wnaethpwyd gan Dduw i bawb oll sy'n wir gredu ynddo, yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth."§

Y mae yn ddiammau argyhoeddiad dwfn o euogrwydd a thrueni yn sefyll wrth wreiddyn edifeirwch ddiffuant. Mae'r pechadur yn ei weled ei hun yn halogedig a digymmorth, heb ddim i'w gysgodi oddiwrth ddigofaint yr Hollalluog, yr hwn a ddigiodd. Mae hyn yn ei gymhell i edrych o'i amgylch am ymwarded. Mae digofaint Duw "yn anrhaith ei oddef." Pwy o honom a drig lle "y bydd wylofain a rhingcian danedd?" Ac, er y gŵyr ei fod yn haeddu cospedigaeth, etto y mae ofn am dano ei hun, sef, yr egwyddor gref a blannodd Duw yn ei natur, yn peri iddo ofyn, A oes gobaith? A oes dim cynnorthwy i'w gael?

Ie ddichon rhai ysgafnhâu eu beichiau trwy ryw ddychymmygion ofer o'u beiddo

§ Edr. 1 Cor. i. 30.

eu hunain. Eithr yr hwn sydd dan lywodraeth Yspryd Duw, po mwyaf yr ystyrio ei gyflwr; mwyaf gwael ei cennydd. Yn wir, y mae'n gofyn — “Pa beth a wna? Ni allaf wneuthur dim; neu, pe gallwn wneuthur rhyw beth, pa lesâd a fyddai i mi? A wna'r ddyledswydd sydd arnaf eisoes ryw iawn am fy mhroseddau o'r blaen?”

Mewn gair, y mae'n edrych o'i amgylch, ond ni ddichon weled dim yn yr holl gredigaeth y gallo hyderu arno am waredigaeth. Pan ddelo i'r cyflwr hwn y mae'n gwranddo yn awyddus ar y newyddion am Achubwr o'r nef. Mae'n clywed yr enw IESU mewn modd amgen nag y darfu iddo erioed o'r blaen. Pa lawenydd a fydd yn ei galon, pan glywo fod Duw Hollalluog yng Nghrist yn cymmodi'r Byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau?\* Ond nid yw ddigon ganddo gael hanes cyffredin o'r cyfryw Iachawdwr. Mae'n edrych ar ei *awdurdod* ef, ac y mae'n dra hyfryd ganddo ddarllain y geiriau hyn, ac amryw eraill o'r un ystyr: “Myfi yr Arglwydd a'th elwais mewn cyfiawnder, ac a ymaflaf yn dy law: cadwaf di hefyd, a rhoddaf di yn Gyfammod pobl, ac yn oleuni cenhedloedd;

\* Edr. 2 Cor. v. 19.

i agoryd llygaid y deillion, i ddwyn allan y carcharor o'r carchar, a'r rhai a eisteddant mewn tywyllwch o'r carchardy.\* Mae'r pechadur edifeiriol yn llawenyachu hefyd wrth glywed y Tad ei hun yn cyhoeddi yn eglur o'r nef, yn gyntaf ym medydd ein Hiachawdwr, ac wedi hynny pan weddnewidiwyd ef, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd."† Yna y mae'n myned ymmlaen i ystyried ei gymmwysdra i swydd a gwaith Iachawdwr, megis y Gair Tragywyddol a wnaethpwyd yn Gnawd; ac yn edrych ar holl hanes ei weithredoedd a'i ddiodefaint. Mae'n ei weled yn offrwm ei hun yn aberth i gyfiawnder Duw, ac yn ei glywed ef yn lletain ar y Groes, GORPHENNWYD.|| Ac, o'r diwedd, y mae efe yn ei weled ef yn cyfodi o'r bedd, ac yn dyrchafu i'r uchelder i dderbyn y deyrnas, lle y mae'n byw bob amser i eiriol dros droseddwyr edifeiriol, ac i gyfrannu y rhoddion a brynodd â'i waed, "gyd â phob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear."‡ Ië, oddiwrth yr hyn oll y mae'r Cristion yn canfod achos cyfiawn i'farnu, y dichon y cyfryw Waredwr "yn

\* Is. xlii. 6, 7. † Matth. iii. 17. xvii. 5. || Edr. Preg. XXII.

‡ Matth. xxviii. 18.



gwbl iachâu y rhai trwyddo ef sy'n dyfod at Dduw."§ Hyn y mae'r Apostol, yn union ar ol y testun yn alw **DERBYNIAD Y CYMMOD**; o herwydd yna y gwneir y pechadur yn gyfrannog o aberth Crist, a'i waed a daenellir drosto, i'w gysgodi a'i gadwrhag y digofaint ofnadwy, yr hwn yn niwedd y byd a ysa holl elynion Duw.

Pwy, gan hynny, yn ein plith a ddichon ddywedyd, ddarfod iddo deimlo'r cyfrywras yn gweithio ar ei galon? Eithr, er annogaeth i'r sawl sydd fel hyn wedi ymheddychu â Duw trwy Farwolaeth ei Fab ef, ystyriwn effaith galluog *bywyd* Crist ar bob peth sy'n perthyn i gyflawn orphen ein hiachawdwriaeth dragywyddol.

1. Cyfiawnhad Cristionogion, yr hwn a brynwyd trwy farwolaeth Mab Duw, a wneir yn siccr ac yn barhaus trwy ei fywyd adferedig ef wrth ei adgyfodiad. "Crist yw yr hwn a fufarw, i.e, yn hytrach, yr hwn a gyfodwyd hefyd; yr hwn hefyd sydd, ar ddeheulaw Dduw, yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom."\* O ba le y dichon barn damnedigaeth ddyfod? Beth, ai oddi wrth yr orseddfaingc, i'r hon y cyfodwyd ein Prynwr wedi ei groeshoelio, fel y gallo

§Heb. vii. 25. \*Rhuf. viii. 34.

gyfrannu'r maddeuant hwnnw a brynodd â'i werthfawroccaf waed? Na atto Duw. Canys y mae efe yr awrhon wedi myned i mewn i'w ogoniant i achub y sawl, mewn ufudd-dod i orchymmynion ei Dad, a ffoant atto ef am noddfa. Fel y gogwyddodd ei ben ar y groes i wneuthur iawn am ein heuogrwydd ni, felly efe a'i dyrchafodd i, fynu drachefn, pan gyfododd o'r bedd, fel y gallai yn effeithiol gymmhwyso haeddiant ei aberth, a gwneuthur boddlondeb am bob peth a ddygid yn erbyn ei bobl briodol, y rhai ydynt awyddus i weithredoedd da.†

2. Ac, ym mbellach, nid yw bywyd Crist o ddim llai grym a lles tu ag at *sancteiddiad* pawb a gredant yn yr Efengyl. Canys i ba ddiben yr aeth efe i mewn i'r Cyssegr Nefol, ond fel y gallai oddi yno ddanfôn yr Yspryd Glan i buro calonau y rhai a olchasai efe â'i waed, fel na adewid euogrwydd i gyffroi sancteiddrwydd a chyflawnder Duw? Crist, yn y diwedd, a gyflwynna i'w Dad "eglwys ogoneddus, heb arni na brychenyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw."\* Nid aeth ein Hiachawdwr i'r nef i adael i'r gwaed gwerthfawr a dywalltodd,

† Edr. Tit. ii. 14. \* Ephes. v. 27.

ar y ddaear hon, i fyned yn ofer, neu i esgeuluso cynnyddu rhinwedd ei aberth. Y weddi honno—"O Dad, sancteiddia hwynt yn dy wirionedd"† sy'n seinio cyn uchedd â'i orseddfaingc ardderchog, ag oedd o'r droedfaingc, pan oedd am ddechreu ei loesau a'i ddiodefaint. Yr hyn a weddiodd am dano yn ei ymostyngiad, y mae ganddo allu i'w roddi yn ei gyflwr dyrchafedig; ac fe fydd siccr o wneuthur hynny i bawb a ymddiriedant ynddo, ac ufuddhânt iddo. Efe, bob yn ychydig, a'i haddurna hwynt â phrydferthwch sancteiddrwydd, ac a'i ceidw hwynt â'i allu trwy ffydd i iachawdwriaeth.

3. Y mae *bywyd* Crist hefyd yn sicrhau yn effeithiol derfyn anrhydeddus ar holl drallodau a phrofedigaethau ei bobl. Yr un Iachawdwr Bendigedig ag a groeshoeliwyd ar y ddaear sydd yr awrhon wedi ei goroni â gogoniant yn y nefoedd uchaf. Mae efe wedi dwyn ei natur dosturiol i'r nef; y mae o hyd yn teimlo ein gwendid, ac yn barod i'n cymmorth ym mhob amser cyfyngder. "Ni ddryllia gorsen ysig, ac ni ddiffydd lin yn mygu.‖ Efe a edwyn ein defnydd ni; ac y mae'n cofio, mai llweh ydym.‡§

† Edr. Ioan xvii. 17. ‖ Is. xlii. 3. § Salm ciii. 14.

4. Ac, yn ddiweddaf, y mae *bywyd* Crist yn sicrhâu i'w bobl ef adgyfodiad eu cyrph, a dedwyddwch yr holl ddyn, mewn cyflawn a thragywyddol fwyhâd o Dduw. Fel yr aeth Adda trwy ei wrthgiliad yn achos o farwolaeth ei holl hiliogaeth naturiol, felly Crist, trwy ei ddioddefaint cymmodol a'r gogoniant a ganlynodd hynny, ydyw fflwynon bywyd i'w bobl ysprydol. Fel hyn y dywedir iddo "yn ol ei fawr drugaredd ein hadgenhedlu ni i obaith bywiol, trwy ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, i etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig."\* Oddi yna y gelwir yr ail Adda yn Yspryd yn bywhau,† a chanddo'r un rhinwedd ac effaith i roddi pob cyflawnder bywyd i'r sawl a ail-anwyd i deulu Duw, ag a oedd gan yr Adda cyntaf i drosglwyddo marwolaeth i'w hiliogaeth yntau. Nid enaid Crist yn unig, ond ei gorph hefyd, a ddyrchafwyd ac a goronwyd ag anrhydedd. Yn yr un modd y gwaredir Cristionogion o'r bedd, ac eu cyfodir i ogoniant, gan ddarfod i Grist brynu eu cyrph yn gystal a'u heneidiau. Ie, fe elwir cyrph y Saint yn "DEMLAU'r Yspryd Glan;" ac nid ellir meddwl y gadewir y Ttemplau hyn

\*1 Ped. i. 3. 4. †1 Cor. xv. 45.

bob amser dan lywodraeth angau. Efe, yr hwn a'u hanrhydeddodd hwynt â'i breswylfod ei hun, yn ddiammau a'u hail-adeilada hwynt mewn amser cyfaddas, fel yn wir y mae'r Apostol yn ymresymmu: "Os Yspryd yr hwn a gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch, yr hwn a gyfododd Grist o feirw a fywiccâ hefyd eich cyrph marwol chwi trwy ei Yspryd, yr hwn sydd yn trigo ynoch. Canys os buom feirw gyd â Christ, yr ydym ni yn credu y byddwn fyw hefyd gyd ag ef."\* Y dydd hwnnw y cenir â llef gorfoledd gan y rhai oll a brynwyd, newydd gyfodi o feirw, "O Angau, pa le y mae dy golyn? O Uffern, pa le y mae dy fuddugoliaeth? Colyn Angau yw Pechod, a grym Pechod oedd y Gyfraith. Ond Angau a lyngcwyd mewn buddugoliaeth! Canys, i Dduw y buddo'r diolch, efe a roddodd i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist."† Amen ac Amen.

\* Rhuf. vi. 8. viii. 11. † 1 Cor. xv. 54—57.



**P R E G E T H VI.**

**F MAE GWENDID DUW YN GRYFACH NA DYN.**



**RHUFENIAID VIII. 31.**

*Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n  
kerbyn?*

*If God be with us, who can be against us?*



**O**DDIWRTH y geiriau hyn ystyr-  
iwn, yn gyntaf, y RHAGORFRAINT y mae  
Crist yn ei rod-di i'w weision; yn ail, DDI-  
BENION y cyfryw ragorfraint; ac yu ddi-  
wed-daf, y DEFNYDD a ddylid wneuthur  
o'r fath ystyriaethau.

I. Y mae'r cwestiwn yn y testun yn  
arwyddocau fod Duw yn gyfaill i ni.  
Hyn yw meddwl isaf y geiriau: ac etto, pwy  
a all ddywedyd, ie, pwy a ddichon amgyff-  
red pwys a gwerth yr unig fendith hon?  
Bod mewn heddwch gyd â Duw, tad ein  
hysprydoedd ni, ar yr hwn yr ydym yn

wastad yn hyderu am ein bywyd a phob peth oll, pa mor hyfryd yw y meddwl i bob rhyw ddyn ystyriol! A pha mor druenus yw bod mewn cyflwr gwrthwynebol i hyn.

Ond y mae'r ymadrodd yn cynnwys uwch meddwl: y mae nid yn unig yn arwyddocâd fod Duw wedi cymmodi â ni, ond ei fod hefyd yn cymmeryd ein plaid er daioni i ni. "Y mae Duw trosom!" Hynny yw, y mae'n arferu ei berffeithrwydd er ein diogelwch a'n dedwyddwch. Y mae'n "maddeu i ni yr hyn oll a aeth heibio;" y mae'n tosturio wrthym, ac yn ein hamddiffyn yn erbyn ein gelynon. Mae efe yn ein cadw ni fel canwyll ei lygad.\* "Beth gan hynny a ddywedwn ni wrth y pethau hyn?"† Hawdd y gallai Balaam dorri allan: "Nid oes swyn yn erbyn Jacob, na dewiniaeth yn erbyn Israel: canys yr Arglwydd ei Dduw sydd gyd ag ef, ac y mae udgorn-floedd breubhin yn eu mysg hwynt."‡

Y mae y rhagorfraint hwn yn perthyn yn gyffredin i bawb ag sydd yn credu yug Nghrist. Arglwydd y lluoedd yw eu ceidwad yn gystal â'u cyfaill hwynt. A pha beth nad allant ddisgwyl gan eu Tad Nefol?

\* Edr. Deut. xxxii. 10. Zech. ii. 8. † Rhuf. viii. 31.

‡ Num. xxiii. 21. 23.

Ei ddoethineb sydd anfeidrol, ei allu sydd anorchfygol, "ei drugaredd sydd yn dragywydd, a'i wirionedd a bery o genhedlaeth i genhedlaeth byth."\*

Heblaw hyn y mae efe yn Dduw i ni mewn Cyfammod, a chwedi gwystlo ei wirionedd a'i ffyddlondeb am bob bendith sydd arnom eisiau. Mae'n gyssur mawr i ni wybod fod Duw nid yn unig wedi cymodi â ni, ond ei fod hefyd o'n tu, ac yn barod i wneuthur daioni i ni. Er hyn i gyd, fel y dichon Ammheuaeth, o blegid teimlad o'n heuogrwydd, wneuthur i ni feddwl y dichon rhyw ddamwain nad allwn ei rhagweled ein taflu ni allan o'i nodded ef, "Duw gan hynny, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gyngor, a gyfryngodd trwy lw; fel, trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn ammhossibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cyssur cryf, y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen; yr hwn sydd gennym ni, megis angor yr enaid, yn ddiogel ac yn siccr."†

Duw a ddywedodd yn eglur pa beth y mae ar fedr wneuthur. Efe a roddes ei

\* Salm c. 4. † Heb. vi. 17—19.



amcanion trugarog ar ddull Cyfammod, ac a'i traethodd hwynt allan trwy amryw addewidion grasol; trwy gymmorth pa rai nyni a allwn ddal gafael ar ei wirionedd, ac ymbil er anrhydedd y Duwdod am bob bendith sydd arnom eisiau. Y mae y Cyfammod hwn hefyd wedi ei selio â gwaed ei briod Fab ei hun; ac o blegid hyn y gelwir ef weithiau **TESTAMENT**; neu Weithred, yr hon nid ellir ei ddiddymmu, wedi ei gwn-euthur yn siccr ac anghyfnewidiol trwy farwolaeth y **TESTAMENTWR**. Yma y gosodir y sylfaen gadarnaf i'n Ffydd a'n Gob-aith: ac, fel y byddo ein llawenydd yn gyflawn, efe a ordeiniodd Sacrament y Cymryn Bendigaid; yu yr hwn y rhoddir gwystlon gweledig o'i gariad rhyfeddol yn ein dwylaw; a thrwy Fara a Gwin, "yr arwyddion gosodedig o Gorph y Prynwr wedi ei dorri, a'i waed wedi ei dywallt," Crist a holl fanteision ei ddioddefaint a ddangosir, a selir, ac a gymhwysir at y rhai sy'n credu yn yr Efengyl, ac yn cadw ei gorchymynnion sanctaidd.

Yr ychydig hanes hwn a ddichon roddi i chwi ryw olwg ar feddwl a gwerth y **RHAG-ORFRAINT** rhyfeddol y mae Crist yn ei roddi i w weision: "y mae Duw trosom"—y mae'n gyfaill i ni—y mae'n Dduw i ni trwy

Gyfammad, ac a roddes i ni bob siccrwydd caredig a'r a allai ein calonnau ddymuno am bob peth a wnai wir ddaioni i ni. Yn yr holl berthynasau hyn y Cristion a all ddywedyd fod "Duw drosto."

II. Ystyriwn, yn ail, DDIBENION y rhagorfraint gogoneddus hwn, neu'r hyn y mae'r Apostol yn gasglu oddi wrtho; sef, "Pwy a all fod i'n herbyn?" Hyn a wneir mewn ffordd o ofyniad. Mae S. Paul yn enw pob gwir gredadyn, yn gofyn gyd â hyder gwaethaf daear ac uffern, ac yn gorfoleddu yn siccrwydd ei ddiogelwch a'i ddedwyddwch. Ond yma nid ellir meddwl fod gweision yr Arglwydd heb elynion; canys hyn a fyddai yn anghyttunol a chyflwr o brofiad, ac nid yw yr Ysgrythur yn rhoddi cennad i ni ddisgwyl dim o'r fath beth. Eithr, yn y gwrthwyneb, nyni a ddarlleannwn, "mai trwy lawer o orthrymderau y mae'n rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw."\* Ac ni dderfydd ymdrech Cristionogion hyd y dydd mawr hwnnw, yn yr hwn y daw y Barnwr Hollalluog, ac y gwneir ei elynion yn faingc i'w draed.†

Eithr, yn y cyfamser, ni fydd neb o weision Duw i'n herbyn; ac y mae eu hewyllys

\* Act. xiv. 22. † Salm cx. 1.

da hwynt yn ddymunol. Pa barch neu goel sy ddyledus i farn y rhai nad ydynt yn gweled dim prydferthwch yn Nuw ei hun; yn enwedig, pan nad ydyw eu gelyniaeth yn ein herbyn ni ond effaith naturiol eu cyndynrwydd? “Os yw'r Byd yn eich casau chwi,” medd ein Hiachawdwr wrth ei ddilynwyr ffyddlon, “chwi a wyddoch gasau o hono fyfi o'ch blaen chwi.”<sup>‡</sup> Beth, a ddylai un dyn doeth fod yn anesmwyth o blegid hynny? Ië, pe edrychem ar ein gelynion fel hyn, nyni a'u gwelem yn wrth-ddrychau o dosturi yn hytrach nag o ofn neu ddigter; a phrin y teimlem ryw niweid bychan a fedrent wneuthur i ni, pan ystyr- iem yr anfeidrol mwy drwg y maent yn ei wneuthur iddynt eu hunain.

Ond, ym mhellach, “os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?” Ië, pwy a ddichon ein llwyr orchfygu, neu ddwyn oddi arnom y gogoniant a'i dedwyddwch yr ydym yn ddisgwyl? Yn wir, pe byddai diogelwch Cristionogion yn sefyll ar eu gallu eu hunain i ddal gafael ar Dduw, ychydig ddichell a allai wneuthur iddynt ollwng eu gafael arno, a'n tynnu oddiwrtho. Ond y mae Duw ei hun yn eu gwarchad hwynt;

<sup>‡</sup>Ioan xv. 18.

ae yma, i.e. *yma* y mae eu diogelwch yn sefyll. Y maent wedi eu cyssylltu ag ef “trwy waed y Cyfammod Tragwyddol;” a chyn y gellir eu tynnu oddiwrtho, rhaid yn gyntaf ddiddymmu'r Cyfammod, a throi yn ol anghyfnewidiol ewyllys Duw. Am hynny da y gallai'r Apostol ddywedyd: “Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist? Ai gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf? Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr, trwy'r hwn a'n carodd ni. Canys y mae yn ddiogel gennyf, na all, nac angau, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddiannau, na phethau presennol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.†”

Fel hyn yr agorais feddwl cyssurus y cwestiwn hwn—“Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?”—Ac wrth fyfyrion ar y pethau rhagorol hyn, pwy a ddichon beidio a llefain allan gyd a'r Salmydd—“Gwyn eu byd y bobl y mae felly iddynt?”

† Rhuf. viii. 35—39.

Gwyn eu byd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt?\*" Eithr y bobl eid yw'r Arglwydd yn Dduw iddynt, y rhai sy'n anghofio eu Creawdwr, ystyriant yn ddifrifol rhag iddo eu rhwygo, ac ni bydd achubydd.† Pwy a'u gwna'n ddedwydd, os dywed Duw eu bod yn druenus? Pwy a rydd esmwythdra, os par efe flinder? Pwy a all eu hamddiffyn rhag ei gyflawnder ef; ac, och, pwy a'u cynnal dan bwys ddial y y Goruchaf? Er mwyn eu Hiachawdwr Bendigedig, ie, er mwyn eu heneidiau anfarwol, cymmerant olwg manwl ar eu cyflwr, a dychwelant yn fuan at eu Prynwr tosturiol, yr hwn etto sydd yn estyn ei freichiau allan i'w derbyn. Eu hunig noddfa yw Crist a'r Duw Tragywyddol.§

III. Yr hyn sy'n ol i'w ddywedyd ar y testun hwn yw, yn y lle diweddaf, rhoddi ŷchydig o hyfforddiadau ynghylch yr YMARFER a'r DEFNYDD a ddylid wneuthur o hono. Ac i chwi, y rhai ydych eisoes, fel yr wyf yn gobeithio, yn Gristionogion cywir, gall yr ychydig gynghorion canlynol fod yn wasanaethgar.

1. Edrychwch rhag diystyru eich gelyn-

\* Ebr. Salm cxliv. 15. † Mich. v, 8. § Deut. xxxiii. 27.

ion; canys hynny a'ch bradycha i ddiogelwch a diofalwch. Cofiwch, er gwanned ydynt mewn cymmharïaeth â Duw, etto, ynddynt eu hunain, y maent yn gryfion; yn gymmaint a phe gadawai Duw iwch, amddiffyn eich hunain, hawdd a buan y caech eich gorchfygu. Gwir ydyw fod Duw, "yn ol ei ragwybodaeth ef," wedi eich "rhaglunio chwi i fod yn un ffurf â delw ei Fab ef, ac yn etholedigion;" neu, mewn geiriau eraill, wedi eich "galw" chwi, i fod yn Gristionogion; ac efe a'ch "cyfiawuha ac a'ch gogonedda" chwi hefyd, os cyflawnwch ammodau yr Efengyl.† Canys yr "Ysgrythur, yn rhagweled mai trwy ffydd y mae Duw yn cyfiawnhau'r Cenhedloedd, a ragefengylodd i Abraham, gan ddywedyd, Ynot ti y bendithir yr holl Cenhedloedd."§ Eithr nid pawb "a alwodd efe" sy'n cyflawni ammodau Efengyl Crist. Nyni, gan hynny, a ddylem ein hammau ein hunain bob amser, a chymmeryd cyn-gor yr Apostol— "Yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio"||— A thrachefo: "Na fydd uchelfryd, eithr ofna:

†Edr. 1 Pedr i. 2. §Gal. iii. 8. ||1 Cor. x. 12.

nanyis onid arbedodd Duw y canghennau natturol, gwilia rhag nad arbedo dithau chwaith.”¶

2. Ond, yr un amser, fel na ddylem ddiystyru ein gelynion, felly ni ddylem eu hofni hwynt. Y mae gwir dymmer cristionogol yn sefyll rhwng y ddau eithaf hyn: ac, am hynny, fe'n cyngborir nid yn unig i wilió, ond hefyd i sefyll yn y ffydd, i ymwroli, ac i ymgryfháu, i oddef cystudd megis milwyr da i Iesu Grist, i ymnerthu yn yr Arglwydd, ac yng nghadernid ei allu ef.\* Mae Duw yn wir yn ceryddu ei blant, pan fyddont yn ofnus yn ei wasanaeth. Gwrandewch ei eiriau rhagorol trwy enau Isaiah: “Pwy wyt *ti*, fel yr ofnit ddyn yr hwn fydd marw, a mab dyn yr hwn a wneir fel glaswelltyn, ac a anghofi yr Arglwydd dy Wneuthurwr, yr hwn a estynnodd y nefoedd, ac a seiliodd y ddaear?† — Nac ofnwch y rhai sy'n lladd y corph,” medd ein Hiachawdwr Bendigedig, “ac wedi hynny heb ganddynt ddim mwy i'w wneuthur: ond rhagddangosaf i chwi pwy a ofnwch — Ofnwch yr Hwn, wedi y darffo

¶ Edr. Rhuf. xi. 20. 21. \* Ephes. vi. 10. Tim. ii. 3 &c.

† Is. li. 12. 13. † Luc, xiii. 4. 5.

iddo ladd, sydd ag awdurdod ganddo i fwrw i uffern ie, meddaf i chwi, **HWNŶW A OFNWCH.**” † Ofned a chryned y rhai drygionus! Y mae iddyut ormod achos i wneuthur hynny! “Ond llawenhaed y rhai oll a ymddiriedant yn yr Arglwydd.” Buddugoliaeth sydd wedi ei siccerhau i wir Gristionogion! Tywysog mawr eu hiachawdwriaeth a orchfygodd eisoes eu holl elynion; ac efe a ddychwel, ac a ddwg ei oll ddilynwyr ffyddlon i'r Nefol Sion. Yna y cant fwynhau llawenydd a diddanwch; a gofid a galar a ffy ymaith!

3. Ond, fel nad eu heiddo hwynt eu hunain yw'r nerth, trwy'r hwn y gallant orchfygu, y mae'n angenrheidiol eich cyngori, cyn diweddu, i hyderu ar Dduw, ac i rodio yn ddyfal gyd ag ef! Ac, i'r diben hwn arhoswch yng Nghrist; canys wrth hyn yn unig y gwneir Duw yn gyfaill i bechaduriaid. “Duw yng Nghrist sy'n cymmodi'r Byd ag ef ei hun.”\* Yn wir, yn wir, nid oes neb arall a ddichon ein cymmodi ni â Duw; ac yn ganlynol, os dymunwn drigo yn ei gysgod ef, y mae'n angenrheidiol i ni fod yng Nghrist hefyd. Dyma

† Luc, xii. 4. 5. \*2 Cor. v. 19.



un o'r cynghorion sanctaidd a roddes ein Harglwydd i'w ddisgyblion ychydig cyn ei farwolaeth—"Arhoswch ynof fi—Megis na all g gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi:—o blegid, wedi eich gwahanu oddiwrthyf fi, ni ellwch chwi wneuthur dim."†

4. Ac, yn ddiweddaf, gan fod Duw trosom ni, byddwn ninnau yn ddiwyd ac yn fywiog yn ei wasanaeth yntau. Yn mha ryw gyflwr neu alwad bynnag yr ydym, ymegniwn â'n holl allu i gynnyddu teyrnas Crist yn y byd, a safwn yn wrol yn erbyn pob rhyw bechod a drygioni. "Bydded y cyfiawn yn hy megis llew."‡ Yna y gallwn obeithio y cauir Anwiredd ei safu gan ofn, ac y cûdd ei ben gan gywilydd. Beth bynnag, "ein tyst ni fydd yn y nefoedd, a'n tystiolaeth yn yr uchelder,|| a'n gwaith neu'n gwobr gyd â'r Arglwydd."§ Efe a'n derbyn atto ei hun yn nydd y Farn gyffredin. Yna y gwneir gwahaniaeth anherfynol "rhwng y cyfiawn a'r drygionus; rhwng yr hwn a wasanaetho Dduw, a'r hwn ni's gwasanaetho ef,"¶ Ac yna y rhai

†Ioau. xv. 4. 5. ‡Diar. xviii. 1. ¶Job, xvi. 19. §Is. xlix. 4. ¶Malaci iii. 18. Matth. xxv. 46.

cyfiawn a ânt i fywyd tragywyddol; fel, lle y mae eu **Hiachawdwr Bendigedig**, y byddont hwythau hefyd."† **Hawdd**, gan hynny, y gallai yr **Apostol** ddywedyd ychydig o flaen y testun: "Yr ydwyf yn cyfrif, nad yw dioddefiadau yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu â'r gogoniant â ddatguddiri ni,"\* trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

† Ioan xiv. 3. \* Edr. Rhuf. viii. 18.



## PREGETH VII.

LLYWODRAETH YR ARGLWYDD YW FFYNNON  
LLAWENYDD.



[ARDDYDD YMPRYD; SEF, MAWRTH 10, 1813.]



SALM XCVII. 1.

*Yr ARGLWYDD sydd yn teyrnasu; gorfol-  
edded y ddaear; llawenyched Ynysoedd lawer.*

*The LORD is King; the earth may be  
glad thereof; yea, the multitude of the isles  
may be glad thereof.*



**D**AFYDD, brenhin Israel, a 'sgrif-  
ennodd y Salm hon yn union ar ol buddu-  
goliaeth. Nid yw efe yn rhoddi dim i'w  
allu ei hun, ond y cwbl oll i allu a chyf-  
ryngiad Duw. Oddiwrth Dduw hefyd y  
mae efe yn cyfrif fod y trallodau sy'n di-  
gwydd i'r annuwiol yn dyfod, pa un bynnag  
ai megis cosp ai profedigaeth. Mae'r Pro-  
phwyd sanctaidd gan hynny yn gorfoleddu,  
pa fath bynnag fyddo ein cyfiwr oddi allan,

pa un bynnag ai da ai drwg, fod yr Holl-  
alluog yn llywodraethu pob peth. “Yr  
Arglwydd sydd yn teyrnasu: gorfoledded  
y ddaear; llawenyched ynnysoedd lawer.”

Oddiwrth y geiriau hyn ystyriwn, yn  
gyntaf, arwyddocâd yr ymadrodd fod “yr  
Arglwydd yn teyrnasu;” yn ail, pa achos  
sydd “i'r ddaear orfoleddu o blegid hynny,  
ac i'r ynnysoedd lawenhâu;” ac, yn ddiwedd-  
af, ym mha fodd, yn enwedig, y mae'r cyfryw  
athrawiaeth yn perthyn i ni a'n hynys, er  
mwyn ein heddwch a'n dedwyddydd tragy-  
wyddol, i.e., yn y dydd ofnadwy hwn, cyn  
iddynt fod yn guddiedig oddiwrth ein lly-  
gaid.\*

I. Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu;” ●  
herwydd, yn gyntaf, mai “efe sydd yn lly-  
wodraethu ym mhlith y cenhedloedd,” †  
ac ar yr holl fydoedd. Nid yw'r holl beth-  
au creedig ond megis offer neu arfau ei  
lywodraeth. Yn ei drysordy ef y mae  
tymmhestlau, yn gystal a thymmhorau  
ffrwythlon. Mewn gair, nid yw da a drwg  
o bob math, i.e., a drygion i'r Byd, ddim ar-  
all ond amryw foddion yn uwylaw Duw  
i brofi, i gospi, a gwobrwyo meibion dyn-  
ion. “Diau cynddaredd Dyn sydd yn  
moliannu yr Arglwydd.” ‡

\* Edr. Luc xix. 42. † Salm xxii. 28. ‡ lxxvi. 10.

Yr Arglwadd hefyd sy'n teyrnasu ar ddynolryw, wedi ymrannu megis cenhedloedd. Dynion sy'n ymlunio mewn amryw fath o lywodraethau, ac yn difyrru eu hunain gyd â'u doethineb, ac â'u hamcanion bydol; eithr, mewn gwirionedd, y mae eu holl orchwylion yn cael eu dwyn ym mlaen gan yr "Hollalluog Dduw, Brenin yr holl frenhinoedd a Phenllywiawdwr pob peth." Brenhinoedd y ddaear a allant ymddiried yn eu teyrnasoedd, a'u pennaethiaid yn eu lluoedd; ond, ar ol y cwbl, Duw yw "unig roddwr pob buddugoliaeth a goruchafiaeth," gan sefydlu y naill, a rhoddi cyngor a gwrolder i'r llall, a chan arwain telly y cyfan i'w amcanion doeth ei hun. "Pahan y terfysga'r Cenhedloedd, ac y myfyria'r bobloedd beth ofer?"\*

"Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu" ar bob rhyw un o honom yn neillduol. Y mae amryw "ystad a gradd o ddynion" ar y ddaear, "yn gystal gwreng a bonheddig, cyfoethog a thlawd;"† ac y maent hwy oll yn rhy barod i ymddiried yn eu cyfrwydra, eu gallu, neu eu doethineb eu hunain: etto, os ydym yn credu "mai y Goruchaf a lywodraetha ym mrenhiniaeth dynion,"‡

\* Ebr. Salm ii. 1—12. † xlix. 2. ‡ Dau. iv. 17.

X

mae'n rhaid i ni gredu hefyd, nad oes dim yn digwydd heb ei wybodaeth ef, a'i gen-uad.

Felly yr Arglwydd sydd yn teyrnasu ar holl Nattur, ar ddynolryw yn gyffredinol, nid yn unig mewn cymdeithas, ond ar bob dyn yn neillduol.—Eithr yma, ysgatfydd, fe a ddywaid rhyw un: “Os fel hyn y mae, os yr Arglwydd sy'n rheoli pob peth, nid gwiw i neb wneuthur dim; neu, o leiaf, ni's gwaeth pa beth a wnelo. Yr Arglwydd sydd yn gorchymmyn ac yn llywodraethu pob rhyw beth!—O ynfyd, oni wyddost di nad yw gweithredoedd dynion, yn gystal â phob peth arall, ddim ond megis offer yn nwyllaw'r Hollalluog Dduw i ddwyn/ymlaen ei amcanion grasusol? Ni's gwyddom llawn fwriad ei *amcanion* ef; ond y mae ei *orchymynnion* yn ddigon eglur. Y mae gennym oll ddyledswyddau yn ein hamryw sefyllfaoedd; a'r dyledswyddau hynny sydd raid i ni eu cyflawni. Ac am hynny na ddyweded y dyn drwg yn ei galon—“Duw a all droi fy nghamweddau i ddaioni a gogoniant.” Eithr, yn hytrach, cofied eiriau ofnadwy ein Hiachawdwr: “Angenrhaid yw dyfod rhwystrau; er hynny, gwae y dyn hwnnw, trwy'r hwn y daw y rhwystr!”\*

\* Matth. xviii. 17.

II. Ar ol gweled mai'r "Arglwydd sydd yn teyrnasu," ystyriwn, yn yr ail fan, pa ham y dylai'r "ddaear orfoleddu o blegid hynny, a'r ynnysoedd lawer lawenhâu." Ped faem yn gweled gwlad heb unrhyw lywodraeth, lle byddai pawb yn bucheddu ac yn gwneuthur yn ol eu hewyllys eu hunain; hynny yw, lle byddai anrhaith, ac yspail, a phob drygioni yn teyrnasu, heb Grefydd, heb Gyfreithiau, heb Swyddogion; pa mor druenus y byddai gwlad yn y fath gyflwr, a pha mor ddedwydd y byddai pob dyn rhesymmol wrth weled trefn a rheolaeth yn cael eu hadferu a'u sefydlu, a'i fywyd a'i eiddo yn cael eu hamddiffyn!†—Wele'r cyflwr, ym mha un y byddai'r Byd anwir hwn, oni bai fod "yr Arglwydd yn teyrnasu!" Beth a ddaethai o honom, pe buasai rhyw Ddamwain ddall yn llywodraethu arnom? Ni a ganfyddwn pa nerth ofnadwy sy gan elfennau Natur. Ystyriwch aml effeithiau erchyll tymmhestlau, a'r môr, a dreargrynfaäu, a tharanau!—Ystyriwch hefyd anfeidrol drueni rhyfeloedd, pan fyddo "cenedl yn cyfodi yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas," a phan glywoch sôn am newyn, a therfysgoedd, a phethau

† See "Assize-Sermou" at the end.

arswydus mewn amryw leoedd; pwy a all wrthwynebu balchder, a thraha, a digofaint dynion? *“Canys digofaint gwr nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw.\** Ond yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear oll. Er iddo gystuddio, etto efe a dosturia yn ol amllder ei drugareddau. Canys nid o'i fodd y blina efe, nac y cystuddia blant dynion.”† Er cyfodi o honynt dymhestlau a gwyntoedd creulon, etto mae'n rhaid iddynt “wneuthur a chyflawni gair yr Arglwydd.‡ Efe a osododd y tywod yn derfyn i'r mor trwy ddeddf dragywyddol, fel nad elo dros hwnnw: er i'r tonnau ymgyrchu, etto ni thyccia iddynt er iddynt derfysgu, etto ni ddeuant dros hwnnw.”§ Attebi i ni trwy bethau ofnadwy yn dy gyfiawnder, O Dduw ein Hiachawdwriaeth, gobraith hollgyrrau'r ddaear a'r rhai sydd bell ar y mor! Yr hwn a ostega dwrf y moroedd, twrf eu tonnau, a therfysg y bobloedd. A phreswylwyr eithaf oedd y byd a ofnant dy arwyddion; gwnai i derfyn bore a hwyr lawenychu.||--O Arglwydd ein Ior ni, mor ardderchog yw dy Ew ar yr holl ddaear!”¶ Ti yn ddiau, a

\*Iago i. 20. †Galar. iii. 32. 33. ‡Salm cxlviii. 8. §Jer. v. 22. ||Sal. lxxv. 5-8. ¶viii. 1.





thydi yn unig, a ostegu derfysg y bobloedd.

Ac y mae'r pethau hynod a glywsom ni sôn am danynt yn ddiweddar yn cryfhau ac yn cadarnhau y gwirionedd hwn mewn modd rhyfeddol. Chwi a glywsoch oll sôn am Rëolwr ffyrnig Ffraingc yn myned allan i ryfela yn erbyn Russia,† heb unrhyw achos ond ei drachwant ei hun, o flaen agos i bedwar can mil o bobl, ac ar ol hynny yn rhedeg ymaith oddi wrthynt, megis rhyw lwfr ofnus, gan eu gadael hwy yn yspail, nid i'r cleddyf a'r frwydr yn unig, ond i newyn, a rhew, ac eira, ac oerni. Miloedd ar filoedd a fuant feirw ar y ffordd ym mreichiau eu gilydd, llaweroedd a gawsant eu rhewi i farwolaeth ar gefn eu cyffylau, a'r cyffylau eu hunain yn ebrwydd ar ol hynny a drengasant:\* ie, a thros

† Sef NAPOLEON BONAPARTE.

---

\* Shudder at the following observations made by Lord Tyrconnel, who was himself in the Russian army. "Of the Cold's dreadful execution in the retreat of the French from Moscow, there are many instances upon record of whole groupes clasped together, and frozen to death in each other's arms. Among, however, the more grand and imposing scenes, the following forms a striking anecdote. His Lordship happened to be in a position, upon which the enemy were advancing: The Cavalry had just come in sight with a tolerably quick pace, when suddenly they appeared to be arrested and fixed in their places as it were by magic. The leader of the Corps, horse and men, stopped short, and all in the rear stopped with him. Their continuance for a considerable time in this situation induced a suspicion of the cause. His Lordship and several others went up to this Corps of Cavalry, when they found it all stiff, and frozen to

ddeng mil ar hugain o'u meirch goreu, yu ol eu hanes eu hunain, a fuant feirw mewn llai nag wythnos! Mor wir yw geiriau rhagorol y Salmydd: *“Ni waredir brenhin gan liaws llu; ni ddiange cadarn trwy ei fawr gryfder. Peth ofer yw march i ymward: ac nid achub efe neb trwy ei fawr gryfder.”\** Ac o'r aneirif ddynion hyn ni ddychwelodd prin neb o honynt i'w cartref, ond y Gorthrymmwr gwaedlyd ei hunan! Ni bu, yn wir, cymmaint o ddiaystr gynt yn lu Sennacherib brenhin Assyria, pan darawodd angel yr Arglwydd gant a phedwar ugain a phump o filoedd,† ag a fu yn ddiweddar ym mhlith y Ffrangcod. “Y ser yn eu graddau a ymladdodd yn eu herbyn;”‡ ie, yr Arglwydd a ymladdodd yn eu herbyn dros wledydd Ewrop.

III. Eithr, yn ddiweddaf, ystyriwn ym

\*Sal. xxxiii. 16. 17. †2 Bieu. xix. 35. Is. xxxvii. 36.

‡Barn. v. 20. Exod. xiv. 25.

---

death. It would seem that the Captain of this small Corps continued to move until he became quite exhausted, and that as soon as the motion which enabled his followers to keep up with him ceased, the Cold laid his leaden hands upon them, and fixed them immovable to the earth.” See Lord Tyrconnel's interesting Observations on the French Invasion of Russia in the year 1812.— See also a very interesting Book in French, entitled, “Circumstantial Account of the Campaign of Russia; by Capt. Labaume, of the Royal Corps of Engineers; where you may find several incidents of the like kind.

mha fodd y mae'r addysg uchod yn perthyn i ni, a'n hynys, yn fwyaf neillduol.

Od oes, ym mysg yr "ynysoedd lawer," un ynys yn fwy rhwymedig nag eraill i garedigrwydd y Goruchaf; od oes ynys a ddylai fod yn ddiolchgar am athrawiaethau'r Efengyl yn eu llawn burdeb, pan y mae amryw wledydd eraill "yn eistedd hyd yn hyn mewn tywyllwch a chysgod angau ;\*" od oes ynys mewn gallu ac anrhydedd, yr hon sy'n meddiannu ei rhyddid, pan y mae y rhan fwyaf o'r teyrnasoedd o'i hamgylch yn gorwedd neu'n yndreiglo dan gaethiwed erchyll a chywilyddus; od oes ynys a achubwyd ya aml yn amser perygl ac enbydrwydd trwy Ragluniaeth neillduol, ac yn cael ei rheoli gan gyfreithiau cyfiawn; DYMA'R YNYS, yr hon sy'n mwynhau y bendithion hyn, ac amryw eraill yn eu llawnder! Pa ddiolchgarwch, gan hynny, sydd arnom ni, ei thrigolion, i'r Hollalluog Dduw am ei nawdd ef, a'i drugaredd! Pa beth bynnag a wnelo ynysoedd eraill, diammau fod digon o achos i'r ynys hon ymlawenhâu, mai "yr Arglwydd sydd yn teyrnasu."

Adgofwn, frodyr, hanes yr Iuddewon,

\*Edr. Luc i. 79.

a chrynwn wrth ystyried mor arswydus o beth ydyw ymgaledu, yn lle gwellhau dan geryddon yr Arglwydd. Ni thycciai na rhybuddion na barnedigaethau i'w cadw hwy rhag pechu, hyd oni bu iddynt o'r diwedd, ar ol cyflawni mesur eu hanwireddau, deimlo eithaf digofaint Duw: ac y maent hwy yn rhybudd parhäus i'r holl fyd, gan ddangos mor ffaidd ac ofnadwy ydyw troseddu yn gyndyn yn erbyn Penllywydd Nef a Daear. Cofiw, ië, cofiw ninnau bob amser, eiriau rhybuddiol ein Hiachawdwr: "Onid edifarhêwch, chwi a ddifethir oll yn yr un modd:" || a meddyliwn yn ddifrifol am y "Pryf nid yw yn marw!" §

A wyddom ni am un wlad arall ar y ddaear, ym mha le y mae pobl dan fwy o rwymedigaeth i ddaioni Duw na'r yuys hon, ac ar ba rai y mae edifeirwch calon, moliant, a diolch, mor gyflawn yn ddyledus? Gwir yw fod yn rhaid i ni dalu trethi trymmion; ond gwell i ni dalu trethi nag i ni, a'n teuluoedd, gael ein llwyr ddifetha. Os trown ein llygaid tu ag at yr holl deyrnasoedd a orchfygwyd gan y Gelyn, gellir gweled fod cyflwr pob un o honynt yn

|| Edr. Luc xiii. 3. 5. § Marc ix. 44.

gwbl druenus, eu crefydd a'u rhyddid wedi eu diddymmu, eu llywodraeth a'u cyfreithiau wedi llwyr ddiplannu, a'u holl dda wedi cael ei gymmeryd oddiarnynt!

Eithr, yn ein hynys ni, nid ydym hyd yn hyn ond clywed sôn am ryfeloedd echrystlon mewn gwledydd eraill! Yr ydym ni yn mwynhau yma lewyrch yr Efengyl, a threfa eglwysig a ffurfiwyd yn ol siampl y Prif Oesoedd. Nid ydyw pobl yn ein gwlad ni yn byw heb Dduw, nac yn marw fel anifeiliaid heb obaith. Ni chaur **G AIR** y **GWIRIONEDD** rhagddynt; ond y mae'n agored i bawb; i'w diddanu mewn blinder, i'w cyfarwyddo yn eu hiechyd, i'w cynnal a'u cyssuro ar wely angau. )

Heblaw Rhydd-did a Chrefydd, y mae gennym hefyd Gyfreithiau i sicrhau i ni ein bywyd a'n heiddo; ac y mae'r Cyfreithiau cyfiawn hyn yn cael eu trin gan wŷr hynod am eu dysgeidiaeth a'u gwybodaeth, fel nad all y cyfoethog mwy na'r tlawd, yr uchaf mwy na'r isaf, eu troseddu yn ddi-gosp: ac os bydd neb o honom yn dioddef rhyw orthrymder neu gamwri, nid bai ein Cyfreithiau na'n Llywodraeth ydyw, ond bai ein cydgreaduriaid annuwiol ac

awyddus. §


Ond, i ddiweddu, yr aml drugareddau, a'r amryw fendithion a bentyrrodd Duw arnom, yn ebrwydd a anghofir gennym! Duw a'n gwaredodd ni oddiwrth Babyddiaeth, Gwrthryfel, a Gorphwyll Crefyddol!\* Efe a deilyngodd roddi i ni bob peth dymunol, yr Efengyl yn ei phurdeb mwyaf, Rhydd-did, Gallu, a Diogelwch! A pharyw ddiolch a thaledigaeth a roddasom ni iddo ef am ei holl fendithion? A ydym ni yn fwy diwyd a gofalus yn ein hamryw alwedigaethau crefyddol? A ydym ni yn byw mewn duwiol, union, a sobr fuchedd? A ydym ni yn cymmeryd pob adeg gyfaddas i gyflawni gorchymyn, ie, deisyfiad diweddaf ein **Hiachawdwr**, gan ddyfod at ei Fwrdd Sanctaidd ef i dderbyn y Cymmun Bendigedig? Mi a adawaf i'ch Cydwybod eich hunain roddi ateb i'r cwestiwnau pwysfawr, difrifol hyn.

Dychwelwn at yr Arglwydd Dduw, a thrown oddiwrth ein holl gamweddu; fel na byddo anwiredd yn dringwydd i ni. Gwnawn ynom galon newydd, ac yspryd

§ See "Assize Sermon" at the end. \* Edr. Hanes Iago II, Mari, a Caronwel.


newydd;|| gan gofio bob amser, mai'r "Arglwydd sydd yn teyrnasu. Gorfoledded y ddaear: llawenyched ynnysoedd lawer," a'r ynys hon yn enwedig! Ië, bydded hon ein gweddi a'n cân wastadol, hyd oni ddelom, o'r diwedd, i'w lawenydd tragwyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

||Edr.Ezec. xviii. 30, 31.



## PREGETH VIII.

BYWYD TRAGYWYDDOL YW DAWN DUW.



RHUFENIAID VI. 23.

*Cyflog Pechod yw marwolaeth; eithr dawn  
Duw yw Bywyd tragwyddol, trwy Iesu  
Grist ein Harglwydd.*

*The wages of Sin is death; but the gift of  
God is eternal life, through Jesus Christ  
our Lord.*



**Y** M mysg yr amryw anhawsder ym  
moddion Crefydd a fo yu anghyttun â'r  
Grefydd Gristionogol, nid hwn yw'r lleiaf;  
sef, nad yw edifeirwch yn gymmod digonol  
dros bechod a aeth heibio: ac nas gall y  
pechadur edifarus, yn ganlynol, gael hawl  
rhesymol i ddedwyddwch. Canys "pob  
anghyfraith yw pechod;"\* ac a'n gwna ni yn  
ddarostyngedig i gospedigaeth: ac fel ag y  
mae pawb wedi pechu, ac ydynt yn ol am

\* Edr. 1 Ioan iii. 4.



ogoniant Duw, y mae'n rhaid iddynt ddisgwyl cosp am eu heuogrwydd. Pe buasai'r Arglwydd yn Dduw *trugaredd* yn unig, fod yn Dduw *gwybodaeth* a *chyfiawnder* hefyd, buasai lle i ddisgwyl na wnaethai graffu ar anwireddau; ond y mae ei Gyfiawnder ef yn peri iddo geryddu holl droseddwyr ei gyfraith sanctaidd. Anhawsder mawr oedd, cymmodi Cyfiawnder Duw gyd â'i Drugaredd ef mewn perthynas i faddeuant y pechadur edifeiriol, ac ym mha fodd y gallai efe drachefn fwynhâu serch a chariad ei Greawdwr: Oud y mae'r Efengyl yn symmud ymaith yr anhawsder hwn: "Trugaredd a Gwirionedd a ymgysuriant wrth y groes! Cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant.\* Yna y mae ffordd newydd yn ymagor i bob dyn sy'n ymadael â'i ffyrdd drygionus, a'r Iachawdwr yn ei annog ef i "estyn ei law, a chymmeryd o bren y bywyd, yr hwn a gollasai, a bwytta, a byw yn dragwyddol.† Canys cyflog Pechod yw marwolaeth; eithr dawn Duw yw bywyd dragwyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Hynny yw, megis mai effaith Pechod yw marwolaeth, felly bywyd neu ddedwyddwch dragwyddol sy'n

\*Ebr. Salu lxxxv. 10. †Gen. iii. 22.

dyfod yn rhad oddiwrth ras a rhodd Duw, trwy haeddedigaethau ein Prynwr Bendigedig.

Ond, i osod o flaen ein llygaid wirionedd athrawiaeth y testun, ystyriwn, yn gyntaf, fod Pechod, neu droseddiad cyfraith Dduw, yn gwneuthur Dyn yn ddarostyngedig i farwolaeth yma ac yn dragywydd; "Cyflog Pechod yw marwolaeth:" yn ail, fod bywyd a dedwyddwch tragywyddol o'r fath werth anfeidrol, fel nad allai neb o honom ei haeddu, ac am hynny mae'n rhaid i ni edrych arno megis dawn Duw; "Dawn Duw yw bywyd tragywyddol:" ac, yn drydydd, fod Duw yn rhoddi i ni y dawn hwn o herwydd holl-digonol haeddiant ei unig-anedig Fab ef ein Hiachawdwr; "Dawn Duw yw bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd."

1. Am fod pechod yn peri marwolaeth yn y byd hwn, y gorchymmyn a roddwyd i Adda ym Mharadwys oedd mor gryf, mor eglur, ac mor bendant, fel nad allai ddisgwyl am unrhyw leihad yn ei gyflawniad. "O bob pren o'r ardd (medd Duw ei hun wrtho,) gan fwyta y gelli fwyta; ond o bren gwybodaeth da a drwg na fwyta o hono; o blegid yn y dydd y bwyttai di o

hono, gan farw y byddi farw.\* Ac felly, ar ol y Cwyp, efe, gyd â'i oll eppil druenus, a aeth yn ddarostyngedig i farwolaeth. Marwolaeth a ganlynodd yn agos iawn ar ol Pechod. Cyn gynted ag y diosgodd y Dyn ei hun o'i ddiniweidrwydd, drwy anufuddhâu i orchymmyn ei Wneuthurwr, efe a gollodd bob hawl i'r addewid o anfarwoldeb a wnaethpwyd iddo, ac a aeth yn farwol, efe a'i eppil, neu yn ddarostyngedig i boenau a chlefydau, ac angau.

Ac nid ydyw Pechod yn ein gwneuthur ni yn llai tueddol i farwolaeth ysprydol, nag i farwolaeth anianol. Marwolaeth ysprydol sy'n arwyddocau yr anaddasrwydd, a'r anallu hwnnw i fwynhau dedwyddwch yr ym yn ei ddwyn arnom ein hunain trwy ymddygiad drygionus. Mae'r cyfryw ymddygiad yn ein gwneuthur ni yn wrthddrychau anghymmwys i dderbyn cariad Duw; ac felly yn ein gosod ni mewn trueni, a chysgod angau.—Yr hwn sy'n torri gorchymmyn Duw, sy'n colli hefyd bob cyssur a chynorthwy oddiwrth Dduw; o herwydd fod pob troseddiad y gyfraith yn wrthryfel yn erbyn yr unig Osodwr cyfraith:† ac am hynny y mae'r troseddwr yn

\* Gen. ii. 16, 17. † Iago iv. 12.

ddarostyngedig i'w ddigofaint ef, a'i gerydd. Ac fel hyn ni a allwn ddywedyd am bob pechadur anedifeiriol, "efe a fu farw, er ei fod yn fyw."\* Marw ydyw, mewn gwirionedd, i bob perwyl ac amcan Rhinwedd a Chrefydd, i bob rhybudd a galwad Rheswn a Chydwybod, ac yn fyw yn unig i wneuthur rhagddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef, y rhai sy yn rhyfela yn erbyn yr enaid.†

Eithr, ym mhellach, nid ydyw'r anallu hwn i fod yn ddedwydd, neu'r angau ysprydol hwn, yn canlyn y pechadur yn y byd presennol yn unig; ond y mae'n myned gyd ag ef i'r byd a ddaw. Hyd yn hyn efe a ymdrybaeddodd mewn chwantau cnawdol yn unig, a meddyliau bydol; ac nid oes ganddo ddim archwaeth am bethau rhesymmol ac ysprydol: ond etto dyna'r unig bethau y mae trigolion y byd nesaf yn eu mwynhâu; "canys y maent fel angylion Duw yn y nef."‡ Ac fel hyn trueni, neu farwolaeth yw canlyniad a ffrwyth naturiol Pechod!

Ac nid hyn yw'r cwbl. Heblaw y gospedigaeth naturiol sy'n canlyn Pechod

\*Iago iv. 12. 1 Tim. v. 6. †Rhuf. xiii. 14. 1 Pedr ii. 11.

‡ Matth. xxii. 30.

mewn byd arall, y mae cospedigaeth farnol hefyd yn tarddu yn union oddiwrth ordin-hâd Duw. Megis y mae bywyd tragwyddol yn cael ei addaw, mewn llaweroedd o fannau yn y BIBL, i'r duwiol, i'r ufudd, a'r gostyngedig; felly hefyd y mae trueni neu farwolaeth dragwyddol yn cael ei fygwth, yn yr un modd, yn erbyn pob gweithredwr drwg. "Ac am hynny yr annuwiolion ni safant yn y farn, na phechaduriaid yng nghynnulleidfa y rhai cyfiawn."\* A chan fod yr Efengyl, sef, **GAIR** Creawdwr yr holl fydoedd, "yr hwn ni's gall dwyllo na chael ei dwyllo," yn ein siccerhau ni o'r pethau hyn, ni a ddylem yn ddiau ymddiried yn ei **AIR SANCTAIDD** ef, "trwy'r hyn y rhoddwyd i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr. Am hynny gan fod gennym yr addewidion hyn, Anwylyd, ymlanhawn oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd, gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw."†

II. Ac yr awrhon awn ym mlaen, yn yr ail fan, i ddangos, mewn ychydig eiriau, fod bywyd neu ddedwyddwch tragwyddol o'r fath anfeidrol werth, fel nad allai y goreu o ddynolryw ei haeddu; ac am hyn-

\* Edr. Salm i. 5. † 2 Pedr. i. 4. 2 Cor. vii. 1.

ny y mae'n rhaid i ni edrych arno megis  
DAWN DUW—“Dawn Duw yw bywyd  
tragywyddol.” Nid oes dim cyffelybiaeth  
rhwng gwobr tragywyddol â'r gwasanaeth  
mwf perffaith a all creaduriaid ei dalu i'w  
Creawdwr. Felly, yn wir, y dywaid ein  
Harglwydd i ni: “Gwedi i chwi wneuthur  
y cwbl oll ag a orchymmynnwyd i chwi, dy-  
wedwch, Gweision anfuddiol ydym; o ble-  
gid yr hyn a ddylasem ei wneuthur, a  
wnaethom.”†

Gwasanaethwyr ffyddlon Daw a allent  
feddwl y gwnai efe yn ei amser da ei hun,  
obrwyo eu cyfiawnder hwynt, eu cariad  
brawdol, eu duwioldeb, a'u Rhinweddau  
Cristionogol eraill, fel y byddai iddynt bar-  
hau yn gwneuthur da; ond ni's gallent  
byth ddisgwyl y byddai y Rhinweddau hyn  
o gyd werth â thragywyddoldeb o lawen-  
ydd! Neu hwy a allent gyd â rheswm  
obeithio, fel na buasai i'w Rhinweddau da  
gael eu gwobr yn y byd hwn, eithr eu bod  
yn hytrach yn achos o ddiodefïadau a  
thrallodau iddynt, y byddai taledigaeth yn  
y diwedd mewn byd arall, ac y caent hwy  
gyflwr gwell; etto ni's gallant hwy byth  
dybied, y gwnai y duwioldeb puraf a'r da-

†Luc. xvii. 10.

ioni perffeithiaf roddi iddynt hawl i ddedwyddydd tragywyddol. Nid oes, mewn gair, le i feddwl y gwnaethair ymddygiad goreu, a'r ufudd-dod mwyaf ewyllysgar i orchymynnion Duw, byth roddi i ni fwynhâu "digrifwch yn dragywydd."\* Bywyd tragywyddol, gan hynny, sydd *raïd* iddo fod yn *rhodd* a *dawn* Duw.

III. Bydd gan hynny yn gymmwys dangos, yn y lle diweddaf, fod y dawn hwn yndyfod oddiwrth ddigonol aberth a haeddiant ein Hiachawdwr Bendigedig. "Dawn Duw yw i bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Y mae bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist yn cael ei osod yma gyferbyn â marwolaeth, gan arwyddocâu, er bod ein troseddau wedi ein gwneuthur ni yn ddarostyngedig i angau a thrueni, etto fod euogrwydd ein pechodau yn cael maddeuant trwy haeddedigaethau ein Hiachawdwr Crist, a bod ffordd newydd wedi cael ei hagor trwy ei waed ef i'n harwain ni ym mlaen i drigfannau bywyd a dedwyddwch tragywyddol. Pan bechodd y Dyn, yr oedd Cyfiawnder Duw yn gofyn iddo gael ei gospi; eithr pan, drwy effaith y cymmod hwnnw a'r iawn a wnaeth ein

\* Edr. Salm xvi. 11.

Harglwydd dros bechodau'r holl Fyd, y dilëwyd euogrwydd Dyn, ac y boddlonwyd Cyfiawnder Duw, rhoddwyd felly ryddhâd oddiwrth y gosp, yr hon oedd ddyledus i Bechod, a'r pechadur edifeiriol a gymmerwyd i ammodau heddwch a derbyniad croesawus. Yr hawl i fywyd ac anfarwoldeb, yr hwn a gollasid trwy Adda, a adferwyd i ni mewn modd grasusol a rhyfeddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd. "O blegid megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghrist y bywhëir pawb." † Gwaed gwerthfawr Crist sy'n golchi ymaith y brynti, ac yn iachau y briwiau a wnaeth Pechod, ac yn ein cyflwyno ni yn bur ac yn ddifrycheulyd ger bron Duw sanctaidd a chyfiawn. Nyni a heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef; ‡ a rhyngodd bodd iddo ein gwneuthur ni yn feibion ac yn etifeddion i ldo ei hun, trwy'r prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu, § yn ol gobaith bywyd tragywyddol. ¶ A chan fod gennym ni Dduw, yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd ac a gymmerwyd i fynu mewn gogoniant, ¶¶ wedi ei roddi ei

† Edr. 1 Cor. xv. 22. ‡ Rhuf. v. 10. ¶ iii. 24. § Tit. iii. 7. ¶¶ 1 Tim. iii. 16.



hun drosom, wedi marw i ddwyn ymaith ein heuogrwydd, wedi cyfodi o'r bedd "i'n cyfiawnhâu ni,"† ac yn eistedd yn awr ar ddeheulaw y Goruchaf "yn y nefolion le-oedd,‡ a all neb rhyw Gristion, ar ei wir edifeirwch, gyd â'r pethau cyssurus hyn o flaen ei lygaid, anobeithio am faddeuant am ei aml bechodau a'i anwiredd? Na atto Duw—Na atto Duw!

Trugaredd ein Creawdwr tu ag attom ni a aeth tu hwynt i bob gobaith a disgwyl- iad. Trwy haeddiant Crist, Duw a adda- wodd i ni ddawn bywyd tragwyddol, os gwnawn ni ein goreu i gadw ei orchymyn- nion sanctaidd. Ac er nad ydym yn ddigo- nol o honom ein hunain i feddwl na gweith- redu dim megis o honom ein hunain,|| etto, trwy Grist yr hwn sydd yn ein nerthu ni,§ yr ydym yn gallu cyflawni y cyfryw ufudd- dod ag a rydd i ni etifeddiaeth dragwydd- ol ym mhlith yr holl rai a sancteiddiwyd trwy ffydd yn Iesu.¶

Doeth, gan hynny, a dedwydd ydyw pawb oll sy'n credu yng Nghrist, ac yn yr Iachawdwriaeth ryfeddol, yr hon a ynnill-

† Edr. Rhuf. iv. 25. ‡ Ephes. i. 20. || 2 Cor. iii. 5.

§ Phil. iv. 13. ¶ Act. xx. 32. xxvi. 18.



odd efe iddynt trwy ei werthfawroccaf waed. Pa mor aml bynnag y bu eu troseddau, etto, os gwir edifarhant, “y mae iddynt Eiriolwr gyd â'r Tad, Iesu Grist y cyfiawn; ac efe yw'r iawn dros eu pechodau hwynt.”§ Er na's gallent gwblhau ufudd-dod perffaith, etto yr oeddynt yn medru cyflawni yr ammodau ysgafn, y rhai a roddasant iddynt fynediad i mewn, trwy haeddedigaethau a chyfryngiad Crist, i breswylfeydd dedwyddwch a bywyd tragywyddol!

Darostyngedig, gan hyuny, fel yr ym ni oll, o blegid troseddiad cyntaf Dyn, i'r gosp sydd ddyledus i euogrwydd Pechod, etto, os cyflawnwn yn unig yr ammodau a osodir i lawr i ni yn yr Efengyl, ni chofia Duw ein hanwireddau mwyach, ond a rydd i ni yn hytrach “ddigonolrwydd llawenydd, a digrifwch yn dragywydd.”|| Felly nyni a allwn dreiddio trwy'r bywyd marwol hwn gyd â boddlondeb a chyssur, oddiwrth yr ystyriaeth ein bod wedi ein cymmodi â Duw; yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddiant y tywyllwch, ac a'n symud ni o'r diwedd i deyrnas wynfydedig ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist,¶

§ Edr. 1 Ioan ii. 1. 2. || Sal. xvi. 11. ¶ Coloss. i. 13.

yno i fyw ac i fod yn ddewydd gyd ag ef  
hyd bob tragwyddoldeb. "Am hynny  
diddenwch eich gilydd a'r ymadroddion  
hyd,"\* trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
Amen.

\* 1 Thes<sup>s</sup>. iv. 8.



## PREGETH IX.

PWY SYDD YN BYW I'R ARGLWYDD.



RHUFANIAID XIV. 7, 8.

*Nid oes yr un o honom yn byw iddo ei hun, ac nid yw yr un yn marw iddo ei hun. Canys pa un bynnag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Am hynny, pa un bynnag yr ydym ai byw ai marw, eiddo yr Arglwydd ydym.*

*None of us liveth to himself, and no man dieth to himself. For whether we live, we live unto the Lord; and whether we die, we die unto the Lord. Whether we live therefore, or die, we are the Lord's.*



**C**RIST yw'r Brenhin yr hwn a osododd Duw ar Sion ei fynydd sanctaidd, ac a i gwnaeth ef yn BEN uwchlaw pob peth i'r Eglwys. Yr ydym ni oll yn cymmeryd

arnom gredu'r athrawiaeth hon: 'ie, yr enw sydd arnom sy'n arwyddocâu ein bod ni yn addef Crist megis ein Harglwydd. Ond y mae rhyw beth ychwaneg na'r enw o Gristionogion yn angenrheidiol i ddangos, ac i brofi, ein bod ni yn weision iddo ef mewn gwirionedd. Y Cristion cywir yw'r "hwn sydd â'i ewyllys yng nghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos."\* Dyma'r unig brawf, gwirioneddol, trwy'r hwn y gellir gwybod, A YDYM NI YR HYN YR YDYM YN GYMMERYD ARNOM FOD, AI NAD YDYM. S. Paul, yr hwn a wyddai'n dda beth oedd y Grefydd Gristionogol, a lefarodd y geiriau hyn yn enw pawb oll ag sydd yn credu yn Nghrist: "Pa un bynnag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Am hynny, pa un bynnag yr ydym ai byw ai marw, eiddo'r Arglwydd ydym."

1. Holl athrawiaeth y Grefydd Gristionogol a gynabwysir agos yn yr ychydig eiriau pwysfawr hyn—"I'r Arglwydd yr ydym yn byw"—a'u hystyr yw, yn gyntaf, bod i ni wneuthur ei ewyllys ef yn unig reol ein hymddygiad. Ein Hiachawdwr a roddodd

\* Salm i. 2.

i ni amryw dalentau, ac y mae'n gofyn genym eu cynnyddu hwynt, yn y ffordd fwyaf buddiol, i'r dibennion pwysfawr, o blegid pa rai y rhoddwyd hwynt. Ei weision ef ydym ni oll; ac y mae efe wedi rhoddi gwaith i bob un o honom, am yr hwn fe ofynnir cyfrif difrifol yn y diwedd. Niadewir i ni ein hunain ddewis pa rannau neu ddarnau o'r gwasanaeth a gyflawnom; ond rhaid i ni bob amser gymmeryd ei hyfforddiad ef, gan ddywedyd gyd â S. Paul pan syrthiodd ar y ddaear, "Arglwydd, beth a fyni di i mi ei wneuthur?"\* Nid ydyw ddigon chwaith i ni wneuthur y pethau y mae efe yn ofyn, oni wnawn hwynt o blegid ei fod ef yn gorchymmyn hynny. Y mae cyfreithiau ein Harglwydd wedi eu llunio mor ddoeth er cynnyddu daioni pob dyn yn neillduol, a llwyddiant cymdeithas ddynol yn gyffredinol, fel y mae rhai sydd fwyaf anffyddlon i'w lywodraeth, yn dewis ymddangos, er mwyn eu manteision bydol eu hunain, yn ufudd i amryw o'i orchymmynnion sanctaidd. Eithr hwy, a hwy yn unig, sydd "yn byw i'r Arglwydd," y rhai ydynt yn cyfaddef ac yn gwirio ei awdurdod ef, gan wneuthur pob peth y

\*Ebr. Act. ix, 4-6.

mae'n orchymmyn, megis gweithred o ufudd-dod parod ac ewyllysgar, megis rhan o'u dyledswydd i'w Gwneuthurwr. Gwrandewch ar y Salmydd: "Da gennyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw, a'th gyfraith sydd o fewn fy nghalon;"\* ac ar yr Apostol hefyd: "Ymhyfrydu yr wyf yng ngyfraith Dduw, yn ol y dyn oddi mewn."†

2. Byw i'r Arglwydd yw ceisio â'n holl egni ryngu bodd iddo ef, a myfyrio'n wastadol pa fodd y gwasanaethom ef ym mhob peth a wnelom. Y mae'n ddigon hyspys fod ynom dueddiad cynnar i garu amryw bethau ag sydd niweidiol i'n beneidiau; ac yr ydym wedi ein barnu'n euog wrth gyfreithiau cyfiawn ein Llywiawdwr Goruchaf. Hyn sy'n gwneuthur rhannau o'n dyledswydd mor boenus i Gig a Gwaed, fel y mae'r 'Sgrythur yn eu cyffelybu hwynt "i dorri ymaith law ddehau, a thynnuymaith lygad dehau;‡" gwaith, yr hwn ni ymstyngai neb iddo, llai o lawer ei wneuthur ei hun, oni byddai hynny'n llwyr angenrheidiol i gadw y rhan arall o'i gorph rhag ei gwbl ddifetha. Anghyfleusdra o amryw fath sy'n canlyn dyledswyddau eraill. Hwya allant ddwyn arnom ddiystyrwch a

\*Sal. xl. 8. †Rhuf. vii. 22. ‡Matth. v. 29

ehasineb gan Fyd cyfeiliornus, anwybodus, a chynfigennus; ac felly os gwrandawu ar ran lygredig o'n natur ein hunain, neu ar leferydd y lliaws, ny ni a fyddwn siccr o gael ein hannog i adael ein dyledswyddau heb eu gwneuthur, neu'n hytrach i wneuthur yr hyn sydd wrthwynebol iddynt.

Nid oes dim, ond gwir a chwbl ddeisyfiad gwastadol i ryngu bodd i'r Arglwydd, a'n boddlonia i gyttuno â'r dyledswyddau hynny sydd mor wrthwynebol i ni yn ein cyflwr presennol. Ond os bydd y fath egwyddor wedi gwreiddio'n ddyfnyneincalonau, daw y llwybrau garwaf o ddyledswydd yn wastad, ac yn hawdd eu cerdded. Gyd â bwriad diysgog, i.e. gyd â chalondid ewyllysgar, yr awn at ein gwaith, heb adael heibio un gwasanaeth, er caletted ac anhawsedd fyddo, yr hyn y gwyddom a goronir ag ewyllys da a derbyniad ein Prynwr Bendingedig. Fel hyn yr oedd y Prif Gristionogion "yn byw i'r Arglwydd." Bychan iawn oedd ganddynt hwy gael eu barnu gan farn dynion.† Am hynny yr oeddynt yn ymeguio, pa un bynnag ai gartref y byddent ai oddi cartref, eu bod yn gymmeradwy gan eu Hiachawdwr.‡ Felly y llef-

† Edr. 1 Cor. iv. 3. ‡ 2 Cor. v. 9.



arent, ac felly y gweithredent, “nid â golwg-wasanaeth, fel boddlonwyr dynion, ond fel gweision Crist, yn gwneuthur ewyllys Duw o'r galon,” || yr hwn sy'n chwilio ac yn profi ymddygiad ei greaduriaid rhesymmol: “canys ffyrdd Dyn sydd yng ngolwg yr Arglwydd, ac y mae efe yn dal ar ei holl lwybrau ef. § Ti, O Dduw, a dēli i bob dyn yn ol ei weithred.” ¶

3. Byw i'r Arglwydd yw gwneuthur ei ogoniant ef yn ddiben a gwrthddrych penaf ein holl weithredoedd. S. Paul a roddes haes cywir o wir yspryd y Grefydd Gristionogol, gyd ag ardderchawgrwydd addas i'w enw megis Apostol, pan ysgri-fennodd fel hyn at y Philippaid: “Ac mi a ewyllysiwn i chwi wybod, frodyr, am y pethau a ddigwyddodd i mi, ddyfod o honynt yn hytrach er llwyddiant i'r Efengyl; yn gymmaint a bob fy rhwymau i o achos Crist yn eglur yn yr holl Elys, ac ym mhob lle arall; ac i lawer o'r brodyr yn yr Arglwydd fyned yn hyderus wrth fy rhwymau i, a bod yn hyfach o lawer i draethu'r GAIR yn ddiogel. Y mae rhai yn wir yn pregethu Crist trwy gynfigen ac ymryson; a rhai hefyd o ewyllys da. Y naill sy'n pregethu

|| Ephes. vi. 6. § Diar. v. 21. ¶ Salm lxii. 12.

Crist o gynnen, nid yn bur, gan feddwl dwyn mwy o flinder i'm rhwymau i; a'r lleill, o gariad; gan wybod mai er amddiffyn yr Efengyl y'm gosodwyd. Beth er hynny? Etto, ym mhob modd, pa un bynnag ai mewn rhith, ai mewn gwirionedd, yr ydys yn pregethu Crist; ac yn hyn yr ydwyf fi yn llawen, i.e., a llawen fyddaf. Canys mi a ŵn y digwydd hyn i mi er iachawdwriaeth, trwy eich gweddi chwi a chynnorthwy yspryd Iesu Grist, yn ol fy awyddfryd a'm gobaith, na'm gwaradwyddir mewn dim; eithr mewn pob hyder, fel bob amser, felly yr awrbon hefyd, y mawrygir Crist yn fy nghorph i, pa un bynnag ai trwy fywyd, ai trwy farwolaeth. Canys Byw i mi yw Crist, a MARW sydd Elw.\* Os byddwn "byw i'r Arglwydd," ni cheisiwn bethau mawrion i ni ein hunain; ond, uwchlaw pob dim, "ni a geisiwn deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau angenrheidiol a roddir i ni yn ychwaneg."† Hyn a fydd ein hunig ofal, "fel y mawryger" yr Arglwydd ynom a thrwon ni, naill ai trwy weithred ai dioddefaint, trwy ein bywyd neu'n marwolaeth. Nyni a foddlonwn i'r cyflwr a'r galwedigaeth a ddewiso

\* Phil. i. 12--21. † Matth. vi. 33. Preg. XXII. L. 2.

efe i ni, a ny ni a fyfyriwn am ei anrhydeddu ef yn y gorchwyl bwennw, trwy gyflawni yn ddiwyd y dyledswyddau sy'n perthyn iddo. Er bod gennym y swydd isaf yn ei deulu ef, ny ni a fyddwn gwbl ewyllysgar i gyflawni gwaith y swydd honno yn ddirwgnach, heb gynfigennu wrth y rhai a anrhydeddwyd â lleoedd a swyddau uwch. Nage mewn gwirionedd, yn lle edrych arnynt gyd â malais a chynfigen, ni a ddylem llawenychu wrth weled eu llwyddiant a'u diwydrwydd. Fel hyn yr oedd y Salmydd yn gwneuthur: canys, medd efe, "Ymwél â mi, Arglwydd, a'th iachawdwriaeth; fel y gwelwyf ddaioni dy etholedigion, fel y llawenychwyf yn llawenydd dy genedl di, fel y gorfoleddwyf gyd a'th etifeddiaeth."†— Os gwasanaethir yr Arglwydd yn gywir, ny ni a fyddwn yn foddlon pa ddwyllaw bynnag a ddygo'r gwaith ym mlaen. Ny ni a gyflawnwn yr hyn a syrthio i'n rhan ni yn y modd goreu ag y medrom; ac a weddiwn am chwanegu gras y rhai a anrhydeddir â swyddau uwch na'r rhai a roddwyd i ni.

4. Byw i'r Arglwydd yw bod yn gwbl foddlon i'r hyn a ordeinio efe; ei fendithio ef bob amser yn gystal mewn adfyd ag

† Edr. Salm cvi. 4, 5.

mewn gwynfyd; bod yn llwyr mor foddlonus iddo gymmeryd oddi arnom â rhoddi i ni. Pa mor berffaith y dysgasair Apostol y wers bwysfawr hon, gwelwn oddiwrth ei eiriau ef ei hun — “Mi a fedraf ymostwng, ac a fedraf ymhelaethu. Ym mhob lle, ac ym mhob peth, y'm haddysgwyd i fod yn llawn, ac i fod yn newynog; i fod mewn helaethrwydd, ac i fod mewn prinder.”\* — Gwrthryfel yn erbyn ein Harglwydd yw grwgnach yn erbyn unrhyw beth a ordeinio efe, pa mor boenus a blinderus a fyddo. “Pa beth sydd gennym a'r na's derbyniasom?† Llygaid pob peth a ddisgwyliant wrth yr Arglwydd, ac y mae'n rhoddi iddynt eu bwyd yn ei bryd; gan agoryd ei law, a diwallu pob peth byw â'i ewyllys da.‡ Omid ydyw'n gyfreithlon i Dduw wneuthur hynny a welo fod yn oreu â'i eiddo ei hun, ac er lles i'w hollgreaduriaid?

Cofiwch hefyd eiriau rhagorol y Salmydd wrth yr Hollalluog ei hun: “Arglwydd ein Iôr ni, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear; yr hwn a osodaist dy ogoniant uwch y nefoedd! Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer, a'r sêr, y rhai a ordeiniaist; pa

\*Phil. iv. 12. †1 Cor. iv. 7. ‡Sal. cxlv. 15. 16.

beth yw Dyn, i ti i'w gofio, a mab dyn i ti i ymweled ag ef?"§ Mae efe yma yn moliannu daioni Duw yn rhoddi i Ddyn, ar y crëedigaeth cyntaf, y cyfryw râdd uchel yn ei waith rhyfeddol; ac yn dywedyd ym mhellach: "Gwnaethost ef ychydig îs na'r angylion aë a'i coronaist â gogoniant ac â harddwch. Gwnaethost iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwyllaw. Gosodaiast bob peth dan ei draed ef!"|| Y mae dull ei ymadrodd mewn man arall yn gwahanu rhyw faint, lle y mae'n son am ddaioni Duw tu ag at Ddyn yn ei gyfwr cwmpiedig. Y mae'n dywedyd yno: "Arglwydd, beth yw dyn pan gydnabyddit ef, neu fab dyn pan wnait gyfrif o hono? Dyn sydd debyg i wagedd: ei ddyddiau sydd fel cysgod yn myned heibio!" Yr ystyriaeth hon a gododd oddiwrth y profiad a gawsai efe ei hun o anhaeddianol drugaredd Duw tu ag atto, "yr hwn a ddysgasai ei ddwyllaw i ymladd, a'i fysedd i ryfela."\* Ond y mae ymadrodd Job yn dwysach etto na'r rhai uchod, pan yw efe yn y caledi-mwyaf yn llefaru fel hyn wrth yr Hollalluog: "Pa beth ydyw Dyn, pan fawrhêit ef, a phan osodit dy feddwl arno?"† Mae'n rhyfedd

§Sal. viii. 1—4. ||Sal. viii. 6. 7. \*Sal. cxliv. 1—4, †Job vii. 17—21.

fod **Duw** yn cymmeryd cymmaint gofal am greadur pechadurus; i.e., "ei yn ymweled ag ef bob bore," i roddi meddyginiaeth er mwyn adferu ei iechyd ysprydol; gan gystuddio ei gorph er mwyn daioni a llesad i'w enaid.

Fel hyn yr edrych pob gwir ddisgybl i Iesu Grist ar y damweiniau mwyaf cystuddiol a ddigwyddo trwy ragluniaeth Duw. Gan addef yn ewyllysgar, y gŵyr yr Arglwydd beth sydd oreu er ei lês yn well nag y gŵyr efe ei hun, efe a gusana'r wialen, ac a dderbyn bob peth a ddanfono Duw gyd â boddlonrwydd. Fel hyn y gwnai gweision Duw ym mhob oes o'r byd. "Pe lladdai efe fi, (meddai Job,) etto mi a obeithiafynddo ef;"\* a'r Salmydd: "Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod Angau, nid ofnaf niweid."† Er i **NATUR** suddo ychydig, a dymuno i'r cystudd ymadael ag ef, etto **GRAS** a ddysg i'r Cristion foddloni, ac a'i hannog i ddywedyd gyd â'i Arglwydd a'i Brynwr: "O Dad, os ewyllysi droi heibio y cwppan lwn oddi wrthyf! Er hynny, nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler!"‡

5. Eithr, yn ddiweddaf, Byw i'r Ar-

\*Job xiii. 15. †Salm xxiii. 4. ‡Luc xxii. 42.

glwydd ydyw ymroi i'w wasanaeth ef, fel na chyfrifom monom ein hunain yn BYW OLL, ond cyn mbelled ag y byddom yn ufuddhâu iddo, ac y mynegom ei foliant. Hyn, mae'n debygol, yw gwir feddwl ac ystyr geiriau'r Apostol yn y testun. Nid oedd efe yn cyfrif dim yn deilwng i'w alw Byw, ond yr hyn sydd yn ufuddhau i'r diben mawr, i ba un y rhoddwyd Byw. Yr oedd efe yn cyfrif ei anser wrth y gwasanaeth a wnai i'w Arglwydd, a'r ufudd-dod yr oedd Gras Duw yn ei gynorthwyo i'w gyflawni. Y rhannau eraill o'i anser, yr hwn yr oedd yn ei dreulio ar bethau eraill, nid oedd yn cyfrif mono yn *byw* oll; y rhannau hynny a gyfrifai megis tymmorau gweigion, cyffelyb i'r oriau sy'n myned heibio mewn Cwsg, yr hwn yw delw neu lun marwolaeth. Dyna iaith y Cristion cywir: "Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd! Fy enaid a hiraetha, ie, ac a flysia am gynteddau'r Arglwydd: fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Duw Byw! Canys gwell yw un diwrnod yn dy gynteddau di na mil. Dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo ym mhebyll annuwioldeb. O Arglwydd y lluoedd, gwyn fyd y dyn a

ymddiried ynot!"†

Duw Hollalluog a roddo i ni ras i ystyr-  
ied y pethau hyn, ac i'w gosod hwynt yn  
ddifrifol at ein calonnau, trwy Iesu Grist  
ein Harglwydd. Amen.

†Salm lxxxiv. 1. 2. 10. 12.





## PREGETH X.

CORNELIUS, Y CANWRIAD DEFOSIYNOL.



ACTAU X. 4.

*Dy weddïau di a'th elusenau a ddyrchafasant yn goffadwriaeth ger bron Duw.*

*Thy prayers and thine alms are come up for a memorial before God.*



“**Y**GORUCHEL a'r Dyrchafedig, yr hwn a breswylia dragywyddoldeb, a breswylia hefyd gyd â'r cystuddiedig a'r isel o yspryd.\* Ni esgeulusa yr Hollalluog, yng nghanol ei ogoniant, y gwaelaf o'i addolwyr ffyddlon. O'r gwirionedd cysurus hwn y mae'r testun yn rhoddi i ni siampl hynod. “Yr oedd rhyw wr yn Caesarea, a'i enw Cornelius, canwriad o'r fyddin a elwid yr Italaid; gwr defosiynol, ac yn ofni Duw, ynghyd a'i holl dŷ, ac yn gwneuthur llawer o elusenau i'r bobl, ac yn gwe-

\* Edr. Is. lvii. 15.

ddio Duw yn wastadol.\* Duw a ddaliodd sulw neillduol ar y gwr cyfiawn hwn, ac a ddanfonodd angel o'r nef atto, yr hwn a ddywedodd: "Cornelius, dy weddïau di a'th elusenau a ddyrchafasant yn goffadwriaeth ger bron Duw."

Ystyriwn, gan hynny, gyssylltiad gweddi gyd ag elusen, neu ufudd-dod cywir i orchymynion Duw gyd â chariad gwresog tu ag at Ddyn. Dylai y rhinweddu hyn fyned bob amser gyd a'u gilydd; ac, yn wir, "y peth a gyssylltodd Duw na wahaned Dyn."† Mi a wna fy ngoreu i ddangos i chwi, yn y lle cyntaf, fod elusen heb weddi, a thrachefu gweddi heb elusen, yn ddiffygiol iawn; ac, yn ddiweddaf, y budd a'r effaith dedwydd sy'n deilliau oddiwrth eu cyssylltiad.

I. Ystyriwn, yn gyntaf, lesgedd a diffyg elusen heb weddïau. Cyfoedwch eich llygaid, ac edrychwch tu a'r gogledd a'r dehau, a thu a'r dwyrain a'r gorllewin, a chwi a ellwch glywed sou am bobl heb lywodraeth, heb gyfreithiau heb ddinasoedd, ond ni chewch chwi byth hanes am ddynion heb ryw fath o grefydd. Er bod y Scythiad ond odid yn ymgrymmu i'r haul neu'r lleuad, a'r

\* Edr. Act. x. 1, 2. † Marc x. 9.

Barbariad i ddelw fud; etto y maent yn cydnabod eu dyled tu ag at y GALLU a'n gosododd hwy y yn byd rhyfeddol hwn, gan wasanaethu yn wir "y Creadur yn fwy na'r Creawdwr, yr hwn sydd fendigedig yn dragywyddol.† -" Diammau fod yn rhaid i ryw ddiffyg anfeidrol, ryw lygredigaeth ffaidd drigo yn y galon sy'n parhau yn an-nheimladwy ac yn oer, lle y dylai fod y diolchgarwch a'r gwresogrwydd mwyaf. Ni's gall y ffynnon fod yn lân, os yw'r ffrwd yn arian. "A ydyw ffynnon o'r un llygad yn rhoi dwfr melus a chwerw? A ddichon y pren ffigys, fy mrodyr," medd S. Iago, "ddwyn olifaid; neu winwydden, ffigys? Felly ni ddichon un ffynnon roddi dwfr hallt a chroyw. Pwy sydd wr doeth a deallus yn eich plith? Dangosed, trwy ymarweddiad da, ei weithredoedd mewn mwyneidd-dra doethineb."‡ Gwrandewch hefyd ar eiriau ein Hiachawdwr ei hun; "A gasgl rhai rawnwin oddiar ddrain, neu ffigys oddiar ysgall? Felly pob pren da sydd yn dwyn ffrwythau da; ond y pren drwg sydd yn dwyn ffrwythau drwg. Pob pren; heb ddwyn ffrwyth da, a dorrir i lawr ac a defir yn tân."||

†Edr. Rhuf, i. 25. ‡Iago iii.11--13. ||Matth,vii.16--19.

Ond, heblaw hyn, ym mha le bynnag y mae Crefydd yn cael ei dirmygu, ni's gall yno fod gyflawniad cywir o ddyledswyddau moesol. Deddfwr nefol yn dau-son ei leferydd o'r uchelder, Tyst presennol yn ein canfod ni ym mhob rhyw le, a Llywodraethwr hollalluog yn estyn ei fraich allan i gosci ac i wobrwyo, gan ein rhybuddio ni ynghylch dirgeledigaethau y Byd anweledig, a chan fynegi i'r duwiol yr orphwysfa, ac i'r annuwiol y trueni, a barottöwyd iddynt er seiliad y creaduriaeth; wele, dyma'r egwyddorion sy'n cynnal cyfiawnder ac attal drygioni! Cred ffyddlon yn y gwirioneddau pwysfawr hyn yw'r unig "ffydd sydd yn gorchfygu'r Byd. Ac i Dduw y byddo'r diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni y cyfryw oruchafiaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist."\*

At annogaeth a rhybuddion Cydwybod y mae'r ystyriaethau hyn yn chwanegu nerth ac awdurdod Cyfraith. Gan gydwethio gyd â holl dueddiadau da y dyn duwiol, y maent yn cadarnhâu eu heffaith; ac, yn wir, yn rhoddi siccrwydd iddynt. Pwy a all roddiymddiried yn elusen y gwr, yr hwn nid yw yn meddwl am Dduw, ac

\* Edr. 1 Ioan v. 4. 1 Cor. xv. 57.

yn cyssylltu gweddi gyd â'i weithredoe dd cardodol? Mewn gair, os cymmerwch ymaith ystyr Crefydd, yr ydych yn gwneuthur holl golofnau Moesoldeb siglo. Yr ydys yn gwanhâu effaith Rhinwedd ym mhob calon; ac, yn y rhan fwyaf o ddynolryw, yr ydys yn diwreiddio ei holl nerth, ac yn peri i'w holl degwch ddiflannu.

II. Ystyriwn ar y llaw arall, mewn ychydig eiriau, mor ammerffaith a diffygiol ydyw gweddi hefyd heb elusen, neu duwioledeb allanol heb sylrwydd calon a gweithredoedd da. Ym mhob oes, ac ym mhob gwlad, y mae llaweroedd o bobl yn barottach i gyflawni rhyw ddefodau priodol, nag i wneuthur y "pethau trymmach o'r Gyfraith; sef, barn, a thrugaredd, a ffydd: rhaid yw gwneuthur y pethau hyn, ac na adewid y lleill heibio."\* Mae'r Ysgrythur oll yn peri i ni brofi ein ffydd wrth ein gweithredoedd, a dangos ein cariad i Dduw wrth ein cariad i Ddyn.† Ni a welwn oddiwrth eiriau Crist ei hun, mai yn ofer yr ydys yn ei alw ef, **ARGLWYDD, ARGLWYDD**, oni wnawn yr hyn y mae efe yn ei ddywedyd.‡ Ië, *ffrwyth* ei yspryd

\* Edr. Matth. vii. 15---29. xxiii. 23. xxv. 34—46.

†Iago ii. 18. ‡Luc vi. 46.

ef ydyw cariad, tangnefedd, cymmwynasgarwch, addfwynder, a phob daioni; ac nid *gorchymmyunion* ei Efengyl ef yn unig.¶

Ni ddichon rhyw addoliad noeth, heb gyfiawnder a thrugaredd, fod byth yn gymmeradwy gan Dduw. “Beth yw lliosowgrwydd eich haberthau i mi, medd yr Arglwydd? Pan ddeloch i ymddangos ger fy mron, pwy a geisiodd hyn ar eich llaw, sef, sengi fy nghynteddau? Na chwanegwch ddwyn offrwin ofer. Eich lleuadau newydd a'ch gwyliau gosodedig a gasaodd fy enaid: y maent yn faich arnaf. Pan weddioch lawer, ni wrandawaf.”\* — Na feddylied neb fod y Goruchaf yn gofyn ein haddoliad ni, fel pe gallasai'r goreu o ddynolryw chwaneagu at ei ddedwyddwch ef, a'i ogoniant. Gallsit yn hytrach, O ddyn, feddwl chwaneagu at swm y daran gyd â th lais, neu at ddisgleirdeb yr haul gyd â chanwyll frwyn. Ein Creawdwr sydd yn gofyn gennym addoliad a gweddiau er mwyn Dyn yn unig, nid i wneuthur Duw yn fwy gogoneddus, ond i wneuthur Dyn yn well, yn fwy teimladwy o'i ystad ymddibynnol ac anwadal, ac yn fwy awyddus i edrych am y ffordd i nesâu at Dduw.

¶Edr. Gal. v. 22. \*Is. i. 11—15.

“A'r gorchymmyu hwn sydd gennym oddi wrtho ef,” medd yr Apostol Ioan, “Bod i'r hwn sydd yn caru Duw, garu ei Frawd hefyd.\* Peidiwch a gwneuthur drwg: dysgwch wneuthur daioni: ceisiwch farn: gwnewch uniondeb i'r gorthrymmedig: gwnewch farn i'r ymddifad dadleuwch dros y weddw.”† Os hyn a wnai, “nesa at Dduw, ac efe a nesa attat di; galw arno yn nydd dy gyfyngder, ac cfe a ettyb.”‡ Yna dy weddiau di a'th elusenau a ddyrchafant “wedi eu cydgyssylltu,” yn goffadwr-iaeth ger bron Duw.

III. Wedi gweled ffoledd gwahanu dau beth a ddylai fod bob amser yn gyttûn, sef, duwioldeb tu ag at ein Creawdwr, a chariad tu ag at ein Cydgreaduriaid; ystyriwn yn awr, yn y lle diweddaf, eu heffaith dedwydd pan fyddant yn cydweithio gyd â'u gilydd. Eu cyssylltiad a'u hundeb sy'n llunio buchedd pob Cristion cywir. “Dyma'r dyn a dâl lawer. Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll.\* Ië, dyma'r dyn “sydd yn gwneuthur ewyllys ein Tad, yr hwn sydd yu y netoedd.”†

1. Pwy bynnag a ewyllysia wahanu

\*1 Ioan iv. 21. †Is. i. 16. 17. ‡Iago iv. 8. Sal. cii. 9.  
Is. lviii. 9. \*Ioan i. 47. †Matth. vii. 21.

Duwioldeb oddiwrth ymddygiad moesoel, neu ymddygiad moesol oddiwrth dduwioldeb, a ddw̄g amnharch mawr arno ei hun, ac ar ei grefydd hefyd. “Trwy'r peth hyn y mae'n peri i elynion yr Arglwydd gablu.” † Canys yr anghredadyu a watwar dduwioldeb y dyn hwnnw sy'n dirmygu, neu'n esgeuluso, holl ddyledswyddau moesol a rhinweddol. A'r rhai sydd yn ofer dybied eu bod yn cael eu cynhyrfu trwy ysprydoliaeth Duw, gyd â'r rhai sydd yn hyderu arnynt eu hunain eu bod yn gyfiawn, ac yn diystyru eraill, fel y Pharisead yn y ddamneg, § gan weddio yn yr amlwg fel yr ymddangosont i ddynion, neu gan gyflawni rhyw ddefodau gwaelion; y rhai hyn i gyd a ffeiddiant ddilynw̄r rhinwedd, os byddant hwy yn ddirmygw̄r Duw. Eithr y y neb sydd yn ofni Duw, ac yr un amser yn gymrwynasgar tu ag at Ddyn, sydd yn rhoddi i Grefydd barch dyledus.

2. Dyma'r gwr hefyd sy fwyaf dedwydd a mwyaf heddychlon. O herwydd neb sydd ddiffygiol, naill ai yn ei weddiau, ai yn ei weithredoedd da, sydd bob amser yn ddarostyngedig i gnofa Cydwybod; a Chydwybod a ymddengys iddo

† Edr. 2 Sam. xii. 14. § Luc xviii. 9.



megis “darn y llaw oddi ger ei fron ef, gan ysgrifennu yr ysgrifen hon: **TI A BWYSWYD YN Y CLORIAUNAU, AC A’TH GAED YN BRIN.**”  
 Ond yr hwn sydd ganddo “Ffydd a Chydwytbod dda,§ gan gyflawni, hyd eithaf ei allu, ei ddylêd tu ag at **Dduw a Dyn**, sydd yn mwynhâu y llawenydd pur sy’n deilliaw oddiwrth symlwydd ac uniondeb calon.

3. Ni’s gall y dyn, yr hwn sydd yn ymddiried mewn moesoldeb yn unig, byth wybod am hyfrydwch Crefydd. Efe a eill yn wir deimlo rhyw foddlondeb oddiwrth weithredoedd haelioni a thrugaredd: eithr nid yw y boddlondeb hwnnw yn deilliaw oddiwrth y caredigrwydd sy’n gwresogi yng nghalon y dyn crefyddol, yr hwn a all edrych i fynu tu a’r nefoedd, ac ymlawenhau am iddo fod, mewn rhyw fodd, yn ddi-lynwr Duw a Christ. Drachefn, y dyn sydd yn hyderu ar ei dduwioldeb yn unig, ni’s gall efe byth deimlo hyfrydwch cymwynasgarwch a daioni. Ond unwch galon dduwiol ac elusengar yn yr un fynwes: ei elusenau sydd yn ei gyssylltu ef gyd â **Dyn**, a’i weddiau gyd â **Duw**. Mae efe yn edrych yn ddiofn ar y ddau fyd, y byd

§Edr. Dan. v. 24. 27. §1 Tim. i. 19. ïi. 9.

hwn, a'r byd a ddaw. Os cyfyd ei olygon tu a'r nef, efe a lawenha yn yr ystyriaeth, mai yno y mae'r Duw hwnnw yn preswyl-  
io, "yr hwn a'i piau, a'r hwn y mae'n ei addoli,"† a'r Iachawdwr trugarog, yn yr hwn y mae'n ymddiried; ac mai yno hefyd y mae'r Yspryd grasusol hwnnw yn trigo, oddiwyth ba un y mae ei dduwioldeb a'i holl ymddygiad daionus yn deilliaw. Ac ar ei glaf wely, pan deifl efe ei olwg yn ol ar y byd o'i amgylch, gall ddywedyd yng ngeiriau Job: "Pan y'm clywai clust, hi a'm bendithiai; a phan y'm gwelai llygad, efe a dystiolaethai gyd â mi: am fy mod yn gwaredu'r tlawd a fyddai'n gweiddi, a'r amddifad, a'r hwn ni byddai gynnorthwywr iddo. Bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano a ddeuai arnaf; a gwnawn i galon y wraig weddw lawenychu. Gwisgwn gyfiawnder, a hithau a wisgai am danaf fi: a'm barn fyddai fel mantell a choron. Llygaid oeddwn i'r dall; a thraed oeddwn i'r cloff. Tad oeddwn i'r anghenog: a'r cwyn ni wyddwn, a chwiliwn allan."‡

4. Nid digon ydyw dywedyd fod gwir Ffydd yng Nghrist, a Rhinwedd dda, yn parottoi pobl i fyned i mewn i deyrnas

†Edr. Act. xxvii. 23.   ‡Job xxix. 11—16.

**D**duw; eithr, yn hytrach, dechreuad ydynt o ddiddanwch a dedwyddwch y nefoedd. Nôd ac arwydd ydynt o Lan Ysryd Duw, trwy'r hwn y seliwyd pob dyn crefyddol a daionus hyd ddydd prynedigaeth.\* Duw Hollalluog, yng nghanol ei anfeidrol ogoniant, a ddaliodd sulw neillduol ar weddian ac elusenau Cornelius. Ond er bod y Canwriad defosiynol hwn yn gwneuthur yn dda, o ddyn yn ei angylchiadau ef; etto dysgwn, oddiwrth ei hanes rhyfeddol, mai nid moesoldeb yn unig, neu fuchedd union, heb wir ffydd, a all gadw'r enaid pan fo gennym allu a modd i wybod a "phrofi beth yw daionus, a chymmeradwy, a pherffaith ewyllys Duw."† Canys ym mha le bynnag y datguddiodd Duw ei ewyllys, ac y dangosodd ar ba ammodau y rhydd efe iachawdwriaeth i Ddyn, yno y mae pawb, dan eithaf perygl o golledigaeth, yn rhwym i dderbyn ei Ddatguddiad, ac i gredu a gwneuthur yn ol athrawiaeth y cyfryw Ddatguddiad.

5. Peth arall i'w ddysgu oddiwrth yr ysgrythur hon ydyw, fod gan Dduw, pan wêl efe yn dda weithio troedigaeth dyn mewn rhyw ffordd anghynnefin, y fath

\*Edr. Ephes. iv. 30. †Rhuf. xii. 2.

olygiad i foddion cyffredinol Gras, fel a gwna ddefnydd o'r cyfryw foddion wrth ddwyn ei waith i ben. Duw a welodd yn dda anfon angel o'r nef i gyfarwyddo Cornelius i ffydd Crist; ond nid yw'r angel yn cymmeryd arno ei ddysgu ef, pa beth a ddylai gredu ynghylch ein Hiachawdwr, na pha beth oedd raid iddo ei wneuthur "tu ag at gaffael iechyd tragywyddol." Yn lle hyn y mae efe yn peri iddo yrru am yr Apostol yn Joppa, a cheisio ganddo ef athrawiaeth. Ystyriwch hefyd dröad S. Paul. Teilyngodd ein Harglwydd Iesu Grist ei hun ymddangos iddo ef mewn modd gogoneddus iawn. Ond pa beth a wnaeth ein Prynwr Dyrchafedig iddo? Dim ond ei wneuthur ef yn deiuladwy o'i fai yn erlid y Grefydd Gristionogol; eithr, am addysg yn y Grefydd honno, y mae efe yn ei anfon ef at un Ananias, Gweinidog Cristionogol. § Hyn sydd dystiolaeth eglur o'r mawr bris y mae Duw yn ei roddi ar y moddion cyffredin, a osododd efe yn yr Eglwys, i ddwyn dynion i sanct-eiddrwydd a dedwyddwch; ac yn dystiolaeth gadarn hefyd o'r rhwymedigaeth sydd ar bob rhyw ddyn i wneuthur iawn ddefn-

§Efr. Act. ix. 1---18. xxii. 6---16.

ydd o'r moddion hyn, pa fath bynnag fyddo eu hamgylchiadau a'u cyflwr.

6. Eithr pa beth a ddywedwch chwi ym mhellach, yughylch ymddygiad Cornelius? Nid oes gennyf fi ddim ychwaneg i'w ddywedyd, ond mai dyna'r gwr y mae'r Arglwydd yn chwennych ei anrhydeddu. Dynion yn aml a etholant "y rhai doethion yn ol y cnawd, y rhai galluog, a'r rhai boneddigion.† Ond nid edrych Duw fel yr edrych Dyn; canys y Dyn a edrych ar y golygiad, ond yr Arglwydd a edrych ar y galon."‖ Pwy yn eich mysg, er iddo fod o isel radd, sydd yn ofni Duw ac yn gweithredu cyfiawnder,\* gweddiau pa un, a'i elusen, a'i ewyllys da sydd yn tarddu o berffeithrwydd ei galon? Ei ewyllys da ef, ei elusenau, a'i weddiau ydynt yn dyrchafu yn goffiadwriaeth ger bron yr Hollalluog Dduw, yr hwn "nid ydyw dderbyniwr wyneb."‡ Ar y cyfryw un y mae'r Arglwydd yn edrych oddi ar ei orseddfainge mewn boddlonrwydd. Duw a'i dysg ef i garu ei frodyr.§ Angylion sy'n gweini iddo ar y ddaear, gan wybod ei fod ef i fod eu cyfaill yn y nefoedd.

† Edr. 1 Cor. i. 26. ‖ 1 Sam. xvi. 7. \* Is. l. 10. ‡ Act. x. 35. 34. § 1 Thess. iv. 9.

Y cyfryw radd uchel o berffeithrwydd, y cyfryw anrhydedd a dedwyddwch, bydded i ni, frodyr, geisio eu cyrhaedd. Ac, O na fyddai i eiriau rhagorol y Prophwyd Micah, ym mhob lle ac ar bob achos, trwy holl yrfa ein heinioes, seinio yn wastad yn ein clustiau! “Dangosodd efe it’, Ddyn, beth sydd dda: a pha beth a gais yr Arglwydd gennyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyd â’t Dduw?” § A Duw Hollalluog a roddo i chwi ac i minnau ras i osod y pethau hyn yn ddifrifol at ein calonnau, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

§ Micah vi. 8.



## PREGETH XI.

YNGHYLCH YMDDYGIAD SANT BARNABAS.



ACTAU XI. 22---24.

*Hwy a anfonasant Barnabas i fyned hyd Antiochia: yr hwn, pan ddaeth a gweled gras Duw, a fu lawen ganddo; ac a gyng-horodd bawb oll, trwy lwyrfryd calon, i tynu wrth yr Arglwydd. O blegid yr oedd efe yn wr da, ac yn llawn o'r Yspryd Glan, ac o ffydd.*

*They sent forth Barnabas, that he should go as far as Antioch: who, when he came and had seen the grace of God, was glad, and exhorted them all, that with purpose of heart they would cleave unto the Lord. For he was a good man, and full of the Holy Ghost and of faith.*



**M**A E'r ymadrodd GWR DA, yr hwn sydd mor fynych yn ein genau, yn cael ei gangymmeryd a'i gamarferu mewn amryw

foddion. Un a elwir yn “wr da” am iddo wneuthur ei holl negesau crefyddol, a phob peth arall, yn weddaidd ac mewn trefn. Ond, yn aml, er fod ganddo “rith duwioldeb, y mae efe ond odid wedi gwadu ei grym hi.” †—Dyn arall sydd yn addfwyn, yn haelionus, ac na thrŷ ei wyneb oddiwrth neb tlawd; ‖ acefeafydd yn siccrogael ei alw felly, yn enwedig gan y rhai sydd yn gŵyrdroi y geiriau hynny: Elusen a wared rhag angau; § canys cariad a guddia liaws o bechodau. † Eraill drachefu, y rhai sy’n ddiwyd, yn gymmedrol, ac yn ddifyrus, gan ymddangos oddi allan yn dŷg ac yn barchedig, a elwir yn “ddynion da,” heb iddynt ysgatfydd unwaith feddwl am Dduw a Christ. Ië, “ei arglwydd a ganmolodd y goruchwyliwr anghyfiawn am iddowneuthur yn gall.” ¶ Gyd â daioni y cyfryw bobl, ac eraill a fuasai hawdd eu crybwyll, y mae’r Byd yn dadseinio. Ondetto y mae’n naturiol i ni oll ymresymtu: “Os yw’r cyfryw ddynion yn “ddynion da,” pa cyn hawsed ydyw bod yn dda! A pha mor ddaionus sy raid i’r Byd fod, lle mae cymmaint o ddaioni yn trigo! Eithr, ysywaeth, pa beth yw iaith

† Edr. 2 Tim. iii. 5, 6. ‖ Tob. iv. 7. § 8. † 1 Pedr. iv. 8.

¶ Luc xvi. 8.



ac ystyr yr Ysgrythurau Sanctaidd? Mae'r Ysgrythur yn dywedyd fod yr holl Fyd yn gorwedd mewn drygioni,\* a bod cyfeillach y Byd yn elyniaeth i Dduw.† Y mae holl hanes dynolryw, a'r hanes hwnnw sydd i'w gael yn y Bibl yn unig, yn dangos yr un gwirionedd. Yn y dyryswch hwn y mae'r Ysgrythur yn dywedyd wrthym fod Barnabas “yn wr da, ac yn llawn o'r Yspryd Glan, ac o ffydd;” ac, oddiwrth ystyried y geiriau hyn yn ddifrifol, nyni a allwn weled ysgatfydd pa beth y dylai fod ymddygiad “gwr da” yn ol ystyr yr Efengyl.

1. “Barnabas oedd yn llawn o'r Yspryd Glan.” Ond pa beth yw ergyd neu amcan yr ymadrodd hwn? Nid yn unig fod gan Barnabas allu i wneuthur gwyrthiau. Rhoddwyd iddo ef yn ddiammau, megis ag i'r Cristionogion godidog eraill yn y dyddiau hynny, amryw ddoniau yr Yspryd Glan. Ond nid dyna'r peth a dystiolaethir amdano yma. Mae'r geiriau yn hytrach yn gosod ger ein bronau wir dueddiad ei galon. Maent yn dangos yn eglur nad oedd efe mwyach o'r byd hwn yn unig, “megis nad oedd Crist o'r byd||— megis wedi ei eni, nid o ddwfr yn unig, eithr o'r

\* Edr. 1 Ioan v. 19. †Ioan iv. 4. || Iago xvii. 16.

Yspryd,\* megis wedi ei ryddhau oddiwrth ei lygredigaeth anianol, a'i grëu o newydd i sancteiddrwydd a chyfiawnder— megis wedi ei buro oddiwrth “synniad y cnawd, yr hwn sydd elyniaeth yn erbyn Duw; canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw, o blegid ni's gall chwaith;† eithr yn hytrach “wedi ei gyflawni a ffrwythau yr Yspryd,” a duwioldeb, a chrefydd, ac a rhinwedd dda, “y rhai sydd, trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw.”‡ Wele yma arwydd ragorol o ddaioni.

2. Yr oedd Barnabas yn “llawn o ffydd.” Yn rhwydd y gallai Barnabas ddywedyd yng ngeiriau ei gyfaill S. Paul: “Yr hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw; trwy yr hwn y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd.§ Yr oedd ei ffydd ef yn bur, yn ddiffuant, yn wresog, yn effeithiol; a nid rhywgydsynniad noeth i hanes gweithredoedd Crist, y cyfryw ag a fuasai yn hawdd iddo roddi i hanes gweithredoedd Pontius Pilat neu weithredoedd Herod. Ffydd oedd hi yn Iesu Grist Mab y Bendedig, megis Iachawdwr mawr dynolryw.

\*Ioan iii. 5. &c. †Rhus. viii. 7. ‡Phil. i. 11. §Gal. ii. 20. vi. 14.

Yr oedd Barnabas yn cydnabod euogrwydd Dyn, ac haeddedigaethau Crist. Efe a wyddai i bwy y credodd, Chwi a welwch gan hynny fod ffydd yn cydweithio â'i weithredoedd ef, a thrwy ei weithredoedd yr oedde ei ffydd yn cael ei pherffeithio.¶ Wele yma arwydd arall, oddiwrth ba un y gallwn wybod pwy sydd yn "wr da," a phwy sydd yn cymmeryd yr enw ardderchawg hwnnw arno heb ei haeddu.

3. Barnabas, "pan ddaeth i Antiochia a gweled gras Duw, a fu lawen ganddo." Yn erlidigaeth y Cristionogion a ddechreuwyd gyd â merthyrdod S. Stephan, llawer o honynt a dramwyasant drwy Judea a gwledydd eraill o amgylch, gan geisio lleoedd diogel. A rhai o honynt a aethant hyd Antiochia, ac a lefarasant wrth y Groegiaid, gan bregethu'r Arglwydd Iesu. A llaw'r Arglwydd oedd gyd â hwynt; a nifer mawr a gredodd ac a drodd at yr Arglwydd. A phan ddaeth gair am y pethau hyn i glustiau'r Apostolion, y rhai oeddynt yn aros yn Jernsalem megis blaenorion a sefydlwyr yr Eglwys Cristionogol, hwy a anfonasant Barnabas attynt i gadarnhâu a diddanu eu calonnau. Yr hwn, pan

ddaeith a gweled gras Duw, a fu lawen ganddo.† Pan welodd efe helaethrwydd teyrnas ei Arglwydd croeshoeliedig a mawrygiad ei enw, llawenychodd â llawenydd mawr dros ben. “A'r Arglwydd a chwanegodd beunydd at yr Eglwys y rhai a wuaethant eu hunain yn addas, trwy fedydd, ffydd, ac edifeirwch, i fod yn gadwedig;”\* ac oeddynt yn parhâu felly trwy newydd-deb buchedd. Wele yma nod rhagorol pellach i ddangos “y gwr da.”

4. “Barnabas a gynghorodd bawb oll, trwy lwyrfyd calon, i lynu wrth yr Arglwydd.” Nid oedd llawenydd Barnabas yn ymddigrifo nac yn ymddiffoddi mewn ystyriaethau ofer. Cariad Crist oedd yn ei gymmell ef i lafurio yn winllan ei Arglwydd.

† Edr. Act. xi. 19—23.

---

\* E. r. Act. ii. 47. — “Such as *should be saved*,” says the English Version; and the Welsh, *y rhai fyddent gadwedig*: but not so much as should be saved by the *determined* will of God; but such as — v. 40. 42.— *saved themselves from that untoward generation by continuing in the Apostles doctrine*. Besides, the word in the Greek cannot, with any sort of propriety, be rendered such as *should be saved*; but *such as were saved*: that is, such as were placed by baptism, faith, and repentance, in a state of salvation; but this state they must of course maintain afterwards by a holy life. See Gilpin, and other Commentators.

Ei ewyllys da tu ag at Ddyn oedd yn ei annog ef i roddi pob cymmorth a chynorthwy i ddynolryw, gan ddangos iddynt bob daioni a thrugaredd yn ei allu. Yr ydym yn darllain am dano ef o'r blaen yn y modd canlynol: "A Joseph yr hwn a gyfenwid Barnabas, a thir ganddo, a'i gwerthodd, ac a ddug yr arian, ac a'i gosododd wrth draed yr Apostolion: a rhanwyd i bob un megis yr oedd yr angen arno." † Felly y cafodd efe y cyfenw **BAR-NABAS** gan yr Apostolion, yr hyn o'i gyfieithu yw, **MAB DIDDANWCH**. Ni's gŵyr neb pa nifer a gâdd gyssur mewn bwyd a dillad oddiwrth ei haelioni ef a'i drugaredd yr amser hwnnw. Ond yn awr efe a gerddodd o amgylch, fel ei Arglwydd Bendigedig, ‖ gan wneuthur daioni, a phorthi yr anghenus mewn modd mwy rhagorol. Efe yn awr a gerddodd o amgylch megis gweinidog a chyfrannwr y bendithion hynny, y

‖ Edr. Act. x. 38.

---

† Edr. Act. iv. 36, 37.—The Sacrifices of the Temple, of which the Common People partook, were a great relief to the Jewish Poor. As the Christian Converts were deprived of this, some other relief was the more necessary. Hence community of property seems to have arisen. See Gilpin.

rhai yn unig a roddant gyssur cyflawn a pharhâus; sef, rhyddhâd oddiwrth bechod, nerth ysprydol, cynnorthwy i'r enaid, "bara'r bywyd, a gwisgoedd iachawdwriaeth a chyfiawnder."\* Efe a gynghorodd bawb oll, trwy lwyrfryd calon, i lynu wrth yr Arglwydd. Efe a osododd ger eu bronau yr anfeidrol euogrwydd a'r gospedigaeth erchyll sydd raid ddigwydd i bob ymadawriad oddiwrth y ffydd, ac a ddangosodd iddynt mai cyflog Pechod yw marwolaeth: eithr dawn Duw yw bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.† Dyna awydd arall, wrth ba un y gellir adnabod y "gŵr da."

Ystyriais yn awr, mewn ychydig eiriau, ymddygiad "gwr da" yn ol ystyr yr Ysgrythurau. Byddai'n hawdd i mi fyned ym mlaen, a dangos i chwi amryw arwyddion eraill oddiwrth ymarweddiad S. Barnabas; eithr, yn hytrach, nyni a ddylem ddodi yr athrawiaeth iachus hon at ein cyflwr, a'n calonnau ein hunain. Dyna'r peth mwyaf angenrheidiol i ddal sulw arno.

5. Chwi a wyddoch yn awr, frodyr, natur anhepcor pob Daioni, a phwy yw'r

\* Edr. Ioan vi. 35. Is. lxi. 10. † Rhuf. vi. 23.

“gwr da,” yn ol ystyr ac aincan gair Duw. Os bydd raid i chwi un amser wneuthur eich tyb i fynu ynghylch dynion eraill, holwch ac ystyriwch, gobeithiwch a barnwch yn ol cariad:”\* ac os bydd yn llwyr angenrheidiol farnu, bydded yr Ysgrythur eich hunig reol ac arweinydd, gan gofio PwY a ddywedodd y geiriau hyn: “â pha farn y barnoch, y’ch bernir; ac â pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau.”† Os gwelwch amryw ddynion yn rhoddi eu hymddiried yn eu cyfiawnder eu hunain, yn eu synwyr, eu golud, neu rhyw feddiant arall; na fydded felly yn eich plith chwi. Os rhydd neb ei ymddiried a’i obaith yn un o’r cyfryw eilunod, ni ddichon hwnnw fod yn “wr da.” Eithr os deisyf neb fod felly, edryched ar ymddygiad Barnabas, a chanlyned ei ol ef ar bob achos difrifol.

Ymholwn â’n calonnau ein hunain yn y modd hyn—A ydym ni, fel Barnabas, “yn llawn o’r Yspryd Glan?” A ydyw ein mynwes ni yn breswylfod i’r Rhinweddau Cristionogol, i wir edifeirwch a gostyng-eiddrwydd, i hynawsedd a synniad yr yspryd, i faddeuant, ac i wir ddiolchus gariad i’r holl-ddigonol Iachawdwr? Neu, o leiaf,

\* Edr. Rhuf. xiv. 15. †Matth. vii. 2.

a ydym ni yn gweddio yn daer cael ein cynnysgaeddu â'r cyfryw ddoniau, a bod yn siamplau o fuchedd ddaionus? A ydym ni, fel Barnabas, "yn llawn o ffydd," a'r ffydd honno wedi ei sefydlu yn ddiysgog yn Nuw a Christ? A ydyw hi yn ein cym-mell i flaenori mewn gweithredoedd da? Neu, os bydd ein cydwybod un amser yn achwyn arnom o blegid diffyg ein ffydd. a ydyw pob un o honom yn barod i lefain gyd â'r gwr yn yr Efengyl—"Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd! Cymmorth fy ang-hrediniaeth i?" †—Ac a ydym ni, fel Barnabas, yn cymmeryd pob cyfle i gynghori eraill, "trwy lwyrfyd calon, i lyuu wrth yr Arglwydd? Canys hyn yw tystiolaeth o'n cariad tu ag at Dduw a Dyn, yr hon a ofyn-nir gan bob un o honom. Felly, os ydym ni yn teimlo y cyfryw gyffrôad yn ein calonnau, a'r cyfryw ewyllys yn ein meddyl-iau, "yr Hollalluog Dduw, yr hwn a rodd odd i ni ewyllys i wneuthur y pethau hyn oll, a ganiattio i ni herth hefyd a gallu i gyflawni'r unrhyw; ac felly a berffeithio ei waith a ddechreuodd ynom, trwy Iesu Grist ein Harglwydd." ‖

6. "Yn ddiweddaf, frodyr, pa bethau

† Edr. Marc ix. 24. ‖ Ffurf Urddo Oheiriaid.



bynnag sydd wir, pa bethau bynnag sydd onest, pa bethau bynnagsydd gyfiawn, pa bethau bynnag sydd bur, pa bethau bynnag sydd hawddgar, pa bethau bynnag sydd ganmoladwy, od oes un rhinwedd, ac od oes dim clod, meddylwch yn wastad am ardderchawgrwydd y Ffydd Gristionogol, ac am yr holl bethau hyn; y rhai a ddysgasoch ac a dderbyniastoch, ac a glywsoch, ac a welsoch, yn ymddygiad Barnabas, un o'i chynhalwyr a'i phregethwyr cyntaf; y pethau hyn gwnewch, a Duw'r heddwch a fydd gyd â chwi.\* Canys wrth ymofyn â ni ein hunain, yn ôl rheol yr Ysgrythur, a ydyw neb rhyw ddydd yn "wr da"— yn GRISTION—, y mae yn rhaid i ni gymmeryd holl Rinweddau Cristionogol mewn ystyriaeth; o herwydd eu bod oll wedi eu cyssylltu â'u gilydd. "A'r pethau a gyssylltodd Duw, na wahaned Dyn." Cymmerwn ofal rhag unwaith feddwl fod Daioni yn sefyll ar haelioni a chymmwynasgarwch. Nid yw hyn ond un rhan o wir Ddaioni. Canys pa lesâd i ddydd garu ei gymmydog fel ef ei hun, os na châr efe yr Arglwydd ei Dduw â'i holl galon? Ië, y gweithredoedd mwyaf cymmwynasgar a

\* Edr. Phil. iv. 8, 9.

allent fod yn rhydd oddiwrth Ddaioni, ac am hynny yn ddiles. “Pe porthwn y tlo-dion â'm holl dda,” medd S. Paul mewn geiriau hynod, “ac heb gariad gennyf, nid yw ddim llesâd i mi.”† Yr egwyddor sy'n dangos y weithred. Ystyriwch ar bob rhyw achos nid yn unig pa beth yr ydych yn ei wneuthur, eithr *paham* yr ydych yn ei wneuthur. Nid oes dim yn wasanaeth i Dduw, ond yr hyn a wnelom er mwyn Duw, ac er cariad iddo. A oes lle i feddwl, oddiwrth Reswm neu'r Efengyl, y gwna Duw wobrwyo unrhyw weithred, yr hon ni wnaethpwyd i ddwyn ym mlaen ei gyfiawnder ef a'i ogoniant? Cofiw'n bob amser, ac ar bob rhyw achos, y gwirionedd pwysfawr hwn—Na ddichon dim fod yn Ddaioni, ond yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth wir gariad i Dduw; ac na ddichon neb fod “yn wr da,” oni fydd cariad Duw yn llywodraethu ac yn sancteiddio ei galon. Am hynny galwn arno yn daer, gan ddywedyd y Colect rhagorol hwnnw yn Llyfr Gweddi cyffredin ein Heglwys ni—

“Arglwydd yr holl nerth a'r cadernid, yr hwn wyt awdwr a rhoddwr pob Daioni; planna yn ein calonnau gariad dy enw, ych-

† Edr. 1 Cor. xiii. 3.

144. *Ynghylch Ymddygiad Sant Barnabas.*

wanega ynom wir grefydd, maetha nyni â phob Daioni; ac, o'rh fawr drugaredd, cadw ni yn yr uurhyw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.\*"

\*Y Colect am y seithfed Sul gwedi'r Drindod.



PREGETH XII.

ANGENRHEIDRWYDD A LLESAD BEDYDD.



MATTHEW XXVIII. 18, 19, 20.

*A'r Iesu a ddaeth, ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd: Rhodduyd i ni bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny a dysgwch yr holl Genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân; gan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymmynnais i chi: ac wele, yr ydwyf fi gyd â chi bob amser hyd ddiwedd y byd. Amen.*

*And Jesus came and spake unto them, saying: All power is given unto me in heaven and in earth. Go ye therefore, and teach all Nations, baptizing them in the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Ghost; teaching them to observe all things whatsoever I have commanded you: and lo, I am with you alway, even unto the end of the world. Amen.*



**H**EBLAW amryw orchymynnion sanctaidd ac athrawiaethau rhagorol, y mae'r Efengyl yn rhoddi i ni ddau Sacrament, megis yn gyffredinol yn angenrhaid i iachawdwriaeth; sef, Bedydd, a Swpper yr Arglwydd. Trwy'r cyntaf yr ydym yn cael ein derbyn mewn Cyfammod gyd â Duw, a thrwy'r ail yr ym yn parhâu yn y Cyfammod hwnnw. Ystyr-iwn yn awr, mewn ychydig eiriau, angenrheidrwydd a llesâd Bedydd; ac, ar ol hynny, yr achos paham y mae ein Heglwys ni yn bedyddio plant bychain.

I. Angenrheidrwydd, budd, a llesâd Bedydd a ymddengys yn helaeth oddiwrth yr ystyriaethau canlynol.

1. Daliwn sulw, yn gyntaf, ar orchymyn pendant ein Hiachawdwr yn y testun. "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny," medd efe wrth ei Apostolion, "a dysgwch yr holl Genhedloedd," [neu, yn hytrach, fel yn wir y darlennwn ar ymyl y ddalen, *gwnewch Ddisgyblion neu Gristionogion* o'r holl Genhedloedd,] "gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glan; gan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymynnais i chwi: ac wele yr ydwyf fi gyd â

chwî bob amser hyd ddiwedd y byd." Gwelwn yma orchymmyn oddiwrth ein Hiachawdwr i'w Apostolion, a'i unig Weidogion yr amser hwnnw, am iddynt fyned a GWNEUTHUR DISGYBLION o'r holl Genhedloedd; canys dyna arwyddocâd y gair yn yr iaith wreiddiol, yr hwn yr ym ni yn ei gyfieithu "DYSGWCH," a dyna ei unig arwyddocâd. A'r ffordd i wneuthur y disgyblion hyn oedd trwy eu bedyddio hwynt, neu gael eu golchi â dwfr, "yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân." Mae efe yn gorchymmyn ym mbellach i'r cyfryw rai gael eu dysgu yn yr holl bethau a'r a ddywedasai efe wrth ei ddisgyblion cyntaf. Ac y mae efe yn gorphen y cwbl gyd â'r addewid grasusol hwnnw o fod "gyd â hwy bob amser hyd ddiwedd y byd."

2. Mae S. Marc hefyd yn ein dysgu, mewn modd rhagorol, fod bendith yn canlyn Bedydd, ac mai cosp ofnadwy fydd gwobr Anghrediniaeth wirfodd. Ein Hiachawdwr a ddywedodd yno wrth yr Apostolion: "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur. Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig; eithr y neb ni chredo a gondemmir."\* Y mae

\* Edr. Marc xvi, 15, 16.

Crist ei hun, trwy ras yr hwn yn unig y gall neb rhyw ddyn ddisgwyl ei fod yn gadwedig, † yn gwneuthur Bedydd, yn gystal a Ffydd, yn angenrhaid i iachawdwriaeth dragywyddol. Mae efe yn wir yn dywedyd, “y neb ni chredo a gondemnir;” ond nid ydyw efe yn dywedyd, “y neb a greddo a fydd cadwedig, pa un bynnag a fedyddier ef ai peidio.” Mae'n rhaid i bawb sy'n gobeithio cael gwardigaeth trwy haeddiant Crist, gredu yn gyntaf fod pob peth a ddywedodd Crist yn wir. Efe a ddywedodd fod Bedydd yn angenrheidiol i ynnill yr iachawdwriaeth sydd ganddo ef i'w chyfrannu. Os esgeuluswn yr ammod, pa fodd y gallwn gael yr addewid? Bedydd yw'r ordinhâd, ac Iachawdwriaeth Gristionogol yw'r fendith.

3. “Oddieithr geni dyn o ddwfr ac or Yspryd,” medd ein Harglwydd mewn lle arall, “ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw.” ‡ Ond, i ddeall y pethau hyn yn well, cofiwn ei eiriau ef ger bron Pilat— “Yr Iesu a atebodd: Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn.” § Ac am hynny pan anwyd dyn i'r byd, nid yw efe yn addas, nac yn gymmwys i deyrnas Dduw;

† Act. iv. 12. xv. 11. ‡ Ioan iii. 5. § xviii. 36.

ac nid oes ganddo unrhyw hawl i gymmeryd meddiant o honi. Cyn y dichon efe weled y deyrnas honno; mae'n rhaid iddo gael ei eni o Yspryd Duw: ac, i gael ei eni o'r Yspryd hwnnw, rhaid iddo gael ei eni hefyd o ddwfr; nid fel pe bai unrhyw rinwedd mewn dwfr, ond o herwydd mai dyna'r ordinhad a ordeiniodd Crist yn ei Eglwys. Ein hadgenhedliad ni sy'n deilliaw oddiwrth yspryd Crist yn unig. Ac er bod rhyw beth i'w gyflawni ar ein rhan ni, y mae Crist hefyd yn rhoddi rhyw osod-digaeth, yr hon yn yr Hen Destament oedd Enwaediad; ac, yn y Newydd, Bedydd neu Olchiad gyd â dwfr: yr hwn a elwir gan S. Paul "Golchiad yr Adenedigaeth."|| Fel hyn y mae'n rhaid i'r dyn a fynnai gael ei eni o'r Yspryd, gael ei eni o Ddwfr hefyd.

4. Yr amser a balla i mi i fynegu am holl rinweddau a bendithion Bedydd trwy'r Efengyl; etto mae'n iawn i mi osod ger eich bronau le neu ddau ychwaneg. "Yr oedd Ioan yn bedyddio yn y diffaethwch, er maddeuant pechodau."\* Bedydd yw egwyddor bywyd newydd ac yspryd newydd. "Edifarhêwch," medd yr Apostolion wrth

||Edr. Tit. iii. 5. \*Marc i. 4. Luc iii. 3.



y Cristionogion cyntaf, “a bedyddier pob un o honoch yn enw Iesu Grist, er madd-euant pechodau; a chwi a dderbyniwch ddawn yr Yspryd Glân.”†

5. Bedydd hefyd yw'r modd, trwy ba un y mae dynion yn cael eu “*sancteiddio* a'u *cyfiawnhâu*.” Y mae S. Paul, gwedi iddo ddangos i'r Corinthiaid gyflwr truenus y Cenhedloedd, yn dywedyd wrthynt ym mhellach: “A hyn fu rai o honoch chwi; eithr chwi a olchwyd, eithr chwi a sancteiddiwyd, eithr chwi a gyfiawnhawyd, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Yspryd ein Duw ni.”‡ Fel ag y mae'r Arglwydd Iesu yn cael ei grybwyll yma megis rhyglyddus achos o sancteiddrwydd a chyfiawnhâd, ac Yspryd ein Duw ni megis yr achos effeithiol; felly hefyd y mae golchiad Bedydd yn cael ei grybwyll megis yr offeryn, trwy ba un y mae'r bendithion hynny yn cael eu cyfrannu.

6. Bedydd, drachefn, sydd yn ein gwn-euthur ni “yn aelodau i Grist, yn blant i Dduw, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd.” Trwy un Yspryd” medd yr Apostol, “y bedyddiwyd ni oll yn un corph:”|| ac, mewn lle arall “chwi oll ydych blant i Dduw trwy

†Act. ii. 38. ‡1 Cor. vi. 11. ||1 Cor. xii. 13.

ffydd yng Nghrist Iesu. Canys cynnifer o honoch ag a tedyddiwyd yng Nghrist a wisgasoch Grist. §—Duw yn ol ei drugaredd, a'n hachubodd nyni trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glan; yr hwn a dywalltodd efe arnom ni yn helaeth trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr: fel, gwedi ein cyfiawnhâu trwy ei ras ef, y'n gwneid yn etifeddion yn ol gobaith bywyd tragywyddol. ¶

7. A phan oedd S. Pedr yn pregethu, y tro cyntaf, i'r Cenhedloedd, “syrthiodd yr Yspryd Glan ar bawb a oedd yn clywed y gair; a hwy a lefarasant â thafodau, gan fawrygu Duw.\* Etto, er y gallai rhai feddwl nad oedd Bedydd mwyach yn angenrheidiol, yr Apostol, heb edrych ar y ddawn o “anryw dafodau” † megis modd i'w hadgenhedlu hwynt, a ddywedodd yn hytrach: “A all neb luddias dwfr, fel na fedyddier y rhai hyn, y rhai a dderbyniasant yr Yspryd Glan, fel ninnau? Ac efe a orchymmynnodd eu bedyddio hwynt yn enw yr Arglwydd: ‡ yr hyn ni fuasai byth, yu ei orchymmyn heb gredu fod Bedydd yn llwyr angenrhaid i iachawdwriaeth. Ac

§ Gal. iii. 26. 27. ¶ Tit. iii. 5—7. \* Act. x. 44—46.

† 1 Cor. xii. 10. ‡ Act. x. 44—48.

er i'n Hiachawdwr ei hun ymddangos i Saul ar ei daith i Ddamascus, a'i alw ef mewn modd rhyfeddol, yr oedd etto yn angenrhaid iddo gael ei fedyddio. "Cyfod bedyddier di," medd Ananias wrtho, "a golch ymaith dy bechodau, gan alw ar enw yr Arglwydd."||

8. Mae'n wiw ond odid, cyn ymadael â'r pwngc hwn, dal sulw mewn gair neu ddau, nad ydyw ein Hiachawdwr yn sôn am lawer o ddwfr, nac am ychydig; nac am y modd chwaith y mae dwfr i gael ei arfer mewn gweinidogaeth Bedydd. Efe a ddywaid yn unig fod dwfr yn angenrheidiol, heb bennodi y mesur, na'r modd o'i arferu. Ac er y gallai fod yn gymmwys trochi dynion yn hollawl wrth eu bedyddio, mewn gwledydd poethion fel parthau Judea; etto y mae golchi rhyw un man o'r corph, neu ddo-di a thaenellu dwfr arnynt, yn yr un modd yn gwbl effeithiol. Nid i faint neu fesur y dwfr, ond i ordinhad Crist, y mae'r addewid o adenedigaeth ac iachawdwriaeth yn perthyn. Un defnyd o ddwfr a ettyb yr amcan yn gystal ag afon; ac un rhan o'r corph yn gystal â'r cyfan. Rhesymmiad ein Hiachawdwr, mewn lle ac ar achos

arall, a ddeil yma hefyd. “Yr hwn a olchwyd,” [medd efe gan edrych at burdeb calon a meddwl] “nid rhaid iddo ond golchi ei draed,” [neu ryw un rhan o hono, yn ol arfer a defod gwlad] “eithr y mae yn lân oll.\*”—Pa beth a iachäodd Naaman y Syriaid o'i wahanglwyf? Nid dyfroedd yr Iorrdonen, ond gair a gallu Duw.¶

II. Dangoswn yn awr, yn yr ail fan, y dylid er dim gadw Bedydd plant ieuainge yn yr Eglwys, megis peth yn cwbl gyttuno ag ordinhad Crist.†

1. Amryfusedd hynod ynghylch y peth hwn sy'n tarddu oddiwrth gam-ddeall gorchymyn ein Hiachawdwr yn y testun—“Ewch a *dysgwch* yr holl Genhedloedd, gan eu bedyddio hwy”—yw'r gorchymyn yn ein cyneithiad ni ac amryw gyfleithiad—

¶2 Bren. v. 10—14. Preg. xv. xvi. †Erthygl Cref. xxvii.

---

\* Edr. Ioan xiii. 10.—One of the first rites of hospitality observed towards strangers amongst the Jews, and all over the East, was washing the hands and feet. See Gen. xviii. 4. xliii. 24. Luke vii. 44. Odyss. Z. 210 H. 174. And this was particularly observed before they performed a sacrifice, or any religious ceremony. See Exod. xxx. 19. Psal. xxvi. 6. Is. lii. 11. Ezecl. xxxvi. 25. Heb. x. 22. and II. A. 449.

au eraill. Oddiyma y cododd yr ANABAPTISTIAID. Dynion rhyfygus ac anysgedig, gan feddwl bod ein Harglwydd yma yn gorchymyn y dylai'r holl Genhedloedd gael eu *dysgu* yn gyntaf yn y Ffydd Gristionogol, ac wedi hynny eu *bedyddio*, a dybiasant nad oedd i neb gael ei fedyddio cyn iddo gael dysgeidiaeth. Eithr nid ydyw'r gair, yr ydys yn ei gyfieithu *dysgwch*, yn arwyddocau y cyfryw beth yn yr iaith wreiddiol; ond yn hytrach, fel y dywedais o'r blaen, *gwneuthur disgyblion*, neu *fod felly*. Dyna ystyr y gair bob amser yng nghyfieithiad holl Eglwysi y Dwyrain, ac ni chlybüwyd erioed sôn am ANABAPTISTIAID yn y gwledydd hynny.

2. Ynfydion eraill sy'n camgymmeryd y geiriau canlynol o eiddo ein Hiachawdwr: "Oddieithr geni *dyn* o ddwfr ac o'r Yspryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw." Mae'r un bai hefyd yn y Cyfieithiad Saisoneg. Eithr yn y Groëg yr amlwg ystyr yw, "Oddieithr geni neb rhyw *ddyn*, *gwraig*, neu *blentyn*;" fel pe buasai Crist yn rhagweled y cyfryw ymryson cyfeiliaus. Ac mae'n rhaid i'r ymadrodd arall—"yr holl Genhedloedd"—gynnwys plant ieuangc; canys hwy yn gyffredin yw'r rhan fwyaf o bob cenhedl.

3. Y gwrthddadleuwr a ddywaid ym mhellach, nad yw deall plant yn addas i rai o amcanion Bedydd. Hyn sy wir. Eithr er nad yw plant ieuaingc yn addas i wneuthur proffes o'u ffydd ac edifeirwch, y maent etto yn gymmwys i gael cymdeithas gyd ag Eglwys Crist, i gael eu golchi oddiwrth y llygredigaeth sy'n perthyn i'w natur, i gael eu gwneuthur yn blant i Dduw, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd; mewn gair, i dderbyn arwydd y Grog, trwy ba un y dangosir eu bod hwy yn addas i gael rhan o fendithion y Cyfammod Cristionogol.\* Os nad yw plant bychain yn gymmwys i gael y pethau hyn, y mae'r Anabaptistiaid yn rhwymedig i ddangos hynny; ac i ddangos hefyd, paham nad all plant Cristionogion gael eu derbyn i Eglwys Crist trwy Fedydd, yn gystal ag yr oedd plant yr Iuddewon yn cael eu derbyn i'w Heglwys hwy trwy Enwaediad. Nid oedd Duw yn unig yn rhoddi cennad i'r Plentyn Iuddewig gael ei enwaedu yn wyth niwrnod oed, eithr efe a ddywedodd yn bendant, y byddai hynny yn arwydd Cyfammod rhyngddo ef a hwythau.¶ Tybied ei fod ef

\* Edrych Nod yn niwedd y Bregeth hon ynghylch arfer arwydd y Grog yn y Bedydd.

¶ Edr. Gen. xvi. 11, &c. &c.

yn naccau y cyfryw faint i blant Rhieni Cristionogol a wnaï iddynt hwy ymddangos mewn cyflwr gwaeth nag oedd plant yr Iuddewon; ac a wnaï'r Gyfraith hefyd, mewn perthynas iddynt hwy o leiaf, yn oruchwyliaeth mwy rhagorol a haelionus na'r Efengyl.

4. Ond er na ddywedodd Crist yn eglur y dylai *plant* gael eu bedyddio, etto mai hynny oedd ei feddwl ef, ny ni a allwn gasglu oddiwrth ei ymddygiad. Gwrandewch ar S. Marc: "Hwy a ddygasant blant bychain at Grist, fel y cyffyrddai efe â hwynt; a'r disgyblion a geryddasant y rhai oedd yn eu dwynt hwynt. A'r Iesu, pan welodd hynny, a fu anfoddlon, ac a ddywedodd wrthynt: "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi, ac na waherddwch iddynt; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw. Yn wir meddaf i chwi, Pwy bynnag ni dderbynio deyrnas Dduw fel dyn bach, nid â efe i mewn iddi." Ac efe a'u cymmerodd hwy yn ei freichiau, ac a roddes ei ddwyllaw arnynt, ac a'u bendithiodd." || Diammau fod gorchymmyn Crist, yn gystal a'i "agwedd ef a'i weithred," yn dangos y dylid er dim

|| Edr. Marc x. 13---16.

gadw Bedydd plant ieuaingc yn yr Eglwys, megis peth yn cwbl gyttuno ag ordinhad ein Hiachawdwr. “A adawn ni i blant bychain ddyfod atto ef?” Ym mha fodd y deuant ond trwy'r Bedydd, yr hwn a ordeiniodd efe ei hun? Beth, ai eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw? Ym mha fodd y gallent hwy fod yn aelodau ac etifeddion o'r deyrnas honno, ond “trwy olchiad yr adanedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glan?” Pwy bynnag ni dderbynio deyrnas Dduw heb y cyfryw barottöad, nid â efe i mewn iddi.

Wele, dyna athrawiaeth yr Efengyl, mewn ychydig eiriau, ynghylch Bedydd; a dyna'r dyb, y mae'n debygol, yr oedd yr Apostolion yn ei dal am dano: “canys i chwi,” meddant wrth eu cydwladwyr, yr Iuddewon, “y mae yr addewid, ac i'ch plant, ac i bawb ym mhell, cynnifer ag a alwo yr Arglwyd ein Duw ni atto.”\* Ac felly nyni a'u gwelwn hwy yn bedyddio teuluoedd cyfan, plant ac eraill, yn ddiwahanol.† Ac fel hyn, yu wir, yr oedd y Cristionogion oll yn gwneuthur, ym mhob oes ac ym mhob lle, am fwy na phymtheg cant

\* E.dr. Act. ii. 39. † xvi. 15. 33.



o flynyddoedd ar ol esgynniad ein Hiachawdwr Crist i'r nef.\*

Y neb sydd ddoeth a ystyria y pethau hyn, a'r holl bethau y mae Crist a'i Apostolion wedi eu gosod ger ein bron, ac nid y pethau y mae dynion balch ac anwybodus yn cymmeryd arnynt eu dysgu. A Daw Hollalluog a ganiattao i nyni oll, trwy gymmorth ei Lan Yspryd, ddeall yr iawn farn ym mhob peth, a byth lawenychu yn ei wynfydedig ddiddanwch ef, trwy ryglyddau

---

\* The Anabaptists first appeared in Upper Germany, in the Netherlands, and Westphalia, about 1530, having originally sprung from Muncer, an enthusiastic disciple of Luther. Their first Meeting House was established in London in 1640. The most remarkable of their religious tenets related to the Sacrament of Baptism; which, as they contended, ought to be administered only to persons grown up to years of understanding, and should be performed, not by sprinkling them with water, but by dipping them in it: for this reason they condemned the baptizing of infants. And from baptizing *again* all those, whom they admitted into their society, the sect came to be distinguished by the name of ANABAPTISTS.—  
Oddiwrth y Groëg *ana*, drachefu; a *baptizo*, bedyddio. *Anabaptist*, neu *Ailfedyddiwr*. Enw yw hwn a roddir i'r cyfryw ag ydynt yu dal, na ddylid bedyddio plant hyd oni ddelont i ymarferiad o'u rheswm; ac, o herwydd hynny, ydynt yn bedyddio y rhai, ag oeddynt, yu ol barn eraill, wedi eu bedyddio yu barod.----Yn ol y dyb hon marw a wnaj mwy na hanner o ddynolryw heb eu bedyddio.

Iesu Grist ein Hiachawdwr. Amen.\*

\* Er pan ddiddymwyd Pabyddiaeth, fe ddaliodd, ac fe ddysgodd Eglwys Loegr erioed, [ac y mae hi byth felly yn dal ac yn dysgu] nad yw arwydd y Grog a arferir yn y Bedydd yn ddim rhan o sylwedd y Sacrament hwnnw. Canys, wedi i'r Gweinidog, wrth roddi dwfr ar wyneb y Plentyn, ddywedyd y geiriau hyn—*yr ydwyf yn dy fedyddio di yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân*---dyna'r Plentyn wedi ei fedyddio'n gyflawn ac yn berffaith; fel nad yw arwydd y Grog, a arferir wedi, yn ychwanegu dim at rinwedd a phertffeithrwydd y Bedydd; na'i gadael heibio, yn lleihau dim o'i nerth a'i sylwedd ef. Ac y mae'n hysbys hefyd, fod y Plentyn a fedyddiwyd wedi ei dderbyn, trwy rym y Bedydd, i gynulleidfa defaid Crist megis aelod bywiol o'r uorhyw, cyn ei nodi ag arwydd y Grog, ac nid trwy ddim rinwedd a gyfrifir i'r arwydd honno; fel, mai o *wir goffaduriaeth* am y GROES, y sy dra gweithfawr gan bawb ag sy'n iawn gredu yn Iesu Grist, ac o herwydd ystyriaethau buddiol eraill, y cadwodd Eglwys Loegr yr arwydd o honi yn y Bedydd, gan ddilyn yn hynny y Prif Eglwysi Apostolig, a'i chyfrif yn Seremoni gyfreithlon oddi allan, ac yn Nod anrhydeddus, wrth ba un y cyssegrir y Plentyn i'w wasanaeth EF, yr hwn a drengodd ar y Groes er ein mwyn ni; ac felly i fod yn arwyddocâd na bo iddo rhag llaw gymmeryd yn gywilydd gyffesu Ffydd Grist a groeshoeliwyd. Hyn yn unig yw perwyl ac ystyr arwydd y Grog mewn Bedydd. Edr. y xxx'n o'r Canonau Eglwysig.



## PREGETH XIII.

ORDINHAD AC AMCAN SWPPER YR ARGLWYDD.



I CORINTHIAID XI. 26.

*Cynnifer gwaith bynnag y bwyttäoch y Bara hwn, ac yr yfoch y Cwppan hwn, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo.*

*As oft as ye eat this Bread, and drink this Cup, ye do shew the Lord's death till he come.\**



**N**ID oes yn y Grefydd Gristionogol ddim yn fwy hynod na'i symlrwydd a'i phurdeb. Y mae hi yn gofyn gostyngiad ufudd y galon i dderbyn gwirioneddau nefol, yn fwy o lawer nag unrhyw wybodaeth neillduol i ddeall rhyw athrawiaeth ddirgel. Pa le bynnag y mae dynion yn barod i

\* The Apostle here seems to allude to the HAGGADAH, or *Shewing forth*, in the Passover. Some youth was appointed to ask the reason of this rite? Then some grave person present was appointed to *shew it forth*.

wrando cyngor a chymmeryd addysg, “go-fynnant gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn rhwydd i bawb, a'r cyfryw ddoniau ysprydol a roddir iddynt,”\* y rhai a'u gwnant yn ddoeth i iachawdwriaeth. Mae'r Grefydd hon yn rhoddi y rheolau puraf yn y byd, wrth ba rai y dylem lunio ein buchedd; ac etto yn ymddiddan â ni megis dynion, y rhai nid allwn, o ran gwendid ein marwol anian, wneuthur dim da heb ras Duw, gan orchymmyn i ni wneuthur ein goreu, ac ar ol hynny hyderu ar drugaredd y Goruchaf trwy haeddedigaethau UN, yr hwn a drigodd unwaith yn ein plith ni, “yr hwn a fu farw, ac a gladdwyd, ac a ail-gyfododd er ein mwyn; sef, ein Hiachawdwr Bendigedig Iesu Grist.”

Y mae yr unrhyw symlrwydd yn cyrraedd hyd at bob defod ac ordinhad allanol. Mae'r cwbl yn hawdd eu deall, ac yn hawdd eu cyflawni; ac o'r fath sylwedd ag y sydd raid iddo roddi llawenydd, yn lle trafferth a thristwch, yn eu cyflawniad, i bob enaid ffyddlon a chrefyddol. Gellir gweled hyn yng ngosodiad y Sabbath: “Chwe diwrnod y gwnai dy waith, ac ar y seithfed dydd y gorphwysi; fel y caffo dy ŷch a'th asyn

\* Edr. Iago i. 5.

lonyddwch, ac y cymmero mab dy forwyn-  
gaeth a'r dieithr ddyn ei anadl atto.\* Ar  
y dydd sanctaidd hwn y mae pob gwahan-  
iaeth yn diflannu; y mae'r gwreng a'r bon-  
heddig, y cyfoethog a'r tlawd yn cydgyfar-  
fod, neu, o leiaf, hwy a ddylent gydgyfar-  
fod, i blygu eu gliniau o flaen yr Arglwydd  
eu Gwneuthurwr. Nid ydyw'r Cristion  
yn cael "gosod ar ei ysgwyddau feichiau  
trymmion ac anhawdd eu dwyn."† Nid  
oes iddo yn wir ddim mwy i'w gyflawni,  
nag aberthu moliant, diolch, a gweddi o  
galon bur i'r Creawdwr Hollalluog, gan  
"fyw mewn duwiol, union, a sobr fuchedd,"  
a doddi ei gyfan ymddiried a'i obaith yn  
haeddiant ac eiriolaeth ein Cyfryngwr Ben-  
digidig. Pa ordinhad a all fod yn fwy rhydd  
oddiwrth bob balchder a gwag ogoniant,  
neu yn fwy cyssurus i galon a theimlad  
pob dyn ystyriol?

Felly, hefyd, y ddau Sacrament a ordeiniodd  
Crist yn ei Eglwys ydynt ddefodau syml  
ac esmwyth; ac y maent yn arwyddocâu,  
mewn modd golygus, y gweithredoedd  
mwyaf pwysfawr ac ardderchog. **U**Mae'r  
Dwfr yn ein Bedydd yn hawdd ei daenellu;  
ond y mae'r elfen hon yn arwyddocâu

\* Ecsod. xxiii. 12. Preg. XX. † Matth. xxiii. 4.

puredigaeth yr enaid trwy yr Yspryd Glan; yr hwn a roddwyd, mewn modd rhyfeddol i'r Apostolion, ac a roddir mewn modd dirgelach i bob Cristion ffyddlon.† Yn yr un modd y mae Sacrament Swpper yr Arglwydd yn hawdd i'w gyflawni; ond, yr un amser, yn llawn o "bethau nefol," y rhai a ordeiniwyd i gyffrôi pob un synwrol i "fyfyrio i wasanaethu Duw mewn gwir sancteiddrwydd a chyfiawnder holl ddyddiau ei einioes." Ystyriwn gan hynny, yn gyntaf, amgylchiadau, ac achos ordinhâd y Sacrament hwn; ac, yn ail, ei amcan a'i fwriad tu ag at ein llesâd ysprydol.

I. ~~X~~ Ystyriwch amgylchiad yr ordinhâd

1. Yr oedd sefyllfa ein Hiachawdwr, pan ordeiniodd efe y Sacrament Sancteiddiol hwn i'n cyssur, yn dra ryfeddol. (Yr oedd efe yn gwybod ddyfod ei awr ef i ymadael â'r bywyd hwn, fod amcan a pherwyl mawr ei ddyfodiad ef i'r byd ym mron cael eu cyflawni, fod un o'i ddisgyblion wedi cyttuno eisoes i'w fradychu, y gwnai yr lleill ei adael ef yn ei gyfyngder a ffoi, ac y rhwystrid hwynt oll y noson honno

† Edr. Preg. II. Ll. 2.

o'i blegid ef; canys ysgrifennwyd: "Tarawaf y Bugail, a defaid y praidd a wasgerir." § Gyd â'r fath feddyliau yn ei galon, yr oedd efe yn ewyllysio cael etto un cyfarfod caradig gyd â'r Apostolion; a, chan gymmeryd achlysur oddiwrth wyl y bara croyw, "wedi ei myned hi yn hwyr, medd yr Efyngylwr, efe a eisteddodd gyd â'r Deuddeg, ac a ddywedodd wrthynt: Mi a chwenychais yn fawr fwytta'r Pasg hwn gyd â chwi cyn dioddef o honof." ||

2. Ystyriwch yn awr ym mha ryw amser ofnadwy y cafodd Sacrament Swpper yr Arglwydd ei ordeinio. "Wele nesäodd yr awr pan oedd Mab y Dyn i gael ei draddodi i ddwylaw pechaduriaid."\* Ië, ystyriwch y pwyth erehyll yr oedd dnyion yn myned i'w dalu iddo am ei gariad a'i holl ymegniadau nefol er ein mwyn! Yr oedd efe yn gweled holl gynllwynion y Fall yn cael eu gosod yn ei erbyn; a, chan ddal sulw ar greulondeb dynolryw, eneidiau parai y daethai efe i'r byd i'w cadw, yr oedd efe yn athrist hyd angau, a'i chwys fel defynnau gwaed yn disgyn ar y ddaear. I argraphu yn ddwfn ar feddwl ei ddisgybl-

§ Matth. xxvi. 31. Zech. xiii. 7. || Luc xxii. 16

\* Matth. xxvi. 45.

ion bwys y pethau rhyfeddol hynny yr oedd efe yn myned weithian i'w cyflawni, yr ydym yn darllain y geiriau hynod canlynol: "Ac fel yr oeddynt yn bwytta, yr Iesu a gymmerth y bara, ac wedi iddo fendithio, efe a'i torrodd, ac ai rhoddodd i'r disgyblion, ac a ddywedodd: Cymmerwch, bwyttewch; hwn yw fy Nghorph. Ac, wedi iddo gymmeryd y cwppan, a diolch, efe a'i rhoddes iddynt, gan ddywedyd: Yfwch bawb ohwn; canys hwn yw fy Ngwaed o'r Testament Newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau." †

3. Yr oedd hyn i gyd yn ol arfer ein Harglwydd yn ei holl athrawiaeth a'i ymddygiad. Nid oedd efe un amser yn esgeuluso tyrru rhyw wers fuddiol oddiwrth bob achos, gan ddangos y gallwn argraphu ar y meddwl y gwirioneddau mwyaf pwysfawr oddiwrth y pethau mwyaf cyffredin. Ar yr achlysur presennol yr oedd Bara a Gwin yn digwydd cael eu gosod ar y bwrdd o'u blaenau, ac am hynny efe a'u gwnaeth hwynt yu arwyddion o'i Gorph a'i Waed, er cof am y peth mwyaf hynod a rhyfeddol, a mwyaf liesol i ddynolryw, yn holl hanes y-byd!

† Edr. Matth. xxvi. 26.



4. "Pa fodd y bydd hyn," medd y dyn anianol?— Eithr dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Yspryd Duw.† Ond y peth yma i'w ddwyn ar gof ydyw marwolaeth ein Hiachawdwr dros bechodau dynolryw. "A pha beth a gais yr Arglwydd gennym i gadw tragywyddol goffa am ei werthfawr angau hwnnw?" Nid ymwisgo mewn sachliain a lludw, nid dagrau nag wylofain, nid gwialennodiau, nag unrhyw benyd arall. Ni ofynnir i ti, Ddyn, roddi dy gyntafanedig dros dy anwiredd, na firwyth dy groth dros bechod dy enaid.\* Nid yw'r Iesu Bendigedig yn ceisio dim ychwaneg gennym, ond cyfarfod a'n gilydd wrth ei Fwrdd ef megis brodyr y sy gyfrannogion o'r un dolur, ac yn edrych ym mlaen tu ag at yr un feddyginiaeth. Mae 'n Prynwr wedi talu cymmaint trosou, fel nad oes gennym ni lawer mwy i'w wneuthur, nag edrych i fynu tu ag at gyflawniad ei weithred ef gyd â llygaid syml a chalonnau ffyddlon. Nid yw efe yn gofyn gennym ddim costus, ddim blin, na dim caled; efe yn unig a orchymmynodd i ni ei gofio ef; a hynny nid gan fod yn wyneb-drist, eithr gyd â chalonnau llawen a chariad brawdol. †

† Edr. 1 Cor. ii. 14. \*Mic. vi. 7.

A feiddiwn ni gan hynny byth anghofio y fath Arglwydd trugarog? Ei eiriau ef ydynt—**GWNEWCH HYN ER COF AM DANAF.** A pha beth a gais yr Arglwydd gennych? Dim mwy, na dyfod bob amser cyfaddas, “gyd â chalon wir edifeiriol, ac â bywiol ffydd, i fwytta o'r Bara hwnnw, ac i yfed o'r Cwppan hwnnw.”

II. Awn ym mlaen i ddangos, yn ail, amcan a llesâd y Cymmun. Y myfyrdodau sydd raid godi ym meddyliau dynion ystyriol, y rhai sydd yn dyfod i Fendigedig Gymmun Corph a Gwaed ein Hiachawdwr Crist, a arwyddocêir yng ngeiriau'r testun: “Cynnifer gwaith bynnag,” medd yr Apostol, “y bwyttâoch y Bara hwn, ac yr yfoch y Cwppan hwn, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo.”

1. Y peth mwyaf hynod yn y geiriau hyn yw, “y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd.” Ystyriwn gan hynny, frodyr, farwolaeth ryfeddol ein Harglwydd Iesu Grist. Yr ydym yn gwranddo ac yn darllain hanesion dynion, y rhai a fuant hynod am eu daioni, eu doethineb, a'u diniweidrwydd gyd â hoffder a rhyfeddod teimladwy, yn enwedig os dioddefasant ammharch, ac erlidigaeth, a marwolaeth, o herwydd eu rhinweddau da. Eu hymddattodiad o'r

byd hwn sydd yn peri i barch a thristwch godi yn ein calonnau. Tybiwch gan hynny am funud, nad oedd awdwr ein Crefydd ni ddim mwy na dyn yn unig, “yn ddysgawdwr wedi dyfod oddiwrth Dduw, yr hwn a gerddodd o amgylch gan wneuthur daioni;”<sup>•</sup> etto, dan y cyfryw olwg, mae ei berson ef a'i ymddygiad yn dra rhyfeddol. Cofiwch ei wroldeb, ei amynedd, ei ymostyngiad i ewyllys ei Dad nefol, ei weddi ddiweddaf dros ei elynion gwaedlyd; mewn gair, “pa bethau bynnag sydd *wir*, pa bethau bynnag sydd *onest*, pa bethau bynnag sydd *gyfiawn*, pa bethau bynnag sydd *bur*, pa bethau bynnag sydd *hawddgar*, pa bethau bynnag sydd *ganmoladwy*, od oes un *rhinwedd*, ac od oes dim *clod*, meddyliwch, O meddyliwch, am fuchedd a marwolaeth Iesu Grist!”<sup>†</sup>

2. Eithr, pan ystyriwn farwolaeth ein Hiachawdwr mewn modd crefyddol, megis OEN DUW, “yr hwn a wnaeth ar y Groes, trwy ei offrymriad ei hun yn offrymmedig unwaith, gyflawn, berffaith, a digonol aberth, offrwm, ac iawn dros bechodau yr holl Fyd,”—ei fod ef yn Dduw ac yn Ddyn—pan ystyriwn y pethau hyn, meddaf, y canlyniad naturiol yw: “Cael cryfhâu a diddanu ein heneid-

<sup>•</sup> Edr. Ioan iii. 2. Act. x. 38. † Phil. iv. 8.

iau, trwy Gorph a Gwaed Crist, megis y mae ein cyrph yn cael trwy'r bara a'r gwin; a bod i bawb o honom, trwy wir edifeirwch, trwy wellhâd buchedd, a diolchgarwch gwresog, gael ein cyflawni â gras a bendith y Goruchaf Dduw. Gan fyfyrion ar y cyfryw ddirgeledigaethau sanctaidd, nid oes fodd i ni lwyr anghofio trugaredd ein Prynwr Bendigedig, ac na bydd i ni wneuthur ein goreu i gadw ei orchymmynnion ef yn sanctaidd. "Cariad mwy na hwn nid oes gan neb; sef, bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion— O cherwch fi," medd efe drachefn, "cedwch fy ngorchymmynnion." †

3. Y peth diweddaf i'w ystyried ydyw ail ddyfodiad Crist i gymmeryd y rhai cyfiawn i drigfannau nefol. "Dangoswch farwolaeth yr Arglwydd hyd oni ddelo"— A phan ddaw efe drachefn, efe a ddaw yng ngogoniant y Goruchaf, a'r holl angylion sanctaidd gyd ag ef; a chydgesglir ger ei fron ef yr holl Genhedloedd. Yna y rhai a wnaethant ddrwg a ânt i adgyfodiad barn; ond y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd a flawenydd. ¶

Y mae rhyw ystyriaethau difrif, cyffelyb i'r rhai hyn, yn codi yn naturiol yn holl

† Edr. Ioan xv. 13. xiv. 15. ¶ Matth. xxv. 46.

gyfrannogion o Sacrament Swpper yr Arglwydd. Na atto Duw, gan hynny, i ni bechu yn erbyn yr Arglwydd trwy beidio a chymmeryd gafael ar bob amser cyfaddas "i'w fwytta y Bara hwnnw, ac i'w yfed y Cwppan hwnnw," er mwyn cadarnhâr ein ffydd, a'n cryfhau ym mhob daioni. Y nos a gerddodd ym mhell, ac y mae dydd marwolaeth ac adgyfodiad yn nesâu. Os cofiwch y pethau hyn, ni lithrwch chwi ddim byth. Byddwch hefyd yn ddiolchgar i'r Arglwydd Iesu am iddo ordeinio y Sacrament sancteiddiol hwn i'ch cyssur; o blegid fod y cyfryw wlêdd nefol yn dwyn ar gof i bob un o honom, "mai d'ieithriaid a phereriunion ydym ar y ddaear; canys nid oes i ni yma ddinas barhäus, eithr un i ddyfod yr ym ni yn ei disgwyl." Na ddiystyrwgan hynny wahoddiad ein Harglwydd Beudigedig, yr hwn sydd beunydd yn gwaeddi arnom "Deuwch attaf fi, bawb ag y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch— Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo: os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn atto ef, ac a swpperaf gyd ag ef, ac yntau gyd â minnau."† Os na wrandawn

† Edr. Matth. xi. 28. Datg. iii. 20.

ni ar lēf Mab Duw, nid ŷm ni mwyach  
yn deilwng o hono ef - nid ŷm ni mwyach  
yn deilwng i'n galw yn Gristionogion.  
"Ceisiwch fi, medd yr Arglwydd, a byw  
fyddwch." † Amen.

— † Amos v. 4.



## PREGETH XIV.

YNGHYLCH CYMMERYD Y CYMMUN YN AN-  
NHEILWNG.



I CORINTHIAID XI. 27, 28, 29.

*Pwy bynnag a fwyttao'r Bara hwn, neu a yfo Gwppan yr Arglwydd yn annheilwng, euog fydd o Gorph a Gwaed yr Arglwydd. Eithr holed dyn ef ei hun; ac felly bwyttäed o'r Bara, ac yfed o'r Cuppan. Canys yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwytta ac yn yfed barnedig-aeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu Corph yr Arglwydd.*

*Whosoever shall eat this Bread, and drink this Cup of the Lord unworthily, shall be guilty of the Body and Blood of the Lord. But let a man examine himself, and so let him eat, of that Bread and drink of that Cup. For he that eateth and drinketh unworthily, eateth and drinketh damnation to himself, not discerning the Lord's Body.*



**D**ANGOSAF i chwi, yn gyntaf, ym mha fodd yr oedd y Corinthiaid yn cymmeryd Sacrament Swpper yr Arglwydd yn annheilwng, ac nad allwn ni fod yn euog o'u hannheilyngdod hwy yn yr oes bresennol; ac, yn ail, mi a osodaf ger eich bron rai ystyriaethau byrrion i'ch annog i ddyfod bob amser cyfaddas, a bod yn gyfrannogion o'r Cymmun Bendigedig.

I. Ystyriwn achos o ymddygiad afreolus y Corinthiaid.

1. Yr Oen Pasg, yr hwn a laddwyd gan yr Iuddewon yn ol gorchymyn yr Hollalluog, oedd yn goffadwriaeth iddynt o'u rhyddhâd allan o gaethiwed yr Aipht, ac yn arwydd hefyd o ryddhad a gwardigaeth holl ddynolryw o gaethiwed Pechod ac Angau. Canys yr Oen hwnnw oedd yn gysgod o'u Prynwr Bendigedig; sef, "Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r Byd; i.e., yr Oen, yr hwn a laddwyd er dechreuad y Byd. Od oes gan neb glust, gwrandawed."\*

2. Yr oedd y Pasg Iuddewig yn cael ei aberthu bob blwyddyn yn wastadol, hyd oni aberthwyd Crist ein Pasg ni drosom ni oll.† Efe, ar y nos honno y bradychwyd,

\* Edr. Ioan i. 29. Datg. xiii. 8, 9. † 1 Cor. v. 7.



a fwyttäodd y Pasg gyd â'i ddisgyblion, ac a ddywedodd wrthynt: "Mi a chwennyais yn fawr fwytta'r Pasg hwn gyd â chwi cyn dioddef o honof. Ni fwyttâf fi mwyach o hono, hyd oni chyflawner yn nheyrnas Dduw"†—Hynny yw: "Ni fwyttâf fi mwyach o hono, canys y foru y cyflawnir ef yn fy aberth fy hun drosoch chwi a thros lawer."

3. Ar ol bwytta'r Pasg, yr hwn oedd yn arwyddocau ei farwolaeth ei hun, Crist a ordeiniodd yn ei le Ddeddf Newydd, yr hon oedd i ddwyn ar gof yr Hên Ddeddf. Efe a ordeiniodd y Cymmun Bendigedig. Yn gymmaint a bod y Pasg yn cael ei ladd a'i fwytta "yn y cyfnos," galwyd y Cymmun am hynny SWPPER yr Arglwydd, a'r amseroedd o'i finistriad CARIAD-WLEDD-OEDD, ym mha rai y digwyddodd yn o gynnar anhrefn a cham-arfer.\* Y cyfryw amryfusedd ac afreolaeth a ymddangosas-

† Luc xxii. 15, 16.

---

\* Love-Feasts began early to be very disorderly assemblies, [not unlike certain Meetings and Associations in these times] and were therefore early abolished. Traces of them may be found later in the Church; but this does not disprove the Apostle's prohibition of them at Corinth, where they had arisen to great disorder. See 1 Cor. xi. 34.

ant yn gyntaf yn Eglwys Corinth, yr hon oedd ddinas fawr a goludog. Am hynny y mae S. Paul yn ceryddu y Corinthiaid yn llym iawn. Gwrandewch ei eiriau : “Nid ydwyf yn eich canmol, eich bod yn dyfod ynghyd, nid er gwell ond er gwaeth. Canys, yn gyntaf, pan ddeloch ynghyd yn yr Eglwys, yr ydwyf yn clywed fod amrafaelion yn eich mysg chwi. Pan fyddoch chwi gan hynny yn dyfod ynghyd i'r un lle, nid bwyta Swpper yr Arglwydd ydyw hyn. Canys y mae pob un wrth fwyta yn cymeryd ei swpper ei hun o'r blaen; ac un sydd â newyn arno, ac arall sydd yn feddw.\* Onid oes gennych dai i fwyta ac i yfed? Ai dirmygu yr ydych chiwi Eglwys Dduw, a gwaradwyddo y rhai nid oes ganddynt o herwydd eu tlodi? Pa beth a ddywedaf wrthych? A ganmolaf i chiwi yn hyn? Nid wyf yn eich canmol.”

3. Ar ol hyn y mae'r Apostol yn myned ym mlaen i ddangos iddynt ordinhâd ac amcan y Cymmun Bendigedig. “Myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd,” medd efe,

||Edr. 1 Cor. xi. 17—22.

---

\* No doubt the Apostle alludes here to what were called Love-Feasts; as we read of no other occasion, on which they contributed to a common meal.

“yr hynhefyd a draddodais i chwi, bod i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymmeryd bara: ac, wedi iddo ddiolch, efe a'i torrodd, ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwyttewch; hwn yw fy nghorph, yr hwn a dorrir tros och: hwn sydd yn gosod fy nghorph ger eich bronau: gwnewch hyn er coffa am danaf. Yr un modd efe a gymmerodd y cwppan, wedi swpperu, gan ddywedyd, Y cwppan hwn yw'r Testament Newydd—neu'r Cyfammod Newydd— yn fy ngwaed: hwn sydd yn gosod fy ngwaed yn eich gwydd, ac yn ynnill i chwi gan Dduw gyfammod newydd o drugaredd: gwnewch hyn, cynnifer gwaith bynnag yr yf och, er coffa am danaf.— Am hynny, pwy bynnag a fwyttao'r bara hwn, neu a yfo gwppan yr Arglwydd yn annheilwng, euog fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd.”† —Dyna'r pwynt lle yr oedd y Corinthiaid yn troseddu. Nid oeddynt hwy “yn iawn farnu corph yr Arglwydd.” Nid oeddynt yn ystyried, bod y Bara a'r Gwin yn gosod ger ein bron ei Gorph ef a'i Waed; ac, am hynny, yr oeddynt hwy yn “euog o gorph a gwaed yr Arglwydd,” gan edrych ar y pethau sanctaidd hyn megis bwyd cyffre-

† Edr. 1 Cor. xi. 23—27.

din, ac felly “yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn barnu yn aflan waed y Cyfammod, trwy'r hwn y sancteiddiwyd hwy.”† Wrth hyn yr oeddynt “yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddynt eu hunain.” Ië, wrth fwytta ac yfed yn y cyfryw fodd annuwiol, yr oeddynt yn tynnu ar eu pennau eu hunain ryw glefyd a barnedigaeth.

4. Chwi a welwch, bellach, na ddichon y sawl sydd gyfrannogion o'r Cymmun yn yr oes hon, fod yn euog o'r bai y mae'r Apostol yn ei geryddu yn y Corinthiaid. Nid ydyw Swpper yr Arglwydd yn cael ei finistro yr awr hon mewn Cariad-Wleddoedd, o ba rai y deilliodd y fath afreolaeth yn Eglwys Corinth. Ni ddichon y Bara a'r Gwin, yr ym ni yn eu derbyn, byth ddigoni newyn a syched, na byth ein hudo ni i anghyimedrolder. Mae pawb o honom ni yn deall, fod y Bara yr hwn a dorrir, a'r Gwin yr hwn a dywalltir, yn arwyddocâu Corph a Gwaed CRIST yn marw trosom ni bechaduriaid truain. Y mae pawb o honom ni yn gwybod ei fod ef ei hun wedi gosod ac ordeinio y sanctaidd ddirgeledigaethau hyn, “fel gwystlon o'i gar-

†Edr. Heb. vi. 6. x. 29.

iad, a gwastadol gof am ei angau, er mawr ac annherfynol ddiddanwch i ni." Mae pawb o honom yn gwybod, nad i borthi y corph yr ordeiniwyd y Sacrament Bendigaid hwn, eithr yn hytrach i gryfhau a diddanu'r enaid.

II. Paham, gan hynny, na ddeuwch chwi yn amlach, i.e, yn wir, bob amser cyfaddas, "i'r cyfryw wledd nefol?"

1. Rhyw un ond odid a ettyb, o herwydd y bygythiad ofnadwy hwnnw, "fod y neb a fwyttao ac a yfo yn annheilwng yn euog o gorph a gwaed yr Arglwydd, ac yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun." Ond ni ddylai'r bygythiad arswydus hwn ddigalonni neb rhag dyfod i Swpper yr Arglwydd. Dangosais i chwi eisoes na ddichon neb o honom ni fwytta ac yfed yn annheilwng, fel y Corinthiaid gynt. Nid yw geiriau'r Apostol, mewn unrhyw fodd yn achos i wneuthur i ni esgeuluso'r Cymmun; ond y maent, mewn gwirionedd, yn un o'r rhesymau cryfaf i wneuthur i bob dyn ystyriol ymwrthod â phob ffordd ddrygionus.\*

2. "O cherwch fi," medd ein Hiach-

\*See "A Persuasive to Frequent Communion, in a sermon by Berj. Calamy, D. D.

awdwr, "cedwch fy ngorchymynnion."† Pwy bynnag, gan hynny, sydd yn ei broffesu ei hun yn Gristion, ac etto yn byw yn annuwiol, gan esgeuluso a dibrisio gorchymynyn pendant Crist ei Iachawdwr; y mae hwnnw yn llwyr anghyttuno â'r fath broffes, ac yn ei dwyllo ei hunan yn ddirfawr. Ein Hiachawdwr a all ddywedyd wrth y fath bobl, fel y dywedodd efe gynt wrth y Phariseaid: "Paham yr ydych yn fyngalw i, **ARGLWYDD, ARGLWYDD**, ac nad ydych yn gwneuthur yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd?"‡

3. Ond, ym mhellach, mi a w'n fod rhai Cristionogion duwiol yn troi eu cefnau yn rhy aml ar y Sacrament hwn, gan dybied, nad ydynt yn ddigon cymmwys a theilwng i wledd mor sanctaidd. Eithr gwybyddwch, nad ydyw pob math o amherffeithrwydd unrhyw achos i ymgadw oddiwrth y Cymmun. Canys pwy sydd yn gwbl deilwng? Pwy sydd mewn pob modd yn addas i nesâu at Dduw mewn gweddi, neu unrhyw wasanaeth arall? Pwy sydd yn glanhâu ei galon yn llwyr oddiwrth bechod, ac yn golchi ei ddwylaw mewn diniweidrwydd, fel y gallo ddyfod yn gwbl

†Ioan xiv. 15. ‡Luc vi. 46.

addas at allor Duw?†: “Nid oes a wnel ddaioni, nac oes un: nid oes neb cyfiawn, nac oes un.”¶ Etto, os gwir edifarhawn am ein pechodau, ac os ymrôwn yn ddirifol i fyw yn well rhagllaw, yr ydym mewn rhyw fesur, o leiaf, yn addas i gyfrannu o'r dirgeledigaethau sancteiddiol hyn. Neu, yn hytrach, ny ni, ie, ny ni yw'r dynion hynny a wahoddwyd i swpper yr Arglwydd.‡ “Canys ni ddaeth Crist i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch. Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion.”||

4. Ni ddylech chwaith beidio â bod yn gyfrannogion o'r Sacrament sancteiddiol hwn, o achos llywyr eisiau iawn barodrwydd; o blegid, os ydyw amharodrwydd yn gwneuthur pobl yn waeth eu cyflwr, y mae hyn yn rheswm nerthol i'ch annog chwi i wellhâu eich bucheddau allan o law; ac, gwedi'r cwbl, ni fyddwn ni deilwng cymmaint ag i gasglu'r briwsion dan fwrdd yr Arglwydd. Y parodrwydd goreu ydyw bod yn ofalus, ac ymegnio i fyw yn fucheddol bob amser: a'r sawl, a fyddont wedi eu parottoi eu hunain fel hyn, a allent

†Sal. lxxiii. 13. ¶Sal. liii.3. Rhuf. iii. 10. ‡Luc xiv. 24.  
 ||Matth.ix. 12. 13. Edr. Yr Ail Lyfr Preg.xv,tu dal. 176.

gymmuno pabryd bynnag y caffont gyfleusdra. Dyledswydd ydyw ar bawb o honom fyw fel y gweddai i Gristionogion; ac, os byddwn byw felly, nid allwn byth fod yn llwyr amharod.

5. Od oes neb o honoch yn byw fel a gweddai i Gristion fyw, hynny yw, yn grefyddol, ac mewn gyrfa buchedd dda yn gyffredinol, nid ydyw parottöad arbennig a neillduol yn angenrheidiol; a gwell, i.e., llawer gwell, yw myned pob odfa gyfaddas i Swpper yr Arglwydd, heb y cyfryw barottöad, na pheidio â chymmuno. Ni's gall y Cristion hwnnw byth fwytta ac yfed yn annheilwng.

6. Fel hyn y mae'r cwbl oll yn ymddangos. Gan ein bod ni yn gwybod ewyllys Crist yn y peth hyn, a chennym y gorchymmyn yn eglur o flaen ein llygaid, "nid oes genuym esgus am ein pechod:"§ o blegid, pwy bynnag a esgeuluso ordinhad Crist o'i wirfodd, y mae hwnnw yn dibrisio awdurdod Crist. Ni wnaech chwi, nac un dyn arall, byth esgeuluso'r fath ddyledswydd fuddiol, ped fae'ch yn iawn ystyried y budd a'r cyssur sydd i'w gael oddiwrth y Sacrament hwn i

§Edr. Ioan xv. 22.



bob pechadur edifeiriol; sef, maddeuant o'i holl bechodau gan Dduw trwy Grist, gras a chymmorth yr Yspryd Glan i'w nerthu i gyflawni ei ddyledswydd, ac, o'r diwedd, gwobr gogoneddus o fywyd tragwyddol yn y nefoedd!

7. Ystyriwch am funud eich bod chwi, wrth esgeuluso y fath ordinhâd, yn esgeuluso hefyd eich budd a'ch dedwyddwch eich hunain; yr ydych yn ymwrthod â thrugareddau Duw, ac yn eich barnu eich hunain yn annheilwng o holl fendithion yr Efengyl, ac yn eich difeddiannu eich hunain o un o'r moddion goreu i ddwyn y bendithion hyn i'ch cyfran.

8. Eithr, heblaw eich budd a'ch dedwyddwch, ystyriwch, yn ddiweddaf oll, y diolchgarwch sydd arnoch i'ch Prynwr Bendigedig! Dyna'r peth pennaf a orchymmynnodd Crist i ni, pan oedd efe ym mron myned i roi ei einioes i lawr trosom ni: "GWNEWCH HYN ER COF AM DANAF." A fedrwch chwi, heb yr anniolchgarwch mwyaf, esgeuluso a dibrisio y cyfryw orchymryn, yr hwn sydd mor resymol, mor hawdd i'w gyflawni, mor lawn o fendithion a llesâd? A fedrwch chwi, meddaf, nacau dymuniad yr Iachawdwr Bendigedig hwnnw, yr hwn oedd yn myned i'off-

rymmu ei einioes ar y groes i'ch gwaredu chwi oddiwrth golledigaeth dragywyddol? Os medrwch chwi wneuthur hyn, yn eich iawn bwyll a synwyr, ni's gall unrhyw ystyr arall gael effaith arnoch! Ond rhoddwn *ni*, frodyr, fel yr *ÿm* yn rhwymediccaf wastadol ddiolch i Dduw Hollalluog, gan ymostwng yn gwbl i'w sanctaidd ewyllys a'i orchymmyn ef, a myfyrio ei wasanaethu ef mewn gwir sancteiddrwydd a chyfiawnder holl ddyddiau ein heinioes, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen ac Amen.\*

---

\* N. B. I have found it of great service to distribute occasionally among my Parishioners the following MEMENTO, which I had from my old friend the Reverend John Roberts, B. D. Canon of Bangor, and Rector of Llanllechid.—Two or Three Hundred Copies may be struck off for about a Guinea—

---

**“GWNEWCH HYN ER COF AM DANAF.”**

MAE Gorchymmyn ein Hiachawdwr Bendigedig i dderbyn y Sacrament Sancteiddiol, neu Fara a Gwin er côf am ei Gorph a Groeshoeliwyd, a'i Waed a dywalltwyd trosom ni, yn ddyledswydd mor eglur ac esmwyth, a'i fod yn beth trwm i feddwl gymmaint yr esgeulusir hi, i.e., hyd yn oed gan Bobl dda, y rhai mewn pob modd arall sydd yn ceisio dilyn buchedd sofr a chrefyddol—  
Ac etto nid yw'r Parottöad a ofynnir ddim mwy na hyn:

“Holi ein hunain, a ydym ni yn wir edifeiriol am ein pechodau a aeth heibio, gan eu cyfaddef yn ein gweddi-  
au ar Dduw, gan siccr amcanu eu gadael, a dilyn buch-  
edd dduwiol rhagllaw; Dywedyd gweddi'r Arglwydd  
o'r fan leiaf bob Nos a Boreu, fel y byddo i'r Hollalluog  
Dduw ein bendithio a gofalu trosom; Bod yn gywir ac  
yn union ym mhob peth a wnelom, a chynnal Ffydd  
fywiol yn uhrugaredd Dduw trwy Grist, gan ymddiried  
yn ei Haeddedigaethau a'i Ddioddefiadau ef am faddeu-  
ant o'n pechodau, a chymmeriad gyd â Duw, yr Hwn  
a addawodd yn yr Ysgrythur Llan achub y rhai oll a  
gredant yn ei Fáb Iesu Grist.” Ni a ddylem hefyd fod  
mewn Cariad Perffaith â phob Dyn, ac yn barod i gyn-  
northwyo pawb, hyd eithaf ein gallu, heb fod yn ym-  
rysongar nac yn ddialgar, ond maddeu i'r sawl a wnaeth-  
ant gam â ni, ac ymegnio i fyw mewn heddwch ac  
ewylllys da gyd â'n holl Gymmydogion. Mae hyn oll-  
mor hawdd ei wneuthur (a mwy na hyn nid ydyw ein  
Duw Daionus a Thrugarog yn ei ofyn i ni wneuthur) â'i  
fod yn beth i ryfeddu atto yu fawr, Paham yr ymgadwai  
Pobl draw oddiwrth y Sacrament Bendigedig.

Ped fai un anwyl gennym yn dymuno ar ei glaf wely,  
i ni wneuthur rhyw beth pennodol, mae yn ber siccr nad  
esceulusem wneuthur y peth a ddymunai. Ond daliwch  
sulw, fod ein Hiachawdwr Bendigedig yu ein caru ni  
yn llawer mwy nag y medr yr anwylaf o honom ni o  
Ddynolryw; ac ar y Nos cyn ei farw (pau oedd ei farwolaeth  
yn unig er ein mwyn ni) efe a orchymmynodd i ni  
wneuthur hyn **ER COF AM DANO**. Esgeuluso hyn, gan  
hynny, a'n gwna ni yu anffyddlon i'r hwn a'n carodd ni  
fwyaf, ac a wnaeth oreu erom, ac a attal oddiwrthym  
un Cynnorthwy mawr tu ag at Fuchedd dda a sanctaidd;  
canys derbyn y Sacrament Bendigedig sydd gyssur mawr  
i'n heneidiau, a thrwy fendith y Goruchaf a'n gwna ni  
yn fwy abl i wrthsefyll profedigaethau i bechod. Gad-

ewch i ni, gan hynny, fyned yn ostyngedig at Fwrdd yr Arglwydd, a gweddio arno ein gwneuthur ni yn gymmwys i ymddangos yn y fath Le, ac erfyn arno dderbyn ein hewyllysgar, ond amherffaith, ufudd-dod i'w Orchymynion; a gwnawn hyn gyd â diolchusaf Gôf am Angau Crist. Os hyn a wnawn byw fyddwn.—Cofiwch gael y rhybudd hwn oddiwrth eich Gweinidog.



## PREGETH XV.

YNGHYLCH Y SACRAMENTAU CRISTIONOGOL

## 2 BRENHINOEDD V. 12.

*Onid gwell Abana a Pharpar, afonydd  
Damascus, na holl ddyfroedd Israel? Oni  
allaf ymolchi ynddynt hwy, ac ymlanhâu?  
Felly efe a drodd, ac a aeth ymaith mewn  
digter.\**

*Are not Abana and Pharpar, rivers of  
Damascus, better than all the waters of Is-  
rael? May I not wash in them, and be clean?  
So he turned, and went away in a rage.*

**P**AN ddaeth Naaman, tywysog llu  
brenhin Syria, at Elisëus yn Samaria i'w  
gael ei iachâu o'i wahanglwyf, y Prophwyd  
"a anfonodd atto ef gennad, gan ddywedyd,  
Dos ac ymolch saith waith yn yr Iorddonen  
a'th gnawd a ddychwel i ti, a thi a lanhêir.

\*Edr. Y Bregeth nesaf.

Ond Naaman a ddigiodd, ac a aeth ymaith, ac a ddywedodd: Wele, mi a feddyliais ynof fy hun, gan ddyfod y deuai efe allan ac y safai efe, ac y galwai ar enw'r Arglwydd ei Dduw, ac y gosodai ei law ar y fan, ac y iachai y gwahanglwyfus. Onid gwell Abana a Pharpar, afonydd Damascus, na holl ddyfroedd Israel? Oni allaf ymolchi ynddynt hwy, ac ymlanhâu?" Nid oedd efe yn ystyried fod y Prophwyd ar fedr ei iachâu ef, nid trwy unrhyw rinwedd yn nwfr yr Iorrdonen, ond trwy uerth a gair Duw. Nid oedd efe yn ystyried y gwyddai y Prophwyd ei awdurdod ei hun, ac amcan y Goruchaf; ac, am hynny, efe yn ei falchder ei hun a wrthododd y fendith yr hon y daethai yno i'w gofyn, o blegid ni chynnygiwyd moni iddo yn ol ei ffordd a'i feddwl ei hunan.

Y mae llawer o bobl, mewn negesau pwysfawr, yn ymresymu ac yn ymddwyn fel Naaman y Syriad. Amcan a diben ein holl fwriadau yw Dedwyddwch. Yr ym yn ddibaid yn chwilio am dano yn y bywyd darfodedig hwn, ac yn ewyllysio ei gael yn y bywyd a bery byth. Ein hunig arweinydd yn y cyfryw chwiliad yw ewyllys Duw; a'i ewyllys ef a fynegwyd i ni yn yr Ysgrythur. Dylem gan hynny dderbyn ei hath-

rawiaeth sanctaidd megis mesur ein gwybodaeth crefyddol, ac ystyried ei gorchymynnion megis rheol ein bucheddau. Hyn yw doethineb. Hyn yw gwranddo ar y Prophwyd yn Samaria, deall ei air ef, a chanlyn ei gyngor ef a'i hyfforddiad. Pa beth bynnag y mae'r Ysgrythur yn ei ddatgan yn eglur sydd raid fod yn wir ac yn haeddu pob derbyniad. Os ydym ni yn chwilio am wirionedd a dedwyddwch o ddifrif, dyna'r unig ffordd. Ië, dyna'r "ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd."\* Eithr y mae llaweroedd yn "sefyll wrth ddrws tŷ y Prophwyd," ac yn ammau effaith ei air ef, a'i awdurdod. Maent yn agor eu BIBL, ac yn rhy barod i lefain, "Caled yw'r ymadrodd hwn;"† ac, fel Naaman, "yn myned ymaith mewn digter," neu ddiolfwch.

Siimpl hynod o'r fath ynfydrwydd a ddangosir wrth esgeuluso neu ddibrisio deddfau ac ordinhadau crefyddol. Ein Hiachawdwr Bendigedig, ar ol iddo gyflawni'r Gyfraith Foesol, "a ordeiniodd ddau Sacrament, megis yn gyffredinol yn angenrhaid i iachawdwriaeth; sef, Bedydd a Swpper y r Arglwydd."‡—Er bod y gor-

\*Ebr. Ioan xiv. 6. †vi. 60. ‡Y Catecism.

chymmyn yn bendant ac yn dra eglur, y mae, ysywaeth, llawer sy'n eu galw eu hunain yn Gristionogion yn ynddyrysu yn ddirfawr ynghylch y naill,\*ac yn esgeuluso'r llall mewn modd cywilyddus.\*

1. Ystyriwn fod y Sacramentau hyn wedi cael eu hordeinio gan ein Harglwydd Iesu Grist megis moddion neillduol i ni dderbyn ei ras ef, a'i gynnorthwy. I ni y maent, megis ag yr oedd dwfr yr Iorddonen i'r Syriad gwahanglwyfus, yn rhoddi nerth ac iechyd i nattur lygredig. Y mae Duw Hollalluog yn tywallt arnom ei fendithion, "yn gystal ar les y corph a'r enaid," trwy anryw foddion o'i ragluniaeth. Ni roddodd efe i ni gyfreidiau y bywyd hwn heb ein llafur am danynt. Nyni a wyddom na thyf na gwenith, na haidd, nac unrhywrawn arall, heb ei hâu. A pha beth yw'r achos? Yr unig achos yw ewyllys Duw. Efe a allasai wneuthur i yd dyfu fel gwellt neu chwyn y ddaear. Gallasai yn wir barottoi lluniaeth i holl ddynolryw, megis y gwnaeth efe i'r Israeliaid gynt, a'u diwallu â bara nefol.† Ond efe a'n dysgodd i godi'r lluniaeth a'r cynnorthwy hwn i ni ein hun-

\*Edr. Y Pregethau xii. xiii. xiv. †Exod. xvi. 12—15.

Sal. cv. 40.



ain, Efe a wnaeth i fywyd a'i fwyniant sefyll ar gyfarwyddyd a diwydrwydd dyn. Felly hefyd y mae efe yn trefnu tu ag at ein bywyd a'n hiachawdwriaeth dragywyddol. Efe a wnaeth y moddion a'r ammodau yn eglur ac yn hawdd i'w cyflawni. "Beth bynag a hauo dyn, hynny hefyd a fed efe; † ac nid yw pryd hau a chynhauaf, a dydd a nos," ‖ yn siccrach na'r tragywyddol ffrwyth o'n llafar ysprydol tra bôn yn yr ystad hon o brofiad.

2. Rhaid i bob rhinwedd foebol a phob ordinbâd osodedig sefyll ar yr un a'r unrwyw sylfaen; sef, ewyllys y Goruchaf. Y gorchymmyn a roddwyd i'n Rhieni Cyntaf ynghylch y Pren Gwaharddedig a roddwyd yn ddiammau er achosion moesol a chrefyddol. Canys yr oedd yn dwyn ar gof iddynt gyfan lywodraeth Duw arnynt eu hunain, ar bob peth a phob creadur a allai finistrïo i'w dedwyddwch, ar bob chwant ac awydd, ar bob balchder rheswm, ac amcan cnawdol. Yr oedd, yn y golwg hwn, yn addysg gwastadol iddynt o wir grefydd a rhinwedd dda.

3. Aberthau y Patriarchiaid, a holl Seremonïau yr Iuddewon, a Sacramentau yr

† Edr. Gal. v. 7. ‖ Gen. viii. 22.

Eglwys Gristionogol, nid ydynt, i.e., bob un yn ei amser, ddim arall ond arwydd o un diben ac amcan mawr; nodau ydynt o wirioneddau sanctaidd, ac annogaethau i gynnal gobaith dynolryw. “Y rhai oeddynt gysgod pethau i ddyfod, ond y corph oedd o Grist.”† Yr oeddynt yn symmud yma ac accw, ym mlaen ac yn ol, fel cysgod naturiol, megis ag yr oedd y sylwedd yn nesâu neu'n cilio ymaith. Aberthau a Seremonïau yr hen oesoedd a ganlynasant ac a gynnalïasant y Prophwydoliaethau, y rhai a ragddywedasant ddyfodiad Iachawdwr y Byd.‡ Sacramentau y dyddiau hyn ydynt yn cadarnhâu yr hanes rhyfeddol, yr hwn sydd yn datgan fod yr Iachawdwr hwn wedi dyfod. Yr ordinhâd, yr hon oedd yn *rhagddangos*, a ddiflannodd pan gyflawnwyd y bwriad a'r amcan yr oedd yn eu rhagddangos; ond yr ordinhâd, yr hon sydd yn *coffhau*’r peth, ni ddiflanna byth, hyd oni chyflawniref yn llwyr berffaith yn “nydd prynedigaeth.” Dangosir marwolaeth yr Arglwydd hyd oni ddelo drachefn i farau'r Byd.||

4. Yr unrhyw barch i Greawdwr, i

† Col. ii. 17. ‡ Edr. y Llyfr 1, Preg. XIV. a'r Llyfr 2, Preg. XXVII. || 1 Cor. xi. 26. Eph. iv. 30.

Brynwr, a Diddanwr y Byd, yr hwn sydd yn cymmell y Cristion Cywir i ddwyn ei blentyn at y Bedyddfaen, a ddylai ei gymmell hefyd i ddyfod bob amser cyfaddas at yr Allor i gymmeryd y Cymmun Bendigedig. Fel hyn y mae'r Grefydd Gristionogol yn dangos ein hamryw ddyledswyddau yn eglurach, ac yn eu hargraphu hwynt yn ddyfnach ar ein meddyliau, trwy'r ddau Sacrament\* a ordeiniodd Crist yn ei Eglwys, nag y gallasai trwy unrhyw fodd arall, gan ein harwain ni trwy'r fath arwyddion gweledig a chyffrous, oddiwrth y Bedyddfaen i'r Allor, ac oddiwrth yr Allor i'r Bedd. Nid yw'r Bedyddfaen ddim, na'r Allor ddim; "ond Duw yr hwn sydd yn

---

\* Y Brif Eglwys a alwodd bob un o'r ordinhadau hyn yn SACRAMENT, o herwydd fod y gair hwn yn arwyddocâu y LLW yr oedd pob Milwr yn arferol o'i gymmeryd i ymrwymo i'r Tywysog, dan yr hwn yr oedd efe yn dwyn arfau. A chan fod Cristionogion, drwy'r cyfryw ordinhadau, yn ymrwymo ac yn cwbl ymroddi "i ymladd yn wrol dan faer Crist yn erbyn Pechod, y Byd, a'r Cythraul," y gelwir hwynt yn SACRAMENTAU; a'r rhai hynny sydd yn ymrwymo drwyddynt a elwir *Milwyr* ffyddlon a *Gweision* i Grist, Pentywysog eu hiachawdwr-iaeth; ac o herwydd nad ydym yn derbyn Bedydd ond uw-  
waith, ac fel y dylai y Cristion fyned bob amser cyfaddas i'r Cymmun, yr ydys mewn iaith gyffredin yn galw y diweddf hwn Y SACRAMENT, heb feddwl am y llall.

rhoi y cynnydd.”† Tra bôm yn cerdded ar hyd y llwybr hwn, yr ydym yn cael ein cymmorth a'n cyfarwyddo gan Yspryd Duw; ac os awn un amser ar gyfeiliorn, yr ym yn cael ein gwahodd yn garedig i droi yn ol i'r unig ffordd ddiogel. Gwyn ei fyd a rodio ynddi!

5. Nid oedd yn wir dwfr yr Iorddonen ddim gwell na dwfr Abana a Pharpar, afonydd Damascus: ond felly yr oedd Duw yn gorchymmyn; ac efe yn unig yw yr hwn sydd yn rhoddi nerth a meddyginiaeth i iachâu pob clefyd, corph ac enaid. “Yr Arglwydd sydd yn marwhâu, ac yn bywhâu; efe sydd yn dwyn i wared i'r bedd, ac yn dwyn i fynu.”‖ Cynnifer ag a feddyddiwyd, ac ydynt gyfrannogion o Gymmun Corph a Gwaed ein Hiachawdwr Crist, a gynyddant fwyfwy yn yr Yspryd Glan a ffrwythau daionus, o ddydd i ddydd, o wythnos i wythnos, o flwyddyn i flwyddyn, hyd oni ddelont i'w deyrnas dragwyddol.

6. Ystyriwn y pethau hyn yn ddifrifol, fel “na byddo i neb o honom ni, frodyr.” fel Naaman y Syriad hwn, “uchel-syn-

† Edr. 1 Cor. iii. 7. ‖ 1 Sam. ii. 6.

nied; eithr synnied i sobrwydd, fel y rhan-  
nodd Duw i bob un fesur ffydd.\* Od oes  
neb o honoch wedi cael ei hudø allan o'r  
ffordd wir, dilyned siampl Naaman pan  
ddaethi'w iawn bwyll a'i synwyr, a gwan-  
dawed ar gyngor ei gyfeillion, neu ar "lais  
ddistaw" ei Reswm, a'i Gydwybod ei hun,  
yr hon a ddywed wrtho yng ngeiriau  
gweision Naaman— "Pe dywedasai'r Pro-  
phwyd beth mawr wrthyt ti, oni's gwnelsit?  
Pa faint mwy, gan iddo ddywedyd wrthyt,  
Ymolch, a bydd lan?"— "Gwna hyn er  
cof am danaf!"

Ystyriwch yr Efengyl a Chyfraith yr  
Iuddewon. Seremoniau a defodau'r Iudde-  
won oeddynt lawer, costus, treulgar, a thrall-  
odus; eithr ychydig yw defodau'r Efengyl,  
ac yn dra ysgafn. "Hyn yw cariad Duw,  
bod i ni gadw ei orchymmynnion; a'i orch-  
ymmynnion efnid ydynt drymion."† Na  
bydded i "esmwythdra ei iau ef" byth eich  
gwneuthur chwi yn esgeulus: nac ammheu-  
wch effaith ei ordinhadau, o herwydd eu  
symlwrwydd: na fyddwch euog o anghredin-  
iaeth ac anufudd-dod cywilyddus ar ur-

\*Edr. Rhuf. xii. 3. †1 Ioan v. 3.

waith. Eithr, yn hytrach, “byddwn ni oll yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau'r Arglwydd yn ddiargyoedd.”‡ Ië, canlynwn, hyd eithaf ein gallu, siampl perffaith ein Hiachawdwr Bendigedig, a chofiwn ei eiriau ef wrth Ioan Fedyddiwr, “bod yn weddus i ni gyflawni pob cyfiawnder.”||

Y mae'r amser yn dyfod, pan dderfydd am yr holl ordinhadau, y rhai y bu Duw, “a'i Grist ef,”§ mor drugarog â'u cymmhwysso i'n gwendidau a'n cyflwr gwael ni ymar y ddaear; pan na bydd ar unrhyw glwyf eisiau llyn Bethesda, na dyfroedd yr Iorddonen; pan ddilëir, yr ŷm yn gobeithio, pob arwydd gweledig o ras gan dywalltiad helaeth o hono; pan rydd y moddion o wellhad ysprydol yn y byd hwn lei wir sancteiddrwydd, ac i wir ddedwyddwch, yn y byd a ddaw; pan, mewn gair, “y bydd yr ymadrodd a'sgrifennwyd, ANGAU A LYN-GCWYD MEWN BUDDUGOLIAETH! A'r dydd hwnnw y dywedir: Wele, dyma ein Duw ni, gobeithiasom ynddo, ac efe a'n ceidw: dyma'r Arglwydd, gobeithiasom ynddo, gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachaw-

‡ Edr. Luc. i. 6. || Matth. iii. 15. § Dat. xi. 15.

dwriaeth ef. Digonolrwydd llawenydd  
sydd ger ei fron, ac ar ei ddeheulaw y  
bydd digrifwch yn dragywydd, trwy Iesu  
Grist ein Harglwydd. Amen."†

†Edr. 1 Cor. xv. 54. Is. xxv. 9. Sal. xvi. 11.



## PREGETH XVI.

YNGHYLCH RHAGFARN DDYNOL YN FFYRDD  
NATTUR, AC YN FFYRDD GRAS.



### 2 BREHINOEDD v. 13.

*A'i weision a nasant, ac a lefarasant wrtho, ac a ddywedasant: Fy Nhad, pe dywedasai'r Prophwyd beth mawr wrthyt ti, oni's gwnelsit? Pa faint mwy, gan iddo ddywedyd wrthyt; Ymolch, a bydd lân?*

*And his servants came near, and spake unto him, and said: My Father, if the Prophet had bid thee do to some great thing, wouldest thou not have done it? How much rather then, when he saith to thee; Wash, and be clean?*



**N**AAMAN, tywysog llu brenhin Syria, oedd wr mawr yng ngolwg y brenhin, ac yn anrhydeddus gyd â'r bobl; canys trwyddo ef y rhoddasai'r Arglwydd ymwarded i Syria. Eithr, yng nghanol yr holl



fri a'r dyrchafiad hwn, clwyf ffaidd a'i gwnaeth ef yn gas iddo ei hun ac i eraill. "Yr oedd efe yn wahanglwyfus." Mintei-oedd y Syriaid oeddynt wedi caethgludo o wlad Israel langces fechan, a honno oedd yn gwasanaethu gwraig Naaman. A hi, wedi clywed y cyfodasai Elisäus fab y Surnamees o farw i fyw,\* a ddywedodd wrth ei meistres: "O na byddai fy arglwydd o flaen y Prophwyd sydd yn Samaria; canys efe a'i hiachâi ef o'i wahanglwyf;" a'i meistres yn ddiattreg a aeth ac a ddywedodd hyn i'w harglwydd. Wele Naaman yn sefyll wrth ddrws tŷ Elisäus, a'r Prophwyd yn anfon atto ef gennad, gan eddywedyd: Dos ac ymolch saith waith yn yr Iorddonen; a'th gnawd a ddychwel i ti, a thi a lanhäir. Er fod y gennadwri hon yn eglur, a'r feddyginiaeth yn hawdd, etto "Naaman a ddigiodd, ac a aeth ymaith."† Yr oedd y "gwr cadarn" hwn, fel y Phariseaid yn anser ein Hiachawdwr, yn chwennyh gweled arwydd ganddo.‡ Os ymolchi sydd raid i mi, "onid gwell Abana a Pharpar," medd efe, "afonydd Damascus, na dwfr cysglyd yr Iorddonen, ie, na holl ddyfroedd Israel?"

\* Edr. 2 Bren. iv. 32—37. † 2 Bren. v. 1. 2. 3. 9. 10. 11.

‡ Matth. xii. 38. xvi. 1.

Oni allaf ymolchi ynddynt hwy, ac ymlanhâu? Felly efe a drodd, ac a aeth ymaith mewn digter. § Ond ei weision, y rhai a ddangosasant fwy o dynmer a synwyr ar yr achos hwn na'u harglwydd, a ddywedasant: "Fy Nhad, pe dywedasai'r Prophwyd beth mawr wrthyt ti, oni's gwnelsit? Pa faint mwy, gan iddo ddywedyd wrthyt; Ymolch, a bydd lân?"

Ystyriwn am funud nerth ac amcan eu rhesymniad hwy. "Pe buasai'r gwahanglwyf i'w gael ei lanhâu drwy olchiad dwfr yn unig, buasai yn ddiammau le i ti ddisgwyl cymmaint llês o leiaf oddiwrth afonydd Damascus, ag oddiwrth afonydd Israel. Ond ystyria. Tydi a ddaethost at Brophwyd am gynnorthwy, yr hwn sydd i adferu iechyd i ti, megis y rhoddodd efe fywyd i'r marw, trwy weithrediad rhyfeddol ei Dduw. Y moddion sydd yn cael ei holl effaith oddiwrth y Gallu hwnnw yn unig. Pa mwyaf anaddas y mae'r moddion yn ymddangos, mwyaf eglur y gwelwn ni law y Goruchaf yn dy iachâd: ac os ydynt yn syml ac yn hawdd, mwyaf ewyllysgar y dylem ni fod i'w profi. Na wrthod gan hynny y feddyginiaeth, am yr achos cryfaf

y dylit ei dderbyn. Ti a ddaethost at Dduw Israel am gymmorth. Cymmer ef yn y modd y mae'n ei chynnyg. Efe a orchymynnodd i ti ymolchi yn nyfroedd yr Iorddonen; ond Efe yn unig, ac nid DYFR-OEDD yr Iorddonen, sydd yn rhoddi iechyd." — Wele, dyna lawn ystyr eiriau'r testun.

Mae rhagfarn Naaman yn glynu wrth ddynolryw ym mhob oes, ac ym mhob lle; ac ni ddichon neb ei symmud ymaith ond trwy ymresymmu yn yr un modd. A chan fod y rhagfarn hon yn ymyrru gyd â gweithredoedd Nattur a gweithredoedd Gras, daliwn sylw, yn eu trefn a'u rheol, ar ychydig o'r mwyaf hynod.

I. Yr ydym ni, fel swynwyr yr Aipht, neu fel y Syriad hwn, yn barod i gyfaddef mai Bys Duw ydyw,\* os gwelwn rhyw gyhoeddiad rhyfeddol o'i allu ef a'i ogoniant; ac, fel Naaman hefyd, yr ym yn rhy dueddol i esgeuluso a diystyru rheolau tawel ei ragluniaeth. Pe buasai'r Prophwyd yn "galw ar enw'r Arglwydd ei Dduw, ac yn gosod ei law ar y fan, ac yn iachâu y gwa-hanglwyfus,"† mae'n dangos ei barodrwydd i gyfaddef gallu hollalluog. Eithr pan

\* Edr. Exod. viii. 19. † 2 Bren. v. 11.

orchymmynnwyd iddo ymolchi saith waith yn yr Iorddonen, nid oedd yn gweled dim o Dduw yn hyn, nac yn meddwl am ddim arall ond puredigaeth gyd â dwfr yn unig. Ac onid felly yr ym ninnau hefyd yn ymresymmu? Pe bai'r haul yn sefyll yn ffurfafen y nefoedd, neu'n llwyr naccâu ei oleuni am ddiwrnod, ym mha fodd y synnai trigolion y ddaear, ac y crynent ger bron Arglwydd yr holl-fyd! Ond pa cyn lleiad yr ydym ni yn meddwl am yr un Gallu Hollalluog, yr hwn sydd bob dydd yn peri iddo lawenhâu fel cawr i redeg gyrfa."†

2. Tra bo Duw yn rhoi'r gwlaw cynnar a'r diweddar yn ei amser, ac yn cadw i ni ddefodol wythnosau cynhauaf,‡ ac yn peri i'r ddaear ddwyn ei hamryw ffrwythau, yr ydym ni yn cymmeryd y bendithion hyn megis pethau cyffredin, ac yn bwyta, ac yn yfed, heb ond odid unwaith feddwl am awdwr daionus ein holl gynnhaliaeth! Etto ni's gallai'r ddaear roddi ei ffrwyth, mwy na gallai'r nefoedd wlawio bara yn y diffaethwch, heb gennad a gorchymmyn yr Hollalluog. A phan borthodd EFE ei bobl yn y cyfryw fodd rhyfeddol, fe a ddywedodd wrthynt: "Cewch hefyd wybod mai

† Edr. Salm xix. 5. ‡ Jer. v. 24.

myfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi."||—  
Rhyw beth anghyffredin a rhyfeddol sy'n  
anghenrheidiol yn aml i beri i ni wasanae-  
thu ac addoli yr unig Hanfod Da, yr hwn  
sydd "hyspys yn ein holl ffyrdd."§

3. Ein hesgeulusdra a'n diofalwch ni,  
ynghylch ffyrdd Duw yn rheoli y Byd  
Moesol, ydynt yr un a'r unrhyw ag y  
maent ynghylch ei reolaeth o'r Byd Nat-  
uriol. Rhagluniaeth Duw, yr hwn a ddug  
Joseph wrth ei law ac a'i gwnaeth ef yn  
llywodraethwr ar holl wlad yr Aipht, a  
ddygodd allan hefyd ar ol hynny blant  
Israel o'u caethiwed yn y wlad honno, "ag  
arwyddion, ac â rhyfeddodau; ac â llaw  
gref, ac â braich estynnedig, ac ag ofn  
mawr."\* Yr ym yn gweled braich yr Ar-  
glwydd yn ymestyn allan, mewn modd  
ofnadwy iawn, yn y rhyfeddodau mawrion  
ar yr Aipht, yn arwain yr Israëliaid trwy'r  
Mor Coch, ac yn rhoddi iddynt holl wlad  
Canaan; eithr ni fuasem ni yn gwybod,  
oni bai i'r Ysgrythur ein sicrhâu ni yng-  
hylch y peth, fod yr un fraich ogoneddus  
yn tywyso Joseph i wneuthur iddo ei hun  
enw tragwyddol.†

|| Ebr. Exod. xvi. 4. 12. § Salm cxxxix. 3. \* Jer.  
xxxiii. 21. † Is. lxiii. 12.

4. Pan wêl Duw yn dda roddi buddugoliaeth i frenhinoedd a'u capteniaid drwy gallineb eu cynghorion, a thrwy lewder eu byddinoedd, EFE yn wir yw awdwr a rhoddwr y fuddugoliaeth, i.e. cymmaint a phan aeth Angel yr Arglwydd ac a darawodd holl lu yr Assyriaid.\* Yma yn ddiau mae 'n rhaid i ni ddodi'r holl ogoniant i Dduw; ond yn y lle arall yr ydym yn rhy dueddol i osod y cwbl ar law Dyn! Pan wlawiodd yr Arglwydd frwmstana than allan o'r nefoedd ar genedl annuwiol a drygionus,† yr oedd dychrynedigaethau ei ddial ef yn ymddangos mewn modd arswydus; eithr nid ym yn eu canfod hwynt, er bod y barnedig-aethau yn deilliaw oddiwrth yr un awdurdod, pan gymmer efe ymaith ei uawdd a'i garedigrwydd oddiar ryw wlad, a'i rhoddi hi i fynu yn ysglyfaeth i'w gelynyon, neu i lygredigaeth a drygioni ei thrigolion. Ein camsynniad ni yu y pethau hyn, fel camsynniad Naaman, sydd yn tarddu o'r anystyriaeth canlynol; sef, lle nad ydym yn gweled un achos naturiol yn ddigonol i weithredu unrhyw effaith, yr ym yn barod i roddi'r glod i Dduw; eithr lle mae Duw, fely mae efe yn gyffredin, yn dwyn rhyw beth ym mlaen drwy

\* Edr. 2 Bren. xix. 35. † Gen. xix. 24.

weithrediad offerynau cyfryngol, nid ydym yn rhy aml yn edrych ym mhellach na'r cyfryw offerynol achosion, ac felly yn dystyru **PRIF ACHOS MAWR POB PETH!**

5. Duw sydd yn sefydlu trefn a heddwch, neu'n codi cythrwfl a therfysgoedd, yn y Byd Moesol, yn gystal ag yn y Byd Natturiol. "Efe a orchymmyn, a chyfyd tymnestl-wynt, yr hwn a ddyrchafa donnau dyfroedd mawrion:" a thrachefn—"Y mae efe yn ceryddu y gwyntoedd a'r mor, ac y maent yn ufuddhâu iddo. Diau cynddaredd Dyn a folianna Dduw."† Canys cynfigen brodyr Joseph, a'u hamcan creulon i'w ladd ef, oeddynt yn nwyllaw'r Hollalluog yn achosion o gadwraeth teulu Jacob. A drygioni cythreulig yr Iuddewon wrth roddi ein Hiachawdwr, ie, "Tywysog y bywyd," i farwolaeth, oedd mewn gwirionedd yn gyrru ym mlaen terfynedig gyngor a rhagwybodaeth y Goruchaf yn ei waith rhyfeddol o brynedigaeth dynolryw.||

II. Trown eingolwg yn awr tu ag at y prynedigaeth rhadlawn hwn; ac ystyriwn, yn yr ail fan, a oes dim o ragfarn Naaman yn gwyro ein meddyliau wrth ddal sulw ar weithredoedd Gras?

†Edr. Salm cvii. 25. Matth. viii. 26, 27. Salm lxxvi. 10.

||Act. ii. 23. iii. 15.

1. Gellir gweled, yn gyntaf, pan ddarfu i'r Syriad unwaith feddwl ym mha fodd y dylasai'r Prophwyd ei iachâu ef o'i wahan-glwyf, nid oedd yn hawdd i'w gymmodi ef gyd ag unrhyw fodd arall. Felly hefyd yr Iuddewon, ar ol iddynt unwaith ddisgwyl eu Messias megis Rhyfelwr mawr, a'i gwrthodasant ef megis eu Hiachawdwr a'u Hachubwr Ysrydol. Gallasid feddwl y buasai ei wyrthiau rhyfeddol yn ddigon i brofi ei ddyfodiad ef oddiwrth Dduw. Ond yr oedd gan y dystiolaeth ragorol hon ragfarnarall i'w gorchfygu. Hwyl a wyddent fod y Gyfraith, yn amser Moses, wedi cael ei rhoddi iddynt, o fynydd Sinai, o ganol tân, a chwmwl, a thywyllwch dudew;\* ac yr oeddynt hwyl yn disgwyl gwelod ryw arwydd arswydus o'r nef gan eu hail Gwardwr.† Pe rhoddasai efe iddynt y cyfryw arwyddion, ni fuasent hwyl fwy na'r rhai a roddodd efe iddynt. Efe a roddodd iechyd i'r cleifion, traed i'r cloffion, clustiau i'r byddariaid, llygaid i'r deillion, a bywyd eilwaith i'r meirw!‡ Ond ofer oedd y cwbl oll. Ni ddangosodd efe iddynt yr arwydd yf' oeddynt yn ei geisio,

\* Edr. Exod. xix. 18. Deut. iv. 11. † Matth. xii. 38, &c.

‡ Is. xxx. 5. 6. Matth. xi. 5.



ac am hynny hwy a ddiystyrasant ei holl arwyddion a'i ryfeddodau eraill.

2. Rhagfarn o'r un fath sydd yn glynu etto ym meddyliau anffyddloniaid. Y maent yn gyffredin yn barod i'w cyfaddef eu hunain yn bechaduriaid, ac ewyllysgar i fwynhâu bywyd tragywyddol yn y nefoedd. Ond gan fod Ffydd yn effaith gwaed Crist yn ammod o'u maddeuant, ac o'u mwynhâd o'r bywyd hwnnw, y maent mewn gwirionedd yn ymwrthod o honyut yn rhyfygus â'r cyfryw addewidion gwerthfawr. Eithr, "O ddyn, pwy wyt Ti, yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw? A ddywaid y peth ffurfiedig wrth yr hwn a'i ffurfiodd, Paham y'm gwnaethost fel hyn?"† - Pwy yw'r barnwr goreu? Duw, yr hwn sydd yn rhoddi y ddawn; ai Dyn, yr hwn sydd yn ei derbyn? Duw, yr hwn sydd anfeidrol yn noethineb, "ac aneirif yw ei ddeall;"‡ ai Dyn, yr hwn nid yw yn deall y pethau o flaen ei lygaid? Wele yma falchder a chyn-dynrwydd Naaman! Mae'r dynion hyn yn teimlo afiechyd eu natur, ac yn cyffesu eu haflendid; ac y maent yn chwennych hefyd cael eu glanhâu, a'u hadferu i'w uerth a'u hiechyd; etto, pan ddywedir wrthynt,

† Edr. Rhuf. ix. 20. ‡ Salm cxlvii. 5.

“Ewch ac ymolchwch yn nyfroedd Bedydd, a byddwch lân,” y maent hwy, fel Naaman y Syriad, yn troi, ac yn myned ymaith mewn digter.||

3. Os ystyriwn yn fanwl dyb rhai Cristionogion, pwy na wél rhagfarn Naaman yn glynu wrthynt? Pan aeth y gwahanglwyfus hwn at y Prophwyd, disgwyliodd cael ei iachâu gan ryfeddol allu Duw Israel, yr hwn ni's medrai efe ganfod wrth yndrochi yn yr Iorddonen. Nid oedd hyn yn perina braw na syndod. A pha beth a ddywedwn ni am dyb Cristionogion ynghylch un o ordinhadau Crist? Efe a orchymmynodd i ni dderbyn Bara a Gwin, er cof am ei angau a'i ddiodefaint, fel y byddem wrth hynny yn gyfrannogion o'i fendigedig Gorph a'i Waed. Ond nid oedd y cyfryw ordinhad yn ymddangos yn ddigon dirgel i feddwl y Pabyddiaid; ac am hynny hwy a'i newidiasant i un o'r dirgeledigaethau mwyaf dychrynadwy a allai dychymmyg dyn ddyfeisio; sef, Corph a Gwaed Natturiol ein Harglwydd Bendigedig! — Yr unig lesâd a all ddeilliaw, oddiwrth y ddau Sacrament a ordeiniodd Crist yn ei Eglwys, sydd raid sefyll ar iddynt fod yn ordinhad a

gorchymmyn neillduol Duw; yr hwn a all roddi adenedigaeth i ddyn trwy dwfr yn y Bedyddfaen, a gwneuthur y Cymmwnwr ffyddlon yn lân trwy'r bara a'r gwin wrth fwrdd yr Arglwydd, yn gystal ag a gwnaeth efe Naaman felly yn nyfroedd yr Iorddonen. Gwaith yr Hollalluog Dduw ydyw'r cwbl oll, ac nid effaith y dwfr, na'r bara a'r gwin.†

4. Un ystyriaeth arall sy'n tarddu allan oddiwrth yr Ysgrythur o'n blaenau. Gweision Naaman a ddywedasant wrtho: "Fy Nhad, pe dywedasai'r Prophwyd beth mawr wrthynt ti, oni's gwnelsit." Mae hyn yn arwyddocâu, pe dywedasai efe wrtho aberthu yr ebyrth mwyaf gwerthfawr a'r anwylaf, efe a'i gwnaethai yn ddiatreg: ond pan glywodd efe sôn am fyned ac ymolchi saith waith yn yr Iorddonen, efe a drodd, ac a aeth ymaith mewn digter. Wele yma ddarluniad cywir o dymmer dynolryw! Gwrandewch pa fodd y mae'r Prophwyd Micah yn achwyn ar ei genedl! "A pha beth y deuf ger bron yr Arglwydd, meddant, ac yr ymgrymmaf ger bron yr Uchel Dduw? A ddeuaf fi ger ei fron ef â phoeth-offrymmau, ac â dyniewid? A fodd-

†Eir. Y Bregeth Ddiweddaf.

lonir yr Arglwydd â miloedd o feheryn, neu â myrddiwn o ffrydiau olew? A roddaf fi fy nghyntaf-anedig dros fy anwiredd, ffrwyth fy nghroth dros bechod fy enaid?\*" Nid felly, medd y Prophwyd; nid yw dy Greawdwr yn gofyn y cyfryw aberth ar dy law. "Dangosodd efe it', Ddyn, beth sydd dda: a pha beth a gais yr Arglwydd gennyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyd a'th Dduw?"† Felly hefyd y mae Isaiah a'r holl Brophwydi eraill, yn cwyno yn ddibaid.† Ac felly, yn gynnar yn hanes yr Iuddewon

¶ Edr. Micah vi. 6, 7, 8. †Is. i. 11. lviii. 1--14. Jer. vi. 20. &c.

---

\* Felly yr oedd trigolion Fflorida yn America arfer gwneuthur, i.e., yn ol y llythyren. Edr. "*Moore's Explanation of the GRAND MYSTERY*," p. 86. Ac megis ag y cynmerodd brenhin Moab ei fab cyntaf-anedig, yr hwn oedd i deyrnasu yn ei le ef, ac a'i hoffrymmodd ef yn boeth-offrwm ar y mur; felly Hacon, brenin Norway a offrymmodd ei fab i ODIN, duw yr eulunaddolwyr y Gogledd, fel y rhoddai iddo fuddugoliaeth ar ei elyn Harald. Ac felly hefyd Aune, brenhin Sweden, a gyssegrodd i'r unrhyw ODIN gwaed ei naw fab, os gallai y duw hwnnw estyn ei hoedl. Edr. 2 Brenhin. iii. 27. a "*Maillett's Northern Antiquities*," vol. i. p. 134.

y dywedodd Samuel wrth Saul: "A yw ewyllys yr Arglwydd ar boeth-offrymmau, neu ebyrth, megis ar wrando ar lais yr Arglwydd? Wele, gwrando sydd well nag aberth, ac ufuddhau na brasder hyrddod."§ Yn amser ein Hiachawdwr hefyd, nyni a'i clywn ef yn cyhoeddi gwae yn erbyn yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, am iddynt gadw rhyw ddefodau ysgafn, ond yn gadael heibio y pethau trymmach o'r Gyfraith; sef, barn, a thrugaredd, a ffydd.||

Eithr nyni, frodyr, nid felly y dysgasom Grist.\* Nyni a wyddom fod yr ordinadau a osodwyd i ni yn hawdd i'w cyflawni, ac a orchymmynnwyd i ni megis moddion digonol i'n cynnyddu mewn gras a daioni. Nyni a wyddom mai'r aberth mwyaf cymmeradwy a allwn ni gynnyg i Dduw yw rhinweddau buchedd dda. A all dedwyddwch tragywyddol gael ei gynnyg i'r pechadur ar aminodau mwy rhesymmol? Fel hyn nyni a allwn fyw yn y byd hwn gyd â boddlonrwydd, ac ymadael ag ef gyd â gwir ddiogel obaith o adgyfodiad i fywyd tragywyddol. Am y cyfryw obaith o ogoniant

§ Edr. 1 Sam. vx. 22. || Matth. xxiii. 23. \*Ephes. iv. 20.

anfarwol, “pe dywedasai'r Arglwydd beth mawr wrthyt ti, oni's gwnelsit? Pa faint mwy, gan iddo ddywedyd wrthyt, Ymolch yn unig oddiwrth dy bechodau, a bydd lân?” Duw Hollalluog a roddo i ni ras i ystyried y pethau hyn yn ddifrifol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.\*

---

\* It is worth while to observe that our Translators, in common with many others, have occasioned a perplexity to serious persons by their version of part [ver. 17—19] of this interesting and highly instructive Narrative of Naaman.—After the Assyrian General had been healed in the river Jordan, and was returned to the Prophet, he is made as it were to solicit permission, not only to continue to attend his master in the house of Idols, but even to worship there; and, what is worse, as the passage stands, Elisha appears to give his sanction to the idolatrous practise

But, as it is acknowledged on all hands, that the words in the Original may be taken, without any violence, in the Past Tense, why was not the whole thus rendered? —“In this thing the Lord pardon thy servant; that, when my master went into the house of Rimmon to worship there, and he leant on my hand, I bowed myself in the house of Rimmon, the Lord pardon thy servant in this thing, that I bowed myself in the house of Rimmon. And Elisha said unto him: Go in peace.”—Is it credible that a Prophet, of such zeal and piety as

---

Elisha was, would encourage in a Convert that which was diametrically opposite to the law of God, and which always occasioned the most heavy denunciations of the Divine displeasure against the Israelites?—We read just before, that Naaman intreated to have “two mules burden of the earth of the country,” declaring, “that from henceforward he would offer sacrifice to no God, but the God of Israel.”—This sort of devotion was very ancient among the Jews, and even among the Christians. Benjamin of Tudela says, that the Jews of Persia built their Synagogue with earth and stones procured at Jerusalem. And we find that the Empress Helena, mother of Constantine the Great, caused a quantity of earth to be brought from thence to Rome, which she put into the Church of the Holy Cross.

Is it then to be supposed that Naaman, after making this becoming request, would immediately follow it up by asking leave to “bow down,” that is, “shew *external worship* at least,” in the house of Rimmon? An address of such a nature, instead of drawing from the Holy Prophet a benediction, would have rather roused his indignation: and, instead of dismissing him affectionately with an answer of Peace, which implied a full approbation of his words and sentiments, he would undoubtedly have treated him as a hollow-hearted hypocrite, and as one who halted between GOD and RIMMON.

The following anecdote may not be quite unappropriate. When our Popish King, James the Second, went in great state to his Chapel, wherein Mass was performed, he was accompanied by one of his principal Noblemen, who stopped short at the door, on which the King said to him: “Your Lordship’s father, my Lord, would

---

have gone further.”—The conscientious Courtier immediately replied: “May it please your Majesty, your Majesty’s father would not have gone so far.” See *The Orthodox Churchman’s Magazine and Review*, vol. x. p. 350.





## PREGETH XVII.

YNGHYLCH ADGYFODIAD Y MEIRW.



MATTHEW XXII. 31, 32.

*Ac am adgyfodiad y meirw, oni ddarllennasoch yr hyn a ddywedwyd wrthyhych gan Dduw, yn dywedyd: "Myfi yw Duw Abraham, a Duw Isaac, a Duw Jacob?" Nid yw Duw Dduw y rhai meirw, ond y rhai byw.*

*But as touching the resurrection of the Dead, have ye not read that which was spoken unto you by God, saying: "I am the God of Abraham, and the God of Isaac, and the God of Jacob?" God is not the God of the Dead, but of the Living.*



**C**HWI a wyddoch fod y Saduceaid gynt, ym mysg yr Iuddewon, yn gwadu nad oes adgyfodiad y meirw. Yr oedd yr amryfusedd hwn yn deilliaw oddiwrth eu camsynniadau eraill; megis, nad oedd gan



yr Ysgrythurau ddim awdurdod i sefydlu unrhyw athrawiaethau, ond y rhai oedd gynnwysedig yn 'sgrifenniadau Moses; ac nad oedd yn 'sgrifenniadau Moses ddim hanes ynghylch yr adgyfodiad. Mae'n ymddangos, oddiwrth yr Efengyl yn ol S. Matthew, fod rhai o'r cyfryw bobl yn dyfod at ein Hiachawdwr, gan gymmeryd cyngor eisoes pa fodd y rhwydent ef yn ei ymadrodd. Yr holiad oedd ynghylch y wraig, i'r hon y buasai saith o wŷr; a'r cwestiwn yw, "yn yr adgyfodiad gwraig i bwy o'r saith fydd hi? A'r Iesu a atebodd ac a ddywedodd wrthynt: Yr ydych yn cyfeilïorni, gan na wyddoch yr YSGRYTHURAU, na GALLU DUW."

Dyna ei ateb; a'i ddeongliad sydd yn y modd canlynol. "Od oes gan Dduw *allu* i gyfodi y meirw i fywyd drachefn, ac os dywedodd y *gwna* efe hynny; yna, yn wir, y mae ffydd pob dyn ystyriol yn sefyll ar sylfaen siccr. Am y cyntaf, nid oes le i'w ammau; canys gwneuthur Dyn yn y dechreuad o bridd y ddaear, a'i gyfodi ef drachefn o'r unrhyw bridd, nid ydynt yn ddiammau ddim arall ond megis yr un weithred o'r unrhyw allu. Ac am yr olaf, y mae gennych dystiolaeth nid yn unig yr Ysgrythurau, y rhai ydych heb achos yn

eu gwrthod; eithr, fel y dangosaf i chwi yn ebrwydd, y rhai hynny hefyd yr ydych chwi eich hunain yn eu derbyn. Ond, yn y cyfamser, mae'n rhaid i mi ddywedyd eich bod yn cyfeiliorui yn ddirfawr ynghylch yr adgyfodiad. Ni fydd y perthynasau, y rhai sy'n cymmeryd lle yn y byd hwn, yn angenrheidiol yn y byd a ddaw. "Canys pan adgyfodant o feirw, ni wreiccant ac ni ŵrant; eithr y maent fel yr angylion sydd yn y nefoedd"† A siccrwydd y byd a ddaw, yr hwn nid ydych chwi yn barod i'w dderbyn, chwi a allwch gasglu yn rhwydd oddiwrth lyfrau Moses ei hun. Ystyriwch yr hyn a ddywedwyd wrthy ch gan Dduw: **MYFI YW DUW ABRAHAM, A DUW ISAAC, A DUW JACOB.** Mae'r geiriau hyn yn ddi-ammau yn arwyddocau gradd hynod o gariad Duw, a'i fendith tu ag at y Patrieirch hyn; eithr ni ddangosodd efe mo'i garedigrwydd iddynt yn y bywyd presennol; canys hwy a gawsant yn y bywyd hwn gymmaint o flinder a thrallod â dynion eraill. Ac un o honynt yn enwedig a ddywedodd yn ei henaint: "Ychydig a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy einioes."§ Y mae'n rhaid, gan hynny, i'r dedwyddwch ni chafodd y

† Edr. Marc xii. 25. y Gen. xlvii. 9.

dynion duwiol hyn mono ar y ddaear, fod wedi ei gadw iddynt mewn gwlad well; hynny yw, un nefol. Anfarwoldeb oedd gwrthddrych eu ffydd hwynt, a gobaith mawr eu holl ddisgwyliad; o herwydd “nad yw Duw Dduw y rhai meirw,” y rhai a gawsant yma ryw fywyd byr, poenus, darfodedig; “ond y rhai byw,” y rhai a gânt fod mewn gwir ddedwyddwch yn dragywydd.” Dyna lawn ystyr geiriau ein Hiachawdwr yn y testun.

Nid gwaith ofer fyddai i ni chwilio, canys fe a fydd yn eglurhâd o ymddiddan ein Harglwydd gyd a'r Saduceaid, ym mha fodd y daeth tyb ynghylch adgyfodiad y meirw i feddwl Dyn, a pha ryw sylfaen sy i'r athrawiaeth hon yn yr Ysgrythurau.

1. Gellir gweled, ar y golwg cyntaf, na chymmerodd athrawiaeth yr adgyfodiad byth mo'i dechreuad oddiwrth synniad Dyn. Y mae'r peth tu hwnt i bob prawr ac ystyr dynol. “Teyrnasodd Marwolaeth o Adda hyd Moses,”\* ie, ac a deyrnasa hefyd ar bob dyn hyd ddiwedd y byd. O'r cwbl oll a aethant i lawr i'r bedd, ni ddaeth neb erioed yn ol; ac, oddiwrth aeth Nattur yn unig, nid oes lle i ddis-

\* Edr. Rhuf. v. 14.

gwyl y daw neb. Nattur yn wir a rydd i ni obaith, ac y mae rheswm yn cadarnhau y gobaith hwnnw, “y dychwel yr yspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef.”† Eithr am “ADGYFODIAD Y CORPH nid oes gan Nattur unrhyw gynhaliaeth, ac y mae Rheswm yn dyrysu ei hunan wrth geisio ei amgyffred. “Adgyfodiad y Cnawd” gan hynny sy raid iddo ddyfod oddiwrth Dduw yr hwn yn ddiâu a roddodd i Adda y cyfryw ddatguddiad. Ac y mae'r cwbl yn sefyll ar yr hanes byr sydd yn y drydedd Bennod o Genesis, lle yr ydym yn darllain y farn ofnadwy yn erbyn ein Rhieni Cyn-  
taf, a'r esmwythad o honi, yn union ar ol y Cwmp.

2. Pan farnodd yr Arglwydd Dduw ein tad Adda, efe a ddywedodd wrtho: “Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.” Nyni a welwn yma ymddattodiad a distryw yr holl gorph. Etto, y mae esmwythad o'r farn hon, a chymmorth yn deilliaw oddiwrthi, y rhai sy raid iddynt berthyn i'r farn ei hun. Y Saph, sef yr HUDOLWR MAWR a dwyllodd Ddyn; eithr Duw a ddywedodd wrtho: “Gelyniaeth a osodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy hâd di a'i hâd

† Edr. Pregethwr xii. 7.

hithau; efe a ysiga dy ben di, a thithau a ysigi ei sawdl ef.”† Mae'r ymadroddion hyn yn arwyddocâu, y cyntaf megis rhyw beth a ellir cael iachâd; ond y diweddaf, megis briw marwol. Wele yma y ddatguddiad a wnaeth yr Arglwydd Dduw i Adda!— Drygioni Dyn a amlhaodd; ond Enoch a rodiodd gyd â Duw, ac ni welwyd ef; canys Duw a'i cymmerodd ef.”§ Hyn oedd yn dangos yn eglur, nid yn unig “fod ffrwyth i'r Cyfiawn,” eithr bod Cyrph yn gystal ag Eneidiau, dynion daionus y cael eu cymmeryd i drigfannau y bywyd tragywyddol. Y mae achos a rheswm, paham y cymmerwyd ymaith Enoch yn fyw; o blegid, fel yr oedd ein Prynwr Bendigedig yn awdwr yr adgyfodiad i fywyd arall, felly hefyd yr oedd raid iddo fod “yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant.”

3. Duw, ar ol y Diluw, a ddywedodd wrth Abraham; “Na fydded drwg yn dy olwg am y llangc; o herwydd yn Isaac y gelwir i ti hâd, fel y byddo yn genhedl-oedd:”|| ac etto efe a roddodd iddo orchymmyn i fyned ac offrymmu y mab hwnnw, trwy ba un yr oedd lle i ddisgwyl y fath fendith ryfeddol. Abraham a ufuddhaodd

†Gen. iii. 15. §v. 24. ||Gen. xvii. 16. a xxi. 12.

i'r galwad, o herwydd ei fod yn gwybod mai Duw ei hun oedd yn gorchymmyn; a "chyd â Duw pob peth sydd bossibl."— Ond nid dyma'r cwbl. Y mae cymmaint o "gyffelybiaeth"† rhwng Abraham yn myned i offrymmu ei fab Isaac, ac offrymiad Crist ar y Groes, a bod yr Eglwys yn edrych ar y weithred honno megis cysgod o aberth ac adgyfodiad ein Hiachawdwr. "A gelaf fi rhag Abraham, medd yr Arglwydd, yr hyn a wna?"‡ Ac, fel na chelodd efe oddiwrtho ei fwriad ynghylch prunedigaeth dynolryw, y mae gennym air ein Hiachawdwr ei hun: "Gorfoledd oedd gan Abraham weled fy nydd i," medd efe, "ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd"§—y dydd gorfoleddus hwnnw, trwy ba un y cafodd efe fuddugoliaeth i ni dros Bechod, a Marwolaeth, a'r "Hwn oedd a nerth Marwolaeth ganddo."§

4. Yr un ffydd yn adgyfodiad y meirw a gadwyd ym mhob oes o'r byd. Mae'n debyg iawn fod llyfr Job wedi cael ei 'sgrifennu cyn gynted â'r cyntaf o lyfrau Moses. Ac etto yn y llyfr rhagorol hwn y mae athrawiaeth eglur ynghylch yr adgyfodiad.

†Edr. Heb. xi. 19. ‡Gen. xviii. 17. §Ioan viii. 56.

§Heb. ii. 14.

“Myfi a wn,” medd Job dduwiol, “fod fy **MHRYNWR** yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear: ac er, ar ol fy nghroen, i bryfed ddifetha'r corph hwn, etto caf weled **Duw** yn fy nghnawd: yr hwn a gaf fi im' fy hun ei weled; a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall.”\* Y mae gennym yma adgyfodiad y cnawd yn cael ei ddatgan yn y modd cadarnafac amlyccaf ag a gall geiriau ei osod allan.

5. Nid oes lle i ni ddisgwyl diu ynghylch y testun hwn yn y llyfrau sy'n perthyn yn unig i hanes dinasaid yr Iuddewon. Ond yr oedd gan eu Cyfraith, a'u holl Lywodraeth, yn enwedig eu rhyddhâd o gaethiwed yr Aipht, a'u sefydliad yn ngwlad Canaan, “gysgod daionus bethau i ddyfod;” sef, Canaan Nefol, a rhyddhâd yr holl Fyd oddiwrth gaethiwed Pechod; ar ba rai yr oedd pob dyn duwiol, o ddechreuad y byd, wedi sefydlu ei olwg a'i obaith.—Y mae'r brenhin Dafydd, “ac efe yn brophwyd,” yn sôn mewn amryw fannau am adgyfodiad y cnawd; ac, yn yr unfed Salm ar bynthege, mewn ymadrodd eglur, lle y mae efe yn rhagweled adgyfodiad Crist: “Ni adewi fy enaid yn uffern,”

\* Job xix. 25, 26, 27.



medd efe [neu, fy einioes yn y bedd,] “ac ni oddefi i’th Sanct weled llygredigaeth.¶— Duw a wared fy enaid i o feddiant y bedd; canys efe a’m derbyn i.\*”

6. O fewn ychydig o flynyddoedd ar ol Dafydd, yr Iuddewon yn gyffredin a ddechreasant roddi i fynu ffydd a gobaith eu tadau. Am hynny Duw a welodd yn dda roddi iddynt arwydd rhyfeddol ym mhereson Elias, fel a gwnaeth efe ag Enoch yn y byd o flaen y Diluw.§ Ac yn ebrwydd ar ol hynny Duw a roddodd iddynt weledigaeth ragorol Isaiah. Mae’r Prophwyd hwn mor lawn ynghylch teyrnas y Messias, a’r pethau rhyfeddol oedd i sefydlu a chanlyn y deyrnas honno, fel y galwyd ef yn arferol y **PRORPHWYD EFENGYLAIDD**. Prin y deuem i ben rifo yr boll fannau yn Isaiah ynghylch nefoedd newydd, a daear newydd, a’r amryw bethau sy’n perthyn i deyrnas Crist, ac adgyfodiad dynion daionus i fyw mewn gortoledd a dedwyddwch mewn byd arall.† Eithr gwae i’r rhai drygonus; “canys eu pryf hwnyt ni bydd marw, a’u tân ni ddiffydd; a byddant yn ffeiddra gan bob cnawd.”‡—Y mae llaweroedd

¶ Edr. Salm. xvi. 10. \* xlix. 7—15. Llyfr I, Preg. XXV. § Gen. v. 24. 2 Bren. ii. 11. † Is. xxvi. 19. liii. 1—12. ‡ lxxv. 17—19. lxxvi. 7—24. &c. &c.

o leoedd eraill yn yr hen Destament, y rhai a daflasant oleuni ar wrthddrych ein hymnofyniad; canys mi a ddewisais yn unig y tystiolaethau mwyaf digonol i ddangos, fod Eglwys Dduw ym mhob oes yn cofleidio athrawiaeth y byd a ddaw dan dyb yn unig o adgyfodiad y meirw.

7. Pan ddaeth ein Hiachawdwr i'r byd hwn, efe a gafodd yr Iuddewon oll, oddi-eithr Sect fechan y Saduceaid, mewn meddiant o'r dyb gyffredinol honno. Gwelwn hyn oddiwrth amddiffyniad S. Paul o flaen Agrippa: "Am obaith yr addewid a wnaed i'n tadau gan Dduw," medd efe, "yr wyf yn sefyll i'm barnu; i'r hwn addewid y mae ein *Deuddeg Llwyth* ni [sef, YR HOLL IUDDEWON], heb dorr yn gwasanaethu Duw nos a dydd, yn gobeithio dyfod; am yr hon obaith yr achwynir arnaf, O frenhin Agrippa, gan yr Iuddewon. Pa beth, ai ang-hredadwy y bernir gennych chwi, y cyfyd Duw y meirw?"\*

Gorpheunaf yn awr yr holl hanes hwn gyd ag ymadrodd S. Paul mewn man arall, lle y mae efe yn ein siccrhâu ni, mai ar y sail hon yr oedd ffydd dynion da er dechrenad y byd yn sefyll; ie, ffydd, trwy'r hon,

\* Act. xxvi. 6, 7, 8.

“ym mysg holl gyfnewidiadau a damweiniau'r bywyd marwol hwn,” y diffoddasant holl biccellau tanlyd y Fall, “FEL Y GALLENT HWY,” medd efe, “GAEL ADGYFODIAD GWELL”†—Cofiwch y geiriau hynod “FEL Y GALLENT HWY GAEL ADGYFODIAD GWELL.”!

8. Ond y mae un ystyriaeth arall etto ar ol, a'r fwyaf bwysfawr o'r cwbl. Mae'r Efengyl yn ein siccrhâu, y bydd yr adgyfodiad yn gyffredinol, ac y bydd yn rhiad i bob un o honom roddi cyfrif manwl o'n gweithredoedd ger bron gorseddfaingc Crist. Nid y Cyfiawn yn unig a gyfodant ac a ant i fywyd tragywyddol, ond y Drygonus hefyd “a ant i gospedigaeth dragywyddol.”‡ Pa mor ddirfawr, gan hynny, y mae'r peth yn perthyn i ni oll, felly i ymbarottoi erbyn y Dydd hwunw, “fel y gallom roddi ein cyfrif i fynu yn llawen, ac nid yn drist;” fel y gallom, “pan gân yr udgorn, a phan gyfodir y meirw yn anllygredig, a phan newidir ni oll mewn moment, ar darawiad llygad,” fod wedi ein cynnysgaeddu â rhinwedd, a sancteiddrwydd, a phob rhyw ras ysprydol a all buro ein natur, erbyn y newidiad gogoneddus hwnnw, yr hwn a'n gwna ni fel angylion Duw yn y

† Edr. Ephes. vi. 16. Heb. xi. 35. ‡Matth, xxv. 46.

nef, ac yn gymmwys, mewn rhyw fodd, i  
gael myned i mewn i bresennoldeb Duw,  
lle mae digonolrwydd llawenydd, a digrif-  
wch anrhaethol yn dragywydd, || trwy Iesu  
Grist ein Harglwydd. Amen.

|| Edr. Salm. xvi. 11.



PREGETH XVIII.

DEDWYDD DDIWEDD CERYDDON DUW.



JOB v. 6, 7.

*Er na ddaw cystudd allan o'r pridd, ac na flagura gofid allan o'r ddaear; ond dyn a aned i flinder, fel yr eheda gwreichionen i fynu.*

*Although affliction cometh not forth of the dust, neither doth trouble spring out of the ground; yet man is born unto trouble, as the sparks fly upward.*



**M**AE'r geiriau hyn yn cynnwys darluniad galarus o fyrdra a gwagedd, o dristwch a gorthrymder bywyd Dyn yma ar y ddaear. "Efe a enir i ofid, fel yr eheda gwreichionen i fynu." Maent yn cynnwys hefyd yspysiad eglur, nad ydyw'r trueni hwn yn deilliaw oddiwrth ddamwain neu angenrheidrwydd, nac oddiwrth dyn-ged ddall neu ddigwyddiadau na ellir rhoddi cyfrif am danynt, eithr oddiwrth

drefniad rhagluniaeth Duw sy'n rheoli'r byd. "Nid yw cystudd yn dyfod allan o'r pridd, na gofid yn blaguro allan o'r ddaear." Gallwn gasglu oddiyma, fod llawer o ddibennion cyfiawn a daionus, doeth a llesol, paham y mae Duw yn goddef cym-maint o drallod; "canys nid o'i fodd y blina efe, nac y cystuddia blant dynion."\* Hyn a ddylai ddysgu i ni amynedd o leiaf, ac i roddi ein cyfan ymddiried a'n gobaith yn Nuw.

Daliwn sulw, gan hynny, ar rai o'r ys-tyriaethau sy'n tarddu yn naturiol oddi-wrth eiriau'r testun.

1. Cystuddiau a gorthrymderau, o am-ryw fath, ydynt, yn dilyn bywyd presennol Dyn mor naturiol, ag y mae i bethau ys-gafn ddyrchafu i fynu, ac i bethau trym-mion ddisgyn i lawr. Y mae hyn yn ddi-gon amlwg i bawb o honom. Genir ni i'r byd yn egwan ac yn ddi-nodded; ac, os cynnyddwu mewn corpholaeth, yr ym yn d-darostyngedig i amryw ddamweiniau; a, thros ein holl fywyd, yr ydym yn cyfarfod â rhyw flinder ni's gellir mo'i ragweled, na'i rwystro. Y mae gwendid ac amherffeith-rwydd Mebyd, gwagedd ac ynfydrwydd Ieuengctid, cur agofal Oedran, anesmwyth-

\*Edr. Galar. iii. 33.

dra a llesgedd Henaint, yn canlyn eu gilydd yn agos iawn! Ac, ym mhob cydwr, yr ydym yn wastad yn ddarostyngedig i flinder o herwydd clefyd a marwolaeth ein ceraint anwylaf, yn ddarostyngedig hefyd i ddoluriau a chlefydau'n cyrph, ac i lymmach ddolur ein meddyliau.

2. Mae'r Ysgrythur yn cymharu einioes Dyn i darth, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hynny yn diflannu; † i chwedl a adroddir, ac yna yn myned dros gof; ‡" ac yn ein rhybuddio ni ar bob rhyw achos, "fod ein dyddiau yn gynt na gwennol gwehydd, § ac yn debyg i lysieuyn y maes, yr hwn sydd heddyw, ac y fory a fwrir i'r ffwrn.\* — Mae gwagedd a byrddra einioes Dyn mor eglur a chyffredin, fel nad oes achos dwyn ar gof i neb beth nid allai lai na'i wybod. Ac etto y mae siccerwydd hyspys o ryw beth yn achos, nad ym yn meddwl am dano: ac, er nad yw yn gofyn na rheswm na myfyrdod i beri i ni gredu, fod yn rhaid i ni oll farw cyn pen llawer o flynyddoedd, yr ydym am yr achos hwn yn unig yn edrych ar farwolaeth megis peth cyffredin, ac yn byw, ysywaeth, fel na ddigwy-

† Edr. Iago. iv. 14. ‡ Sal. xc. 9. § Job vii. 6. \* Matth. vi. 30.

ddai fyth i'n rhan ein hunain!

3. Ym mysg y cyfryw drallodau, yr unig wir gyssur a diddanwch a all ein cynnal i fynu dan flinderau Bywyd a nesâd Angau, ydyw, ystyried yn ddwys, ac yn aml, ac yn ddifrifol, fod Duw; sef, Hanfod galluog a chyfiawn, doeth a daionus, yn rheoli'r byd hwn, a'r holl fydoedd o'n hanguylch!\* Diammau fod yr ystyriaeth hon yn unig yn ddigonol i gynnal pob dyn synhwyrol i fynu dan gystudd a gwagedd y Byd. Pe daethai ein trallodau allan o'r pridd, a'n blinderau allan o'r ddaear, pe na bai un achos arall i'w peri, nac un llaw arall i'w cyfarwyddo, yna, yn wir, ni busasai un cyssur, na chynnhaliad siccr, i feddwl dyn ystyriol, dan amryw dramgwyddiadau a blinderau bywyd. Canys pa beth yw gobaith pobl ddigrêd pan gymmero Duw, neu, fel y dywedant hwy, pan gymmero Dynged neu Ddamwain, eu he-neidiau oddiwrthynt? Ac ar ba sylfaen y gall dyn didduw osod ei hyder? Megis tŷ y pryf coppyn y bydd ei hyder ef, a'i obaith fel y man-us, yr hwn a chwal y gwynt ymaith.‡ Nid yw ei lwyddiant a'i lawenydd ef ond dros funud, ac a ddiwedda

\*Edr. y Llyfr I. Preg. XXVIII. §Job viii. 14. Sal. i. 4.



mewn anobaith. Canys pa gynnorthwy a ddisgwylir oddiwrth Dynged neu Ddamwain? A pha gyssur ydyw gwybod y rhydd Angau derfyn i holl flinderau a gorthrymder bywyd, os nad yw ein Golwg yn cyrrhaedd ym mhellach, ac os nad oes genym obaith o ddedwyddwch tu draw i'r bedd? Ac etto dyna'r holl gyssur a ddi-chon Anghrediniaeth ei roddi! Dyna holl obaith y dyn, yr hwn sydd heb Dduw a Christ! Canys er dichon y cyfryw bobl ddywedyd yn eu gwynfyd; "Deuwch, mwynhawn y pethau da presennol;" etto, yn nyddiau cystudd, hwy a ddeuant i welled eu ffolineb, ac i edifarhâu pan y bo hi yn rhy hwyr!

4. Ystyriwn ym mhellach, frodyr, fod llawer o'r pethau yr ym ni yn arferol yn eu cyfrif megis blinderau, y cyfryw ag y mae Duw yn gweled yn dda eu danfon arnom. O'r cyfryw fath ydyw clefyd a marwolaeth, tloedi ac ammharch, ac amryw bethau eraill o berthynasau bydol; i.e., ac amryw raddau o gyfoeth, ac anrhydedd, a'r holl gynnysgaeddau a galluoedd amserol y mae dynion eraill yn eu mwynhau. Dichon anfeidrol Allu, Doethineb, a Daioni ymddangos, yn ddiammau, trwy grëu pa amrywiaeth o greaduriaid a welo efe ei

hun yn dda, a thrwy gyfrannu ei haelioni iddynt ym mha fesur bynnag y meddylio efe yn gymmwys, heb roddi cyfrif o'i ffyrdd i neb. Nid ydyw yn iawn i ddynion achwyn, na chrëwyd hwynt yn angylion; nac i angylion drachefu, na chrëwyd hwythau yn archangylion. Y mae gan bawb o honom fwy o achos i fod yn ddiolchgar am yr hyn sy gennym, na bod yn anfoddlon am yr hyn nid yw yn ein meddiaut. Yr oedd yn gyfiawn i'r gwas, yr hwn a wnaeth ddwy dalent yn bedair, gael awdurdod ar bedair dinas; ac i'r hwnnw a wnaeth bum talent yn ddeg, gael ei osod ar ddeg dinas: eithr paham y rhoddwyd bum talent i uu i farchnatta, ac i arall ddiun ond dwy, ni's gwyddom ni am unrhyw achos amgen na bod cyfreithlawn i Dduw wneuthur a fynno â'r eiddo ei hun.† Mae'r Ysgrythur, yn gystal â Rheswm, yn dangos i ni mai anfeidrol allu y Goruchaf yw'r unig achos am amryw raddau o fanteision amserol ac ysprydol. "Duw sydd yn gostwng y naill, ac yn cyfoedi y llall.‡ Efe sydd yn tlodi, ac yn cyfoethogi, yn darostwng, ac yn dyrchafu.§ Ond nid ydyw'r Hollalluog "yn cymmeryd

†Edr. Matth. xx. 15. xxv. 14—21. Luc xix. 17—19.

‡Sal. lxxv. 7. §1 Sam. ii. 7.

i fynu y peth ni roddes i lawr;”<sup>¶</sup> ac am hynny i bwy bynnag y rhoddwyd ychydig, ychydig a ofynnir ganddo. Ac y mae hyn yn dwyn yr holl anwastadrwydd sydd yn y byd i wastadrwydd yn y diwedd, ac felly “ni fydd gweddill i'r hwn a gasglodd lawer, ac ni fydd eisiau ar yr hwn a gasglodd ychydig.”<sup>¶¶</sup>

5 Ystyriwn hefyd nâd ydyw y rhan fwyaf o'r trallodau yr ym ni yn cwyno o'u plegid ond effeithiau naturiol ein pechodau ein hunain. Dylai'r ystyriaeth hon beri i ni ymfodloni, gyd â phob gostyngeiddrwydd ac amynedd, dan y baich a ddygasom arnom ein hunain. “Canys pahan y grwgnachai dyn byw, gwr am gospedigaeth ei bechod?”\* Pahan y grymialai efe yn erbyn Duw, pan nad yw ond bwytta ffrwyth ei ffyrdd ei hun a'i lenwi yn unig â'i gynghorion ei hunan.<sup>†</sup> Canys os ydyw tlodi yn canlyn afradlondeb, a gloddest, a seguryd; os yw cystudd a chlefyd yn dyfod oddiwrth ormodedd ac anghymmedrolder; os yw cyssur henaint yn cael ei rwystro trwy ffolineb ieuengctid; os yw cyfyngder a gorthrymder yspryd yn tarddu oddiwrth anfoddlondeb a chybudd-

<sup>¶</sup>Luc xix. 22. <sup>¶¶</sup>Exod. xvi. 18. \*Galar. iii. 39. <sup>†</sup>Diar.

dod, nid ydyw y cyfryw ofidiau â'r rhai hyn "yn dyfod allan o'r pridd, nac yn blaguro allan o'r ddaear," ac ni's gallwn chwaith achwyn eu bod yn dyfod oddiwrth Dduw; eithr ffolineb dynion eu hunain yw yr unig achos o'r cystuddiau hyn ac anryw eraill. Canys "y rhai a arddant anwiredd, ac a hauant ddrygioni, a fedant wagedd a blinder yspryd."†

Wele, dyna rai o laweroedd o ystyriaethau addylent ein rhwymo ni, ym mhob rhyw amgylchiad o'n bywyd, i ymostwng yn ufudd dan law yr Hollalluog. Y mae, yn wir, ystyriaethau eraill, y rhai ydynt sail a sylfaen nid yn unig o ostyngeddrwydd, ond yn hytrach o ddiolchgarwch i Dduw am ddanfôn blinderau ar blant dynion; y cyfryw yw'r rhai a fwriadwyd i ddysgu i ni ufudd-dod i'w orchymynnion, i'n harwain i wir edifeirwch, i'n diddyfnu rhag rhoddi gormod serch ar y byd darfodedig hwn, ac i brofi ein ffydd a'n hamynedd. Daliwn sulw am funud ar y pethau hyn.

1. Un diben, yn ddiammau, y mae Duw yn ei fwriadu wrth anfôn blinder, ydyw, ein dysgu i fod yn ufudd i'w lywodraeth ef, yn gystal ag i ystyried ein hannheil-

†Edr. Job iv. 8. Diar. xxii, 8. Hos. x, 13.

234 *Dedwydd Ddiwedd Ceryddon Duw.*

yngdod ein hunain. E; na chrëwyd balchder i ddyn, nac uchel yspryd i'r hwn a enir o wraig;\* er nad oes dim mor anghymmwys nag i ddynion, "a hwy yn llwch ac yn lludw,"† ymgodi yn erbyn eu Creawdwr, neu'r peth ffurfiedig ymddyrchafu yn erbyn yr hwn a'i ffurfiodd;‡ ac er nad oes dim mor afresymmol a ffiaidd nag i ddyn, "yr hwn sydd â'i anadl yn ei ffroenau,"§ ymddwyn yn ddirmygus ac yn drahaus tu ag at ei frawd, yr hwn sydd o'r un natur a braint, ac "yn gorfod goddef fel yntau;"|| etto, er hyn i gyd, felly y mae'r peth yn bod. Y cyfryw yw gwendid ac ynfydrwydd Dyn, yn gyffredinol, fel pan ymgyfoethogo, a phan ychwanego gogoniant ei dŷ ef, y mae'n rhy dueddol i anghofio, na chaiff efe ddwyn dim ymaith pan fo marw, ac na ddisgyn ei ogoniant ar ei ol ef i'r byd arall.¶ A'r unig amddiffynfa, ie, yr unig feddyginiaeth effeithiol yn erbyn y drwg hwn, ydyw'r cymmysgiad o flinderau yn y bywyd hwn; y rhai sydd, wrth ddoeth arfaeth rhagluniaeth yr Hollalluog Dduw, yn dwyn dynion i adnabod eu hunain, ac i

\*Edr. Eccles. x. 18. †Gen. xviii. 27. ‡Rhuf. ix. 20  
Is. ii. 22. ¶Act. xiv. 15. ¶Sal. xlix. 1--20.

roddi eu hymddiried a'u gobaith yn Nuw. Dyna'r peth y mae'r Ysgrythur yn ei alw  
**ADDYSG YR ARGLWYDD.**

2. Y mae cystudd a gofid, ym mhellach, yn dwyn dynion ystyriol i edifeirwch, a gwellhâd buchedd. Pan lwyddo dyn yn ei holl negesau bydol, y mae efe yn rhy aml yn anghofio ei Greawdwr; ac nid yw yn ystyried y geilw Duw ef i farn am ei holl ymddygiad.\* Mae efe yn rhy dueddol i roddi heibio "y dyddiau blin," gan ddywedyd wrth ei enaid: "Gorphwys, bwyta, yf, bydd lawen."† Y drugaredd fwyaf a all ddigwydd i'r cyfryw bobl, a'r tosturi mwyaf a ddichon Duw ei ddangos iddynt, ydyw, danfon rhyw gystudd, yr hwn, fel meddyginiaeth ddygn mewn clefyd peryglus, a'u dwg hwynt i "feddwl am eu ffyrdd, a throi eu traed at dystiolaethau y Goruchaf." Gwrandewch ar eiriau rhagorol y brenhin Dafydd: "Gwnaethost yn dda â'th was, O Arglwydd. Cyn fy ngystuddio, yr oeddwn yn cyfeiliorni; ond yn awr cedwais dy air di. Da yw i mi fy nghystuddio, fel y dysgwn dy ddeddfau. Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob

\*Edr. Pregethwr xii. 1. 14. †Luc xii. 19.

perffeithrwydd; ond dy orchymyn yn di,  
O Arglwydd, sydd dra ehang."†

3. Diben arall sydd gan Dduw wrth wneuthur i Ddyn gael ei eni i flinder; sef, i'n diddyfnu ni rhag gosod gormod serch ar y byd presennol. Nid oes dim yn rhwystro dynion fwy i fyw yn grefyddol, na hir fwynhâd o ddedwyddydd a digrifwch y bywyd hwn. O angau, pa mor chwerw yw meddwl am danat i'r anghredadyn a'r gorthrymmwr goludog, yr hwn sydd yn byw mewn esmwythder yn ei feddiannau, heb ddim ond cnofa Cydwybod i'w flino, gan ffynnu a ffrostio yn ei holl negesau bydol! "Eithr," medd S. Paul, "na atto Duw i mi ymffrostio, ond yng ngrôes ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd!"|| — Na fydded neb gan hynny yn rhy ofalus, nac am hawddfyd na blinfyd; eithr gadawed hyn, gyd â phob amynedd a gostyngyddrwydd, yn nwyllaw yr Hollalluog Dduw; yr hwn a wŷr, yn well na nyddi ein hunain, pa beth sy fwyaf llesol i ni. Eithr yn gyntaf ceisiwn deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef; a'r holl bethau angenrheidiol

†Edr. Sal. cxix. 59. 65. 67. 71. 96. ||Gal. vi. 14.

a roddir i ni yn ychwaneg.”\* Canys o flaen pob peth, bydded i ni gyflawni ein dyledswydd, hyd eithaf ein gallu; ac, ar ol hynny, bydded gennym ffydd, gobaith, ac ymddiried siccr yn Nuw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen. Amen.

\* Matth. vi. 33.





## PREGETH XIX.

YNGHYLCH ARDDERCHOWGRWYDD IESU GRIST\*



COLOSSIAID I. 15, 16, 17, 18, 19.

*Yr hwn yw delw y Duw Anweledig, cyntaf-anedig pob creadur: canys trwyddo ef y crëwyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig, ac yn anweledig, pa un bynnag ai thronau, ai arglwyddiaethau, ai tywysogaethau, ai meddiannau; pob dim a grëwyd trwyddo ef, ac erddo ef. Ac y mae efe cyn pob peth; ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll. Ac efe yw pen corph, yr Eglwys; efe, yr hwn yw'r dechreuad, y cyntaf-anedig oddiwrth y meirw; fel y byddai efe yn blaenori ym mhob peth. O blegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef.*

*Who is the image of the Invisibile God, the first-born of every creature: for by him were all things created that are in heaven, and that are in earth, visible and invisible,*

\* Edr. Llyfr 1, Preg. V. VIII.

*whether they be thrones, or dominions, or principalities, or powers; all things were created by him, and for him. And he is before all things; and by him all things consist. And he is the head of the body, the church: who is the beginning, the first born from the dead; that in all things he might have the pre-eminence. For it pleased the Father, that in him should all fullness dwell.*



**C**RIST IESU a osodir ger ein bron drwy'r holl Ysgrythur megis Iachawdwr Dyn cwmpiedig; ie, megis yr *unig* Iachawdwr. Felly yn wir y dywedodd efe wrth un o'i ddisgyblion: "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd, a'r bywyd. Nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi."\* Disgybl arall a ddywedodd yn bendant, o flaen pen-naethiaid a henuriaid Israel: Nid oes Iachawdwriaeth yn neb arall: canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi ym mhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig."†

Ewyllys Daw, gan hynny, a ddylai fod

† Ioan xiv. 6. † Act. iv. 12.

rheol ein dyledswydd ni. . Diau efe a all roddi ei ras a'i fendith trwy ba law bynnag, ac ym mha fodd bynnag, y gwel efe yn dda. Pwy a ddywaid wrtho, Pa beth yr wyt yn ei wneuthur, neu, Paham y gwnaethost fel hyn? Geiriau gwirionedd a sobrwydd y mae Elihu yn eu hadrodd wrth Job: "Mwy ydyw Duw na Dyn. Paham yr ymrysoni yn ei erbyn ef? O herwydd nid ydyw efe'n rhoi cyfrif am ddim o'i weithredoedd."¶ Ond am y weithred ofnadwy hon, y fwyaf yn wir o'i holl weithredoedd rhyfeddol, ar ba un y mae'r angylion yn chwennyachu edrych,|| a dedwyddwch neu drueni ei greaduriaid o ddynolryw yn sefyll, efe a roes ryw gyfrif neu hanes drwy ei sanctaidd Brophwydi, y rhai oedd o ddechreuad y Byd.‡

Ystyriwn gan hynny, yn gyntaf, oddi wrth eiriau rhagorol y testun, Pa beth yw Crist ynddo ei hun, neu, ei ardderchowgrwydd ef o'r dechreuad; yn ail, Pa beth yw efe i ni ddynion, neu, ei sefyllfa mewn perthynas i ddynolryw; ac, yn ddiweddaf, ei gynnysgaeddau i gyflawni yr holl bethau ag y mae'r fath sefyllfa bwysfawr yn eu gofyn.

¶ Edr. Job xxxiii. 13. || 1 Pedr i. 12. ‡ Luc i. 60

I. Y mae'r rhan gyntaf o eiriau hynod yr Apostol yn datgan i ni, yn y modd egluraf, duwdod ein Harglwydd Iesu Grist. Er iddo alw yr Iachawdwr **CYNTAF-ANEDIG** **POB** **CREADUR**, y mae efe yr un amser yn chwanegu; "canys trwyddo ef y crëwyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig, pa un bynnag ai thrönau, ai arglwyddiaethau, ai tywysogaethau, ai meddiannau; pob dim a grëwyd trwyddo ef, ac erddo ef." A rhag i neb feddwl ei fod ef ei hun wedi cael ei grëu, y mae'r Apostol yn dywedyd yn union: "Ac y mae efe cyn pob peth; ac yuddo ef y mae pob peth yn cyd-sefyll."\* Diammau fod yn rhaid i'r hwn a oedd **CYN** **POB** **PETH** fod heb ddechreuad, ac yn dragywyddol. Felly y mae'r geiriau hyn, "cyntaf-anedig pob creadur," yn arwyddocâu'r un peth ag ymadrodd arall yr Apostol; at ba un y mae efe, ar ol iddo alw Crist yn "Fab Duw," yn chwanegu, "yr hwn a wnaeth efe yn **ETIFEDD** pob peth:" a'r ddau gyd â'u gilydd ydynt yn

---

\* Nid ydyw Erasmus ac Ysgolheigion eraill yn cyfieithu y gair *Prototocos*, yn y iaith wreiddiol, megis *cyntaf-anedig*; eithr, yn hytrach, y *cyntaf wneuthurwr*, neu'r *cyntaf effeithiwr*---the *first producer*. Felly pob anhawsder sy'n diflannu.

dangos y cyflawn arglwyddiaeth oedd yn perthyn i'n Hiachawdwr wrth etifeddiaeth, "megis yr Unig-anedig oddiwrth y Tad, yr hwn oedd ddisgleirdeb ei ogoniant ef, ac wir lun ei berson ef:" llun mor wir a disglair, fel na ddywedodd efe, pan ofynnodd Philip, "Arglwydd, dangos i ni y Tad," ddim arall ond hyn—"A ydwyf gyhyd o amser gyd â chwi, ac nid adnabuost fi, Philip? Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad; a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad? Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau?"\* "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, nid yw yn credu ynof fi, ond yn yr hwn a'm hanfonodd i. A'r hwn sydd yn fy ngweled i, sydd yn gweled yr hwn a'm danfonodd i."†

Os cymharwn yr adnod gyntaf o'n Bibl—"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear"—gyd â dechreu yn efen-gyl yn ol S. Ioan—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair, trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth"—ac os at hyn y chwanegwn grybwylliad Rheswm:—"Pob tŷ a adeiledir gan ryw un, ond yr hwn a adeiladodd bob

\*Edr. Heb. i. 2. 3, Ioan i. 14. xiv. 8--10. †Heb. iii. 4. ‡Ioan xii. 44. 45.

peth yw Duw ;”†—cawn weled ar unwaith ardderchowgrwydd ein Hiachawdwr, a chyd â pha gyfiawnder y gelwir ef “y CRIST, Mab y Duw Byw, ac yr Hwn sydd uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd :‡ o’r hwn yr henwir yr holl deulu yn y nefoedd ac ar y ddaear.”§ “Gelwir ei enw ef,” medd Isaiah, “Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw Cadarn, Tad Tragwyddoldeb, Tywysog Tangnefedd”— A Jeremiah: “Yr Arglwydd ein Cyfiawnder”|| — Eithr yr amser a balla i mi i fynegi am yr holl enwau ardderchawg a roddwyd i’r Messias gan yr Hên Brophwydi o Samuel, ac o’r rhai wedi, cynnifer ag a lefarasant, ac a ragfyneasant hefyd am ddyddiau Crist, neu ei ddyfodiad ef i’r byd hwn.

II. Awn ym mlaen, ar ol rhoddi yr hanes byr hwn o’i ardderchowgrwydd hanfodol, i ystyried, yn yr ail fan, ei berth-yuas i ddynolryw. Mae’r Apostol yn ei alw, ef ‘pen corph yr eglwys; sef, “Had y wraig, a’r Gair a wnaethpwyd yn gnawd;”¶ yr hwn a adferodd i ni drachefn yr etifeddiaeth, yr hon a gollasem; ac a’n dug ni at Dduw, gan ddioddef yn lle Dyn, y Cyfiawn dros

†Ioan xii. 44. 45. †Ioan vi. 69. Rhuf. ix. 5. §Ephes. iii. 15. ||Is. ix. 6. Jer. xxiii. 6. ¶Gen. iii. 15. Ioan i 14.

yr Anghyfiawn.\* Y golwg hwn, frodyr, a ddylai lenwi ein calonnau â'r syndod mwyaf ofnadwy, â'r diolch gwresoccaf, ac â'r llawenydd y mwyaf gorfoleddus.

Y peth yr oedd Adda yn y creaduriaeth cyntaf, y mae Crist Iesu yn y creaduriaeth newydd. Ac fel hyn y mae'r Apostol yn ei alw ef "yr ail Ddyn, neu'r ail Adda;" ac mai "ffurfyr un oedd ar ddyfod" oedd yr Adda cyntaf.† Nid gwiw i mi fyned ym mlaen a dangos yn ei llawn helaethrwydd y gyffelybiaeth sydd rhwng y PENNAU rhagorol hyn; ac etto, heb ryw banes cymmwys o'r peth, niddichon neb ddeall iaith yr Ysgrythur ynghylch sefyllfa Crist yn yr Eglwys.

Os edrychwn ni yn ol ar gyflwr pethau yn y creadigaeth cyntaf, cawn weled Adda wedi ei osod mewn ystad o eithaf pwys ac anrhydedd. Heblaw'r awdurdod a'r arglwyddiaeth a roddwyd iddo goruwch y creaduriaid is, efe a osodwyd, yn yr ystyr mwyaf priodol o'r gair, yn BEN ar ddynolryw; yn gymmaint ag o'r un gwaed hwnnw yr oedd pob cenedl o ddynion i gael eu gwneuthur, i breswyllo ar holl wyneb y

\*Ebr. 1 Ped. iij. 18. †1 Cor. xv. 47. Rhuf. v. 14. ‡Act. xvii. 26.

ddaear.† Ynddo ef y rhoddwyd i gadw bywyd ei holl hiliogaeth: efe oedd y gwreiddyn, hwythau oeddynt y canghennau. Dyna'r hanes eglur y mae'r Ysgrythurau yn ei osod ger ein bronnau: a'n cyssylltiad agos gyd a'r Adda cyntaf a ymddengys, ysywaeth, oddiwrth ei effeithiau, y rhai y mae pawb o honom yn eu teimlo ac yn eu cyfaddef. Amlwg yw fod bywyd yn cael ei roddi i ni dan yr un fforffed ofnadwy, i ba un yr aeth Adda yn ddarostyngedig; eanys o herwydd y farn a ddywedodd Duw wrtho am ei droseddiad, "Pridd wyt ti, ac i'r Pridd y dychweli,|| y gosodwyd mewn gwirionedd i ddynion farw unwaith, ac nad oes bwrw arfau yn y rhyfel hwnnw."§

Dyna'r ffurf y'n dysgwyd ni i roddi ein serch ar Grist Iesu ein Harglwydd, a'r lle y mae efe yn ei lenwi yn y creadigaeth newydd, yr hwn a elwir ei EGLWYS *ef*, a'i GORPH. Ac i'r rhai sy gyfarwydd â'r pethau y mae'r Ysgrythur yn eu dywedyd am Iachawdwr y Byd, y daw llawer o amgylchiadau mewn cof oddiwrth yr hanes byr hwn, lle y gallant hwy ganfod y gyffelybiaeth rhwng y cyntaf a'r ail Adda gyd ag eithaf manylrwydd.

†Edr. Act xvii. 26. ||Gen. iii. 19. §Heb. ix, 27. Preg. viii. 8.



III. Eithr cofiwn, gyd â moliant a diolch i Dduw, fod un peth o bwys a chanlyniad anfeidrol, lle nad yw y gyffelybiaeth hon yn sefyll, fel yr ymddengys oddiwrth ystyried, yn ddiweddaf, gynnysgaeddau Crist i gyflawni holl ddyledswyddau ei sefyllfa ef yn ei Eglwys. “Rhyngodd bodd i'r Tad,” medd yr Apostol, “drigo o bob cyflawnder ynddo ef:”

Yr Adda cyntaf a dderbyniodd rodd bywyd gan Dduw, yr hwn a ymddiriedwyd iddo ei gadw megis gwystl dros ei holl eppil, ar un o'r ammodau hawsaf ac esmwythaf a allai fod; ac etto esfe a ballodd yn y cyflawniad o hono: ac fel hyn “trwy un dyn y daeth Pechod i'r byd, a Marwolaeth trwy Bechod:” ac felly, byth ar ol y troseddiad ffaidd hwn, “yr aeth Marwolaeth ar bob dyn, yn gymmaint a phechu o bawb.\*

Yr ail Adda a dderbyniodd rodd bywyd tragywyddol i'w Eglwys ar ammod mor erwin ag ufudd-dod i farwolaeth, i.e., marwolaeth erchyll y groes. “Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun yng nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac am Bechod a gondegniodd Bechod yn y cnawd; fel y gallai Trugaredd a Gwirionedd ymgysfarfod, a

\*Edr. Rhuf. v. 12.

Chyflawnder a Heddwch ymgusanu.”† A'r Mab a gyflawnodd yr annod ofnadwy mor gywir ac mor ewyllysgar, fel na wnaeth efe, er maint poen a chywilydd y groes, ogwyddo ei ben a rhoddi i fyuu yr yspryd, hyd oni's gallai ddywedyd, gyd â llef gorfoledd, GORPHENNWYD.‡

Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn yspryd yn byw-hâu. Y dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol; yr ail ddyn yr Arglwydd o'r nef.”|| Yn y Pen a osodwyd ar y creadigaeth cyntaf, yr oedd yn wir *cyflawnder* yn trigo; eithr nid oedd fwy na chyflawnder *creadur*: ond am yr Hwn a wnaethpwyd megis Pen ar y creadigaeth newydd, rhyngodd bodd i Dduw drigo o *bob cyflawnder* ynddo ef; neu, fel y dywedir yn nerthol iawn mewn lle arall yn yr Epistol hwn, “ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorphorol.”§ – Wele yma oruchwyliath ogoneddus, yn llawn o tendithion a thrugaredd, ac am hynny yn rhoddi i ni bob rhyw achos i foliannu “Brenhin y nef-oedd, yr hwn y mae ei holl weithredoedd yn wirionedd, a i lwybrau yn farn, ac a

†Edr. Rhuf. viii. 3. a Salm lxxxv. 10. †Ioan xix. 30.  
||1 Cor. xv. 45 – 47. §Col. ii. 9. hefyd Ephes. iii. 14. ...

ddichon ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder.”¶ Da, gan hynny, y gallai S. Paul leſain allan: “Mi a w'n i bwy y credais; ac y mae yu ddiammau gennyf ei fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddais atto erbyn y dydd hwnnw.”\*

Eithr pa fendithion sy'n deilliaw oddiwrth y Cyfammod rhagorol hwn? Bydded i'ch angenrheidiau eich hunain ateb. Dywedwch, frodyr, pa beth sydd arnoch ei eisiau? Ai maddeuant pechodau yw'r peth mwyaf angenrheidiol? Edrychwch ychydig yn ol, a chanfyddwch—“Yng Nghrist y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef; sef, maddeuant pechodau: efe a wnaeth heddwch trwy waed ei groes ef. Canys yr hwn nid adnabu bechod a wnaethpwyd yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef. Nid oes gan hynny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sy yng Nghrist Iesu.”† Ac O pha mor ddedwydd sydd raid fod y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau, a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau. Ië, dedwydd yw y gwr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo.”‡

Er bod hyn yn llwyr angenrheidiol, yr

¶Erd. Dan. iv. 37 2 Tim, i. 12. †Col. i. 14. 20. 2 Cor. v. 21. Rhuf.viii, 1. ‡Salm xxxii. 12. Rhuf. iv. 7. 8.

ÿm ni etto mewn eisiau o ryw beth ychwaneg. Dyn ar ol y cwmp, nid yw yn unig yn ddarostyngedig i ddamnedigaeth, ië, yn gorwedd dan farn marwolaeth; ond y maer farn honno mewn rhan wedi ei gwneuthur eisoes; mae ei *enaid* ef yn farw, wedi ei wahanu oddiwrth Dduw, ffynnon bywyd a phob dzioni. Canys ysgrifennwyd, “Dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Yspryd Duw; canys ffolineb ydynt ganddo ef: ac ni’s gall eu gwybod, o blegid yn ysprydol y bernir hwynt. Ië, synniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw, canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw, o blegid nis gall chwaith.” ¶ Nid oes prin fodd i ddaagos marwolaeth yr enaid mewn geiriau cryfach!

Dyna’r cyflwr, yn yr hwn y mae pob plentyn i Adda yn dyfod i’r byd; canys “yr hyn a aned o’r cnawd sydd gnawd,”\* ac nid oes gan Nattur allu i’w godi ef yn uwch. O blegid megis yn yr Adda cyntaf y mae pawb yn meirw sy’n perthyn iddo; felly, hefyd, yn yr ail Adda, yr Yspryd yn bywhâu, yr Arglwydd o’r nef, y bywhëir pawb sydd trwy adenedigaeth yn perthyn iddo yntau; canys “yr hyn a aned o’r Yspryd sydd yspryd.”\* Felly Crist a elwir Tyw-

¶ Edr. 1 Cor. ii. 14. Rhuf. viii. 7. \*Ioan iii. 6.

YSOG Y BYWYD,† ac efe a gyfyd y meirw yn y dydd diweddaf, ac a fywhâ y rhai a fynno. “Yn wir, yn wir”—medd efe ei hun wrthym—“y mae'r awr yn dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo y meirw lef Mab Daw; a'r rhai a glywant, a fyddant byw: canys megis y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun.”‖ Ië, “meirw ydych,” medd S. Paul yn yr Epistol hwn wrth y Colossiaid, “meirw i Adda ac i'r bywyd llygredig sy'n deilliaw oddiwrtho, meirw i'r byd presennol, ac i'r pethau sy ar y ddaear, y rhai nid ydynt mwyach yn wrthddrychau addas i'ch serch a'ch cariad.” Fel hyn “meirw ydych;” ond wedi'ch cyfodi gyd â Christ i bethau sydd uchod, i fywyd newydd ac i fodd newydd o'i fwynhâu, “eich bywyd a guddiwyd gyd â Christ yn Nuw; a phan ymddaugoso Crist, ein Bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gyd ag ef mewn gogoniant.”§ A dyna sail ei addewid diweddaf i'w ddisgyblion—“Yr wyf fi yn myned i barottôi lle i chwi; ac os myfi a âf, ac a barottöaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun; fel

†Act, iii. 15. ‖Ioan v. 25. 26. §Col. iii. 3. 4.

lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd:— canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.” ¶ Hawdd gan hynny y gallai trigolion Naïn lefain allan: “Prophwyd mawr a gyfododd yn ein plith: ac eraill, Ymwelodd Duw â'i bobl!”\* Hwn yn ddiâu yw y Prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd.” † Dangosais i chwi yn awr, frodyr, megis y mae'r Ysgrythurau yn rhoddi yr hanes ger ein bron, hanfodol ardderchowgrwydd ein Hiachawdwr; ei berthynas i ni bechaduriaid, neu, ei sefyllfa tu ag at ddynolryw; a'i gynnysgaeddau rhagorol i gyflawni a chwblhâu yr holl ddyledswyddau y mae'r sefyllfa honno yn eu gofyn: a Duw Hollalluog a roddo i ni ras i osod y pethau hyn yn ddisrifol at ein calonnau, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

¶ Ioan xiv. 2, 3. 19. \*Luc vii. 16. †Ioan v.



## PREGETH XX.

YNGHYLCH Y SABBATH CRISTIONOGOL.



MARC II. 27, 28.

*A'r Iesu a ddywedodd wrthynt: Y Sabbath a wnaethpwyd er mwyn Dyn, ac nid Dyn er mwyn y Sabbath. Am hynny y mae Mab y Dyn yn Arglwydd hefyd ar y Sabbath.*

*And Jesus said unto them: The Sabbath was made for Man, and not Man for the Sabbath. Therefore the Son of Man is Lord also of the Sabbath.*



**Y** mae'r rhan ddiweddfaf o'r testun yn dangos anfeidrol allu ac awdurdod ein Hia-chawdwr Bendigedig, ac am hynny gellir gymmeryd ei air ef ynglhyllch y rhan gyntaf; mai "er mwyn Dyn y gwnaethpwyd y Sabbath." Oddiwrth ymddiddan Crist gyd â'r Phariseaid mae'r tri pheth canlynol yn deilliaw; sef, perwyl neu amcan y Sabbath,

Y dylêd sydd arnom ni oll i'w gadw ef yn sanctaidd, ac ym mha rhyw fodd y dylem ni wneuthur hynny.

I. Y Sabbath, nynt a welwn oddiwrth eiriau yr Arglwydd Iesu, a wnaethpwyd nid gan Ddyn, ond er mwyn Dyn. Duw a wnaeth y Sabbath. Efe a fendithiodd y Seithfed Dydd, ac a'i sancteiddiodd ef. Dydd gan hynny yw hwn i'w gadw i'r Arglwydd trwy ddeddf dragywyddol. Mae'r gorchymmyn i gadw'r dydd hwn yn sanctaidd, fel yr holl orchymmynion eraill, yn gyfiawn, ac yn dda. Nid oedd gan Ddyn, yr hwn a grewyd ar ddelw Duw, unrhyw deimlad nac unrhyw synniad o ddedwyddwch heb ei Greawdwr. Pan osodwyd ef yng ngardd Eden i'w llafurio ac i'w chadw hi, yr oedd pob dydd yn wir yn ddydd hyfrydwch; ond, ar y Seithfed Dydd, yr oedd efe yn mwynhâu arbennig gymdeithas gyd â Duw. Fel hyn "y Sabbath a wnaethpwyd er mwyn Dyn, ie, pan oedd efe mewn ystad o ddiniweidrwydd; ac felly nynt a welwn fod y cyfryw ordinhad yn llawn doethineb a thrugaredd, os ystyriwn gyflwr Dyn "pan fo ar y goreu."

Ond ystyriwch Ddyn yn ei gyflwr cwmpiedig! Yna cydnabyddwch yr amryw effeithiau daionus sy'n deilliau oddiwrth



ddefod y Sabbath. Ië, mewn perthynas i bethau'r byd hwn yn unig, dylem ddiolch i Dduw am iddo osod un dydd o saith i fod yn ddydd i orphwys. Gan fod o leiaf dau-naw o bob ugain o honom i fwytta bara trwy chŵys ein hwyneb, y mae pob Sul yn dwyn gyd ag ef amryw fanteision a hyfrydwch sy'n perthyn iddo ei hun. Mae'r corph a'r yspyd, y rhai sy'n flinderog trwy lafur yr wythnos, yn mwynhau llonyddwch, a'r holl ddyn yn cael ei ddadebru i ddioddef llafur yr wythnos ganlynol yn ddiwyd ac yn amy-neddgar.

Cofiw'n hefyd mai, mewn perthynas i'w ofalon ysprydol, "y gwnaethpwyd y Sabbath er mwyn Dyn." Canys pa beth yw cyflwr y gwŷchaf o honom yn y byd hwn? Pe byddai efe byw, i.e. cyhyd â Jacob, gallai ddywedyd ond odid gyd ag yntau: "Ychydig a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy einioes!"\* Ond ar y defnydd a wnelom o'r ychydig ddyddiau hyn y mae TRAGYWYDD-OLDEB yn sefyll! A chan ein bod ni oll wrth naturiaeth wedi ein geni mewn Pechod, ac yn blant digofaint,† ein gofal pen-nafar y ddaear ydyw yngymmodi â Duw trwy haeddiant marwolaeth ein Hiachaw-

\* Edr. Gen. xlix. 9. † Catecism, a Rhuf. v. 10.

dwr Iesu Grist. “Canys os o’n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach.‡ Nid oes na gwaith, nac edifeirwch yn y bedd, lle yr ydym yn myned.§ Byddwn, gan hynny, yn ddiolchgar i Dduw am iddo wneuthur y Sabbath er mwyn Dyn, fel y caffo amser cyfaddas i “weithio allan ei iachawdwriaeth;|| ac i feddwl, yn ddifrifol, am yr “un peth sydd angenrheidiol.”\*—Mae’r Goruchaf hefyd wedi addaw bendith dymhorol i bob un a gadwo yn sanctaidd y Dydd Sabbath. Clywch ei eiriau trwy enau Isaiah: “Fel hyn y dywed yr Arglwydd: Cedwch farn, agwnewch gyfiawnder; canys fy iachawdwriaeth sydd ar ddyfod, a’m cyfiawnder ar ymddangos. Gwyn ei fyd y dyn a wnelo hyn, a mab y dyn a ymaflo ynddo; gan gadw’r Sabbath heb ei halogi, a chadw ei law rhag gwneuthur dim drwg.”†

Gwelwch, gan hynny, fod amcan a pherwyl y Sabbath yn fuddiol i bob peth, i esmwythâu cyflwr dynion yn y byd hwn, ac i’w parottöi i fywyd tragywyddol yn y byd a ddaw. Mae “pawb a’r y sydd yn

‡ Edr. Heb. x. 26. § Preg. ix. 10. || Phil. ii. 12. \*Luc x. 42. †Is. lvi. 1, 2.

flinderog ac yn llwythog," trwy gyflawni amcan y dydd hwn, "yn cael gorphwysdra i'w heneidiau."\*

**II.** Daliwn sulw, yn yr ail fan, ar ein dyledswydd ni i gadw yn sanctaidd y Dydd Sabbath. Pwy a roddodd i ni orchymmyn i wneuthur hyn? Cofiw'n mai Efe a'i rhoddodd, yr hwn sydd "yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob rhyw beth; o blegid ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symmud ac yn bod!"† Pa fodd gan hynny y diangw'n di, os esgeuluswn ein dyled tu ag at Dduw Hollalluog, trwy heidio ag ufuddhâu i orchymmyn mor bendant, mor eglur, a mor llesol hefyd i'n cyflwr, yma ac yn dragywydd?

Heblaw ein dyled tu ag at ein Creawdwr i gadw ei Ddydd ef yn sanctaidd, holl wybodaeth ac arfer Grefydd mewn gwlad sydd yn hollawl yn sefyll ar gyflawniad cywir o'r cyfryw ddefod. Y mae hanes o wlad yn y Dwyrain, lle y plannwyd y Grefydd Gristionogol uwwaith; eithr, pan oedd awdwr yr hanes yn ymdeithio yno ar ol amryw o flynyddoedd, nid oedd gan ei phreswylwyr ddim gwybodaeth ynghylch ffydd eu tadau. Pan ofynnodd efe iddynt —

\* Edr. Matth. xi. 28, 29. † Act. xvii. 28.

“Pwy oedd Crist, am ba achos y rhoddodd efe eifywyd i lawr,” ac amryw gwestiynau eraill hawdd i’w hatteb — hwy a edrychasant arno gyd â syndod rhyfeddol, heb erioed wybod y cyfryw bethau. Yr oedd achos yma i’r darllenydd hefyd ryfeddu. Eithr diwedd yr hanes a ddengys i ni, fod holl arfer o gadw y Sabbath wedi llwyr ddi-flannu o’u plith er’s talm o amser. Bellach, nid oes fawr le i ni ryfeddu o herwydd eu hanwybodaeth erchyll!†

Gwelwch, yn awr, mor bwysfawr yw eich dyledswydd tu ag at Dduw, tu ag atoch eich hunain, a thu ag at eich plant, i gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath. Y peth hwn a ymddangosai yn fwy ofuadwy etto, ac yn fwy echryslon, ped faem yn ystyried fod y rhan fwyaf o’r trueiniaid gresynol, y rhai sydd yn rhy aml, ysywaeth drwy’r deyrnas yn dioddef eithaf y gyfraith, yn bwrw eu diwedd cywilyddus ar iddynt ddechreu yn gynnar “halogi Sabbathau’r Arglwydd,” a dirmygu ordinhadau Crist.

Bydded ein gofal ni gan hynny, gyd â’n plant a’n teuluoedd, gadw y Dydd hwn

† See Gilpin, vol. ii. p. 59. and Hælcroft’s Orient. Hist. p. 230.

yn barchus ac yn sanctaidd. Mae'r Iuddewon yn wir, yn cadw y Seithfed Dydd, yr hwn yw ein Sadwrn ni, yn ol gorchymyn Duw ei hun; canys, ar ol iddo grëu nef a daear, y mor, ac holl y sydd ynddynt, efe a orphwysodd y Seithfed Dydd, ac a'i bendithiodd ef, ac a'i sancteiddiodd. Ac, wrth gadw y Seithfed Dydd hwnnw, mae'r Iuddewon hefyd yn proffesu, mai gwasanaethwyr i Jehovah ydynt mewn perthynas priodol iddynt hwy eu hunain; sef, mai gwasanaethwyr i'r Duw hwnnw ydynt a waredasai Israel allan o dir yr Aipht, o dŷ'r caethiwed. Canys ar y foreu-wyl o'r dydd hwnnw a gadwent hwy yn Sabbath y dymchwelodd efe Pharao â'i holl fyddin yn y Mor Coch, ac y gwaredodd yr Israeliaid allan o law'r Aiphtiaid.†

Ond y Prif Gristionogion a ddewisasant y dydd cyntaf o'r wythnos yn orphwysfa yn ol arfer yr Apostolion, er coffadwriaeth ein Hiachawdwr. Ymwared Israel allan o'r Aipht drwy law Moses oedd yn arwydd ac yn wystl o'r ymwared ysprydol oedd i ddyfod trwy Grist. Yr oedd y Ganaan honno hefyd, i ba un yr oeddynt yn myned, yn arwydd o'r Etifeddiaeth Nefol, yr hon

† Edr. Exod. xiv. 24.-31. Deut. v. 15.

a brynodd Crist i'w holl ddilynwŷr ffyddlon. Ac felly, gan fod y Sylwedd yn gyrru y Cysgod ymaith, y mae'r drefn wedi newid; ac nid ŷm ni mwy i addoli Dduw, ac i gredu ynddo, megis pe bai yn unig yn rhagddangos ac yn siccrhâu ei addewid drwy arwyddion; ond megis Duw, yr hwn a gyflawnodd eisoes hyd yr eithaf ei holl addewidion i Ddyn yn y byd hwn. Eithr ni ddichon **NEWIDIAD** y **Dydd** ddim, ond y **MODD**, fel yr ŷm yn ei gadw; a dyna'r peth diweddaf i'w ystyried.

**III.** Am y **MODD** fel y dylem gadw un dydd o saith yn sanctaidd, nid ydyw ddi-gon i ni orphwys oddiwrth orchwylion ein galwedigaeth, eithr y mae'n rhaid i ni dreulio ein hamser i wasanaethu Duw yn y cyfryw ddyledswyddau a ddichon dueddu fwyaf tu ag at ei ogoniant ef, ac iachawdwriaeth ein heneidiau ninlau. Rhaid i bob gwir Gristion, yn bennaf dim, gyrchu mewn trefn a rheol i'r Eglwys a sefydlwyd gan Apostolion Crist; ac ni ddylai dim ein dal ni oddiyno, ond clefyd, neu pan na bo genym unrhyw fodd yn y byd i fyned yno, o blegid, gan fod y **Dydd** wedi ei gyssegru, nid yn unig i ogoneddu Duw a'i addoli ef, ond wedi ei osod hefyd i'r diben hwn, fel y proffesom o flaen pawb mai **CRISTION-**

OGION ydym mewa gwirionedd. Mae'n arwydd amlwg, nad ym yn gofalu ond ychydig am yr un o'r ddau, os nyni a ymgadwn allan o'r Gwasanaeth Eglwysig ar y cyfryw amserau. Nid oedd dim flinach ar y Prif Gristionogion, na phan nad allent fyned i'r Eglwys, naill ai o achos clefyd, neu garchar neu o'u herlid allan o'u gwlad. Nid rhyw wag esgusion, "gan fyned un i'w faes ac arall i'w fasnach,"† a wasanaethant i'w cadw ymaith. Eithr, yn hytrach, "llawenychant," fel y Salmydd duwiol, "pan ddywedasant wrtho, Awn i dŷ yr Arglwydd."‡ Canys gwell yw diwrnod yn dŷ gynteddau di na mil! Dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo ym mhebyll Annuwioldeb."||

Dylem hefyd wneuthur pob daioni, a phob cymmwynas yn ein gallu, i'n cydgredduriaid ar y Sabbath. Ein Harglwydd Bendigedig a ddysgodd i ni, ie, oddiwrth ei ymddygiad ei hun, ein dyledswydd ynghylch y cyfryw bethau. "Bu hefyd," medd yr Efengylwr S. Luc, "pan ddaeth efe i dŷ un o bennaethiaid y Phariseaid ar y Sabbath i fwytta bara, iddynt hwythau ei wylid ef. Ac wele, yr oedd ger ei fron

† Edr. Matth. xxii. 5. ‡ Salm cxxii. 1. || lxxxiv. 10.

ef ryw ddyn yn glaf o'r dropsi. A'r Iesu gan ateb a lefarodd wrth y cyfreithwyr a'r Phariseaid, gan ddywedyd, Ai rhydd iachâu ar y Sabbath? A thewi a wnaethant. Ac efe a'i cymmerodd atto, ac a'i hiachäodd ef, ac a'i gollyngodd ymaith; ac a ddywedodd: Asyn neu ych pa un o honoch a syrth i bwll, ac yn ebrwydd ni's tyn ef allan ar y Dydd Sabbath? Ac ni allent roi ateb yn ei erbyn ef am y pethau hyn.\*

Gosodais yn awr ger eich bronnau, mewn ychydig eiriau, amcan a pherwyl y Sabbath, y dyledswydd sydd arnon i'w gadw ef yn sanctaidd, a'r modd hefyd fel y dylem ni oll wneuthur hynny.

Chwychwi, y rhai sydd ym mlodeu eich amser, "cofiwch yn awr eich Creawdwr yn nyddiau eich ieuengctid."† Cofiwch ef yn enwedig ar y Dydd, yr hwn a neillduodd efe ei hun, fel y caffoch amser cyfaddas i ddwyn ar gof ei amryw fendithion a i drugareddau, ac i roddi diolch am danynt. Ar y Dydd hwn yr ydych yn coffhâu daioni Duw, yr hwn a grëodd eich Rhieni Cyntaf ar ei ddelw ei hun, ac a roddodd iddynt arglwyddiaeth ar yr holl ddaear. Ar y Dydd hwn eich Prynwr

\*Edr. Luc xiv. 1---6. †Pregethwr xii 1.



Bendigedig, ar ol iddo roddi ei einioes i lawr dros eich pechodau, a gyfododd o'r bedd i'ch cyfiawnbâu; ac am hynny y gelwir ef, mewn modd neillduol, **DYDD YR ARGLEWYDD.** Ac ar y Dydd hwn y disgynnodd yr Yspryd Glan ar Apostolion Crist, gan roddi iddynt ddoniau rhyfeddol, i lefaru ag amryw dafodau, ac i bregethu'r Efengyl i'r holl Fyd; ac felly yr ydym ni heddyw yn mwynhau ei rhagorol lesâd.

Bydded i ni, gan hynny, Hen ac Ieuainge, gofio cadw yn sanctaidd y Dydd rhagorol hwn! A chofiw'n ein bod ni, wrth gadw Dydd yr Arglwydd yn sanctaidd, yn cadw hefyd wasanaeth Duw i tynu yn gyhoeddus ac yn gyffredin, yr hwn a esgeulusid yn fuan pe na byddai dim i'w gynnal heblaw cyfreithiau ac ordinhadau dynion. Y mae'r arfer hon, ym mhellach, yn cynnal gwybodaeth a phroffes weledig o'r Greydd Gristionogol yn y byd; pan, er cymmaint sydd o ymrysonau ym mhlith Cristionogion mewn pethau eraill, y maent yn cyttuno oll i gadw y Dydd hwn i goffâu anrhydeddus adgyfodiad ein Hiachawdwr: ac am hynny dylem ymgadw rhag pob peth a fo tebyg i brudd-der a thristwch, yn gystal â phob wag daifyrrwch; eithr, yn hytrach, treulio y fath


wyl mewn llawenydd gweddus, diolchgar, a chymmedrol.

Pan ystyriom, yn ddiweddaf, pa faint o amser y mae y rhan fwyaf o ddynion yn ei dreulio i geisio rhyw bethau angenrheidiol iddynt yn y byd darfodedig hwn, ac mor ddiotal y mae'r sawl sydd yn byw mewn llawnder a hawddfyd ynghylch y pethau sy'n perthyn i'w heneidiau, mae'r Dydd Gosodedig hwn yn llwyr angenrhaid i ddysgu yr annysgedig, ac i ddwyn ar gof eu dyledswyddau i'r dysgedig hefyd; i.e. i'r sawl a fo yn eu gwynfyd yn rhy channog i anghofio Duw. Heblaw hyn oll, wrth dreulio'r Dydd hwn mewn gwasanaeth duwiol, yr ydym yn ynnill mwy o nerth, mwy o synwyr ac ymroad i wneuthur ewyllys yr Hollalluog, bawb yn ei le a'i sefyllfa ei hun, trwy'r rhan arall o'r wythnos.

Meddyliwch, frodyr, am y pethau hyn! A Duw Hollalluog a roddo i ni oll ras i gofio, mai "er mwyn Dyn y gwnaethpwyd y Sabbath," ac am hynny mai dyledswydd rwymedig Dyn ydyw, ei gadw ef bob amser yn sanctaidd, gan ei anrydeddu ef uwchlaw pob dydd arall, trwy orphwysdra duwiol, trwy weddi, a myfyrdod; gan ymlawenhâu hefyd ym mhob daioni a roddodd yr Arglwydd ein Duw i ni yn y byd

264 *Ynglwlch y Sabbath Cristionogol.*

hwn, a chan ei fendithio ef am ei anfeidrol  
gariad ym mhrynedigaeth dynolryw, am  
foddion gras, ac am obaith gogoniant yn y  
byd a ddaw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.  
Amen ac Amen.



**PREGETH XXI.**

YNGHYLCH CWYMP, AC EDIFEIRWCH S. PEDR.



S. LUC, XXII. 61, 62.

*A'r Arglwydd a drodd, ac a edrychodd ar Pedr. A Phedr a gofiodd ymadrodd yr Arglwydd, fel y dywedasai efe wrtho: Cyn canu o'r ceiliog y gwedi fi deirgwaith. A Phedr a ueth allan, ac a wylodd yn chwerw-dôst.*

*And the Lord turned, and looked upon Peter. And Peter remembered the word of the Lord, how he had said unto him: Before the cock crow, thou shalt deny me thrice. And Peter went out and wept bitterly.*



**Y** MAE'r hanesion ynghylch y Saint a'r Prif Gristionogion o fawr lesâd i ddyn-olryw; nid yn unig o herwydd eu rhinweddau disglair a'u duwioldeb hynod, yr hyn a ddylai ennyn ein zêl ni a'n hannog i ddilyn eu siamplau rhagorol; eithr o herwydd eu

beiau hefyd, a'u tueddiad i bechod, i'e, yn y rhai goreu o honynt, gyd â thrymder a gofid eu hedifeirwch, trwy ba un yr adferwyd hwy drachefn i garedigrwydd yr Hollalluog. Trosedd, neu gwymp, S. Pedr a fuasai brawf alarus o freuolder Dyn, oni bai'n rhoi i ni, ar yr un amser, arwydd hynod o drugaredd yr Arglwydd, a nerth Gras yn gorfoleddu ar wendid Natur. Yr oedd gan S. Pedr fwy hyfdra a gwroldeb naturiol, a mwy gwresogrwydd ffydd hefyd, na'r un o'r disgyblion. Efe oedd yr hwn a wnaeth y gyffes gyntaf, gan ddywedyd, "Ti yw Crist, Mab y Duw Byw;" ac am hynny efe a gafodd yr addewid hwn gan yr Arglwydd— "Mi a roddaf i ti agoriadau teyrnas nefoedd."\* A phan fwriadodd yr Iuddewon gymmeryd ymaith fywyd ei feistr, efe a ddadweiniodd ei gleddyf i'w amddiffyn, ac a dorrodd glust gwas yr archoffeiriad; ac a fuasai yn dangos ychwaneg o wrolder, oni bai'r Iesu geryddu ei wylltineb, a pheri iddo ddychwel ei gleddyf i'w le.† Pan ragfynegodd ein Harglwydd fföad y disgyblion, a'u rhwystr o'i blegid ef; y lleill trwy eu distawrwydd a gyfaddasant eu hofu a'u cywilydd ond

\*S. Matth xvi. 16—19. †Matth xxvi. 51. 52.

Pedr a safodd yn ddiysgog, ac a ddywedodd wrtho— “Pe rhwystrid pawb o’th blegid di, etto ni’m rhwystrir i byth. Yr Arglwydd a ddywedodd wrtho drachefn: “Yn wir yr wyf yn dywedyd i ti, mai’r nos hon, cyn canu o’r ceiliog, y’m gwedi deirgwaith!” Eithr Pedr a atebodd yn hŷ “Pe gorfyddai i mi farw gyd â thi, ni’t h wadaf ddim.”\* Fel yr oedd amser diodd-efaint ein Hiachawdwr yn nesâu, efe a ymneilltuodd oddiwrth y disgyblion eraill, ond a gymmerth Pedr a dau fab Zebedäus i wyllo gyd ag ef. Yna, wedi eu trymbâu gan gwsg, hwy a anghofiasant eu hunain a’u Harglwydd. Eithr, wrth drwst y rhai oedd yn dyfod i’w ddal ef, hwy a ddeffroesant; a, chan weled arfau, Pedr a dynnodd ei gleddyfac a safodd yn wrol yn eu herbyn. Felly, pettasai yn achos i’w ddibennu â chleddyf, efe a fuasai o’r lleiaf yn marw gyd â chlod: ond fe a gangymmerodd arfau ei filwriaeth; ac yr oedd yn gwybod yn well pa fodd i anturio ei hoedl yn y maes, nag i’w rhoddi i fynu ar alwad Cydwybod. Eithr, pan welodd efe ei Arglwydd yn cael ei arwain ymaith, a’i gernodio, a’i ddiystyru gan y torfeydd, ei wroldeb yn awr a ddech-

\*Edr. Math. xxvi. 31—35.

reuodd ddiffygio. Efe yn wir a ganlynodd ei feistr, ond etto "o hirbell," ac a aeth i mewn gyd â'r dyrfa i llŷs yr archoffeiriad, gan dybio trwy hyn o gyfrwysdra y byddai yn ddiogel. Er hynny, ei ofn, neu ei leferydd, neu ryw beth arall a ddigwyddodd i'w amlygu. "A thithau," eb morwŷnig wrtho, "oeddit gyd ag Iesù y Galilead." Pedr a wadodd ger eu bron hwy oll. Pan ddarfu un arall ei ammau, efe a haerodd trwy lw—"Nid adwaen i y dyn." A phan ofynnwyd iddo y drydedd waith, "efe a ddechreuodd regu a thyngu, Nid adwaen i y dyn."† Ac yr awrhon y canodd y ceiliog:\* "a'r Arglwydd a drodd ac a edrych-

†Matth. xxvi. 69—74.

\* Eithr fe a ddywaid ymholydd y byd hwn, "Pa fodd yr oedd caniad y ceiliog i gael ei glywed yn llŷs yr Archoffeiriad?" Coegyn, yn gyffredin, yw'r cyfryw ymholydd. Eithr ystyried yr hanes canlynol. "The Jews, and other nations of the East, divided the night into 4 watches, the last of which was called *cock-crow*: wherefore they kept a Cock in their *tirit*, or towers, to give notice of the dawn. Hence this bird was sacred to the Sun, and named **ALECTOR**, which seems to be a Compound out of the titles of that Pagan Deity, and of the tower set apart for his service; for these towers were, in general, temples and sacred edifices. Clocks were not known till the ninth century of the Christian Era. See Holwell's Mytholog. Dict. p. 16.

odd ar **Pedr**," ond gyd â-golwg yn llawu o diriondeb a thosturi, nes y dwysbigwyd ef at ei galon. Felly yn awr efe a adgoiodd ei warth a'i ryfyg; a than y cywilydd hwn efe a ymneilldnodd o wýdd ei **Arglwydd**, a golygiad y byd; a phan feddylodd am ei gyflwr ei hun a'i **Arglwydd**, "efe a wylodd yn chwerw-dost." **Diammau** mai dagrau dedwydd oedd y dagrau hyn, a llwyddianus oedd y ffrwyth a ddygasant! **Hyfryd** yw'r gofid am droseddiad yn y galon, yr hon sy'n cwbl ymroi i droseddu ddim yn rhagor!

**Y** mae siampl hynod **S. Pedr** yn rhoddi o'n blaen laweroedd o ystyriaethau a rhybuddion, yn mha fodd y dylem ymddwyn tra bôrn yn byw yn y byd darfodedig hwn.

1. **Dysgwn**, yn gyntaf, nad yw hyder a rhyfyg ond arwyddion egwan o ddiysgogrwydd a pharhâd mewn **Crefydd**. Os **Adam** ym **Mharadwys**, **Dafydd** yn ei lŷs brenhinol, **Solomon** yn y deml, a **Phedr** yn nheulu **Crist**, y rhai a dybygir eu bod wedi eu dyrchafu agos uwchlaw natur ddynol, a'u cynnysgaeddu â **Gras** yr **Yspryd Glan**, os y cyfryw ddynion, meddaf, a syrthiasant cyn ised, pa fodd y gall y goreu o honom ni sy wedi ein hamgylchu gan amryw wendidau dybied ein hunain yn ddiogel? **Beth**,



a oes neb mor ynfyd a meddwl eu bod yn sefyll yn gadarnach na'r dynion hyn a oedd- ynt mor hynod am eu sancteiddrwydd? Gwylid y cyfryw rai na chwmpent; canys nid oes dim a wna hyn cyn gynted a balch- der a thyb uchel o honom ein hunain. "Byddwch bawb," medd yr Apostol edifar- us hwn yn ei Epistol Cyntaf, "Byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd, ac ym- drwsiwch oddi fewn â gostyngeddrwydd; o blegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilch- ion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig.\*" Canfyddwch ef, yn ei gwmp ei hun, me- gis siampl ofnadwy o'r gwirionedd pwys- fawr hwn!

2. Dysgwn hefyd na ddichon ein nerth ein hunain wrsefyll profedigaethau, pan nad ym ni yn chwennych eu gochelyd. S. Pedr a gafodd rybudd gan un a allasai gymmer- yd ei air, na fedrai efe wrthladd y brofedig- aeth yr oedd yn ei ddiystyru gymmaint. Ond gwneuthur prawf a fynnai; ac oddi- wrth y prawf, efe a gydnabu ei wendid a'i euogrwydd. Duw a wŷr ein nerth yn well na ni ein hunain; ac am hynny mae efe wedi ein rhybuddio i ochelyd pob rhyw achos a'n denai i bechu, ac i ffoi oddiwrth

\* 1 Pedr. v. 5.

olwg y gelyn. Mae'n hyder ynfyd i ni feddwl ein bod ni, o eiddo ein hunain, yn ddigon cryf i wrthsefyll ei gyrch; ac nid yw ein parottöad i gyfarfod y perygl ond ofer a dirym. Na anturiwn uwchlaw ein gallu. Ymladdwn yn wrol i orthrechu ein trachwantau, ac i'w cadw tanodd. "Gwylw'n a gweddiwn, fel nad elom i brofedigaeth."‡

3. Canfyddwn, ym mhellach, oddiwrth siampl S. Pedr, y mawr les o gynnar ymarfer â rhinwedd a sancteiddrwydd. Er gall Cristionogion duwiol, fel dynion eraill, syrthio i bechod drwy eu gwŷuiau llygredig, eu rhyfyg, neu ryw wendid arall; etto y mae'r ffordd i edifeirwch yn fwy amlwg a hawdd iddynt hwy; canys eu calonnau, heb galedu mewn drygioni, a ddeffröant ar alwad cyntaf Cydwybod. Pedr yn wir a gwympodd, a'i gwymp oedd gywilyddus iawn; ond yr oedd ei edifeirwch mor hynod a rhyfeddol. Pan oedd efe yng nghanol ei wylltineb, un golwg oddiwrth yr Iesu a archodd i'r cwbl fod yn dawel, ac a wnaeth iddo ddylifo dagrau gofid ac edifeirwch. Yr un munud a'i gwelodd ef yn bechadur rhyfygus ac yn waelddyn edifeiriol, gan

‡ Edr, Matth. xxvi. 41.

droseddu ac ymbil am faddeuant agos yn yr un anadl! Nid oedd dim eisiau barn-edigaethau dychrynlyd i'w gymmell ef i gydnabyddiad o'i anwiredd. Un golwg oddiwrth ei Arglwydd, er ei fod yn olwg yn llawn o dosturi a thrugaredd, a'i dwysbigodd ef at ei galon, ac a wnaeth iddo ymofidio, "ac wylo yn chwerw-dost." Ymddygiad S. Pedr fydd ymddygiad pob gwr duwiol yn y fath gyflwr annedwydd. Ond y mae'r pechadur a galedodd ei galon yn myned rhagddo o bechod i bechod, gan ddirmygu galwad Cydwybod, gan ddiystyru barnedigaethau y Goruchaf, a chan fyned ym mlaen, drwy gyfeiliorn a chyn-dynrwydd, i golledigaeth. Ond y sawl sydd gynnysgaeddol â rhinwedd dda a chrefydd gywir, nid hir y caiff Pechod ymaflyd ynddynt; canys cyn gynted ag yr â y cynnwrf cyntaf drosodd, mae'r Gydwytod yn dechreu ymddadleu, a'r Galon yn llafurio gan ofid; "a duwiol dristwch sydd yn gweithio edifeirwch er iacbawdwriaeth ni bydd edifeirwch o honi: eithr tristwch y byd sydd yn gweithio angau."|| Pan fôm yn deimladwy o ffeidd-dra Pechod, ac o ddifrif yn ymofidio o herwydd ein hanuf-

udd-dod a'n hanniolchgarwch i Dduw, y mae gennym yr arwydd goreu bod Yspryd Duw yn trigo ynom, ac ni's rhoddes ni i fynu i feddwl anghymmeradwy. Pa mor annhebyg oedd ymddygiad yr Iuddewon i ymddygiad yr Apostol yn y testun! Un golwg tosturus a adferodd yr Apostol; ond am yr Iuddewon, ni chredasent hwy pe codasai un oddiwrth y meirw. §

4. Daliwn sulw hefyd ar ddoethineb a daioni Duw yn peri i wendidau y Saint gael eu 'sgrifennau yn yr Ysgrythurau, a'r defnydd a ddylem ni wneuthur o'u beiau a'u profedigaethau. Parodd gofiø eu camweddu a'u hedifeirwch hynod, yn gystal â'u rhinweddu godidog, megis arwyddion neu rybuddion amserol i bobl o bob oes; fel na ddylai fod ganddynt dyb ry uchel o honynt eu hunain, trwy ddangos iddynt nad yw y mwyaf perffaith o honom ond dynion sy ddarostyngedig i laweroedd o feiau ac amryfusedd, ac nad yw'r cyflwr puraf ddim siccrwydd rhag droseddu. Hyn a ddylai ein gwneuthur ni yn dra ofalus, pa fodd y barnom neu y dirmygwn ein brodyr. Er y gallwn ni achwyn yn dost yn erbyn eu troseddiadau; etto, pettasem

ni ein hunain yn yr un amgylchiad â hwy, a than yr un profedigaethau, ninnau hefyd, ysgatfydd, a fuasem yn euog o'r un gwendid. "Am hynny, yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio."† Os digwydd i wr da gael ei orchfygu gan brofedigaeth a syrthio i bechod, y mae absenwŷr y byd yn llawen ganddynt gael achlysur i danu'r chwedl ar lêd, ac yn siccr o wneuthur y peth yn ddim llai ei gywilydd, er cyssur a boddlondeb iddynt eu hunain; fel pettai beiau *eraill* yn rhoi iddynt hwy awdurdod i bechu. "Na thwyller chwi, frodyr; canys pob un o honom drosto ei hun a rŷdd gyfrif i Dduw. Am hynny, na farnwn ein gilydd mwyach."‡ Gadewch i ni yn bytrach, megis y darfu S. Pedr, yn ddiragrith edifarhâu am ein pechodau. Dylai ei ddagrau ef ein dysgu ni mor angenrheidiol ac effeithiol ran edifeirwch ydyw gymmeryd y cywilydd arnom ein hunain, ac wir ymofidio am ein hanwireddau. Hyn sy lwyr angenrhaid; o herwydd hyn yw'r unig foddlondeb a fedrwn ni wneuthur i'r Hollalluog; sef, cymmeryd yr holl waradwydd i ni ein hunain, a bod yn ddiffuant yn alarus am ein holl ymddygiad annuwiol

† 1 Cor. x. 12. ‡ 1 Cor. vi. 9. Rkuf. xiv. 12, 13.

tu ag atto ef a'i fab Iesu Grist ein Har-  
glwydd. "Aberthau Duw ydynt yspryd  
drylliedig. Calon ddrylliog gystuddiedig,  
O Dduw, ni ddirmygi."||—Agos yw'r Ar-  
glwydd at y rhai drylliedig o galon; ac efe  
a geidw y rhai briwedig o yspryd."§

5 Dysgwn, yn ddiweddaf, oddiwrth  
gwmp S. Pedr, a diffygiau y cyfryw wŷr  
rhagorol, pa mor angenrheidiol oedd  
IACHAWDWR i Ddyn llygredig. Os nid  
oedd y cyfryw Saint ond "dynion yn gorfod  
goddef fel ninnau,"\* ac yn rhaid iddynt wrth  
edifeirwch a maddeuant, y rhai nid oes  
modd i'w cael ond drwy gymmod ac eir-  
iolaeth Iachawdwr, pa beth a ddaethai o  
holl drueiniaid y byd heb y fath fendith  
drugarog? Pan ddilynwn ni gan hynny  
siampl S. Pedr yn ei edifeirwch, na fedd-  
yliwn byth bod ein maddeuant, neu ein der-  
byniad cymmeradwy gan Dduw, yn tarddu  
oddiwrth dim haeddiant o'n gweithred-  
cedd ein hunain, neu fod ein gofidiau trym-  
maf yn rhoi dim iawn neu foddlondeb i'r  
Goruchaf. Canys, fel na ddarfu ffydd S.  
Pedr ddiffygio, ond o herwydd i Grist ed-  
rych arno, a deisyf, ni wna hi; felly ein ad-  
feriad ninnau, a grym ein hedifeirwch,

||Sal. li. 17. §Sal. xxxiv. 18. \*Act. xiv. 15.

sy'n tarddu yn gwbl oll oddiwrth haedde-  
digaethau a chyfryngiad yr un Iachawdwr  
Bendigedig. Efe, ac efe yn unig, a fedr  
gymmodi neu droi ymaith ddigofaint  
Duw oddiwrth ddynion pechadurus. Pan  
fom ni, gan hynny, yn nesau at Dduw  
Dad Hollgyfoethog, na anghofiwn ddeisyf  
arno fwrw ymaith oddiwrthym faich ein  
pechodau; eithr, nid gan ryfygu, nac ym-  
ddiried yn ein cyfiawnder ein hunain, ond  
yn ei aml a'i ddirfawr drugareddau ef, a  
chan erfyn arno faddeu ini yr hyn oll a  
aeth heibio, a chaniattâu i ni allu, byth o  
hyn allan, i wasanaethu a'i foddloni ef mewn  
newydd-deb buchedd, er anrhydedd a gogo-  
niant ei enw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.  
**Amen.**



## PREGETH XXII.

YNGHYLCH GWAITH CRIST, A GWAITH CRIST-  
IONOGION.



IOAN XIX. 30.

*Pan gymmerodd yr Iesu y finegr, efe a ddywedodd, GORPHENNWYD; a chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fynu yr yspryd.*

*When Jesus had received the vinegar, he said, IT IS FINISHED: and he bowed his head, and gave up the ghost.*



**Y**R ymadrodd athrist hwn, yn niwedd bywyd ein Hiachawdwr Bendigedig ar y ddaear, oedd, fel pettai, yn gwblhâd cyflawn i'r gwaith mawr o brynedigaeth dynolryw. "GORPHENNWYD," medd y dioddefwr sanctaidd, "a chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fynu yr yspryd"! - Wrth fyfyrion ar y geiriau arswydus hyn, mi a ddangosaf i chwi, yn gyntaf, rai o'r pethau a orphennodd Crist er ein mwyn ni; ac, yn ail, pa beth a ddylem ninnau ei orphen



er ei fwyn yntau, ac er ein mwyn ein hunain.

I. Ystyriwn rai o'r pethau rhyfeddol a orpheunodd Crist er mwyn Dyn Cwmpiedig.

1. Yn y lle cyntaf, y prophwydoliaethau ynghylch y Messias a gyflawnwyd. Prophwydi a ragfynegasant ei enedigaeth hynod, ei ddyfodiad gyd ag iachawdwriaeth i holl ddynolryw, y gwyrthiau a wnaeth efe ar y ddaear, dull ei farwolaeth ef, a'i roddi ei hun drosom ni yn offrwm ac yn aberth i Dduw. Hyn i gyd yn awr a gyflawnwyd oll. Yr oedd yn ddiâu gan y gwynfydedig Iesu yn ei olwg gwblhâd o'r gwaith rhyfeddol hwn, pan waeddodd efe allan, fel yr oedd yn trengu, **GORPHENNWYD!**

2. Y pryd hwnnw hefyd y cyflawnwyd y defodau, yr offrymmau, a'r holl gysgodau yng Nghyfraith Moses. Diammau fod yr Iuddew duwiol yn ei glywed ei hun yn fynych mewn diffyg o gael gwybod wir arwyddocâd y cyfryw ddefodau tywyll: ac er ei fod yn rhy grefyddol i ammau nad oeddynt yn bethau cymmwys, yn gymmaint a bod Duw ei hun wedi eu hordeinio hwynt; etto nid allai laina deisyf cael eglurhâd o'u dirgelberthynas. Yr holl dywyllwch hwn a ddi-

flannodd, pan ddarfu i'n Harglwydd lefain o-ddiar y Groes, fod y cwbl wedi ei ORPHEN! Ar ol hynny yr oeddid yn gweled mor addas oedd y rhagddangosiadau dirgeledig hynny; sef, amryw offrymmau'r Gyfraith, y Pasg, yr Oen Pasg, yr Archoffeiriad yn myned i'r lle sancteiddiolaf, a'r holl rannau eraill o ddefodau yr Iuddewon.

3. Gofidiau y Messias hefyd oeddynt yr awrhon wedi eu GORPHEN! Ym mhabeth yr oedd y gofidiau hyn yn sefyll, a phafaint oeddynt, ni's gwyddom. Siccr yw, eu bod hwy yn eithaf llym. "Gwelwch ac edrychwch, a fu y fath ofid â'i ofid ef, yr hwn a wnaethpwyd iddo, â'r hwn y gofidiodd yr Arglwydd ef yn nydd angerdd ei ddigter?"\* Ond yr oedd y cwbl yn awr wedi myned heibio. Y dioddefwr sanctaidd, yn gogwyddo ei ben ac yn llefain, GORPHENNWYD, a roddodd i fynu yr yspryd!—At y pethau rhyfeddol hyn ychwanegwyd hefyd ei adgyfodiad ogoneddus ef oddiwrth y Meirw.

4. Trwy'r gweithredoedd mawrion a orphennodd y Messias, efe a roddodd dystiolaeth eglur a chyflawn i'r gwaith ardderchog, yn yr hwn yr oedd efe wedi

\* Edr. Galar. i. 12.

ymrwymo. Ac mewn perthynas i'r gweithredoedd mawrion hyn, ny ni a allwn adrodd yn gyntaf ei gyhoeddiad o'r Efengyl i'r holl Fyd. Yr ydym yn gobeithio fod y cwbl oll wedi eu hachub drwy ei haeddigathau ef, y rhai cyn dyfodiad Crist yn y cnawd a ddarfu iddynt fyw yn addas i'r goleuni a dderbyniasant, er nad oedd y Cymmod mawr ddim etto wedi ei wneuthur. "Canys efe oedd yr Oen, yr hwn a laddwyd er *dechreuad* y byd;\* - ac a'n prynodd ni i Dduw trwy ei waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl."†

5. Gwaith mawr arall, yr hwn a *orphennodd* ein Hiachawdwr Bendigedig, oedd i roi i ni gyflawn reol buchedd, a moddion i gadw y rheol honno drwy gymmorth Glan Yspryd Duw, gyd â siampl berffaith o rinwedd a duwioldeb. Yr ydym bob amser yn ei ganfod ef mor ofalus am y SIAMPL, ag am y CYNGOR. Ni ddysgodd efe erioed mo'i ddisgyblion mewn un ddyledswydd, heb roddi hefyd siampl difeüs o honi: ac y mae'r cyngor a'r siampl ynghyd yn gwneuthur y rheol honno o fuchedd, yr hon sydd i hyfforddi y bywyd Cristionogol yma ar y ddaear, ac i'n harwain tu ag

\*Edr. Datg. xiii. 8. †v. 9.

at gaffael Bywyd Tragywyddol yn y nefoedd.  
 6. Ond y weithred fwyaf o'r brynedi-  
 gaeth, yr hon a *orphennodd* Crist ar y Groes  
 dros Ddyn, oedd i gynnorthwyo ef i orfol-  
 eddu dros angau a'r bedd, drwy wneuthur  
 y Cymmod hwunw dros ei bechodau, yr  
 hwn nid allasai Dyn bythei wneuthur drosto  
 ei hun. Eithr ym mha fodd dirgeledig y  
 mae marwolaeth Crist yn cymmodi am  
 bechodau dynolryw, ni's gwyddom ni,  
 ac nid ydyw yn gymmwys i ni ymolydd. Os  
 ydym yn credu yn yr Ysgrythurau, mae'n  
 rhaid i ni gredu hefyd, pe buasai hwn y  
 prawf rhyfeddol hwn o "ddi-fawr gariad  
 ein Harglwydd a'n hunig Iachawdwr Iesu  
 Grist fel hyn yn marw drosti, ym mha  
 fodd bynnag y mae'r peth yn cymeradwyo  
 gan yr Hollalluog, ni fuasai diau a sefidi  
 rhwng euogrwydd Dyn a digonedd Dew,  
 ac felly ni a fuasem oll wedi gwyneddi heb  
 y gobaith lleiaf o ddad ydych chi trogy-  
 wyddol! Ond i Dew y bydd e' diok h  
 yr hwn sydd yn rhoddi'n gobaith diygog a  
 buddugoliaeth gyflawr trwy ein Harglwydd  
 Iesu Grist!"\*

II. Wedi gweled yu awg mewn ychy-  
 dig eiriau, y gwaith rhyfedol a *orphennodd*

\*Edr. 1 Cor. xv. 57.

ein Hiachawdwr Bendigedig er ein mwyn ni; gadewch i ni edrych, yn y lle nesaf, pa beth yr ŷm ninnau i'w *orphen* er ei fwyn yntau.

1. Bwriad mawr yr Efengyl oedd adferu dynolryw, gymmaint ag oedd modd, i'r purdeb hwnnw, a'r diniweidrwydd, yn y rhai y crëwyd ein Rhineni Cyntaf. Pe parhaesent hwy i fyw yn y cyflwr dedwydd hwnnw, ni buasai arnynt eisiau Iachawdwr. Felly, yn ganlynol, mae'n ymddangos, mai i'n dwy o'r drachefn mor agos ag oedd lle, i'r ymddedwydd honno, oedd amcan mawr y ddyddiad ein Hiachawdwr i'r byd. Felly ydydd y dyw'r modd, drwy ba un o'r holl ymddedhau i'r Efengyl. Yr awr hyn ydych chi'n gweld, gan hynny, o'n blaen y dyddiad hyn sanctaidd. Ond, yr un awr hyn, ydych chi'n gweld Dyn, yn ei lygred-gnech hrescanol dyth gyrrhaedd i'r uchder hwnnw o berffithrwydd, yr hwn a gollodd ein Rhineni Cyntaf; etto, y mae marwolaeth Crist yn gwneud dröswar at yr hyn nid allem ni i'w wneuthur dröswar ein hwnain. Mae'n ymddangos i ni ia' idoch chi am ein pechodau; yr hwy, a'r hwy, ein hynnegniadau goreu, sydd arnom i'g i'g i'g eisiau. Eithr nyni a ddylem oll wneuthur ein hegni gwrolaf. Ac fel y mae'r nefoedd yr awrhon yn agored

i'n golwg, fe'n dysgir ni i ystyried y byd hwn yn unig megis ffordd yno, neu gyflwr o barodrwydd i'n cymmhwysu ac i'n gwneuthur yn addas i'r byd a ddaw.

2. Etto, nid ydys yn meddwl fod i ni fyw yn y byd presennol, fel pe na bai gennym ddim i'w ddywedyd wrtho. Mae Duw'n ddiau yn bwriadu, fod i ni arferu diwdrwydd, a gofal, a tharparu dros ein teulu-oedd. Y cwbl y mae efe yn ei orchymmyn ydyw, fod i ni wneuthur hyn yn ddiniweid, ac yn gymmedrol; fod i ni gymmysgu gorchwyl mawr Crefydd gyd â gorchwyl y Byd, fel, pan fo'm yn darparu dros ein Cyrph, fod i ni ddarparu hefyd dros ein Heneidiau: a phryd y bo'm yn gwasanaethu ein hunain, peidio â gwneuthur cam ag eraill; ond bod i ni edrych i fynu at Dduw Hollalluog, megis rhoddwr pob peth yr ym yn ei fwynhâu, a'i wasanaethu efgyd â'r diolchgarwch mwyaf am ei holl ddaioni. Os hyn a wnawn, yr ydym yn rhyddion i ofalu ynghylch pethau bydol, "gan arferu y byd hwn, megis heb ei gamarfer."\*

3. Eithr, er ein bod ni fel hyn i ystyried ein hunain mewn perthynas i'r byd, yr ydym yr un amser i ystyried y byd megis

\* Edr. 1 Cor. vii. 31.

gelyn, yr hwn sy raid i ni ei wrthwynebu ar bob ochr. Megis y mae wedi ei fwriadu i fod yn lle o brofiad, yn gystal ag yn drigfa, mae'n llawn o bethau da a drwg. Y mae rhai pobl yn cael eu profi gyd â chyfoeth, rhai gyd â thlodi, rhai gyd â sefyllfau uchel, a rhai gyd ag isel; a dysgir ni i ystyried pob cyflwr megis ein moddion o brofiad, a'i droi ef i'n budd rhagllaw.

4. Gwelwn gan hynny y gwaith mawr, yr hwn sydd gennym ni i'w *orphen*; sef, myned yn grefyddol drwy'r byd hwn o brofedigaeth, gan wahanu'r da oddiwrth y drwg, a gwellhau ein hunain mewn arferion duwiol odd wrth bob peth a all ddi-gwydd oddiwrth wynfyd ac adfyd, oddiwrth iechyd ac afiechyd, oddiwrth dristwch a llawenydd, oddiwrth barch ac ammharch, oddiwrth fwyneidd-dra ein cyfeillion, a malais ein gelynion; mewn gair, gan wneuthur pob rhyw beth yn achos naill o ogoniant neu ddiolchgarwch i'r Rhoddwr mawr, ac o ufudd-dod i'w holl orchymmynion! A hyn i gyd y'n cynnorthwyir i'w wneud drwy gynghorion yr Efengyl, wedi eu sefydlu ar ffydd, a hyder yn ein Prynwr Bendigedig, ar weddi daer, a chymmorth yr Yspryd Glan.

5. Ac yr awrhon, frodyr, mae'n gofyn

i bob un o honom ystyried yn ddifrifol, A ddarfu i ni gyflawn yn gywir y gwaith mawr, yr hwn yr ŷm ni wedi ein gosod yma fel hyn i w *orphen*? Yr ydym ni oll ar ein taitr i dragywyddoldeb! Nyni a ddeuwn yn fuan i ddiwedd ein gyrfa yn y bywyd hwn; a, phan ddelom, gwyn ein byd, os byddwn wedi *gorphen* gwaith mawr ein hiachawdwriaeth mewn ffordd berffaith!

6. Yn niwedd bywyd, pan fyddo'r cwbl wedi ei *orphen*, gallwn ofyn i ni ein hunain, neu, beth bynnag, fe a'i gofynnir i ni mewn amser ar ol hynny: "Pa beth a *orphennwyd*? A *orphennwyd* buchedd wedi ei threulio yn dda ac yn dduwiol? A gyflawnwyd dim daioni i wneuthur y fuchedd honno yn goffadwrus? A wnaed dim arferion rhinweddol, na dim caredigrwydd nefol? A gafodd pethau da y byd fod heb erioed eu camarferu i ryw amcan pechadurus? Iê, a wnaethost ti, O ddyn, gyfaill o'r mammon anghyflawn, gan ystyried dy hun megis goruchwyliwr ar amryw fendithion Duw?|| "O na baem ni ddoethion oll, na ddeallem hyn, nad ystyriem ein diwedd!"§

7. Canys fe a ddywedir, yn resynus,

|| Edr. Luc xvi. 1--9. § Deut. xxxii. 29.



yn yr hanes a roddir i ni am un, yr hwn a roddodd i gadw ei dda dros lawer o flynyddoedd, ac ni feddyliodd am *orphen* dim ond bywyd o ddifyrrwch cnawdol, gan ddywedyd wrth ei enaid: "Fy enaid, y mae gennyt dda lawer wedi eu rhoi i gadw dros lawer o flynyddoedd; gorphwys, bwyta, yf, bydd lawen. Eithr Duw a ddywedodd wrtho: O ynfyd, y nos hon y gofynnir dy enaid oddi wrthy, ac eiddo pwy fydd y pethau a barottöaist?"\* Gwelwn yma fywyd a marwolaeth un, yr hwn ni *orphen-nodd* ddim ond bywyd o ddifyrrwch cnawdol, yn canlyn y naill y llall yn agos iawn, ac ydynt am hynny yn fwy gresynoll! Felly hefyd y mae'r peth yn digwydd yn aml yn y dyddiau hyn!

8. Cymmerwch siampl arall. Cofiwch y glwth goludog, yr hwn a adawodd y cwbl oll heb ei *orphen*, ond digrifwchy byd hwn yn unig. Unig ofal pa un oedd ei ddilladu ei hun â phorphor a sidan, a chymmeryd byd da yn helaethwch beunydd. Eithr cofiwch ei gyfran ef, a'r cardottyn duwiol Lazarus. "Ac Abraham a ddywedodd wrtho: Ha fab, cofia i ti dderbyndy wynfyd yn dy fywyd" — hynny yw,

\*Bdr. Luc xii, 16—22,

yr holl bethau da a ddarfu i ti erioed feddwl am danynt— “ac felly Lazarus ei adfyd; ac yn awr y diddenir ef, ac y poenir di-thau!”†

9. Y siamplau hyn, ac amryw eraill, a osodwyd allan er llesâd ac addysg i ni. Nyni a ddylem eu derbyn hwy yn y modd hynny, ac ystyried bob amser mor ddifudd ydyw ymddygiad a thyb y cyfryw ynfydion wrth fyned trwy'r byd hwn, a'r euogrwydd y maent yn nechreu'r byd a ddaw!

10. Pa mor annhebyg yw'r gorfoledd ardderchog hwnnw o eiddo S. Paul, tu ag at ba un y dylem ni oll, y cyfoethog a'r flawd, yr uchel a'r isel, edrych i fynu gyd â phob gostyng-eiddrwydd— “Amser fy ymddattodiad a nesâodd,” medd yr Apostol Sanctaidd; “mi a ymdrechais ymdrech deg; mi a ORPHENNAIS fy ngyrfa; mi a gedwais y ftydd! O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr Cyfiawn, i mi yn y Dydd hwnnw; ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef,”† yn niwedd y byd.—Gwyn ei fyd y dyn a all ddywedyd hyn, o galon gywir,

†Edr. Luc xvi. 19--25. A'r Ail Lyfr, Preg. iv.

ar wely poenus angau! Ië, "gwyn ei fyd y dyn a gaffo y gyfryw ddoethineb, ag a gafodd S. Paul, a'r dyn a ddygo y cyfryw ddeall allan! Canys gwell yw ei marsiandiaeth hi na marsiandiaeth o arian, a'i chynnyrch hi sydd well nag aur-coeth. Gwerth-fawroccach yw hi na gemmau; a'r holl bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddi! Hir hoedl sydd yn ei llaw ddehau hi; ac yn ei llaw aswy y mae cyfoeth a gogoniant! Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau hi ydynt heddwch! Pren bywyd yw hi i'r neb a ymaflo yuddi; a gwyn ei fyd a ddalio ei afael ynddi hi," † trwy Iesu Grist ein Harglwydd; i ba un, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glan, y byddo pob diolch, a gogoniant, ac anrhydedd yr awr hon, ac yn oes oesoedd! Amen ac Amen.

†Diar. iii. 13—18.



PREGETH XXIII.

IESU CRIST YW'R BUGAIL DA.

[AR SUL O FLAEN Y CYMMUN.]

1 PEDR II. 25.

*Yr oeddych megis defaid yn myned ar gyfeiliorn; eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at fugail ac esgob eich heneidiau.*

*Ye were as sheep going astray; but ye are now returned unto the shepherd and bishop of your souls.*



**Y**R holl wir Gristionogion a ddychwelwyd at ein Harglwydd Bendigedig, yr hwn a ddaeth o'r nef i'r ddaear "i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid;"† a'r hwn hefyd a'i rhoddes ei hun yn aberth dros ein cyfeiliornadau o'r blaen, ac a wnaeth iawn am ein heuogrwydd â'i waed gwerthfawr ei hun! "Efe a archollwyd am ein camwedd-

†Luc xix. 10.

au ni, a thrwy ei gleisiau ef y iachawyd ni.†  
 Y Bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros  
 y defaid‡ Yr hwn nid adnabu bechod a  
 wnaethpwyd yn bechod drosom ni, fel  
 y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo  
 ef.¶ Ië, yr hwn a ddiodefodd dros bech-  
 odau; y Cyfiawn dros yr Anghyfiawn, fel  
 y dygai ni at Dduw.”§

Chwi a ddychwelwyd atto ef! Yr hwn  
 nid yn unig “a gymmerth ein gwendid ni  
 ac a ddog ein doluriau,”¶ ond hefyd a  
 orchfygodd ein gelynyon oll, ac a orfoledd-  
 odd arnynt hwy, megis dewisedig Dywy-  
 sog ac Arglwydd ei bobl. Efe, yn ei ber-  
 son ei hun, “a yspeiliodd dywysogaethau  
 ac awdurdodau;”\* ac y mae ei lwyddiant  
 ef yn wystl o'n buddugoliaeth ninnau arnynt  
 hwy yn y diwedd. Hwy allant ein blino,  
 ond nid allant ein niweidio. Trwy waed  
 yr Oen nynt hefyd a'u gorchfygwn hwynt.  
 “Duw y tangnefedd a sathr Satan dan eich  
 traed chwi ar frÿs;”† ac a rydd yn eich  
 genau ganiad newydd; sef, “Yr awr-  
 hon y daeth iachawdwriaeth, a nerth, a  
 theyrnas ein Duw ni, a gallu ei Grist ef;  
 canys Cyhuddwr ein brodyr ni a fwriwyd

†Is. liii. 5. ‡Ioan x. 11. ¶2 Cor. v. 21. §1 Ped. iii.  
 18. ¶Is. liii. 4. \*Coloss. ii. 15. †Rhuf. xvi. 20.

i'r llawr, yr hwn oedd yn eu cyhuddo hwy ger bron ein Duw ni ddydd a nos.\*

Chwi a ddychwelwyd atto ef! Yr hwn o hyn allan, a wylia drosoch gyd â gofal enwedigol ac a'ch ceidw megis ei eiddo ei hun, yr hwn a brynodd â'i waed. Nid yw'r Bugail Israel hwn, y Golygwr eneidiau hwn, un amser yn huno nac yn cysgu. Llawer gwaith y gwardodd chwi, pan na wyddech hynny; ië, tra'r oeddych yn anniolchgar yn ei ddiystyru ef ac yn ei wrthod! Llawer gwaith y cipiodd efe chwi allan "o grafange y llew ac o balf yr arth,"† cyn i chwi ei adnabod ef, na meddwl erfyn arno am ei nodedd. Mae ei lygaid ef yn wastad arnoch *chwi*, y rhai sy'n galw arno mewn gwirionedd; mae ei glustiau ef bob amser yn agored i'ch llefain; y mae ei freichiau tragywyddol o'ch amgylch i'ch cynnal; ac, am hynny, chwi ellwch ddywedyd, bob un o honoch: "Yr Arglwydd yw fy Mugail; ni bydd eisiau arnaf, Efe a wna im', orwedd mewn porfeydd gwelltog: efe a'm tywys ger llaw'r dyfroedd tawel."‡

Chwi a ddychwelwyd atto ef! Ië, yr hwn nid yn unig y mae ganddo hollalluog nerth i'ch gwarchadw rhag perygl, ond

‡Datg. xii. 10. †1 Sam xvii. 37. ‡Salm. xxiii. 1. 2.

anfeidrol dosturi hefyd i gyd-deimlo â chwi yn eich holl drallodau, ac i'ch cyssuro yn eich holl ofidiau. Y mae efe yn addfwyn ac yn ostyngedig o galon, yn drugarog ac yn isel: "fel Bugail y portha efe ei braidd, â'i fraich y casgl ei wŷn, ac a'u dwg yn ei fynwes."\* Mae efe yn tosturio wrth eu gwendid, ac yn maddeu eu camweddau; y mae'n eu harbed hwy pan ydynt yn flinderog, ac yn edrych attynt pan fyddont yn gleifion. Nage, yn wir, y peth ni ddichon un Bugail arall ei wneuthur, y mae'n rhoddi nerth i'r gweiniaid, ac iechyd i'r rhai clwyfus; y mae efe hefyd yn bendithio eu llun-iaeth, ac yn peri iddo eu maethu hwynt!

Beth a ddywedir yn ychwaneg? Y mae'r "Bugail a'r Esgob eneidiau hwn" yn parhâu yn geidwad iddynt hyd angau; ac nid yw yn eu gadael hwynt chwaith yn yr amser dychrynadwy hwnnw, pan fo pob peth arall yn eu gadael, ond y mae'n myned gyd â hwynt i'r dyffryn dwfn a thywyll. Ac felly hwy a rodiant drwy'r dyffryn hwnnw "heb ofni niweid; canys y mae Crist gyd â hwynt: ei wialen a'i ffon sy'n eu cyssuro."† Llawer o'r rhai duwiol ym mhob oes a gawsant gymmorth ac anrhydedd mawr yn

\* Is. xl. 11. † Salm xxiii. 4.

yr achos hwn; ie, rhai, "er eu bod trwy ofn marwolaeth dros eu holl fywyd dan gaethiwed,"|| etto, yn eu munudiau diweddaaf, a gynnorthwywyd i orfoleddu ar "Frenhin y Dychryniadau," ac i ddywedyd gyd â'r Apostol S. Paul: "O Angau, pa le y mae dy gelyn? O uffern, pa le y mae dy fuddugoliaeth? Colyn angau yw Pechod; a grym Pechod yw'r Gyfraith. Ond i Dduw y byddo'r diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist!"§

Neu, os yw y cysgodion prydnhawnol yn ymddangos mor dewion i rai o honynt fel nad allont weled y Llaw sydd yn eu cynnal hwynt, etto y tristwch presennol hwn a wasanaetha yn unig i chwanegu eu rhyfeddod, eu diolchgarwch, a'u llawenydd, pan ddelont i ben pellaf y dyffryn, ac y canfyddont y Bugail Da hwn yn chwalu'r cwmwl, ac yn sefyll o'u blaenau, wedi ei ddatguddio yn ei holl ogoniant; pan y cofleidio hwynt yn ei freichiau, ac y dygo hwynt i fynu i borfeydd glasach a meusydd mwy ffrwythlon yn y Ganaan Nefol; fel y mae hanes ardderchog o hyn yn Llyfr y Datguddiad: "Ni fydd arnynt na newyn

|| Edr. Heb. ii. 15. § 1 Cor. xv. 55---57.



mwyach, na syched mwyach; ac ni ddisgyo arnynt na'r haul, na dim gwrês. O blegid yr Oen, yr hwn sydd yng nghanol yr orsedd-faingc, a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain hwynt at ffynhonnau bywiol o ddyfroedd: a Duw a sych ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt!"†

Eithr nid allaf yn awr ymhelaethu ar y pethau rhyfeddol hyn. Cyflwr o'r blaen a chyflwr presennol y rhai sydd yn credu yng Nghrist [ie, yr hyn oeddynt wrth Natur, a'r hyn ydynt trwy Ras] a ddichon fod yn ddigonol i'n hyfforddio gyd â phadrefn a thymmer calon y dylem nesâu at Fwrdd yr Arwglwydd!

1. Hyn, beth bynnag, sydd yn eglur; sef, y dylem, yn gyntaf, wneuthur hynny gyd â'r gostyngeiddrwydd mwyaf. Dyma'r wisg sy'n ymddangos harddaf arnom, ac sydd gymmwysaf i ni, pa fodd bynnag yr ystyriom ein hunain, ai creaduriaid cwmpiedig, ai wedi ein hadferu i garedigrwydd yr Hollalluog trwy Grist; ai Pechaduriaid, ai Saint. Beth, a gawsom ni faddeuant? Yr oeddym unwaith wedi ein condemnio! A gafwyd ni? Yr oeddym unwaith wedi ein colli! A fywhawyd ni? Yr oeddym

† Dadg. vii. 16, 17.

yn ddiweddar yn feirw; ac etto yr ydym yn byw trwy Ras! Duw yw'r hwn a'n bywhäodd ni, ac nid ni ein hunain. Efe yn unig sy'n gwneuthur gwahaniaeth rhwng dyn a dyn; ac ni feddwn ni chwaith ddim ond yr hyn a dderbyniasom! Ni a welwn, gan hynny, na chrëwyd balchder i ddynion."†

2. Nyni a ddylem gyflawni'r gwasanaeth hwn a phob gwasanaeth crefyddol gyd ag iawn ymsynniad o ddiolchgarwch a chariad; gan roddi diolch i'r TAD, yr hwn nid arbedodd ei Fab ei hun, ond a'i traddododd ef i fod yn offrwm ac yn bech-aberth drosom ni; gan roddi diolch i'r MAB, yr hwn nid arbedodd ei hun, ond, wedi cymmeryd arno agwedd Gwas, a ymostyngodd i ddioddef blinder a marwolaeth, trwy hae-ddiant marwolaeth pa un yr ydym yn disgwyl byw yn oes oesoedd; a chan roddi diolch i'r YSPRYD GLAN, yr hwn sydd yn ein huno ni â Christ, ac yn cymmwyso at ein heneidiau y pryniad hwnnw a wnaeth efe, yr hwn sydd yn adnewyddu ein natur lygredig, ie, "yr hwn sydd yn ein gwneuthur ni yn gymmwys i gael rhan o etifeddiaeth y Saint yn y goleuni.‡" Pa mor add-

† Edr. Eccles. x. 18. ‡ Col. i. 12.

as, gan hynny, yw'r hymn honno o foliant i goffâu marwolaeth Crist, yr hon a ganodd y Llu Nefol pan anwyd ef: "Gogoniant yn goruchaf i Dduw; ac, ar y ddaear, tangnefedd; i ddynion ewyllys da."† Am hynny "ymadnewyddwn yn yspryd ein meddwl, a gwisgwn y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd."‡

3. Tristwch duwiol am bechodau o'r blaen, a bwriadau sanctaidd na throreddom mwy, a ddylai hefyd fod gennym yn wastad, ond yn enwedig wrth fyned at Fwrdd yr Arglwydd. A ddangosir Crist yno megis wedi ei groeshoelio o flaen ein llygaid? Ac a allwn ni edrych arno ef, yr hwn a wsnasom, heb alaru o blegid ei ddiodefaint a'i farwolaeth? Neu, a allwn ni alaru o'u plegid heb gasâu pob rhyw bechod, ac ymroi hefyd i ymwrthod â hwynt? Hyn a ddylai fod lleferydd pob Cristion diragrith: "Beth sydd i mi mwyach a wnelwyf ag eilunod,"|| neu wag oferedd y byd anwir hwn?

4. Rhaid hefyd bod bob amser yn canlyn y bwriadau hyn deimlad ac ymsynniad o'n gwendid ein hunain, a'n llwyr eisiau ●

† Luc ii. 14. ‡ Ephes. iv. 23, 24. || Hos. xiv. 8.

gymmorth oddi uchod. Ië, wedi "i ni ddychwelyd at Esgob ein heneidiau," os gadewir ni i ni ein hunain, buan y tram-gwyddwn ac y syrthiwn! Yr un Llaw ag â'n dygodd ni yn ol, pan oeddym wedi myned "fel defaid ar gyfeiliorn," a fydd bob amser yn angenrheidiol i'n cynnal yn ein taith, a'u harwain ym mlaen hyd oni ddelom i'r Tir Addawedig. "Hebof fi," medd ein Harglwydd, ie, wrth y rhai oeddynt wedi eu huno ag ef fel y mae'r canghennau wedi eu huno â'r winwydden, "hebof fi," neu, *wedi eich gwahanu oddi wrthyf fi*, "ni ellwch chwi wneuthur dim. Megis na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, oni erys yn y winwÿdden; felly, ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi."\* Pa beth bynnag a gymmerwch mewn hunanhyder a derfyna, yn ddiammau, mewn cywilydd a sionmedigaeth. Yr Apostol Pedr, yr hwn a ymffrostiodd, "pe rhwystrid pawb o blegid ei Arglwydd, etto na rwystrid mono ef byth,"† nid yn unig a'i gadawodd ef, eithr gyd â llwon a wadodd yr adwaenai ef y dyn.‡ "Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun, medd Solomon, sydd ffol."§ A'r Prophwyd Habaccuc: "Wele, yr hwn

\*Ioan xv. 4, 5. †Matth. xxvi. 72. ‡Diar. xxviii.33. †26.

a ymchwydda, nid yw union ei enaid ynddo; ond y Cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd.”§ **A**ngenrheidiol, gan hynny, i.e, tra angenrheidiol yw'r cyngor hwnnw o eiddo'r Apostol—“Yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio.”¶

5. Ond yr anhyder hwn o honom ein hunain a ddylai bob amsergael ei dymmheru ag ymddiried diysgog, a hyder siccr yng ngallu a ffyddlondeb ein Prynwr mawr. S. Paul, yr hwn ni chymmerai arno, heb gymmorth yr Hollalluog, fod ganddo allu gymmaint ag i feddwl dim sy dda, etto a ddywedodd yn hyf—“Yr wyf yn gallu pob peth trwy Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu i.”\* Yr un Bugail Da, yr hwn a'n cafodd ni pan oeddym golledig, a ddichon ein “harwain ni ar hyd llwybrau cyfiawnder, ac a wna hynny er mwyn ei enw.”† Yr Arglwydd, yr hwn yw ein cymmorth a'n cynorthwy, a elwir “y tyst cywir a ffyddlon.”‡ A dyma hefyd ei eiriau addfwyn a chyssurus wrth bawb a ddychwelant atto ef, megis “Bugail ac Esgob eu heneidiau,” **DIGON I TI FY NGRAS I**||—Ac yn y Prophwyd hefyd: “Nac ofna, canys yr ydwyf i gyd â

§ Hab. ii. 4. ¶ 1 Cor. x. 12. \* Phil. iv. 13. † Salu xxiii. 3. ‡ Jer. xlii. 5. Dadg. i. 5. || 2 Cor. xii. 9.

thi; na lwfrhâ, canys myfi yw dy Dduw: cadarnhâf di, cynnorthwyaf di hefyd, a chynhaliâf di â deheulaw fy nghyfiawnder."†

6. Y cyfryw, fy mrodyr, ydyw'r dymmer a ddylai fod gennym bob amser, [ond, yn enwedig, wrth gyflawni gwasanaeth Swpper yr Arglwydd] sef, y gostynggeidd-rwydd mwyaf, a'r diolchgarwch gwresoccaf; tristwch duwiol o blegid ein cyfeiliorni o'r blaen, a bwriadau sanctaidd o fyw yn fwy gofalus rhagllaw; teimlad o'n gwendid, ac o'n llwyr eisiau o Ras oddi uchod, yng-hyd a hyder diysgog a siccer ar allu a ffyddlondeb ein Prynwr gogoneddus; yr hwn a addawodd ei Yspryd Glan i'r sawl a'i gofynnant, ac sydd yn gorchymmyn i ni ofyn, a derbyn, "fel y byddai ein llawenydd yn gyflawn,"¶

7. Awn fel hyn at allor yr Arglwydd, gan weddio i'r Wledd Efengylaidd honno fod yn effeithiol, trwy ei fendith ef, er cadarnhâu ein ffydd, gwresogi ein cariad, a bywiogi ein gobaith; fel y caffom nerth, trwy'r maeth y mae'n ei roddi i fyned ar ein taith trwy'r anialwch hwn, hyd onid elom i mewn o'r diwedd, trwy ddyffryn tywyll

†Is. xli. 10. ¶Ioan xv. 11.

cysgod angau, i'r Tir Addawedig o orph-  
 wysfa; lle cawn weled, wyneb yn wyneb,  
 "Bugail ac Esgob ein heneidiau; a, chan  
 amgylchu gorseddfaingc Duw, y cyd-unwn  
 yn y Gân ddiolchgar orfoleddus honno:  
 "IddoEf, yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golch-  
 odd ni oddiwrth ein pechodau ynei waed ei  
 hun; ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn  
 offeiriaid i Dduw a'i Dad ef; iddo ef y  
 byddo gogoniant, a'r gallu, a'r diolch, yn  
 oes oesoedd. Amen."||

‡ Datg. i. 5, 6.



**PREGETH XXIV.**

**HEB IESU, HEB DDEDWYDDWCH.**



**RHUFENIAID III. 19.**

*Ni a wyddom am ba bethau bynnag y mae'r Ddeddf yn ei ddywedyd, mai wrth y rhai sy dan y Ddeddf y mae hi yn ei ddywedyd; fel y cauer pob genau, ac y byddo'r holl Fyd dan farn Duw.*

*Now we know that what things soever the Law saith, it saith to them who are under the Law; that every mouth may be stopped, and all the World may become guilty before God.*



**D**IBEN mawr yr Epistol hwn at y Rhufeiniaid yw arwain dynion at Grist, yn lle'r Gyfraith, megis unig noddfa pechaduriaid. Ac, o herwydd na phrisia neb y feddyginiaeth ond y rhai sydd yn teimlo eu dolur ac yn dymuno cael eu hiachâu, mae'r Apostol yn y ddwy Bennod gyntaf yn holi cyflwr y Cenhedloedd a'r Iuddewon, hynny



yw, holl hiliogaeth Adda; ac yn profi yn eglur fod pawb oll "Dan farn Duw," neu'u euog o flaen y Goruchaf; ac, yn ganlynol, fod ar bawb eisiau Iachawdwr.

Ystyriwn, oddiwrth eiriau'r testun, y pedwar peth canlynol: sef, euogrwydd pob dyn o flaen Duw; anhawsdra annog dynion i iawn deimlo eu heuogrwydd a'u trueni; diben hynod y Gyfraith, gostwng y cyfryw gyndynrwydd; ac, yn ddiweddaf, cyflwr a gobaith pob pechadur edifeiriol.

I. Nid rhaid wrth lawer o eiriau i ddatgos fod yr Ysgrythur a Chydwybod yn rhoddi cymmaint tystiolaeth o euogrwydd Dyn ag sy ddigonol i gau ei enau, ac i'w wneuthur yn fud; neu, yn hytrach, i'w euog-farnu ei hun ym mhresennoldeb Duw, Cyfiawn a Sanctaidd! "Nid oes neb yn deall," nymi a ddarllennwn, "nid oes neb yn ceisio Duw. Gwyrasant oll: aethant i gyd yn anfuddiol: nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un. Bedd agored yw eu ceg; â'u tafodau y gwnaethant ddichell: gwenwyn aspiaid sydd dan eu gwefusau: Y rhai y mae eu genau yn llawn melldith a chwerwedd. Nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid. Pawb gan hynny a bechasant ac ydynt yn ol am ogoniant Duw."\*

\*Edr. Sal. xiv. 1—3. liii. 1. v. 9. cx. 3. x. 7. Diar. i. 16. Is. lix. 7. 8. Sal. xxxvi. 1. Rhuf. iii. 11. 23.

holl Ysgrythur, o'r dechreu i'r diwedd, yn llawn o'r un gwirionedd ofnadwy. Gwirionedd, ysywaeth, ydyw; canys pwy a all ddywedyd yn ei erbyn, neu'i wrthsefyll?

Eithr, os yw neb yn ammau, gofynned beth yw tystiolaeth Cydwybod ynghylch y cwestiwn hwn. **L**Neu gadewch i mi ofyn i bob un o honoch, yng ngeiriau Solomon: "Pwy a ddichon ddywedyd, Mi a lanhâais fy nghalon; glân wyf oddiwrth fy mhechod?"† A fedrwch chwi ganfod dim allan o'i le yn eich tymmer a'ch ymarfer? A ydynt oll yn cyttuno â rheol yr Efengyl? A eill neb ofyn dedwyddwch megis gwobr dyledus ei haeddiant, "Dywed, o Ddyn, a oes arnat eisiau dim trugaredd a madd-euant? **L**A eili di sefyll ar sylfaen dy gyfiawnder dy hun o flaen gorseddfaingc Duw?"-- Mae'n debygol nad oes neb o honom na ddichon gofio amryw siamplau o euog-rwydd a phechod yn ein bucheddau ein hunain. Ac os ein calonnau ynfyd a llygreddig a'n condemniant ni yr awrhon, O pa fodd y cyfiawnhâwn ein hunain o flaen brawdle Crist, "yr hwn sydd yn fwy na'n calonnau, ac yn gwybod pob peth?"‡

**II.** Ac etto, yn yr ail fan, mae'n an-

† Diar. xx. 9. ‡ 1 Ioan iii. 20.

hawdd dwyn dynion i iawn deimlad o'u heuogrwydd hynod, ac i gyfaddef eu trueni yn llwyr gwbl. Eithr, yn wir, nid ydychw'n anhawdd dwyn dynion i gyfaddef yn gyffredin eu bod yn bechaduriaid. Ond y mae gan lawer o'r rhai hyn dyb rhydda o'u cyflwr eu hunain; ac, na fedrant ddywedyd eu bod yn gwbl ddiniweid, maent etto yn edrych ar eu heuogrwydd megis rhyw beth bychan, ac yn meddwl fod eu Rhinweddau yn fwy na'u Camweddau; ac fel hyn, "heb wybod cyfiawnder Duw," neu'r cyfiawnder sydd angenrheidiol i gyfiawnhâu Dyn yng ngolwg Duw, "ac yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain, nid ymostyngant i gyfiawnder Duw."¶ Eithr y mae'r Apostol yn dywedyd wrth bob un sydd yn ein plith, "na byddo i neb uchel synnied yn amgen nag y dylid synnied; eithr synnied i sobrwydd, fel y rhannodd Duw i bob un fesur ffydd."§

Balchder yw clwyf gwreiddiol ein natur ni, yr hwn a gawsom oddiwrth ein Rhieni cyntaf; ac, er ei fod wedi ei ddarostwng yn y rhai a sancteiddiwyd, etto y mae o hyd yn byw ynddynt: a hwnnw yw y rhan olaf o'r "hen ddyn" ag sydd yn marw. Balch-

¶ Rhuf. x. 3. · § xii. 3.

der yn wir sy hawdd ganddo dyfu ar ol pechodau eraill, fel y gwelwn siampl hynod yn y Pharisead; yr hwn yn esgus diolch i Dduw am ei ras, a aeth i fynu i'r Deml yn unig i'w ganmol ei hun. "O Dduw" medd efe, "yr wyf yn diolch i ti, nad wyf Fi fel y mae dynion eraill; yn drawsion, yn anghyfiawn, yn odinebwyr. Yr wyf yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos; yr wyf yn degymmu cymmaint oll ag a feddaf."\* Nid hwyrach fod hynny yn wir; ac y mae'n Hiachawdwr megis yn addef ei fod: etto mae'n dywedyd i ni, nad aeth y creadur gwag hwn â dim adref gyd ag ef ond ei hunan-dyb falch. Efe a ddychwelodd i'w dŷ heb fendith Duw. "Canys pob un, ag sydd yn ei ddirchafu ei hun, a ostyngir; a phob un ag sydd yn ei ostwng ei hun, a ddirchefir."†

Wele yma un achos mawr fod pregethiad yr Efengyl yn cael cyn lleied effaith! Pe medrid dwyn dynion i deimlad o'u heuogrwydd a'u trueni, hwy a wrandawent yn ewyllysgar ar "newyddion da o lawenydd mawr" ynghylch Iachawdwr. Prin y gellir gwneuthur y dyn mwyaf drygionus gyfaddef ei fod mewn perygl, hyd oni roddo Duw ei law arno a gosod Marwolaeth o

\*Luc, xviii. 11. 12. †adn. 14.

flaen ei lygaid! Bernwch, gan hynny, mor anhawdd yw argyhoeddi pechadur mwy dirgel; yr hwn ond odid sydd ganddo ryw ffurfiau gweigion o ddyledswydd i ymddiried ynddynt, ac sydd yn hyderu yn rhyfygus, y bydd pob peth o'r goreu gyd ag ef yn y diwedd! Pe'r edrychem arnom ein hunain mewn gwirionedd, a bwrw ymaith, am ychydig, ein balchder a'n rhagfarn byd oni chaem olwg difrifol a diduedd ar ein cyflwr, hyn a wnai i ni weled Iachawdwr yn llwyr angenrheidiol; fel yn wir na byddem byth yn esmwyth hyd oni sicrhäem ei ewyllys da ef. Eithr nid hawdd dwyn dynolryw i wneuthur hyn. "Balchder eu calonnau a'u twyllodd!" †

III. Ond ystyriwn, ym mhellach, mai un diben mawr y Gyfraith yw gostwng balchder dynion, a'u cyndynrwydd cywilyddus; fel, trwy gael eu hargyhoeddi o'u cyflwr euog a thruenus wrth natur, y cymmheller hwynt i ffoi at Grist am iachawdwriaeth.

Y gwirionedd pwysfawr hwn a ddangosir yn bendant yn y testun, ac yn amryw fannau eraill o'r Ysgrythur; ac a ymddengys yn wir yn eglur ddigon, os ystyriwn,

†Obad. 3.

nad ydyw'r Gyfraith yn gofyn dim llai nag ufudd-dod perffaith a dibechod i'w holl orchymynnion. "Canys pwy bynnag a gadwo'r gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl."¶ Mae'n datgan yr hyn sy ddyledus i Dduw gan ei greaduriaid rhesymmol, ac y mae'n gofyn tal hyd y ffyrlling eithaf. Fel hyn y mae'n 'sgrifennedig: "Melldigedig yw'r hwn ni pharhâo yng ngheiriau'r Gyfraith hon gan eu gwneuthur hwynt."§ Nid ydyw ddigon i ni wneuthur *rhyw* bethau a orchymynnir; ond rhaid i ni eu gwneuthur hwynt *oll*: ac nid yw ddigon i ni wneuthur pob peth *dros* amser; ond rhaid i ni hefyd *barhâu* ynddynt, onidê ni a gollwn gariad Duw, ac a fyddwn **L**ddarostyngedig i lid a digofaint. Mae'r Gyfraith yn amlygu pechod; ac, ar yr un amser, yn gofyn ufudd-dod dibechod. Nid eill neb o honom ddadleu diniweidrwydd, ac ni chymmer y Gyfraith un esgus am yr euogrwydd. Fel hyn "y cauir pob genau," ac nid oes gan ddyn ddim i'w wneuthur, ond naill ai parhâu mewn trueni, neu ynte apelio oddiwrth y Gyfraith at yr Efengyl, a gofyn llesâd yr iawn hwnnw a brynodd Crist â i

¶Hago, ii. 10. §Deut. xxxii. 26.

waed; a'r hwn y mae yn ei gynnyg yn rhad i bawb ag sydd "yn eu barnu eu hunain," ac yn ymwrthod â'u cyfiawnder eu hunain, ac yn ffoi atto ef, megis eu gobaith a'u dinas noddfa. "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a greddo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol."\*

IV. Felly, yn ddiweddaf, y mae pob pechadur digywilydd, yr hwn sydd yn agor ei enau i'w amddiffyn ei hun, yn dywedyd "fod Duw yn gelwyddog," ac yn ei gau ei hun allan oddiwrth y cynnyg o'i ras; lle mae'r pechadur ystyriol yn sefyll ar ffordd trugaredd; a, thrwy ffydd yn Iesu Grist, a gaiff iachawdwriaeth a gogoniant tragwyddol.

Beth gan hynny a ddywedwn ni, bechaduriaid, wrth y pethau hyn? Y mae Duw megis yn rhoddi i ni ein dewis, ym mha lŷs y mynnwn ein barnu; a ddadleuwn ni o flaen gorsedd Cyfiawnder, neu o flaen gorsedd Trugaredd? Os addefwn yn wir edifeiriol ein pechodau, a llefain am gynorthwy trwy'r Cyfryngwr mawr; y mae efe yn anfeidrol mwy ewyllysgar i'w roddi,

\*Ioan, iii. 16.

nag ydym ni i'w ofyn ganddo. **Cymmerwn,** gan hynny, y cyngor "i ymddarostwng dan alluog law Dduw, fel y'n dyrchafo mewn amser cyfaddas; gan fwrw ein holl ofal arno ef; canys y mae efe yn gofalu drosom ni."\* Gwelwn ac addefwn ein heuogrwydd a'n hannheilyngdod, fel ua'n condemnier o'r diwedd gyd â'r Byd. Erfyniwn ar Dduw ein chwilio a'n profi, a'n gwneuthur yn gwbl gydnabyddus â'n cyfiwr ein hunain; fel, wedi ein canfod ein hunain "yn druain, ac yn resynol, ac yn dlodion, ac yn ddeillion, ac yn noethion,"† y gallom fyned yn ddioed at yr Iachawdwr hollddigonol, "gwaed yr hwn sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod."‡

Ac am y rhai y cafodd y Gyfraith eisoes ei heffaith arnynt, y rhai ydynt flinderog a than farn Duw; na ddigalonnant: y mae hâd cyssur wedi ei hâu yn eu gofid: yn lle 'r Nos wylofus hon fe ddaw cyn'bo hir Foreu llawen, a "Haul Cyfiawnder a gyfyd i'r rhai sydd yn ofni enw'r Arglwydd â meddyginiaeth yn ei esgyll."¶ Canys y dymmer rasol hon sydd waith pennodol Yspryd Duw. Efe sy'n bwrw i lawr y meddyliau beilchion, y rhai sy'n ymddyrchafu'n erbyn

\*1 Ped. v. 6. †Datgudd. iii. 17. ‡1 Ioan, i. 7. ¶Mal. iv. 2.



Duw, ac yn cuddio oddiwrth y pechadur ei dlodi a'i drueni. A'r Yspryd Sanctaidd hwn, trwy weinidogaeth yr Efyngyl, sy'n symmud ynaith y sylfaeni twyllodrus o obaith, ym mha rai yr oedd y pechadur gynt yn ymddiried; ac yn peri iddo lefain allan, gan ddywedyd: "Beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?"||

Fel y darfu i Ioan Fedyddiwr barottoi'r ffordd erbyn ymddangosiad cyhoeddus Crist trwy gynhyrfu'r Byd ag athrawiaeth edifeiriwch; yn yr un modd y mae'r Yspryd Glan yn parottoi'r galon i dderbyn yr un Prynwr gogoneddus, trwy'r cyfryw argyhoeddiadau poenus a gofidus ag sy'n gwneuthur yr Iachawdwr hwn yn angenrheidiol, ac yn ddymunol gan bob enaid ystyriol. Am hynny fe ddylai fod yn achos o lawenydd a diolchgarwch i bob rhyw ddyn, pan darawo Duw ei galon â theimlad o bechod; ac fe ellir ddywedyd, mewn gwirionedd, am y cyfryw ddolur, fel l dywedodd yr Iesu am Lazarus; "Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth, ond ergogoniant Duw."\*

Dyrchefwn ein pennau, gan hynny, nyni bechaduriaid edifeiriol! Edrychwn ymlaen ychydig, ac ni a gawn ddiwedd ar y

||Edr. Act. xvi. 30. \*Ioan, xi. 4.

dyffryn tywyll, trwy yr hwn yr ydym yn myned! Canys dalier sulw, ym mhellach, er ychwaneg o gyssur, fod galwad yr Efengyl yn cyfeirio'n bendant at bechaduriaid gwir edifeiriol. "Deuwch attaf fi," medd yr Iesu Bendigedig, "bawb ag y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch.†" Fel hyn y mae'n cyflawni ewyllys ei Dad nefol, fel y gwelwn yn ngeiriau'r Prophwyd: "Yspryd yr Arglwydd Dduw sydd arnaf; o herwydd yr Arglwydd a'm heneiniodd i efengylu i'r rhai llariaidd; efe a'm hanfonodd i rwymo'r rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhydd-did i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sy'n rhwym."¶ Nyni a welwn gan hynny mai'r Enaid gostyngedig, argyhoeddedig, yw ei ofal pennodol ef. Meddyg yw efe, "nid i'r rhai iach, ond i'r rhai cleifion;"‡ nid i'r rhai sy'n cyfiawnhâu eu hunain, ond i'r rhai sydd yn ymddarostwng ly rhai sy'n teimlo eu heisiau o hono ef, ac yn gwybod rhyw beth am werth yr iachawdwriaeth ryfeddol y mae efe yn ei chynnyg.

Cymmered, gan hynny, pob pechadur gwir edifeiriol a gostyngedig, ie, cymmered gyssur oddiwrth yr ystyriaethau hyn! Y

†Matth. xi. 28. ¶Is. lxi. 1. ‡Matth. ix. 12.

mae Duw yn gwybod gofidiau edifeiriol y galon. Wele, y mae efe yn sefyll, fel y taŵ trugarog yn y ddammeg; gan ledu ei freichiau i dderbyn pob mab a ddelo atto! Y mae'n cyfrif eu symmudiadau, ac yn rhoddi eu dagrau yn ei gostrel! Onid yw y cwbl oll yn dy lyfr di, O Arglwydd Dduw Hollwybodol?† Cyfaddefwn ein hunain, gan hynny, "yn euog o flaen Duw," ac awn yn ebrwydd at yr Arglwydd Iesu Grist! Derbyniwn ef yn ddiolchgar! Ufuddhâwn iddo megis Prophwyd, Offeiriad, a Brenhin ei Eglwys; ac yna y cawn weled, er ein cyssur presennol a'n llawenydd tragywyddol, ei fod ef yn alluog ac yn ewyllysgar "i wared, hyd yr eithaf, y rhai trwyddo ef sy yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy."‡ A dyweded pob un o honom, gyd â chalon wir edifeiriol a diolchgar. "Wrth Dduw yn unig y disgwyl fy enaid; o hono ef yn unig y daw fy iachawdwriaeth,"¶ trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen ac Amen.

† Edr. Salm lvi. 8. ‡ Heb. vii. 25. ¶ Salm lxii. i.



**PREGETH XXV.**

YNGHYLCH CWYMP AC EDIFEIRWCH S. PEDR.\*



**MATTHEW XXVI. 75.**

*Cofiodd Pedr air yr Iesu, yr hwn a ddywedasai wrtho—Cyn canu o'r ceiliog, ti a'm gwedi deirgwaith—Ac efe a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw-dost*

*Peter remembered the word of Jesus, which said unto him—Before the cock crow, thou shalt deny me thrice—And he went out, and wept bitterly.*



**U**N o'r pethau mwyaf rhyfeddol yn yr Efengyl yw hanes S. Pedr yn gwadu ein Harglwydd Iesu Grist. Canys ni a welwn yma y Disgybl pennaf, a'r mwyaf calonnog o'r Deuddeg Apostol, yn gwadu ei feistr; am yr hwn yr oedd efe wedi dywedyd: "O Arglwydd, at bwy yr awn ni? Gennyt ti y

\* Edr. Preg. XXI.

mae geiriau **Bywyd Tragywyddol**; ac yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod, mai tydi yw y **CRIST, Mab y Dyw Byw !\*** Etto, er hyn i gyd, nyni a'i clywn ef yn llefain allan, "Nid adwaen i y dyn!"—Yn gymmaint a bod pobl yn rhy aml yn cysgodi eu pechodau eu hunain dan feiau dynion duwiol, y mae'n wiw ac yn fuddiol i ni ystyried ymddygiad S. Pedr mewn cyffelybiaeth i gyflwr ac ymddygiad pechaduriaid yn yr oes bresennol, a pha addysg sydd i'w gael oddiwrth ei siampl.

I. Nid ydwyf yn bwriadu lleihau pechod S. Pedr, eithr dangos yn unig, na ddylem ni fod yn barod i wneuthur ei bechod ef yn esgus neu'n gochl i'n pechodau ein hunain; o herwydd fod ei gyflwr ef yn dra annhebyg i'n cyflwr ni.

1. Yn y lle cyntaf, gan hynny, yr oedd yr Apostol mewn dychryn anfeidrol, yr hwn a ddaeth arno o blegid yr annuwiolion,† ac yn disgwyl cael colli ei hoedl y munud hwnnw. Yr oedd efe yn aml wedi gweled yr Iesu yn ei ryddhâu ei hun o ddwylaw ei elynion, ac yn ddïau yr oedd efe yn edrych am yr un ymwardiad yn yr awr enbydus honno; "canys gyd â Duw

\*Ioan vi. 68, 69. †Edr. Salm cxix. 53.

nid oes dim yn amhosibl.”† Ond pan welodd efe ei Arglwydd yn nghanol llŷs yr archoffeiriad wedi ei amgylchu gan filwŷr a thorfeydd, “gyd â chleddyfau a ffyn,” ac mewn perygl o golli ei einioes, yna dychryn anfeidrol a syrthiodd arno; a phan ofynnodd y bobl o'i amgylch, a oedd efe yn perthyn i'r Iesu y Galilead, efe a ddywedodd, “Nid adwaen i y dyn!”

Ond ystyriwn, frodyr, a oes gennym ni gymmaint esgus â hyn am ein pechodau? Beth, a ydym ni mewn perygl o golli ein heinioes o achos ein Crefydd? Yn y prif oesoedd, yn wir, yr oedd llawer o flinderau a phrofedigaethau yn digwydd i'r Cristionogion ffyddlon, y rhai oeddynt ddigon i wneuthur i'r galon gadarnaf lewygu; a phe buasai i'r Merthyri cyntaf syrthio, buasai ganddynt hwy ryw esgus am eu gwendid. Eithr, i Dduw y byddo'r diolch mae'r amseroedd hynny wedi myned hebio. Nid ydym ni mewn enbydrwydd o ddioddef o achos yr Efengyl; ac etto yr ŷm ni yn aml yn gwadu ein Harglwydd, ie, pan fo pob peth yn llonydd ac yu esmwyth o'n hamgylch. Pa bryd bynnag yr ŷm yn pechu, yr ydym yn gwadu Crist;

† Luc i. 37.

a pheth sy'n waeth, nid ydym ni yn pechu trwy ofn a dychryn, ond er mwyn rhyw fantais neu ddedwyddwch bydol!

2. Eithr ni phechodd S. Pedr trwy ddychryn yn unig, ond trwy siommedigaeth befyd. Yr oedd efe yn meddwl fod ganddo ffydd ddiysgog, ond mae'n amlwg nad oedd ei galon wedi ei diddyfnu oddiwrth y byd. Nid oedd y disgyblion yn deall natur teyrnas y Messias cyn disgynniad yr Yspryd Glan. Yn lle gweled ei Arglwydd yn sefyll yn garcharwr o flaen gorseddfaingc Pilat, yr oedd yr Apostol ond odid yn disgwyl cael ei weled ef yn eistedd fel tywysog ar orseddfaingc frenhinoll! Ei obaith a'i ffydd oeddynt yn rhy wan i wneuthur iddo ystyried llawenydd yn y nef megis gwobr digonol am flinderau ar y ddaear. Oni bai'r fath siommedigaeth, mae'n debygol y buasai efe yn meistrolï ei ofn a'i arswyd.

Ac yma, drachefn, nid oes gan bechaduriaid y dydd hwn yr un esgus am eu hymddygiad. Yr ym ni yn "gobeithio yng Nghrist Iesu, a hwnnw wedi ei groeshoelïo." Nid oes lle i ddisgwyl y rhydd efe i neb ogoniant bydol. Pechod S. Pedr, gan hynny, oedd ysgafn, mewn cyffelybiaeth i bechodau dynion yn y dyddiau hyn, o her-

wydd nid all eu ffydd hwynt gael ei hysgogi gan gyfryw siommedigaethau.

3. S. Pedr hefyd a bechodd yn fyrbwyll, pan oedd efe mewn braw, mewn syndod, a gwylltineb; a phe cawsai efe amser i'w adgofio ei hun a'i gyflwr, ni buasai achos i ammau ei uniondeb a'i wrolder. Y cyhuddiad a'r rhuthr a wnaethpwyd yn ddisymmwth, fel nad oedd amser iddo i adfyfrio. Pwy a feiddiai ddywedyd y gallasai y cadarnaf, y doethaf, y goreu o ddynolryw sefyll yn union yn y fath amgylchiad? Eithr holwn ein hunain, a ydym ni yn pechu yn erbyn Crist o blegid y cyfryw achos. Ai o fraw neu syndod y mae pobl yn teimlo yn eu calonnau cyn lleied o wir Grefydd, ac yn goddef i'r Byd gymmeryd meddiant o honynt? Ai trwy fraw neu syndod y maent hwy yn twyllo ac yn goganu eu cydgreaduriaid? Beth, ai hyn hefyd yw'r achos sy'n peri iddynt faethu malais a chynfigen yn eu calonnau, yn peri iddynt ddyfod i'r Eglwys mor anaml, a phrin erioed i'r Cymmun Bendigedig, a gwneuthur Sabbath yr Arglwydd Dduw yn ddydd o ddifyrrwch, neu fasnach, neu seguryd?—Os nad ydym ni, frodyr, yn gwneuthur y cyfryw bethau trwy fraw, neu siommedigaeth, neu ddychryn; neu, yn hytrach, os



ym ni yn euog o honynt pan fôm yn ein hiawn bwyll, y mae rhagoriaeth anfeidrol rhwng pechod S. Pedr a'n pechodau ni, Pechod yr Apostol sy'n tarddu oddiwrth wendid natur; ond y mae'n rhaid i'r cyfryw bechodau darddu oddiwrth lygredigaeth calon.

4. Hyn sy'n dangos gwahaniaeth arall rhwng pechod yr Apostol a phechodau pobl eraill. Yr oedd calon S. Pedr yn gorwedd ar yr ochr deau, ei dueddiadau yn gywir, a'i serch tu ag at Grist a'i Grefydd yn wresog. Efe a bechodd yn wir, ond ar unwaith efe a olchodd ymaith ei bechod gyd â dagrau edifeirwch; canys efe "a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw-dost!" Ac felly efe a lanhâodd ei galon yng ngolwg Duw a'i Iachawdwr.—Ond y gwrthwyneb i hyn sy'n perthyn i'r amserau presennol. Calon Dyn sy wedi ei llygru, ac yno y mae'n rhaid iddo ddechreu gwneuthur diwygiad: "canys o'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, a'r pethau hynny a halogant ddyn."\* Felly hefyd y mae'r Apostol hwn ei hun yn cerydda Simon y swynwr, gan ddywedyd wrtho yn llym—"Nid yw dy galon di yn union ger bron Duw."† Dylem gan hynny wellhau

\*Ebr. Matth. xv. 18. 19. †Act. viii. 21.

‡ galon yn gyntaf. Da iawn os medrwn gadw ein geiriau a'n gweithredoedd o fewn terfynau Crefydd; ond ni ddichon neb wneuthur hynny heb lanhâu y galon. Yno y mae pob cynhyrriad drwg yn dechreu. Ofer yw glanhâu y ffrwd, cyn glanhau y ffynnon.

5. Cofiw'n, ym mhellach, nad oedd pechod S. Pedr ond mewn geiriau yn unig. Nyni a wyddom, yn wir, pwy a ddywedodd: "Wrth dy eiriau y'th gyfiawnheir, ac wrth dy eiriau y'th gondemnir.†" Etto yn gyffredin, ond nid ar bob rhyw achos, mae geiriau yn cynnwys llai o euogrwydd na gweithredoedd drwg. Er bod cabledd yn bechod ffiائد, mae twyll a lladrad yn waeth. Gwadu Crist gan yr Apostol mewn geiriau, pan oedd efe dan lywodraeth braw, siommedigaeth, a chythrudd, nid oedd ond pechod bychan mewn cyffelybiaeth i'r pechodau erchyll y mae llawer yn ein mysg ni yn eu gwneuthur beunydd. A ydyw'r dyn afreolus, y twyllwr, y meddwyn, y gorthrymmwr, y godinebwr, a'r rhagrithiwr yn meddwl ei fod ef yn cydnabod Crist megis lachawdwr, o blegid iddo broffesu ei hun yn Gristion? Meddwl ofer a thwyllodrus!

†Matth. xii. 37.

Mae'r cyfryw bechadur rhyfygus yn llefain yn uwch na'r Apostol, "Nid adwaen i y dyn!" Neu a yw'r cablwr, y celwyddog, neu halogwr y Sabbath yn disgwyl ei fod ef yn perthyn i deulu Crist? Disgwyliad enbydus! Canys bob tro y mae'n dywedyd celwydd, yn cablu, neu'n torri'r Sabbath, mae'n adrodd yn eglurach nag y darfu'r Apostol—"Nid adwaen i y dyn!"—Neu, ym mhellach, a ydyw'r cybydd, neu'r hwn sy'n siommi ei gymmydog, yn meithrin bwriadau maleisus yn ei erbyn, neu'n meddwl gwneuthur iddo ryw niweid dirgel; a ydyw'r cyfryw un, meddaf, yn tybied ei fod ef yn ddisgybl i'r Iesu Bendigedig? Nac ydyw, meddaf i chwi; canys ei feddyliau a'i weithredoedd sy'n llefain allan beunydd, mewn iaith uwch na iaith S. Pedr—"Beth yw Crist i mi? Nid adwaen i y dyn!" Y mae llaweroedd o ddynion hefyd, y rhai yn wir nid ydynt yn troseddu yn erbyn Crist gan fod yn euog o bechodau ysgeler, ac etto, o herwydd eu bod wedi eu tagu "gan ofalon, a golud, a melyswedd buchedd, nid ydynt yn dwyn ffrwyth i berffeithrwydd;" y rhai sy'n byw bob amser heb Dduw yn eu meddyliau, ac nid ydynt yn blino eu

hunain ond ychydig ynghylch negesau Crefydd; ni's gall y cyfryw bobl feddwl fod ganddynt hwy gariad tu ag at Dduw a'n Harglwydd Iesu Grist. Eu calonnau eu hunain sy, o leiaf mewn "llef ddistaw fain," yn sibrawd wrth bob un o honynt, "Nid adwaen i y dyn!" — "Nid adwaen i y dyu!"

6. Daliwn sulw, yn y lle diweddaf, ar *edifeirwch S. Pedr.* Cyn gynted ag y daeth i deimlo ac i ystyrio pa beth a wnaethai, efe a aeth yn dra edifeiriol o'r achos: un golwg oddiwrth ei feistr a'i gwnaeth ef yn wir edifarus; "a'r Arglwydd a drôdd, ac a edrychodd ar Pedr!" † Yn drwm drist ac yn llawn o gywilydd a galar, efe a aeth allan ac a wylodd yn chwerw-dost! Ac nid hyn yw'r cwbl; ond efe a ddygodd ffrwythau addas i edifeirwch. Efe a lynodd wrth yr Arglwydd, byth o hynny allan, gan bregethu'r Efengyl yn Judea a llawer o wledydd dieithr, a sefyll yn gadarn yn amddiffyn y gwirionedd, heb ofni erlidiau na dim gwrthwyneb, ond yn dioddef pob dirmyg a chreulondeb yn ewyllysgar ac yn llawen. Fel hyn efe a ddangosodd fod ei edifeirwch ef yn gywir ac yn ddiffuant.

O na wnaem ni ddilyn siampl S. Pedr yn

† Edr. Luc xxii. 61.

ei edifeirwch, fel yr ym yn ei ddilyu ef yn ei gwmp! Ond, ysywaeth, nid ydyw Pechod ac edifeirwch yn aml wedi eu cyssylltu y naill gyd â'r llall. Edifeirwch sy'n beth difrif. Tynnu allan o'r galon lygredig bob rhyw arfer a thueddiad drwg sydd megis tynnu llygad allan;|| ie, "blingo'r croen oddiam y corph, a'r cig oddiwrth yr esgyrn.§ Eithr mae'n rhaid i ni wneuthur hyn, os disgwyliwn gael maddeuant. Nid rhyw rith ysgafn o edifeirwch a wasau-aetha; nid pruddhâu ac ocheneidio a chyfaddef ein pechodau, a dychwelyd eilwaith i'n ffyrdd drygionus; ond cystudd dwys a pharhâus, gyd â gwellhâd moesau a diwygiad buchedd. Dyna newydd-deb buchedd, dyna'r modd y mae'r "dyn oddi mewn yn adnewyddu o ddydd i ddydd. Canys duwiol dristwch sydd yn gweithio edifeirwch er iachawdwriaeth."¶ S. Pedr a wadodd Grist unwaith; ond ni wadodd efe ef byth drachefn ar feddwl, gair, na gweithred.

II. Gwelwch bellach nad oes dim lle nac achos i chwi gymmeryd pechod yr Apostol, megis rhyw esgus neu gochl i'ch

Edr. Matth. xviii. 9. § Micah iii. 2. ¶ 2 Cor. vii. 10.  
iv. 16.

pechodau eich hunain. Eithr, cyn dibennu, pa beth a ddylem ni ei ddysgu oddiwrth y fath hanes rhyfeddol? “Pa bethau bynnag a ’sgrifennwyd o’r blaen, er addysg i ni yr ysgrifennwyd hwynt; fel, trwy amynedd, a diddanwch yr Ysgrythurau, y gall-em gael gobaith.”†

1. Dysgwn gan hynny, yngyntaf, oddiwrth yr ysgrythur hon, fod yn eithaf gofalus yn ein hymddygiad. “Perygl sy’n perigwylidwriaeth; a gwylidwriaeth sy’n perigofal. Pa faint o achos sy gennym ni i wylid a gofalu, pan fôm yn ystyried y peryglon sy yn ein hamgylchu o bob tu yn ein taith i’r nef? Ië, peryglon, y rhai a orchfygasant Seintiau! “Gwyliwch a gweddiwch,” medd ein Hlachawdwr, “fel nad eloch i brofedigaeth: yr yspryd yn ddiau sydd yn barod, eithr y cnawd sydd wan.” Pan syrth Apostol, beth sy gennym ni, wir bechaduriaid, i ddisgwyl?

2. Diau mai er llesâd i ni y ’sgrifennwyd hanes o feiau dynion sanctaidd; ac oddiwrth eu beiau hwynt ni a ddyled gymmeryd cyssur. Yr ydym yn darllain ynghylch eu pechodau, yn gystal ag ynghylch eu rhinweddau rhagorol. **Pettasem yn**

†Rhuf. xv. 4.

clywed sôn ond am eu rhinweddau yn unig, heb wybod dim am eu beiau, buasai yn wir ormod achos i anobeithio. Eithr pan welwn ni mai “dynion hefyd oeddynt hwythau, yn gorfod goddef fel ninnau,” § yr ydym yn canlyn eu siamplau hynod hwy gyd â mwy o gyssur a chalondid, “gan anghofio y pethau sy o’r tu cefn, ac ymestyn at y pethau o’r tu blaen; yr ydym ninnau fel hwythau yn cyrchu at y nôd, am gamp uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist Iesu.” || Ac felly ym mysg ein holl gystuddiau yr ym “yn canlyn eu hôl hwynt” gyd â gostyngyddrwydd ac amynedd.

3. Dysgwn hefyd oddiwrth gwmp S. Pedr ein bod ni oll mewn mawr eisiau o ras ac yspryd Duw bod amser. Os gweddiwn yn daer am yr Yspryd daionus hwnnw, ac os ufuddhâwn i’w hyfforddiadau sanctaidd, Duw a addawodd ar ei ran ef roddi i ni yr Yspryd Glan, i’n diddanu a’n cynnorthwyo; “yr hwn addewid efe, o’i ran ef, a’i eedw yn wir ddiogel, ac a’i cwblha. †” Eithr os ymddiriedwn ynom ein hunain, yr ym yn myned i gyfarfod y gelyn yn ddiarfog. Wele yma gyflwr S. Pedr. Efe a

§ Edr. Act. xiv. 15. || Philip. iii. 13. 14. † Gwein. Bedydd.

ynddiriedodd yn rhyfygus yn ei nerth ei hun. A Duw fel y dangosai iddo ei wendid, a gymmerodd ymaith ei ras a'i Ysryd oddiwrtho; ac efe a syrthiodd, "a'i gŵymp a fu fawr!"

4. Dedwydd gan hynny ydynt hwy, y rhai a wnant iawn ddefnydd o'r hanes hwn, a phob ysgrythur arall, ac o'r addysg buddiol sy'n tarddu oddiwrthynt! Ië, dedwydd yw y rhai sy'n gwrandaw ac yn darllain eu Bibl gyd â chalonnau duwiol a meddyliau gostyngedig, y rhai sy'n troi hyd yn oed beiau dynion da i'w llesâd ysprydol, "ac yn bendithio enw Duw o ran ei holl weision a ymadawsant â'r bywyd hwn yn ei ffydd ef, a'i ofn; gan attolygu iddo roddi iddynt ras, felly i ddilyn eu siamplau da hwy, fel gyd â hwynt y byddont hwythau gyfrannogion o'i deyrnas nefol. Caniatta hyn, O Dad, er cariad ar Iesu Grist, ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleuwr. Amen. Amen!





## PREGETH XXVI.

SEGURYD SYDD YN MYNED O FLAEN DINYSTR.



DIARHEBION VI. 6, 7, 8.

*Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth: nid oes ganddo neb i'w arwain, i'w lywodraethu, nac i'w feistrolï; ac er hynny y mae efe yn parottôï ei fwyd yr haf, ac yn casglu ei luniaeth y cynhauaf.*

*Go to the ant, thou sluggard; consider her ways, and be wise: which, having no guide, overseer, or ruler, provideth her meat in the summer, and gathereth her food in the harvest.*



**D**YN a grëwyd gyd â chynnysgaeddau gwell na bwystfilod y maes; ond ei feddwl ef ar ol y Cwypm a aeth mor llygredig a'i fod yn cael ei yrru am ddysgeidiaeth at y gwaelaf o'r creaduriaid: Ac am hynny y mae Yspryd Duw yn yr Ysgrythur yn peri iddo fyned a dysgu ei ddyledswydd oddi-

wrth siampl anifeiliaid y ddaear ac ehediaid y nefoedd. Gwrandewch ar Isaiah, yn enw Duw ei hun, yn ceryddu yr Israeliaid am eu hanniolchgarwch: “Yr ych a edwyn ei feddiannydd, a’r asyn breseb ei berchennog: ond Israel nid edwyn; fy mhob ni ddeall.†”—A Jeremiah hefyd yn edliw iddynt eu hynfyd a’u digywilydd anedifeirwch: Ië, y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymmhorau; y durtur hefyd, a’r aran, a’r wennol, a gadwant amser eu dyfodiad; eithr fy mhobl i ni wyddant farn yr Arglwydd.\* Yn yr un modd y mae’n Hiachawdwr yn gorchymmyn i ni beidio â bod yn rhy ofalus am bethau y byd hwn, gan ddywedyd: “ystyriwch y brain: canys nid ydynt yn hau, nac yn medi; i’r rhai nid oes gell, nac ysgubor; ac y mae Duw yn eu porthi hwynt: o ba faint mwy yr ydych chiwi yn well na’r adar!”† Ac yma, yn y testun, y mae brenhin Israel yn ein danfon ni at greadur dirmygus i ddysgu bod yn ddiwyd ac yn ddarbodus. “Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth: nid oes ganddo neb i’w arwain, i’w lywodraethu, nac i’w feistroli; ac er hynny y mae efe yn parottôï ei fwyd

†Is. i. 3. \*Jer. viii. 7. †Luc xii. 24.

yr haf, ac yn casglu ei luniaeth y cynharaf."\*

Ystyriwn, yn gyntaf, ymddygiad y diogyn; yn ail, y cyngor neu'r rhybudd a roddir yma iddo; ac, yn ddiweddaf, y llês a'r defnydd a ddylem ni ei wneuthur o'r cyfan.

I. Nyni a wyddom ymddygiad cyffredin y gwr diog; a pha beth sydd yn debyg i ddigwydd i bob seguryd. Os byddwn ddiog yn ein gorchwylion byd ol, "daw tlodi arnom fel ymdeithydd trallodus; ac angen, fel gwr arfog." Ond y mae syrthni mewn pethau crefyddol hefyd; canys y mae geiriau'r testun yn cyrraedd at eu cyflwr hwythau, y rhai sy'n ymdrafferthu gyd â gofalon, a golud, a melyswedd buchedd, eithr yn dra esgeulus ynghylch yr un peth sydd angenrheidiol.† Y crefftwr cefarwydd, y llafurwr diwyd, yr ysgolhaig dyfalaf, y llywodraethwr gofidus, ydynt bob un o honynt yn ddiogyn, mewn ystyr ysprydol, os nad ydynt fywiog yng nghariad a gwasanaeth Duw; ac oni fydd mwynhâd ei ewyllys da ef, a mawrygiad ei ogoniant, eu hamcan pennaf yn eu holl weithred.

\* Edr. Y Trydydd Llyfr, Preg. XVI. XXVI. † Luc. viii. 14. x. 42.

oedd. Nid ydyw pob un o honom yma ond megis ymdeithydd mewn gwlad ddiëithr. Ein Creawdwr hollalluog a'n lluniodd ni i ddibenion uwch, a diddanwch gwell, nag sydd i'w gael yn y bywyd hwn: ac am hynny, os bydd holl orchwyl a gobaith dyn yn terfynu yn y byd presennol, nid ydyw efe, mewn gwirionedd, yn ngolwg Duw, ond diogyn anfuddiol. Canys y mae'r hwn sy'n llafurio yn unig am y bwyd a dderfydd, † yn camgymmeryd ac yn gwrthwynebu amcan ei greëdigaeth, cymmaint â hwnnw sydd yn gorwedd ar wely seguryd, neu'n ymdrybaeddu yn holl rodres a gorwagedd y byd hwn. Ië, y rhai a ddewisasant y rhan dda, gan geisio teyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, ydynt yn fynych yn cael eu galw yn segurlyd am iddynt adael heibio neu fod yn ddiotal ynghylch gorchymmynion eglur y Goruchaf. Canys pa le, ysywaeth, y mae'r dyn, yr hwn sy barod i gyflawni cyngor y gwrdoeth, yn enwedig yn negesau Crefydd—sef, “Beth bynnag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni?” ‡ Pa le y mae'r dyn, yr hwn sydd yn *ymdrechu* am fyned i mewn trwy'r porth cyfyng, ac yn

† Edr. Ioan vi. 27. ‡ Preg. ix. 10.

rhoddi cwbl ddiwydrwydd i wneuthur ei alwedigaeth a'i etholedigaeth yn siccr?"||  
Nid oes neb o'r galon yn gwneuthur daioni, nac oes un.§

II. Awn ym mlaen i ddal sulw, yn yr ail fan, ar rybudd neu gyngor Solomon. Mae efe yn wir yn ein danfon ni am ddysgeidiaeth at bryf bychan a gwael; ond wrth ddiwydrwydd ac ystryw pa un y mae'n rhaid i bob dyn ystyriol synnu. Mae'r morgrugyn yn rhoddi addysg, nid trwy ymadrodd ond gweithred; ac am hynny fe a ddywedir—"edrych ar ei *ffyrdd* ef, a bydd ddoeth"—ystyria yn fanwl ei waith ef, a'i amcan:\* nid ydyw efe yn llafurio mor gyw-

|| Edr. Luc xiii. 24. 2 Pedr i. 10. § Rhuf. iii. 12.

---

\* Ants cohabit in numerous parties, and maintain a sort of republic, not unlike that of the Bees. Their nests are in the form of an oblong square, and contains paths which lead to different magazines. Their method of constructing these habitations is truly wonderful. Some of the Ants are employed in making the ground firm, by mixing it with a kind of glue, to prevent its crumbling, and falling upon them: others may be seen gathering several twigs, which they use for rafters, by placing them over the paths to support the covering: they lay others across, and upon these, rushes, weeds, and dried grass, which they form into a double declivity, and thus conduct the water from their magazine.---For provisions,

raint i beri i ddyn ryfeddu, nac ychwaith i helaethu ei wybodaeth, ond yn hytrach i'w wneuthur ef yn well ac yn ddoethach. Y doethineb yr ŷm yn ei ddysgu oddiwrth y morgrugyn yw'r doethineb i fyw yn gymmwys ac yn drefnus; y doethineb i ymddwyn yn gyfaddas i'n cyflwr rhagorol yn y byd hwn, ac i'n gobaith gorfoleddus yn y byd a ddaw.—Y mae amryw athrawiaethau neillduol i'w tynnu allan oddiwrth ymddygiad y morgrugyn, y rhai a allant fod yn fuddiol i bob un o honom.

1. Dysgwn, yn gyntaf, synhwyroldeb a rhagddarbod gweddol am yr amser i ddyfod. Mae'r morgrugyn yn casglu mwy nag sydd arno ei eisiau yn bresennol, ac yn yr haf a'r cynhauaf yn parottôi ei fwyd a'i luniaeth erbyn y gauaf sy'n nesáu. Fel hyn y mae efe yn ei arfogi ei hun rhag y tymmor afrywiog: a thra bo'r ceiliog rheidyn yr hwn oedd yn canu ac yn chwarau yn amser haf a chynhauaf, i.e, tra bo llawer

---

they secure every thing which to them is eatable: they lay up hoards of wheat and other corn; and for fear it should sprout from the moisture of their subterraneous cells, they gnaw off the end which would produce the blade. If one meets another which is loaded, it always gives way; or will help it, if it be overburdened.

creadur o uwch gradd ac o fwy corphol-  
aeth yn marw o newyn, mae'r morgrug yn  
byw ar ffrwythau eu diwydrwydd, ac yn  
medi gwobr eu gofal a'u darbodaeth. O  
na byddai'r cyfryw ddoethineb yn amlach  
ym mblith dynion! O na byddai i ddynion  
ymroi, tra bo amser gweithio yn parhâu, i  
"drysori iddynt eu hunain sail dda erbyn y  
dydd sydd ar ddyfod, fel y caffont afael ar  
y bywyd tragywyddol, cyn dyfod y dyddiau  
blia, a nesâu o'r blynyddoedd, yn y rhai  
y dywedant: Nid oes i ni ddim diddanwch  
ynddynt."† Pa mor druenus sydd raid i  
ddiwedd bywyd fod, pan fo y tymmhorau  
blaenorol wedi eu treulio mewn seguryd,  
diogi, neu ffolineb; pan fo'r corph yn  
gwanhâu dan dlodi a blinder yspryd; a'r  
meddwl heb wybodaeth, heb rinwedd, heb  
ffydd, heb dduwioldeb, yn ymlusgo mewn  
pabell wael, ac ym mron ymddattod mewn  
llwch a lludw!

2. Peth arall i'w ddysgu oddiwrth ym-  
ddygiad y morgrugyn yw ymegniad a dy-  
falwch. Nid ydyw efe yn peidio â llafurio  
tra parhâo y tymmor. Yr haf, pan fo'r  
tywydd boethaf, trwy'r borau, canol dydd,  
a'r hwyr, y mae'r creadur trafferthus hwn

†Edr. 1 Tim. vi. 19. Preg. xii. 1.

yn ddibaid mewn cynnwrf, naill ai ar léd yn chwilio am fwyd, neu gartref yn ei osod i fynu mewn cellau dirgel: ië, y mae dynion doeth yn dywedyd ei fod ef yn fynych yn gweithio wrth oleuni y lleuad. Dedwydd yw y dyn sy mor ddiwyd, mor gall, mor brysur i ymbarottoi erbyn tragywyddoldeb! Felly ni welwn ni byth bobl yn gormesu ar y dydd trwy syrthni a seguryd, nac yn troi'r dydd yn nos trwy gyfeddach a meddwod! Meddylw'n yn ddifrifol am y pethau hyn!

3. Dylem ddysgu hefyd oddiwrth ymddygiad y morgrugyn fod yn gall ac yn wybodus; nid yn unig i fod yn ddiwyd, ond i wneuthur a threfnu pob rhyw beth yn ei dymmor cyfaddas. Cyfle ydyw blodeuyn amser. Hynny y mae'r morgrugyn yn ei adnabod mewn modd rhyfeddol. "Nid yw'r morgrug bobl nerthol," medd y brenhin doeth mewn lle arall, "etto y maent yn darparu eu lluniaeth yr haf.||" Y maent yn llafurio, tra bo eu llafur hwy yn effeithiol. Pa mor annhebyg i'r dyn, yr hwn sydd yn afradloni ar wagedd amser trugarog ei ymweliad, hyd oni fydd y pethau a berthynent i'w heddwch yn guddiedig oddiwrth ei lygaid!\*

||Edr. Diar. xxx. 25. \*Luc. xix. 42 - 44.



4. Ystyriwn, ym mhellach, “nad oes gan y morgrugyn neb i’w arwain;” eithr y mae gennym ni, frodyr, amryw arweinydd.” Y mae yspryd mewn dyn; ac ysprydoliaeth yr Hollalluog sydd ya gwneuthur iddynt hwy ddeall.† Ein Creawdwr a roddodd i ni synwyr i ddosparthu drwg a da.‡” Efe a ddatguddiodd ei ewyllys ynghylch dynolryw, ac a “ddangosodd i ni beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd ein Dduw gennym.§” Efe a ddanfonodd ei Fab i’r byd i ddangos i ni lwybr bywyd, nid yn unig wrth ei athrawiaeth, ond wrth ei siampl hefyd. Y mae efe heblaw hyn i gyd yn cynnyg i ni ei Lan Yspryd i’n tywys ni i bob gwirionedd, i agor ein llygaid, i roddi llewyrch i’r rhai sydd yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angau, gan gymmeryd o eiddo Crist, a’i fynegi i ni.|| Ac efe a’n sicrhäodd ei fod ef bob amser yn barod i’n cynnorthwyo ni a’n harwain. “O bydd ar neb eisiau doethineb,” medd yr Apostol, “gofynned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod; a hi a roddir iddo ef.” Os yw neb gan hynny yn ddiogyn, neu yn esgeul-

†Edr. Job. xxxii. 8. ‡Heb. v. 14. §Mic. vi. 8. ||Luc i. 79. Ioan xvi. 13, 14. ¶Iago i. 5.

us yn ei waith; nid oes lle iddo fod yn anwybodus ynghylch ei ddyledswydd, nac heb arweinydd i ddangos iddo y ffordd.

5. Nid oes, drachefn, gan y morgrugyn "neb i'w lywodraethu:" ond y mae dyn yn wastadol yng ngolwg Llywodraethwr yr holl fyd. "Mae ei lygaid ef fel fflam dân.\* Ië, ym mhob lle y mae llygaid yr Arglwydd, yn canfod y drygionus a'r daionus."†—Heb-law hyn, Duw a osododd yn mynwes pob un o honom lywodraethwr a golygwr ffyddlon, yr hwn sydd yn gwasanaethu megis rhaglaw iddo ei hun; canys llêf Cydwybod ydyw llêf Duw.) Ac felly nid oes gennym arweinydd yn unig i fynegi i ni y ffordd y mae i ni fyned iddi, eithr golygwr gofalus hefyd, yr hwn sydd yn cyfrif ein holl gamrau;‡ ac am hynny os byddwn segur, neu os ciliwn o'r ffordd a orchymmynnodd yr Arglwydd i ni, diesgus yn ddiammau fyddwn. "O blegid os ein calon a'n condemnia, mwy yw Duw na'n calon; ac efe a wŷr bob peth."||

6. Ond unwaith etto— "Nid oes gan y morgrugyn neb i'w feistroli," nac i'w alw ef i gyfrif am ei ymddygiad; eithr bydd

\*Edr. Datg. i. 14 ii. 18. xix. 12. †Diar. xv. 3. ‡1 Sam. ix. 6. Job xxxi. 4. ||1 Ioan iii. 20.

raid i bob un o honom ni roddi cyfrif o'n gweithredoedd i Dduw Hollalluog: "o herwydd iddo osod diwrnod, yn yr hwn y barna efe y Byd mewn cyfiawnder trwy y gwr a ordeiniodd efe, gan roddi ffydd a siccrwydd i bawb, o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw. § Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist, fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynnag ai da ai drwg." ¶ Mae'r Ysgrythur yn dangos y diogyn bob amser megis un yn haeddu cospedigaeth. Nid ydyw'r gwas anfuddiol, yn nammeg y talentau,\* yn cael ei fwrw i'r tywyllwch eithaf am iddo afradloni neu gamarferu ei dalent, eithr yn hytrach am iddo "gloddio yn y ddaear a chuddio arian ei arglwydd." Hwn yw mewn gair y diogyn yn y testun; a'i farn ef oedd gyfiawn: canys i'r dynion hynny yn unig, y rhai, trwy barhâu yn gwneuthur da, a geisiant ogoniant, ac anrhydedd, ac anllygredigaeth, y rhydd yr Arglwydd fywyd tragywyddol, yn y dydd y barno Duw ddirgeloedd dynion yn ol yr Efengyl. †

§ Edr. Act, xvii. 31. ¶ 2 Cor. v. 10. \* Matth. xxv. 14--30. † Rhuf. ii. 7--16.

III. Ystyriwn, bellach, ym mha fodd y mae'r pethau hyn yn perthyn i ni a'n cyflwr yn neillduol.

1. Mae'r diogyn yn pechu yn erbyn ei natur ei hun a pherwyl yr Hollalluog. Ië, yr oedd gan ddyn mewn ystad o ddiniweidrwydd ryw orchwyl i'w wneuthur tra'r oedd yr anifeiliaid o îs gradd yn rhodio ar lëd heb fod yn atebol am eu hymddygiad. "Yr Arglwydd Dduw a blannodd ardd yn Eden o du'r dwyrain, ac a osododd yno y Dyn a luniasai efe, i'w llafurio ac i'w chadw hi."† Llwythau y caethwas mwyaf poenus ydynt ysgafn mewn cyffelybiaeth i'r baich y mae'r diogyn yn ei ddwyn o amgylch gyd â chorph llesg, a meddwl gwag anghyssurus. "Pob peth sydd yn llawn llafur." Y mae'r ddaear, trwy fendith y Goruchaf, yn dwyn yd a llysiau cymmws i'r rhai y llafurir hi ganddynt, ond i'r diog a'r segurlyd ni rydd hi ddim ond chwyn a mieri. Eithr fe a ddywaid rhyw un: "Fy enaid, y mae gennyt dda lawer wedi eu rhoi i gadw dros lawer o flynyddoedd; gorphwys, bwytta, yf, bydd lawen. O ynfyd, y nos hon y gofynnir dy enaid oddiwrthyt; ac eiddo pwy fydd y pethau a

†Edr. Gen. ii. 8. 15.

barottoaist ti, neu'th bynafiaid? Felly y mae'r hwn sydd yn trysori iddo ei hun, ac nid yw gyfoethog tu ag at Dduw. || Dos ymaith, O ddiogyn! Paham yr wyt ti yn diffrwytho'r tir? § "Canys pan oeddym gyd â chwi," medd S. Paul wrth y Thessalon-iaid, "hyn a orchymmynnasom i chwi: Os byddai neb ni fynnai weithio, na chai fwyt-ta chwaith." ¶

2. Y mae'r diogyn, mewn gair, yn pechu yn erbyn holl amcan yr Efengyl. Canys y mae gennym ni, Gristionogion, nid arweinydd yn unig i'n hyfforddi, a llywodraethwr i ddal golwg arnom, ac arglwydd i'n meistroli, ac i ba un yr ym ni oll yn atebol; ond y mae gennym hefyd Iachawdwr a Phrynwr mawr, yr hwn a dywalltodd ei werthfawr waed, nid i wneuthur gollyngdod oddiwrth ein dyledswydd, "ond i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da."\* Crist a yspeiliodd y tywysogaethau a'r awdurdodau, fel y byddo i ni, "gwedi ein rhyddhâu o law ein gelynion, ei wasanaethu ef yn ddiogfn, mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron ef, holl ddyddiau ein bywyd." † Darllen-

|| Edr. Luc xii. 19—21. § xiii. 7. ¶ 2Thess. iii. 10. \*Tit. ii. 14. † Luc i. 74, 75.

awn a gwrandawn iaith yr Ysgrythurau Sanctaidd gyd â gŵylder a pharchedig ofn. “Nid ydych yn eiddoch eich hunain,” meddant; “canys er gwerth y prynwyd chwi: gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph ac yn eich yspryd, y rhai sydd eiddo Duw. † Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn. § A hyn yma hefyd, gan roddi cwbl ddiwydrwydd, chwanegwch at eich ffydd rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth; ac at wybodaeth, gymmedrolder; ac at gymmedrolder, amynedd; ac at amynedd, dduwioldeb; ac at dduwioldeb, garedigrwydd brawdol; ac at garedigrwydd brawdol, gariad. Canys felly yn helaeth y trefnir i chwi fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist.” ||

Na fyddwch mwyach gan hynny “yn ddiog mewn diwydrwydd, eithr yn wresog yn yr yspryd, gan wasanaethu yr Arglwydd.” ¶ Amen.

† Edr. 1 Cor. vi. 19, 20. § Phil. ii. 12. || 2 Petr. i. 5—11. ¶ Rhuf. xii. 11.



## PREGETH XXVII.

A GARO CRIST, CARED EI ORCHYMMYNNION.



S. IOAN XIV. 15.

*Yr Iesu a ddywedodd wrth ei ddisgyblion:  
O cherwch fi, cedwch fy ngorchymynnion.*

*Jesus said unto his disciples: If ye love me,  
keep my commandments.*



**A**M orchymynnion yr Efengyl a'i chyfreithiau nid oes uurhyw amheuaeth. Y mae gan eu Hawdwr hwynt gyfiawn hawl i'n hufudd-dod perffaith. "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair. Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd."\* Felly ei eiddo ef ydym yn gwbl. Efe a'n galwodd i hanfod yr amser nad oeddym, ac efe sydd bob munud yn cynnal yr hanfod a roddes i ni; "o blegid ynddo ef yr

\*Lan i. 1—3.

y dym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod.”†

Heblaw y llywodraeth sydd ganddo o'r dechreuad arnom, y mae ganddo hawl arall arnom ni megis Cristionogion, yr hwn a ddylem ei addef bob amser gyd â mawr ddiolch a gostyngeddrwydd; sef, yr hawl a gafodd trwy waredigaeth a phrynedigaeth. Megis ei ddeiliaid naturiol, yr ydym yn rhwym i'w wasanaethu ef a'r holl alluoedd a roddes efe i ni; a'r rhwymedigaeth hon a gadarnheir drwy y drugaredd ryfeddol a ddangosodd efe i ni megis gwrthddrychau o Râs. “Nid ydym yn eiddom ein hunain; canys er gwerth y prynuwyd ni:” ac am hynny yr ydym yn rhwymedig, trwy ddiolchgarwch a chyfiawnder, “i ogoneddu Duw yn ein corph ac yn ein hyspryd, y rhai ydynt eiddo Duw.”§

Daliwn sulw, mewn ychydig eiriau, ar natur a phriodoldeb y gorchymmynnion a'r cyfreithiau hynny, i ba rai, “os arhoswn yng nghariad Crist,”|| y gofynnir ein hufudd-dod.

Y maent oll, yn y lle cyntaf, “yn sanctaidd, ac yn gyfiawn, ac yn dda.”\* Nid ellir na'u galw yn ol, na'u lleihâu.

† Act. xvii. 28. §1 Cor. vi. 19. 20. || Ioan. xv. 10.

\* Rhuf. vii. 12.



Cyfreithiau dynion sy'n perthyn i ryw beth neillduol; y maent am amser, yn newidiol, ac yn wastad yn gyfrannog o amherffeithrwydd y rhai sy'n eu llunio hwynt. Diben y rhai goreu o honynt yw attal drygau tymmhorol a deimlir yn bresennol, neu a ofnir eu bod yn dyfod. Nid ydynt yn cyffwrdd fawr ag ymddygiad moesawl. Y maent yn gwahardd ac yn cyhoeddi dial yn erbyn lledratta, yspeilio, llâdd, a'r cyffelyb; ond nid allant attal calon-galedwch, cybyddra, a chynfigen. Maent yn dangos i ni ym mha bethau y mae anghyfiawnder neu greulondeb yn myned yn ormod "ac anrhaith ei oddef;" ond ym mha le y maent yn dywedyd, "Car dy gymmydog fel ti dy hun," neu, "Pa bethau bynnag oll a ewyllsioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy?"† Cyfreithiau'r Efengyl, yn y gwrthwyneb, neu yn hytrach yn anfeidrol pellach, ydynt yn cyrraedd at y Galon yn gystal ag at y Fuchedd; ac yn llefaru wrth bob dyn yn ddiragoriaeth, bob amser, ac ym mhob cwflwr. Y mae eu lleferydd mor eglur, fel nad eill neb gangymmeryd eu hystyr. "Nid oes iaith nac ymadrodd, lle ni chlybüwyd

† Edr. Matth. vii. 12. xxii. 39.

eu lleferydd hwynt.” † Ni wyrant i ganlyn anwydau dynion, ni heneiddiant, ac ni newidiant byth; ond y maent, fel eu hawdwr, “yr un ddoe, a heddyw, ac yn dragywydd.” ‖ Ac, am hynny, pan adroddir geiriau'r Ysgrythur, rhaid i chwi ystyried eu bod yn llefaru wrthych chwi eich hunain yn neillduol, ac nad ydynt yn eich rhwymo ddim llai; na'r rhai y llefarwyd hwynt wrthynt ar y cyntaf.

Un peth etto sydd i ddal sulw arno o blegid y cyfreithiau hyn; sef, mai ei gyfreithiau a'i orchymmynnion Ef ydynt, “yr **HWN** a'n carodd ni, ac a'i rhoddodd ei hun drosom ni yn offrwm ac yn aberth i **Dduw**.” § Ac, am hynny, ni a allwn fod yn siccr eu bod yn addfwyn yn gystal ag yn gyfiawn; i.e, wedi eu cymmhwysu gyd â pherffaith ddoethineb i chwanegu ein daioni pennaf. Darfu i Grist ei hun fawrygu'r cyfreithiau hyn, a'u gwneuthur yn anrhydeddus; nid yn unig trwy ufuddhâu iddynt ym mhob achos, ond hefyd trwy wneuthur iawn am eu troseddu hwynt, a dwyn yn ei Bersou Gogoneddus ei hun y gospedigaeth oedd ddyledus i'r Creadur **Euog**.

Yr ystyriaeth hon a ddengys yr ufudd-

† Edr. Sal. xix. 3. ‖ Heb. xiii. 8. § Ephes. v. 2.

dod a ofynnir gennym mewn modd tra hyfryd. Nid yw fel caethiwed Gweithwyr, ond fel gwasanaeth Plant. Crist a brynnodd yr etifeddiaeth ryfeddol hon: ac i bawb a gredant ynddo ef, ac a gadwant ei orchymynion, Bywyd Tragywyddol yw rhad rôdd Duw trwy haeddiant ei werthfawroccaf waed. Felly ni ofynnir dim ganddynion, ië, dynion pechadurus, ond sy'n tueddu i buro a phierffeithio eu natur, trwy gynnyddu mewn cyffelybrwydd i Dad eu hysprydoedd yn y cyflwr hwn o brofiad, fel y cafont ei gyflawn fwynhâu ef yn dragywydd, pan ddattodo Angau ein pabell ddaearol, a bwrw ymaith weddillion yr Hen Adda, a'n rhyddhâu yn gwbl oddiwrth gorph Pechod.

Ystyriwn yn awr y gorchymynnion neillduol y gofynnir ein hufudd-dod iddynt yn Efengyl Crist ein Harglwydd.

“Ymddangosodd gras Duw,” medd S. Paul, “yr hon sydd yn dwyn iachawdwr-iaeth i BOB DYN; gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon.”\*—Eithr pa beth a ddeallir wrth “annuwioldeb a chwantau

\*Edr. Tit. ii. 11. 12.

bydol?" A ydyw'r ymadrodd hwn yn cyrraedd ddim pellach na'r gweithredoedd mwyaf cywilyddus o anfoesoldeb a chwantaau enawdol? Ac a ddeallir dim ychwaneg wrth ei gwadu hwynt nag ymgadw'n gyffredinol oddi wrthynt? Nage, nid dyna'r ystyr; canys meddwl yr Apostol yw ymwrthod â hwynt yn hollawl, ym mhob lle ac ar bob achos, a'u llwyr gasau hwynt, a'u ffeiddio.—Drachefn, beth a ddeallir wrth "fyw yn sobr ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon?" A ydyw *sobrwydd* yn meddwl dim ychwaneg na'r cymmedroldeb hwnnw sydd wrthwnebol i lythineb a meddwdod?—A ellir galw dyn yn *gyfiawn* yn unig o blegid nad ellir dywedyd ei fod yn euog o fawr dwyll, anghyfiawnder, a thrais, er iddo ond odid yn ei fasnach cyffredin arferu ychydig ddi-chell, a chymmeryd mantais o wendid neu anwybodaeth ei gyd-greaduriaid? Neu, pe byddai'n gwbl onest yn ei orchwylion, onid ydyw Cyfiawnder yr Efengyl yn gorchymyn iddo borthi'r Newynog, dilladu'r Noeth, a chymmorth yr Anghenus yn ol ei allu?—Ac a ellir cyfrif pob dyn yn *dduwiol*, yr hwn nid ydyw yn gyhoeddus yn cabla enw Duw, neu yn gwatwor ei gyfreithiau, ei orchymynion, a'i ordinhadau?

Nag ellir ddim. Ond gwir arwyddocâd Sobrwydd, Cyfiawnder, a Duwioldeb, a siccerhëir y tu hwnt i bob ammheuaeth trwy ddeddfau Crist; sef, yr ordinhadau eglur ag sydd yn perthyn i ddyledswyddau neill-duol.

1. Megis, yn gyntaf, mewn perthynas i Sobrwydd; y mae ein Harglwydd yn gorchymyn yn bendant i ni "ein gwadu ein hunain, a meddiannu ein heneidiau mewn amynedd, ac edrych arnom ein hunain rhag i'n calonnau un amser drymhâu trwy lythineb, a meddwdod, a gofalon y bywyd hwn."† Gofynnir i ni, "megis eiddo Crist, groeshoelio 'r cnawd, a'i wÿniau, a'i chwantau;"‡ i.e, a thynnu ymaith oddi wrthym bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chabl-edd, gyd â phob drygioni; a bod yn gymwynasgar i'n gilydd, yn dosturiol, yn maddeu i'n gilydd, megis y maddeuodd Duw, er mwyn Crist, i ninnau."|| Fe'n cynghorir "na byddo i neb uchel synnied yn amgen nag y dylid synnied; eithr synnied i sobrwydd, fel y rhannodd Duw i bob un fesur Ffydd:§ na wneler dim trwy gynnen neu wag ogoniant, eithr mewn gostyng-eidd-

†Edr. Luc. ix. 23. xxi. 19, 34. ‡Gal. v. 24. ||Ephes. iv. 31. 32. §Rhuf. xii. 3.

rwydd, gan dybied ein gilydd yn well na ni ein hunain. Ië, bydded ynom y meddwl yr hwn oedd yng Nghrist Iesu.”\* - Y mae sobrwydd, gan hynny, yn ol ystyr yr Efengyl, yn cynnwysu pob peth sy'n perthyn i iawn lywodraethu y Dyn oddi fewn ac oddi allan.

2. Mewn perthynas i Gyfiawnder, fe ddangosir i ni yn eglur, nad ydyw yn unig yn ein hattal rhag y gweithredoedd oddi allan o anghyfiawnder, trais, a chreulondeb; ond yr ydym wrth orchymmynion Crist yn rhwymedig i dalu i bawb yr hyn sydd gyfiawn a dyledus, a gwneuthur i bob dyn, fel yr ewyllysiem gyd â rheswm i eraill wneuthur i ninnau.† Y mae'n perthyn i Gyfiawnder Efengylaidd “ddiddanu y gwan eu meddwl, cynnal y gweiniaid, a bod yn ymarhöus wrth bawb;”‡ canys fel hyn y mae'n ysgrifenedig: “Dygwch feich iau eich gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Crist.”§ Gorchymmynir i ni “fod yn llawen gyd â'r rhai sydd lawen, ac wylo gyd â'r rhai sy n wylo;¶ a thra fyddom yn cael amser cyfaddas, gwneuthur da i bawb, ond yn enwedig i'r rhai sy o deulu'r Ffydd.”¶¶

\* Edr. Phil. ii. 3—5. † Matth vii. 12. ‡ 1 Thess. v. 14.

§ Gal. vi. 2. ¶ Rhuf. xii. 15. ¶¶ Edr. Gal. vi. 10.

Ië, medd yr Apostol Pedr: "Pob un, megis y derbyniodd rôdd, cyfrennwch â'ch gilydd, fel daionus oruchwylwÿr amryw ras Duw;"\* a S. Iago hefyd: "Y neb a fedr wneuthur daioni, ac nid yw yn ei wneuthur, pechod ydyw iddo."† Canys "oni wÿr yr Hwn sydd yn dysgu gwybodaeth i ddyn, ac oni thâl Efe i bob un yn ol ei weithred?‡

3. A thrachefn mewn perthynas i Dduw-ioldeb; y mae'n hawdd i'r sawl a ddarllenno'r Testament Newydd wybod ar ba beth y mae'r rhinwedd hon yn sefyll. Cariad i Dduw yn yr enaid adnewyddedig, yn tarddu oddiwrth wir ffydd yng Nghrist, yw gwreiddyn neu egwyddor bywiol Dduw-ioldeb. Yr ydym yn rhwymedig, megis creaduriaid rhesymmol, i garu yr Arglwydd ein Duw â'n holl galon, ac a'n holl enaid, ac ac a'n holl feddwl, ac a'n holl nerth: ac, ym mhellach, yr ydym yn rhwymedig, megis creaduriaid euog, i addef yn ostyngedig ein gwrthgiliad, a chyfiawnder y gyfraith sydd yn ein condemnio, ac i dderbyn yn ddiolchgar yr Arglwydd Iesu Grist megis yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a Dyn, a chadw'n ofalus yr holl ordinhadau hynny a osododd efe i

\*1 Pedr. iv. 10. †Iago. iv. 17. ‡Sal. xciv. 10. Diar. xxiv. 12.

ni, megis moddion i dderbyn cyfran o'i ras ef, i iachau ein nattur glwyfus, ac i'n cymhwyso i'w fwynhâu ef yn y nefoedd. Dyma rannau sylweddol Crefydd Cristion, y rhai sydd raid i ni eu hystyried megis dangosiad gwirioneddol ac angenrheidiol o Dduwioldeb, neu wir dymmer calon tu ag at Dad ein hysprydoedd, y Duw "yn yr hwn yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist."

Mae ein holl ddyledswyddau tu ag at ein cydgreaduriaid yn sefyll ar hyn megis eu sylfaen priodol; a chymmaint yn wir yw eu pwys arno, fel na wna na'n sobrwydd, na'n cyfiawnder, na'n haelioni, ddim llesâd i ni, oni bydd yn tarddu oddiwrth egwyddor bywiol o Dduwioldeb yn y galon. Hwyl allant wneuthur llesâd i eraill, a'n gwneuthur ninnau yn fwy cariadus yng ngolwg dynion; eithr, os ni sylfaenir hwynt ar gariad i Dduw, "a'i Grist ef;" † ni ddichon Efe eu derbyn yn gymmeradwy. Canys adgofwn, mai trwy wrthgiliad Dyn ar y cyntaf y daeth yr ymarfer o'r dyledswyddau hyn yn angenrheidiol. Pe buasai Dyn yn cadw ei gyflwr cyntaf o ddiniweidrwydd,

† Edr. Datg. xi. 15.



ni buasai lle i arferu cyfiawnder a thrugar-  
edd yn y modd y mae ein cyflwr clwyfus  
yr awrhon yn gofyn. Buasai dynion fyw  
ynghyd yn un teulu mawr heb ymryson  
na chynfigen, eithr pob un yn llawenychu  
yn nedwyddwch ei frawd. Ni buasai na  
thwyll nac anghyfiawnder, ond pob un o  
drigolion y ddaear yn meddiannu pob peth  
a allai ei galon ei chwennych!

Duwioldeb yu wir, neu gadw gorchym-  
mynion Crist, "yw'r un peth sydd angen-  
rheidiol:"§ a phe byddai'r peth hwnnw yn  
cael y llywodraeth bennaf yn ein calonnau,  
fe fyddai Sobrwydd a Chyfiawnder yn siccr  
o'i ganlyn, ac a safent yn ddiysgog yn er-  
byn pob rhuthrau a hudoliaethau. Ac hyd  
oni osoder Duwioldeb megis y sylfaen,  
gwaith ofer a dilês a fydd ceisio dwyn i  
mewn, a sefydlu yr un o'r ddau eraill.

Ym mysg y nifer mawr o bobl sy'n eu  
galw eu hunain yn Gristionogion, y mae  
ymddygiad gormod, ysywaeth, cym mhell-  
ed oddiwrtth ddangos gwir yspryd a natur  
ein Crefydd Sanctaidd, mewn perthynas  
i'r athrawiaeth y mae ei Hawdwr yn ei  
ddatguddio, neu'r dyledswyddau y mae yn  
ei gofyn, â bod llawer yn debyg i'r Cret-

iaid y mae S. Paul yn sôn am danynt yn ei Epistol at Titus, "y rhai sy'n proffesu yr adwaenant Dduw; eithr ar weithredoedd ei wadu y maent, gan fod yn ffiaidd, ac yn anufudd, ac at bob gweithred dda yn anghymmeradwy.\*—Am hynny, fel y dywed Solomon, hwy a gânt fwytta ffrwyth eu ffordd eu hunain, a'u llenwi â'u cynghorion eu hunain."||

Cofiw'n gan hynny bob amser, mai hyn yw cariad Duw, a Christ Iesu ein Harglwydd, bod i ni gadw ei orchymynnion; a'i orchymynnion ef, ni a welwn, nid ydynt drymion.† Ac yn ddiweddaf, frodyr, pa pethau bynnag sydd wir, pa bethau bynnag sydd onest, pa bethau bynnag sydd gyfiawn, pa bethau bynnag sydd bur, pa bethau bynnag sydd hawddgar, pa bethau bynnag sydd ganmoladwy, od oes unrhinwedd, od oes dim clod, meddyliwch am y pethau hyn; † fel, ym mblith amrafael ac aml ddamweiniau'r byd, y gallo eich calonau gwbl aros yno. lle y mae gwir lawenydd i'w gael, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.¶ Amen.

\* Edr. Tit. i. 16. || Diar. i. 31. † 1 Ioan v. 3. † Phil. iv. 8. ¶ Col. iv Sul ar ol y Pasg.

**PREGETH XXVIII.**

YNGHYLCH YMGYFARFOD CRISTIONOGION  
YN Y BYD A DDAW.



COLOSSIAID I. 28.

*Crist, gobaith y gogoniant! Yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu, gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn ym mhob doethineb; fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yng Nghrist Iesu.*

*Christ, the hope of glory! Whom we preach, warning every man, and teaching every man in all wisdom; that we may present every man perfect in Christ Jesus.*



**Y** MAE'r geiriau hyn, yn eu hystyr a'u hamcan cyntaf, yn gosod ger ein bron awydd-fryd a thaerni S. Paul yn ei swydd a'i weinidogaeth. Arwain dynion at Grist, a'u hannog hwynt i ddal dechreuad eu hyder ynddo yn siccr hyd y diwedd,\* oedd

\* Edr. Heb. iii. 14.

llafur ei fywyd ef, ac egni ei holl galon. I'r perwyl hwn efe a ymdaithiodd o wlad i wlad, "gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn," idroi oddiwrth eulunod mudion at y Duw Byw, gan ddioddef pob sarhâd a chaledi, yn barod bob amser i roddi ei einioes i lawr, ac yn ei rhoddi hi o'r diwedd, fel y gorphennai ei yrfa trwy lawenydd, ac y cyflwynai y rhai a drodd efe oddiwrth gyfeiliorni eu ffyrdd yn berffaith yn Nghrist Iesu.\* O na allai pob gweinidog Crist yn y dyddiau hyn ddywedyd yr un peth, ac na fyddai pob gwrandawr ei air ef yn berffaith! Gwelwch yma, frodyr, amean ac ergyd priodol y geiriau. Ond nid dyna'r achos y dewisais i hwynt y pryd hwn. Mae'r rhan ddiweddaf o honynt yn cynnwys athrawiaeth o eithaf pwys, ac, yr wyf yn gobeithio, o eithaf cyssur hefyd, i bob un o honom ni. Y mae'r Apostol yn gweddio am iddo gael cennad i gyflwyno pob dyn yn berffaith yng Nghrist

---

\* Eutr. Act. xx. 24. 2 Tim. iv. 6--8. S. Paul a ddi-oddefodd serthyrddod yn Rhufain, yn amser Nero, yn yr Erid Cyffredinol a godwyd yn erbyn y Cristionogion. Torrwyd ei ben ef pan oedd ynghylch wyth mlwydd a thrugain o oed; ac, oddiwrth yr arf a'i lladdodd ef, y cymmerwyd yr arfer o dynnu ei lûn ef gyd â chleddyf yn ei law.

### 354 *Ynghylch Ymgysarfod Cristionogion*

Iesu, yn nydd y farn ofnadwy; sef, ffrwythau ei weinidogaeth, a dilynwyr ffyddlon ein Hiachawdwr. Hyn sy'n dangos fod i'r Saint ymgysarfod drachefn yn y byd a ddaw, ac adnabod eu gilydd: canys heb adnabod ei "blant anwyl yn yr Arglwydd," yn eu cyflwr gogoneddus ac anfarwol, ym mha fodd y gallai S. Paul ddeisyfu neu ddisgwyl eu cyflwyno hwynt yn y Dydd Diweddf? Y mae'r ysgrythur hon, gan hynny, yn haeddu ein manylaf ystyriaeth.

1. Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist a ddysg i ni, agos ym mhob tudalen o hono, y bydd raid i ni ddyfod i fywyd arall, ac y bydd raid i ni fod yn y bywyd hwnnw, drwy ryw fodd neu gilydd, yn ol y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ddedwydd neu yn druenus hyd bob tragywyddoldeb! Dyma'r addysg bwysfawr sydd i'w chael, o'r dechreu i'r diwedd, yn y Llyfr Rhagorol hwnnw! Eithr, ynghylch y cyfryw newidiad rhyfeddol, ac ar ba beth y mae gorchwyl a dedwyddyd yr ysprydion gwynfydedig yn y nef yn sefyll, nid yw ein gwybodaeth, i.e. dan yr Efengyl, ond yn gyfyug iawn. Y pethau hyn nid oes neb rhyw ddyn synhwyrol yn ceisio na'u cuddio na'u celu. Y mae S. Paul ei hun, i'r hwn y rhoddwyd

“gweledigaethau a datguddiedigaethau” neillduol, yn cyfaddef, mai yn y pethau hyn “gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych yn dywyll.”\* Eithr, pan ŷm yn cyfaddef nad ydym yn gwybod ond ychydig, ni a ddylem gofio bob amser, heb yr Efengyl na adnabuasem ddim. “Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni’s gall calon dyn ddeall, yr hyn a ddarparodd Duw i’r neb a ddisgwyl wrtho.’† Y mae ei feddwl ef yn y byd hwn yn rhy wan ac yn rhy diffygiol.

2. Yn y Bennod ragorol honno, yn ei Epistol Cyntaf at y Corinthiaid, y mae S. Paul yn gwneuthur i ryw holwr cymmyrreddus ymofyn: “Pa fodd y cyfodir y meirw, ac â pha ryw gorph y deuant?”‡ Oddiwrth ateb yr Apostol i’r cwestiwn hwn ni a allwn ddysgu’r athrawiaeth ganlyuol— “Bydd i ni gael, yn yr adgyfodiad, gyrph o ryw fath, ond yn rhagori yn anfeidrol ar ein cyrph presennol, ac etto mewn rhyw fodd yn deilliaw oddi wrthynt, fel ag y mae planhigyn oddiwrth ei hâd: ac megis y mae yn Nattur amryw sylweddau, “canys arall yw cnawd dynion, ac arall yw cnawd ani-

\* Edr. 1 Cor. xiii. 12. † Is. lxiv. 4, 1 Cor. ii. 9. ‡ 1 Cor.

feiliaid, a chnawd arall sydd i bysgod, ac arall i adar;" ac fel ag y mae hefyd wahan-iaeth hynod yn rhywogaeth "pethau dien-aid," yn eu hardderchowgrwydd, a'u disgleirdeb, "arall yw gogoniant yr haul, ac arall yw gogoniant y lloer, ac arall yw gogoniant y ser;" felly y mae hefyd, yn nhrysordai'r Hollalluog Dduw, "gyrph nefol a chyrph daearol." Y cyrph daearol sydd yn perthyn i ni yn y byd hwn, a'r cyrph nefol yn y byd a ddaw. "Ni ddichon cig a gwaed," medd yr Apostol ym mhellach, "etifeddu teyrnas Dduw." Nid ydynt yn gymmwys nac yn addas i'r cyflwr gogoneddus hwnnw. Etto cig a gwaed yw dynion byw; a'r meirw yn eu beddau nid ydynt ond eu rhelyw a'u gweddill: ac, am hynny, er mwyn gwneuthur y rhai oll sydd eiddo Crist yn gyfaddas, ac yn gymmwys, i fyned i mewn i'w deyrnas nefol, rhaid i ryw gyfnewidiad mawr gymmeryd lle yn ddisymwth. Y rhai cyfiawn, y rhai a adewir hyd ddyfodiad Crist, yn gystal â'r rhai a hunasant ynddo ef, "a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf." Cyrph fydd iddynt fyth, ond wedi eu newid mewn modd rhyfeddol yn eu dull a'u gwêdd, yn eu natur hefyd a'u sylwedd; o herwydd rhaid i'r llygradwy

hwn wisgo anlygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb."†

3. Hyn i gyd sydd gysson ddigon, neu'n hytrach yr un peth ydyw, â'r athrawiaeth y mae'r unrhyw Apostol yn ei gosod i lawr yn ei Epistol at y Philippiaid. Gwrandewch ar ei eiriau ef yno: "Crist a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwnefer ef yn un ffurf â'i gorph gogoneddus ef;" cyfnewidiad yn wir mor rhyfeddol, fel y crybwyllir am dano yn gyfiawn megis gweithred yr Hollalluog, "yn ol y nerthol weithrediad," medd yr Apostol, "trwy yr hwn y dichon efe, ië, ddarostwng pob peth iddo ei hun. O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw! Mor anchwiliadwy yw ei farnau ef, a'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt!"†

4. Yn gymmaint, gan hynny, ag y bydd cyfnewidiad mawr yn null a thymmer ein cyrph adferedig, a rhagoriaeth hynod ar ein cyrph gwael sy'n disgyn i'r llwch, mae'n gofyn rhyw le ac awdurdod neillduol o'r Ysgrythar i ddangos a phrofi, y bydd i ni ar ol y cyfnewidiad mawr hwnnw, ac yn y cyfryw ystad newydd, ymgyfarfod drachefu; neu, y bydd y rhai, a adna-

†Edr. Preg. XXIII. †Philip. iii. 21. Rhuf. xi. 32.



